# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 19/11/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Cyllid Addysg Uwch
Urgent Question: Higher Education Funding

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Cyflwyno'r Bil Tai (Cymru)
Statement: Introduction of the Housing (Wales) Bill

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddinas-ranbarthau
Statement: Update on City Regions

Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013
The Welsh Development Agency Act 1975 (Amendment) (Wales) Order 2013

Dadl ar Gyllideb Ddrafft 2014-15
Debate on the Draft Budget 2014-15

Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2012-13
Debate on the Children's Commissioner for Wales's Annual Report 2012-13

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Cyllid Cymru

### Finance Wales

13:30 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Gyllid Cymru? OAQ(4)1346(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on Finance Wales? OAQ(4)1346(FM)*

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Finance Wales's role is to provide finance to support and encourage small and medium-sized enterprise growth, and to create sustainable businesses in Wales, aligned with Welsh Government policies. Since its formation in 2001, Finance Wales has invested £268 million in Welsh businesses, leveraging in an additional £443 million, and creating 13,000 new jobs.

Swyddogaeth Cyllid Cymru yw darparu cyllid i gefnogi ac annog twf mentrau bach a chanolig eu maint, ac i greu busnesau cynaliadwy yng Nghymru, gan gyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru. Ers ei ffurfio yn 2001, mae Cyllid Cymru wedi buddsoddi £268 miliwn ym musnesau Cymru, gan ddenu £443 miliwn ychwanegol i mewn, a chreu 13,000 o swyddi newydd.

13:30 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. The welcome announcement by the UK Government about devolving business rates to Wales is a step in the right direction for our small and micro-sized businesses. However, another step is the ability for them to easily access finance. Of 743 loan investments made by Finance Wales since 2007, 73% have attracted borrowing rates of 10% or higher, when 50% of these could have actually been more along the lines of 5% interest rates. First Minister, there are now calls for more reform and scrutiny as regards Finance Wales, as well as for the establishment of a Welsh development bank. Will you support these calls?

Diolch i chi, Brif Weinidog. Mae'r cyhoeddiad i'w groesawu gan Lywodraeth y DU ynghylch datganoli ardrethi busnes i Gymru yn gam i'r cyfeiriad cywir i'n busnesau bach a'n microfusnesau. Fodd bynnag, mae'r gallu iddyn nhw gael gafael ar gyllid yn rhwydd yn gam arall. O'r 743 o fuddsoddiadau benthyg a wnaed gan Gyllid Cymru ers 2007, mae 73% wedi denu cyfraddau benthyca o 10% neu uwch, pryd y gallai 50% o'r rhain fod wedi bod yn debycach i 5% o gyfraddau llog mewn gwirionedd. Brif Weinidog, ceir galwadau nawr am fwy o ddiwygio a chraffu o ran Cyllid Cymru, yn ogystal â sefydlu banc datblygu yng Nghymru. A wnewch chi gefnogi'r galwadau hyn?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We very much welcome the proposal to fully devolve business rates to Wales. With regard to Finance Wales, the Minister for Economy, Science and Transport has commissioned a review into Finance Wales. Whatever the model is in the future, it is important that the body is able to fund itself. That is reflected, on occasion, by the need to ensure that interest rates are set at a level in order to ensure that the body is self-funding. Nevertheless, this matter was discussed at some length in the Assembly last week, and the Minister will now be looking to take proposals forward.

Rydym yn croesawu'n fawr y cynnig i ddatganoli ardrethi busnes i Gymru yn llawn. O ran Cyllid Cymru, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi comisiynu adolygiad o Gyllid Cymru. Beth bynnag fydd y model yn y dyfodol, mae'n bwysig bod y corff yn gallu ariannu ei hun. Adlewyrchir hynny, ar adegau, gan yr angen i sicrhau bod cyfraddau llog yn cael eu pennu ar lefel sy'n sicrhau bod y corff yn gallu hunan-ariannu. Serch hynny, trafodwyd y mater hwn yn helaeth yn y Cynulliad yr wythnos diwethaf, a bydd y Gweinidog nawr yn bwriadu symud ymlaen â'r cynigion.

13:32 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A ydych chi'n credu bod Cyllid Cymru wedi bod yn llwyddiannus yn ymateb i anghenion benthyca y sector busnesau bach a chanolig yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn?

Do you believe that Finance Wales has been successful in responding to the borrowing needs of the SME sector over the past few years?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ydw. Fel y soniais yn gynharach, mae 13,000 o swyddi newydd wedi cael eu creu. Rydw i'n credu bod honno'n record eithaf da.

Yes, I do. As I mentioned earlier, 13,000 new jobs have been created, and I believe that that is a very good record.

13:32 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In view of the fact that the UK Business Minister Vince Cable's proposal for a business bank does not seem to include any regional element, does the First Minister feel that there is a role for Finance Wales in order to deal with the Welsh share of the finance?

O ystyried y ffaith nad yw'n ymddangos bod cynnig Gweinidog Busnes y DU, Vince Cable, ar gyfer banc busnes yn cynnwys unrhyw elfen ranbarthol, a yw'r Prif Weinidog yn teimlo bod swyddogaeth i Gyllid Cymru er mwyn ymdrin â chyfran Cymru o'r cyllid?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, there is. I can say that officials are working with Finance Wales to explore how we might secure British business bank funds in the future.

Oes, mae yna. Gallaf ddweud bod swyddogion yn gweithio gyda Chyllid Cymru i archwilio sut y gallem sicrhau arian banc busnes Prydain yn y dyfodol.

## Banciau Bwyd

## Food Banks

13:33 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi banciau bwyd yng Nghymru? OAQ(4)1350(FM)*

*2. How does the Welsh Government support food banks in Wales? OAQ(4)1350(FM)*

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are supportive of the work that is undertaken by the food bank network, particularly in the light of the changes resulting from welfare reform. It is helpful when food banks engage with other services, such as community organisations or Communities First, to help individuals deal with the challenges that they are facing.

Rydym yn gefnogol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y rhwydwaith banciau bwyd, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau o ganlyniad i ddiwygio lles. Mae'n ddefnyddiol pan fo banciau bwyd yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill, fel sefydliadau cymunedol neu Gymunedau yn Gyntaf, i helpu unigolion i ymdrin â'r heriau y maent yn eu hwynebu.

13:33 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The issue of supermarket surplus food donations have been raised with me by local food banks. All three Llanelli food banks have reported a rise in numbers, particularly in light of welfare changes, and I am pleased to support a food bank collection again this year. I know that the Food Standards Agency supports food donation, provided that it is fit for human consumption and is free from contamination. The Welsh Government, through WRAP, is encouraging this behaviour. What further action can the Welsh Government take, through guidance, for example, to further encourage the amount of surplus food that is donated to food banks?

Mae'r mater o roddion bwyd dros ben archfarchnadoedd wedi cael ei godi gyda mi gan fanciau bwyd lleol. Mae pob un o dri banc bwyd Llanelli wedi adrodd am gynnydd mewn niferoedd, yn enwedig yng ngoleuni newidiadau lles, ac rwy'n falch o gefnogi casgliad banc bwyd eto eleni. Rwy'n gwybod bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cefnogi rhoi bwyd, cyn belled â'i fod yn addas i'w fwyta gan bobl a heb ei halogi. Mae Llywodraeth Cymru, drwy WRAP, yn annog yr ymddygiad hwn. Pa gamau pellach y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd, trwy ganllawiau, er enghraifft, i annog ymhellach faint o fwyd dros ben sy'n cael ei roi i fanciau bwyd?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can say that we fund WRAP to carry out a food waste programme. In turn, WRAP has set up a food redistribution industry working group. That has been tasked with developing a better understanding of the barriers to surplus food redistribution, and, of course, to finding solutions to overcome those barriers. It is working alongside FareShare, FoodCycle and retailers to undertake a trial to identify the extent of food surpluses arising at retail stores, its suitability for redistribution, and processes to enable surpluses to be redistributed to local communities where needed. Later this year, that group will publish a set of guiding principles for surplus food redistribution, along with implementation guidance.

Gallaf ddweud ein bod yn ariannu WRAP i redeg rhaglen gwastraff bwyd. Yn ei dro, mae WRAP wedi sefydlu gweithgor diwydiant ailddosbarthu bwyd. Mae hwnnw wedi cael y dasg o ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau i ailddosbarthu bwyd dros ben, ac, wrth gwrs, o ddod o hyd i atebion i oresgyn y rhwystrau hynny. Mae'n gweithio ochr yn ochr â FareShare, FoodCycle a manwerthwyr i gynnal prawf i nodi i ba raddau y ceir bwyd dros ben mewn siopau manwerthu, ei addasrwydd ar gyfer ailddosbarthu, a phrosesau i alluogi bwyd dros ben i gael ei ailddosbarthu i gymunedau lleol pan fo'i angen. Yn ddiweddarach eleni, bydd y grŵp hwnnw'n cyhoeddi cyfres o egwyddorion arweiniol ar gyfer ailddosbarthu bwyd dros ben, ynghyd â chanllawiau gweithredu.

13:35 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, will you join with me in paying tribute to those faith groups who run things like the food banks and have ensured similar provision over many generations?

Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i dalu teyrnged i'r grwpiau ffydd hynny sy'n rhedeg pethau fel y banciau bwyd ac sydd wedi sicrhau darpariaeth debyg dros nifer o genedlaethau?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Indeed so. I very much applaud the work of all those who are involved with food banks because, in the current economic climate, they provide a service that so many families rely on.

Gwnaf yn wir. Rwy'n cymeradwyo gwaith pawb sy'n ymwneud â banciau bwyd yn fawr iawn oherwydd, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, maen nhw'n darparu gwasanaeth y mae cymaint o deuluoedd yn dibynnu arno.

13:35 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with my friend Keith Davies. In view of the fact that too many supermarkets have stated that they throw away tonnes of food every week, can the Welsh Government not put pressure on the major supermarkets in Wales to donate more to food banks? This is perfectly good food, or perhaps you could persuade them, First Minister, to sell it even more cheaply than they do now.

Rwy'n cytuno gyda fy nghyfaill Keith Davies. Yng ngoleuni'r ffaith fod gormod o archfarchnadoedd wedi datgan eu bod yn taflu tunelli o fwyd bob wythnos, oni all Llywodraeth Cymru roi pwysau ar y prif archfarchnadoedd yng Nghymru i roi mwy i fanciau bwyd? Mae hwn yn fwyd nad oes unrhyw beth o'i le ag ef, neu efallai y gallech chi eu darbwyllo, Brif Weinidog, i'w werthu hyd yn oed yn rhatach nag y maen nhw'n ei wneud nawr.

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I refer the Member to the answer I gave in response to the supplementary question from the Member for Llanelli, where I outlined exactly what is being done via our support to WRAP to ensure that there is a better distribution of food surpluses in the future.

Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais mewn ymateb i'r cwestiwn atodol gan yr Aelod dros Lanelli, pryd yr amlinellais yn union yr hyn sy'n cael ei wneud trwy ein cefnogaeth i WRAP i sicrhau y bydd bwyd dros ben yn cael ei ddosbarthu'n well yn y dyfodol.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from party leaders and, first this afternoon, we have the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau ac, yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:36 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Llywydd. First Minister, figures released this weekend showed that Welsh town centres are still facing a tough time, with lowering numbers of shoppers and too many empty shops. Plaid Cymru has outlined its plans to change the business rate multiplier and to introduce additional business rate relief to give small and medium-sized enterprises a competitive edge. First Minister, what is your plan?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae ffigurau a gyhoeddwyd y penwythnos hwn yn dangos bod canol trefi Cymru yn dal i wynebu cyfnod anodd, gyda nifer y siopwyr yn gostwng a gormod o siopau gwag. Mae Plaid Cymru wedi amlinellu ei chynlluniau i newid y lluosydd ardrethi busnes ac i gyflwyno rhyddhad ardrethi busnes ychwanegol i roi mantais gystadleuol i fusnesau bach a chanolig eu maint. Brif Weinidog, beth yw eich cynllun chi?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Now that we know, as of yesterday, that business rates are to be fully devolved, that now gives us the opportunity to develop more flexible solutions for Welsh town centres.

Gan ein bod yn gwybod erbyn hyn, ers ddoe, y bydd ardrethi busnes yn cael eu datganoli'n llawn, mae hynny'n rhoi'r cyfle i ni ddatblygu atebion mwy hyblyg nawr ar gyfer canol trefi Cymru.

13:36 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, First Minister, and we look forward to the detail of your proposals. Interviewed on Radio Wales last night, the Chief Secretary to the Treasury said that the UK Government had decided to introduce a lock step on our potential income tax powers because of the functioning of the UK labour market. First Minister, this lock step will prevent Wales from being able to gain a competitive edge. What are you going to do about this constraining lock step?

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog, ac edrychwn ymlaen at fanylion eich cynigion. Yn ei gyfweliad ar Radio Wales neithiwr, dywedodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu cyflwyno cam clo ar ein pwerau treth incwm posibl oherwydd gweithrediad marchnad lafur y DU. Brif Weinidog, bydd y cam clo hwn yn atal Cymru rhag gallu ennill mantais gystadleuol. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud am y cam clo cyfyngol hwn?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Our position as a Government is that the Silk commission's proposals should have been implemented in full.

Ein safbwynt ni fel Llywodraeth yw y dylai cynigion comisiwn Silk fod wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn.

13:37 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you have previously stated, have you not, that you will not contemplate taking responsibility for income tax until we get fair funding? Now, Plaid Cymru supports fair funding—of course we do—as there is a lot that Wales could do with an additional £300 million to £400 million a year. I have asked you this before, First Minister, and so far, you have failed to answer this question, so I will give you another opportunity this afternoon to demonstrate your seriousness: will there be a commitment by your party to a needs-based funding formula in the 2015 election manifesto? If you are not able to make that commitment this afternoon, should we just take it that your influence on these, and indeed any other matters within your party, is very limited?

Brif Weinidog, rydych chi wedi dweud o'r blaen, onid ydych, na fyddwch yn ystyried cymryd cyfrifoldeb am dreth incwm tan i ni gael cyllid teg? Nawr, mae Plaid Cymru yn cefnogi cyllid teg—wrth gwrs ein bod ni—gan fod llawer y gallai Cymru ei wneud gyda £300 miliwn i £400 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol. Rwyf wedi gofyn hyn i chi o'r blaen, Brif Weinidog, a hyd yn hyn, rydych chi wedi methu ag ateb y cwestiwn hwn, felly hoffwn roi cyfle arall i chi'r prynhawn yma i ddangos eich bod o ddifrif: a fydd ymrwymiad gan eich plaid i fformiwla ariannu sy'n seiliedig ar anghenion ym maniffesto etholiad 2015? Os na allwch chi wneud yr ymrwymiad hwnnw y prynhawn yma, a ddylem ni gymryd bod eich dylanwad ar y materion hyn, ac yn wir unrhyw faterion eraill o fewn eich plaid, yn gyfyngedig iawn?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The first thing to remember is that my party is a GB-wide party. When it comes to fair funding, it is important for Wales, but also important for parts of England. So, when we decide policy, we actually consult with others outside of Wales. Our position as a Government is absolutely clear: we believe that Barnett reform is due and we believe that Wales should be entitled to the money that the Holtham commission has identified that we should be receiving. However, as far as the leader of Plaid Cymru is concerned, once again I have to reiterate that whenever there is a dispute between the UK Treasury and the Welsh Government, her MPs take the side of the UK Treasury. Jonathan Edwards, who is the MP for Carmarthen East and Dinefwr, when there was a dispute over the consequentials in terms of HS2, immediately leapt in with both feet—in his mouth probably—and said that it was the fault of the Welsh Government. [Interruption.]

Y peth cyntaf i'w gofio yw bod fy mhlaid i yn blaid ym Mhrydain Fawr gyfan. O ystyried ariannu teg, mae'n bwysig i Gymru, ond mae hefyd yn bwysig i rannau o Loegr. Felly, pan fyddwn yn penderfynu ar bolisi, rydym ni'n ymgynghori ag eraill y tu allan i Gymru mewn gwirionedd. Mae ein safbwynt fel Llywodraeth yn gwbl eglur: rydym ni'n credu ei bod yn bryd diwygio fformiwla Barnett ac rydym yn credu y dylai fod gan Gymru yr hawl i'r arian y mae comisiwn Holtham wedi ei nodi y dylem fod yn ei dderbyn. Fodd bynnag, cyn belled ag y mae arweinydd Plaid Cymru yn y cwestiwn, mae'n rhaid i mi ailadrodd unwaith eto bod ei ASau hi, pryd bynnag y bydd anghydfod rhwng Trysorlys y DU a Llywodraeth Cymru, yn cymryd ochr Trysorlys y DU. Pan roedd anghydfod dros y symiau canlyniadol o ran HS2, neidiodd Jonathan Edwards, sef yr AS dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, yn syth i mewn gyda'r ddwy droed —yn ei geg yn ôl pob tebyg—a dywedodd mai bai Llywodraeth Cymru oedd hyn. [Torri ar draws.]

The leader of Plaid Cymru can shout as much as she wants —

Gall arweinydd Plaid Cymru weiddi cymaint ag y mae hi eisiau—

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do not shout from a seated position.

Peidiwch â gweiddi oddi ar eich eistedd.

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I know she does not like the answer, but the reality is that it is important that her party steps up to the plate when it comes to standing up for Wales, and that her MPs move away from their London-centric tendency to support UK Treasury Ministers in any dispute against Welsh Ministers. It is about time her party started thinking more about Wales.

Rwy'n gwybod nad yw'n hoffi'r ateb, ond y gwir amdani yw ei bod yn bwysig bod ei phlaid yn sefyll dros Gymru pan fo gofyn am hynny, a bod ei ASau yn symud oddi wrth eu tueddiad i ganolbwyntio ar Lundain gan gefnogi Gweinidogion Trysorlys y DU mewn unrhyw anghydfod yn erbyn Gweinidogion Cymru. Mae'n hen bryd i'w phlaid hi ddechrau meddwl mwy am Gymru.

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, when did you realise that your policy on tuition fees was unsustainable?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, pryd wnaethoch chi sylweddoli bod eich polisi ar ffioedd dysgu yn anghynaladwy?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is not.

Nid yw'n anghynaliadwy.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thought that that might have been the answer coming from you, First Minister. Therefore, let us just recap, shall we? In 2010, the former Minister for education said

Roeddwn i'n meddwl mai dyna fyddai'r ateb gennych chi, Brif Weinidog. Felly, gadewch i ni ailadrodd, ie? Yn 2010, dywedodd y Gweinidog addysg blaenorol:

'The Assembly Government has a responsibility to Welsh-domiciled students, wherever they choose to study.'

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ym mha le bynnag y byddant yn dewis astudio.

Leighton Andrews then went on to tell the BBC that the figures, which take account of inflation, showed that the fees policy was 'sustainable'.

Yna aeth Leighton Andrews yn ei flaen i ddweud wrth y BBC bod y ffigurau, sy'n cymryd chwyddiant i ystyriaeth, yn dangos bod y polisi ffioedd yn 'gynaliadwy'.

13:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It still is.

Mae'n dal i fod.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The information that we have following a freedom of information request clearly shows that that policy was modelled up until 2021, and yet, today, we have the announcement of a review into that policy and whether it is viable to continue. Therefore, in its first full financial year, you are already questioning the viability of the policy. Was it not just a gimmick, and an election gimmick at that, in 2011?

Mae'r wybodaeth sydd gennym ni yn dilyn cais rhyddid gwybodaeth yn dangos yn eglur bod y polisi wedi ei fodelu hyd at 2021, ac eto, heddiw, mae gennym y cyhoeddiad o adolygiad i'r polisi hwnnw a pha un a yw'n hyfyw i barhau. Felly, yn ei flwyddyn ariannol lawn gyntaf, rydych chi eisoes yn cwestiynu hyfywedd y polisi. Onid yw'n wir mai dim ond gimig oedd hyn, a gimig etholiadol mewn gwirionedd, yn 2011?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Not in the slightest. I am not sure whether I can improve on the answer that was given behind me by my friend, the Member for the Rhondda. I can say very plainly that we, as a Government, made a commitment to implement this policy, and this policy will continue for the course of this Government.

Dim o gwbl. Nid wyf yn siŵr a allaf i wella ar yr ateb a roddwyd y tu ôl i mi gan fy nghyfaill, yr Aelod dros y Rhondda. Gallaf ddweud yn blaen iawn ein bod ni, fel Llywodraeth, wedi ymrwymo i weithredu'r polisi hwn, a bydd y polisi hwn yn parhau am gyfnod y Llywodraeth hon.

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You might well say that you cannot improve on the answer of Christmas past that sits on the backbenches, because every now and again we hear a rumbling—he obviously sits on the backbenches rather than around the Cabinet table. However, what we have to remember is that today, because of your policy, a plumber would not get the same level of support as a barrister, for example, because you choose to not support vocational education to the same level as you support higher education. You are quite happy to allow a significant proportion of the Welsh Government's HE budget to leach out of Wales and support universities in England. Is it not the case, First Minister, that instead of standing up for students, you are cherry-picking people in HE over FE, when you have announced £50 million-worth of cuts in further education? When it comes to tuition fees, you have about as much credibility as Nick Clegg. [Laughter.]

Gallwch yn wir ddweud na allwch wella ar ateb y Nadolig a fu sy'n eistedd ar y meinciau cefn, oherwydd bob nawr ac yn y man, rydym yn clywed rhyw sŵn—mae'n amlwg ei fod yn eistedd ar y meinciau cefn yn hytrach nag o amgylch bwrdd y Cabinet. Fodd bynnag, yr hyn y mae'n rhaid i ni ei gofio yw, oherwydd eich polisi, ni fyddai plymwr yn cael yr un lefel o gefnogaeth â bargyfreithiwr heddiw, er enghraifft, gan eich bod yn dewis peidio â chefnogi addysg alwedigaethol i'r un lefel ag yr ydych yn cefnogi addysg uwch . Rydych chi'n ddigon hapus i adael cyfran sylweddol o gyllideb Addysg Uwch Llywodraeth Cymru i gael ei sugno allan o Gymru a chefnogi prifysgolion yn Lloegr. Onid yw'n wir, Brif Weinidog, yn hytrach na sefyll dros fyfyrwyr, eich bod yn dewis pobl mewn Addysg Uwch dros y rhai mewn Addysg Bellach, pan eich bod wedi cyhoeddi gwerth £50 miliwn o doriadau mewn addysg bellach? Pan ddaw i ffioedd dysgu, mae gennych chi tua'r un faint o hygrededd â Nick Clegg. [Chwerthin.]

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will leave it to the leader of Liberal Democrats to answer that final part of the question, if I may. Let us examine the situation very carefully. His party wants to treble tuition fees for students. That is what it wishes to do. His party wants to make it more expensive to go to university. He uses the example of a barrister. That is precisely the wrong example to offer, because barristers' vocational education is not funded at all. Therefore, that is precisely the wrong example to give. The reality is that if you enter onto the bar vocational course, there is no funding available for it. It is an exceptionally expensive course to undertake, so that is probably the daftest example that I have heard in the Chamber and perhaps he should take it up with those who gave him that example.

Byddaf yn gadael rhan olaf y cwestiwn i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ei ateb, os caf. Gadewch i ni edrych ar y sefyllfa'n ofalus iawn. Mae ei blaid ef eisiau treblu ffioedd dysgu i fyfyrwyr. Dyna'r hyn y mae'n dymuno ei wneud. Mae ei blaid ef eisiau ei gwneud yn fwy costus i fynd i'r brifysgol. Mae'n defnyddio'r enghraifft o fargyfreithiwr. Dyna'n union yr enghraifft anghywir i'w chynnig, gan nad yw addysg alwedigaethol bargyfreithwyr yn cael ei ariannu o gwbl. Felly, dyna'n union yr enghraifft anghywir i'w rhoi. Y gwir yw os ydych chi'n ymuno â chwrs galwedigaethol y bar, nid oes cyllid ar gael ar ei gyfer. Mae'n gwrs eithriadol o ddrud i'w gyflawni, felly mae'n debyg mai dyna'r enghraifft wirionaf yr wyf wedi ei chlywed yn y Siambr ac efallai y dylai godi'r mater gyda'r rhai a roddodd yr enghraifft honno iddo.

He talks about FE. We have helped FE financially as best we can, given the cuts imposed by his Government. However, what about the education maintenance allowance? Where was he? Where were his protests when the education maintenance allowance was abolished by his party in London? We have kept it in Wales. The reality is that we are committed to students, both in HE and FE, when all his party wants to do is to make it more expensive for people to get qualifications.

Mae'n sôn am Addysg Bellach. Rydym ni wedi helpu addysg bellach yn ariannol hyd eithaf ein gallu, o ystyried y toriadau a orfodwyd gan ei Lywodraeth ef. Fodd bynnag, beth am y lwfans cynhaliaeth addysg? Ble'r oedd ef? Ble'r oedd ei brotestiadau pan ddiddymwyd y lwfans cynhaliaeth addysg gan ei blaid ef yn Llundain? Rydym ni wedi ei gadw yng Nghymru. Y gwir amdani yw ein bod yn ymrwymedig i fyfyrwyr, mewn Addysg Uwch ac mewn Addysg Bellach, pan mai'r cwbl y mae ei blaid ef eisiau ei wneud yw ei gwneud yn ddrutach i bobl i gyflawni cymwysterau.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am really looking forward to being able to hear the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Rwyf wir yn edrych ymlaen at allu clywed arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, today, the British Medical Association has said that the main reason there is massive pressure on accident and emergency departments in Wales is because of a 20% reduction in the number of beds. Do you agree with the British Medical Association?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, heddiw, mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi dweud mai'r prif reswm y mae pwysau enfawr ar adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru yw oherwydd gostyngiad o 20% yn nifer y gwelyau. A ydych chi'n cytuno â Chymdeithas Feddygol Prydain?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, I think that the pressures on A&E are more complex than that. We have seen, of course, the winter pressures. We have seen more admissions. Admissions have increased, I think I am right in saying, by 68% over the past 10 years. It is difficult to ensure, with that level of demand, that demand is met. Nevertheless, looking at the latest A&E figures, we are moving in the right direction.

Nac ydw, rwy'n credu fod y pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys yn fwy cymhleth na hynny. Rydym ni wedi gweld, wrth gwrs, pwysau'r gaeaf. Rydym ni wedi gweld mwy o dderbyniadau. Mae derbyniadau wedi cynyddu, rwy'n meddwl fy mod yn iawn yn dweud, o 68% dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n anodd sicrhau, gyda'r lefel honno o alw, bod galw'n cael ei fodloni. Serch hynny, o edrych ar ffigurau diweddaraf adrannau damweiniau ac achosion brys, rydym yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, two weeks ago in Prime Minister's questions, the Prime Minister launched a stinging attack on the Welsh NHS, and your spokesperson responded by saying that David Cameron was inaccurate. For once, I agree with your spokesperson. The Prime Minister said that A&E waiting times had not been met since 2009. He was inaccurate in saying that, because you have never met your A&E waiting times. Is it not time that you did admit that there are not enough beds in the Welsh NHS to cope with the demands that will be placed upon it this winter?

Brif Weinidog, bythefnos yn ôl yn ystod cwestiynau i Brif Weinidog y DU, ymosododd prif Weinidog y DU yn llym ar y GIG yng Nghymru, ac ymatebodd eich llefarydd drwy ddweud bod David Cameron yn anghywir. Am unwaith, rwy'n cytuno gyda'ch llefarydd chi. Dywedodd Prif Weinidog y DU nas bodlonwyd amseroedd aros adrannau damweiniau ac achosion brys ers 2009. Roedd yn anghywir wrth ddweud hynny, gan nad ydych chi erioed wedi bodloni eich amseroedd aros o ran adrannau damweiniau ac achosion brys. Onid yw'n bryd i chi gyfaddef nad oes digon o welyau yn y GIG yng Nghymru i ymdopi â'r gofynion a fydd arno y gaeaf hwn?

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, our winter pressures plan, we believe, is robust. Time will tell, of course, we understand that, but, certainly, we are in a good place to deal with winter pressures over the coming few months.

Na, mae ein cynllun pwysau'r gaeaf, yn ein barn ni, yn gadarn. Amser a ddengys, wrth gwrs, rydym ni'n deall hynny, ond, yn sicr, rydym ni mewn sefyllfa dda i ymdrin â phwysau'r gaeaf yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, one wonders what plans you are looking at. The most recent figures show that the number of people suffering from a delayed transfer of care in September this year is 10% up on the figure for September last year. Not only do we not have enough beds in the national health service, we do not have the right patients in the right beds. What is your Government going to do to ensure that hospital beds are available to patients who need them the most, and that those who do not need to be in them are discharged in a timely fashion back to the community?

Brif Weinidog, mae rhywun yn meddwl tybed pa gynlluniau ydych chi'n edrych arnynt. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod nifer y bobl a oedd yn dioddef oedi wrth drosglwyddo gofal ym mis Medi eleni, 10% yn uwch na'r ffigur ar gyfer mis Medi y llynedd. Nid yn unig nad oes gennym ddigon o welyau yn y gwasanaeth iechyd gwladol, nid yw'r cleifion cywir yn y gwelyau cywir gennym ychwaith. Beth mae eich Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i sicrhau bod gwelyau ysbyty ar gael i gleifion sydd eu hangen fwyaf, a bod y rhai nad oes angen iddynt fod ynddynt yn cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned yn brydlon?

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Over the last eight years, the number and length of delays have fallen considerably. Delay numbers have fallen by 62% and days delayed by 80% since their peak in 2003. There was an upward surge in August, it is true, which was partially corrected in September. I have to point out to the leader of the Liberal Democrats that her party's record on health is nothing to shout about—4,500 nurses sacked, £20 billion of cuts in the English NHS and the NHS chief responsible for A&E services in England saying that he would be unhappy if one of his relatives was admitted to hospital over the weekend, because of a shortage of consultants. We also know that there are financial problems in the English NHS. We know that the number of trusts missing the UK Government's four-hour waiting-time target for A&E over the first two quarters of this year has more than doubled. We accept the difficulties that occasionally arise in the Welsh NHS and we deal with them. The figures show that. It is a shame that her party and the Conservative Party cannot recognise the mess that they are making of the NHS elsewhere. The Prime Minister stands up in his question time and talks about the Welsh NHS—he has every freedom to do so—but it is absolutely right for us to point out that, with the Tories and the Lib Dems in charge of the NHS in Wales, we would see fewer nurses, fewer beds, less money, more bankrupt local health boards and a level of care that would continue to decline.

Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae nifer a hyd yr oedi wedi gostwng yn sylweddol. Mae nifer yr oediadau wedi gostwng o 62% a nifer y diwrnodau o oedi o 80% ers bod ar eu huchaf yn 2003. Bu cynnydd ym mis Awst, mae'n wir, a gafodd ei gywiro'n rhannol ym mis Medi. Mae'n rhaid i mi dynnu sylw arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol at y ffaith nad yw hanes ei phlaid hi ym maes iechyd yn unrhyw beth i frolio amdano—4, 500 o nyrsys wedi eu diswyddo, £20 biliwn o doriadau yn y GIG yn Lloegr a phennaeth y GIG sy'n gyfrifol am wasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Lloegr yn dweud y byddai'n anhapus pe byddai un o'i berthnasau yn cael ei dderbyn i'r ysbyty dros y penwythnos, oherwydd prinder ymgynghorwyr. Rydym hefyd yn gwybod bod problemau ariannol yn y GIG yn Lloegr. Rydym yn gwybod bod nifer yr ymddiriedolaethau na wnaethant gyrraedd targed amser aros pedair awr Llywodraeth y DU ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys yn ystod dau chwarter cyntaf eleni wedi mwy na dyblu. Rydym yn derbyn yr anawsterau sy'n codi yn y GIG yng Nghymru o bryd i'w gilydd ac rydym ni'n ymdrin â nhw. Mae'r ffigurau'n dangos hynny. Mae'n drueni na all ei phlaid hi a'r Blaid Geidwadol gydnabod y llanast maen nhw'n ei wneud o'r GIG mewn mannau eraill. Mae Prif Weinidog y DU yn sefyll yn ystod ei amser cwestiynau ac yn siarad am y GIG yng Nghymru—mae ganddo bob rhyddid i wneud hynny—ond mae'n gwbl iawn i ninnau nodi, gyda'r Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gyfrifol am y GIG yng Nghymru, y byddem yn gweld llai o nyrsys, llai o welyau, llai o arian, mwy o fyrddau iechyd lleol yn mynd yn fethdalwyr a lefel o ofal a fyddai'n parhau i ddirywio.

## Cystadleurwydd Economaidd

## Economic Competitiveness

13:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cystadleurwydd economaidd yng Nghymru? OAQ(4)1342(FM)*

*3. Will the First Minister detail what the Welsh Government is doing to improve economic competitiveness in Wales? OAQ(4)1342(FM)*

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

An example is making it easier for business to access finance. Looking to the future, we are developing an economic framework for investment that will capture our current actions and signal future direction for economic policy in Wales.

Un enghraifft yw ei gwneud yn haws i fusnesau gael gafael ar gyllid. Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn datblygu fframwaith economaidd ar gyfer buddsoddi a fydd yn nodi ein camau gweithredu presennol ac yn nodi cyfeiriad polisi economaidd yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.

13:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You may be aware that the UK competitiveness index released last week showed that Cardiff has fallen seven places since 2010 and that four of the bottom 10 least competitive UK local authorities are located in the south Wales Valleys. I am sure that you would agree that that is simply not good enough. You have previously blamed a lack of tools in the toolbox for Wales's economic woes. Now that the UK Government is giving you more fiscal tools—on borrowing and business rates—when are you going to get on with the job of turning the Welsh economy around? You do not have anywhere to hide now, do you?

Efallai y byddwch yn ymwybodol bod mynegai cystadleurwydd y DU a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn dangos bod Caerdydd wedi gostwng saith lle ers 2010 a bod pedwar o'r 10 awdurdod lleol lleiaf cystadleuol yn y DU wedi eu lleoli yng nghymoedd de Cymru. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno nad yw hynny'n ddigon da. Rydych chi wedi rhoi'r bai ar ddiffyg offer yn y blwch offer am broblemau economaidd Cymru yn y gorffennol. Gan fod Llywodraeth y DU yn rhoi mwy o offer cyllidol i chi erbyn hyn—ar fenthyca ac ardrethi busnes—pryd ydych chi'n mynd i fwrw ymlaen â'r gwaith o weddnewid economi Cymru? Nid oes gennych unrhyw le i guddio nawr, nac oes?

13:47

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We do not have the tools yet and we do not have a date by which those tools will be in place. Nevertheless, we welcome them. We have to remember that the level of unemployment has dropped, the level of employment has increased and the level of economic inactivity has also dropped. Exports are up 4.3% over the past quarter; if you look at foreign direct investment, the number of projects coming into Wales has doubled over the past year. We have seen GDP improve, we have seen gross domestic household income improve and we have seen substantial improvements over the course of the past 10 years. We believe that we are on course, but we cannot divorce ourselves from the economic policies being implemented across the UK, which, without doubt, hold us back.

Nid yw'r offer gennym eto ac nid oes gennym ddyddiad o ran pryd y bydd yr offer hynny ar waith. Serch hynny, rydym yn eu croesawu. Mae'n rhaid i ni gofio bod lefel diweithdra wedi gostwng, bod lefel cyflogaeth wedi cynyddu a bod lefel anweithgarwch economaidd hefyd wedi gostwng. Mae allforion wedi cynyddu 4.3% yn ystod y chwarter diwethaf; os edrychwch chi ar fuddsoddiad uniongyrchol o dramor, mae nifer y prosiectau sy'n dod i mewn i Gymru wedi dyblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym ni wedi gweld CMC yn gwella, rydym ni wedi gweld incwm gros cartrefi domestig yn gwella ac rydym ni wedi gweld gwelliannau sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Rydym ni'n credu ein bod ar y trywydd cywir, ond ni allwn wahanu ein hunain oddi wrth y polisïau economaidd sy'n cael eu gweithredu ledled y DU, sydd, heb amheuaeth, yn ein dal ni'n ôl.

13:48

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, over the weekend we heard some fantastic news from the Dubai Air Show that Airbus has secured over £30 billion of orders. This is incredibly important to the economy of north-east Wales. I know that the Member for Alyn and Deeside, Carl Sargeant, is particularly delighted at that—given that his football team took a hammering on Sunday, he has had some good news at least this weekend. The aerospace industry is vital to the Welsh economy, as I have said, and it protects—

Brif Weinidog, clywsom newyddion gwych o Sioe Awyr Dubai dros y penwythnos bod Airbus wedi sicrhau gwerth dros £30 biliwn o archebion. Mae hyn yn aruthrol o bwysig i economi gogledd-ddwyrain Cymru. Rwy'n gwybod bod yr Aelod dros Alun a Glannau Dyfrdwy, Carl Sargeant, yn arbennig o falch o hynny—o gofio bod ei dîm pêl-droed wedi cael cweir ddydd Sul, mae wedi cael rhywfaint o newyddion da o leiaf y penwythnos hwn. Mae'r diwydiant awyrofod yn hanfodol i economi Cymru, fel yr wyf wedi ei ddweud, ac mae'n amddiffyn—

13:49

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Who beat Connah's Quay?

Pwy gurodd Cei Connah?

13:49

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Who beat Connah's Quay? Rhyl beat Connah's Quay. [Laughter.] It takes many people from my area, including people from Rhyl who work at Airbus. First Minister, will you congratulate Airbus on its continuing success? Will you also update us on what your Government is doing to consider and drive forward growth through supporting high-tech manufacturing sectors such as Airbus?

Pwy gurodd Cei Connah? Rhyl gurodd Cei Connah. [Chwerthin.] Mae'n cymryd llawer o bobl o'm hardal i, gan gynnwys pobl o'r Rhyl sy'n gweithio yn Airbus. Brif Weinidog, a wnewch chi longyfarch Airbus ar ei lwyddiant parhaus? A wnewch chi hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr hyn y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i ystyried a sbarduno twf trwy gefnogi sectorau gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg fel Airbus?

13:49

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have a close working relationship with Airbus and we have provided it with assistance in years gone by. It is an exceptionally important employer as far as Wales is concerned. Our support for the advanced materials and manufacturing sector is designed to facilitate growth. Working with the company, we look forward to seeing the Airbus plant grow from strength to strength in the future and I am delighted to congratulate the company on this excellent news.

Mae gennym berthynas waith agos gydag Airbus ac rydym ni wedi darparu cymorth iddo yn y gorffennol. Mae'n gyflogwr eithriadol o bwysig cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn. Mae ein cefnogaeth i'r sector deunyddiau a gweithgynhyrchu datblygedig wedi ei gynllunio i hwyluso twf. Gan weithio gyda'r cwmni, rydym yn edrych ymlaen at weld ffatri Airbus yn tyfu o nerth i nerth yn y dyfodol ac rwy'n hynod falch o longyfarch y cwmni ar y newyddion ardderchog hyn.

13:49 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You say, First Minister, that you want the implementation of Silk in full—you have said it many times in the past—but may I just pick up on a question that was asked earlier? Will you pledge to make it a priority now to negotiate devolving income tax in the way that Silk proposed, rather than in the inflexible way that is now being proposed by the UK Government, in order to give the Welsh economy a competitive edge?

Rydych chi'n dweud, Brif Weinidog, eich bod eisiau i Silk gael ei weithredu'n llawn—rydych chi wedi dweud hynny lawer gwaith yn y gorffennol—ond a gaf fi godi cwestiwn a ofynnwyd yn gynharach? A wnewch chi addo ei gwneud yn flaenoriaeth nawr i drafod datganoli treth incwm yn y ffordd a gynigwyd gan Silk, yn hytrach nag yn y ffordd anhyblyg sydd bellach yn cael ei chynnig gan Lywodraeth y DU, er mwyn rhoi mantais gystadleuol i economi Cymru?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The answer to that is 'yes'; I believe that it is important that the Silk commission's recommendations should have been followed through. The proposal with regard to income tax is not to implement the Silk commission's recommendation. I fully support the implementation of a mechanism by which income tax varying powers might be devolved in the future. I regret the fact that that mechanism is not the mechanism implementing the proposals of Silk. These are issues that will no doubt form part of the debate over the next few years. As Members will know, I am not of the view that the devolution of income tax varying powers is a priority; indeed, it would not be possible anyway before 2017, I suspect. I did see mention being made last week of a potential sunset clause, which is certainly not the case as far as a referendum would be concerned—it would be wholly wrong, for example, for any UK Government Minister to suggest that a referendum could be held in Wales on income tax varying powers, but that it would have to be done by a certain time. That would certainly run counter to the Silk commission's proposals.

Yr ateb i hynny yw 'gwnaf'; rwy'n credu ei bod yn bwysig y dylai argymhellion comisiwn Silk fod wedi cael eu gweithredu. Y cynnig o ran treth incwm yw peidio â gweithredu argymhelliad comisiwn Silk. Rwy'n llwyr gefnogi creu dull y gellid ei ddefnyddio i ddatganoli pwerau amrywio treth incwm yn y dyfodol. Rwy'n gresynu at y ffaith nad y dull a fyddai'n gweithredu cynigion Silk yw'r dull hwnnw. Nid oes amheuaeth bod y rhain yn faterion a fydd yn rhan o'r ddadl yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fel y bydd yr Aelodau'n gwybod, nid wyf o'r farn bod datganoli pwerau i amrywio treth incwm yn flaenoriaeth; yn wir, ni fyddai'n bosibl cyn 2017 beth bynnag, rwy'n amau. Fe wnes i weld cymal machlud posibl yn cael ei grybwyll yr wythnos diwethaf, ac yn sicr nid yw hynny'n wir cyn belled ag y byddai refferendwm yn y cwestiwn—byddai'n gwbl anghywir, er enghraifft, i unrhyw un o Weinidogion Llywodraeth y DU awgrymu y gellid cynnal refferendwm ar bwerau amrywio treth incwm yng Nghymru, ond y byddai'n rhaid ei wneud erbyn rhyw amser penodol. Byddai hynny'n sicr yn mynd yn groes i gynigion comisiwn Silk.

13:51 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One area of particular economic growth potential is the film and television industry. Just last week, you may have heard that the Warner Bros. blockbuster, 'The Man from U.N.C.L.E.', was being filmed in Ceredigion, bringing many thousands of pounds into the Welsh economy. However, on occasions, the opportunities can be hampered by delays in local planning authorities, and as recently as 2012, we have the example of 'Skyfall' being lost to the Brecon Beacons—it actually went to Scotland—because of specific planning difficulties. In that context, what is your Government prepared to do to ensure that, maybe through the planning Bill and other methods, Wales is open for business, particularly when we are seeking to ensure that we are competitive in the creative industries?

Un maes o botensial twf economaidd penodol yw'r diwydiant ffilm a theledu. Dim ond yr wythnos diwethaf, efallai eich bod wedi clywed bod ffilm fawr Warner Bros., 'The Man from U.N.C.L.E', yn cael ei ffilmio yng Ngheredigion, gan ddod â miloedd lawer o bunnoedd i economi Cymru. Fodd bynnag, ar adegau, gall y cyfleoedd gael eu rhwystro gan oediadau mewn awdurdodau cynllunio lleol, ac mor ddiweddar â 2012, mae gennym yr enghraifft o Fannau Brycheiniog yn colli 'Skyfall'—aeth i'r Alban yn y pen draw—oherwydd anawsterau cynllunio penodol. Yn y cyd-destun hwnnw, beth mae eich Llywodraeth yn barod i'w wneud i sicrhau, efallai drwy'r Bil cynllunio a dulliau eraill, bod Cymru yn agored i fusnes, yn enwedig pan rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn gystadleuol yn y diwydiannau creadigol?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The creative industries are important to Wales; indeed, they were part of the agenda for the British-Irish Council meeting held in Jersey last Friday. Local planning authorities have to take decisions for themselves, but it is important that we understand that, where there are opportunities for job creation and an injection of funds into the local economy, local planning authorities have to bear that very much in mind when they take their decisions. If it is correct to say that 'Skyfall' was lost to the Brecon Beacons and that it went to Scotland because of a planning issue, then I would very much regret that that was the case. Clearly, it is important that we are as responsive as possible, in Welsh Government and in local government, when it comes to ensuring that we provide the locations for particularly well-known firms. I did notice while watching a film called 'World War Z'—those who are familiar with it will know—that the world was saved because of a medical facility based in Cardiff, even though it is clear that the facility itself is not actually in Wales, with the crickets chirping in the background being a bit of a giveaway as to the location. Nevertheless, I think that it is something that we can be proud of as far as that film is concerned.

Mae'r diwydiannau creadigol yn bwysig i Gymru; yn wir, roedden nhw'n rhan o'r agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd yn Jersey ddydd Gwener diwethaf. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, ond mae'n bwysig ein bod yn deall, lle ceir cyfleoedd ar gyfer creu swyddi a denu cyllid i'r economi leol, bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gadw hynny mewn cof yn bendant pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau. Os yw'n gywir i ddweud bod Bannau Brycheiniog wedi colli 'Skyfall' a'i fod wedi mynd i'r Alban oherwydd mater cynllunio, yna byddwn yn gresynu'n fawr mai dyna oedd yr achos. Yn amlwg, mae'n bwysig ein bod mor ymatebol â phosibl, yn Llywodraeth Cymru ac mewn llywodraeth leol, o ran sicrhau ein bod yn darparu'r lleoliadau ar gyfer cwmnïau arbennig o adnabyddus. Sylwais wrth wylio ffilm o'r enw 'World War Z'—bydd y rhai sy'n gyfarwydd â hi yn gwybod—bod y byd wedi ei achub oherwydd cyfleuster meddygol wedi'i leoli yng Nghaerdydd, er ei bod yn eglur nad yw'r cyfleuster ei hun yng Nghymru mewn gwirionedd, ac mae'r criciaid yn trydar yn y cefndir yn rhoi dipyn o gliw o ran y lleoliad. Serch hynny, rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y gallwn fod yn falch ohono cyn belled ag y mae'r ffilm honno yn y cwestiwn.

## Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

## Active Travel (Wales) Act 2013

13:53 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*4. Pa gerrig milltir y disgwylir eu cyflawni gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)1345(FM)*

*4. What are the milestones that are expected to be achieved by the Active Travel (Wales) Act 2013? OAQ(4)1345(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It is an important piece of legislation that will result in the development of integrated routes and related facilities across Wales over the next few years.

Mae'n ddarn pwysig o ddeddfwriaeth a fydd yn arwain at ddatblygu llwybrau integredig a chyfleusterau cysylltiedig ledled Cymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

13:53 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very pleased to see that, as part of this Road Safety Week, your Government has announced a consultation on risk-assessing routes to school for children who walk there. Thanks to the Welsh Government's safer routes in communities scheme, parts of my constituency, in Roath and Cathays, will now become a 20 mph pilot zone, which is extremely welcome. This is expected to have minimal impact on journey times by car and bus, and it will make it safer for pedestrians and cyclists. How can we ensure that initiatives such as this link up with the objectives of the active travel Act?

Rwy'n falch iawn o weld, yn rhan o'r Wythnos Diogelwch ar y Ffyrdd hon, bod eich Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar asesu risg llwybrau i'r ysgol i blant sy'n cerdded yno. Diolch i gynllun llwybrau mwy diogel mewn cymunedau Llywodraeth Cymru, bydd rhannau o fy etholaeth i, yn y Rhath a Cathays, yn troi'n ardaloedd 20 mya arbrofol bellach, sydd i'w groesawu'n fawr. Disgwylir mai bychan iawn fydd effaith hyn ar amseroedd teithio mewn car a bws, a bydd yn ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr a beicwyr. Sut y gallwn ni sicrhau bod mentrau fel hyn yn cysylltu ag amcanion y Ddeddf teithio llesol?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

What is important, of course, is that as we promote active travel, there is sufficient road safety. We are aware, for example, that in the case of many cyclists, where they are not able to access cycle routes, one of the concerns is having to share the road with cars. If cars are slowed down, that will encourage more people, I believe, to cycle. So, I very much welcome what Cardiff Council is doing. Of course, we allocated £400,000 for those schemes, and they will be important schemes in areas, for example, where there are a lot of students who themselves have access to bikes. It is important that we promote active travel in that way, but also ensure that the roads are as safe as they can be for cyclists and, indeed, for pedestrians in the future.

Yr hyn sy'n bwysig, wrth gwrs, yw bod digon o ddiogelwch ar y ffyrdd wrth i ni hyrwyddo teithio llesol. Rydym yn ymwybodol, er enghraifft, yn achos llawer o feicwyr, lle nad ydynt yn gallu cael mynediad at lwybrau beicio, un o'r pryderon yw gorfod rhannu'r ffordd gyda cheir. Os caiff ceir eu harafu, bydd hynny'n annog mwy o bobl, rwy'n credu, i feicio. Felly, rwy'n croesawu'n fawr yr hyn y mae Cyngor Caerdydd yn ei wneud. Wrth gwrs, neilltuwyd £400,000 gennym ni ar gyfer y cynlluniau hynny, a byddant yn gynlluniau pwysig mewn ardaloedd, er enghraifft, lle mae llawer o fyfyrwyr sydd â mynediad at feiciau eu hunain. Mae'n bwysig ein bod yn hyrwyddo teithio llesol yn y ffordd honno, ond hefyd yn sicrhau bod y ffyrdd mor ddiogel ag y gallant fod i feicwyr ac, yn wir, i gerddwyr yn y dyfodol.

Senedd.tv
Fideo Video

13:55 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

First Minister, I have here two documents— 'Climbing Higher' from January 2005, and then 'Climbing Higher: Next Steps' from July 2006. I have them here because they had a target set within them for 95% of people in Wales having a footpath or cyclepath within a 10-minute walk of their home. Nine years down the line, that has still not come to fruition. I ask the question on the back of Jenny Rathbone's question: how confident are you that the objectives of the active travel Act, which all AMs subscribed to and support in principle, will, in five or 10 years' time, have made a difference to people's lives—and, indeed, that local authorities will have enough finance at this time to make it a reality?

Brif Weinidog, mae gen i ddwy ddogfen yma—'Dringo'n Uwch' o Ionawr 2005, ac yna 'Dringo'n Uwch: Y Camau Nesaf' o fis Gorffennaf 2006. Maen nhw gennyf yma gan y gosodwyd targed ynddynt i ddarparu llwybr troed neu lwybr beicio o fewn taith gerdded 10 munud o'u cartrefi ar gyfer 95% o bobl yng Nghymru. Naw mlynedd yn ddiweddarach, mae hynny'n dal i fod heb ei wireddu. Gofynnaf y cwestiwn yn sgil cwestiwn Jenny Rathbone: pa mor hyderus ydych chi y bydd amcanion y Ddeddf teithio llesol, a gymeradwywyd gan yr holl ACau ac y mae pob un yn ei chefnogi mewn egwyddor, ymhen pump neu 10 mlynedd, wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl—ac, yn wir, y bydd gan awdurdodau lleol ddigon o gyllid ar yr adeg honno i wireddu hyn?

Senedd.tv
Fideo Video

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, this is legislation; this is not what we could have done in years gone by. I am certain, with the legislation and the statutory guidance that will support the implementation of the Act, that we will see the Act's objectives being met.

Deddfwriaeth yw hyn, wrth gwrs; nid beth y gallem ni fod wedi ei wneud yn y blynyddoedd a fu yw hyn. Rwy'n sicr, gyda'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol a fydd yn cefnogi gweithrediad y Ddeddf, y byddwn yn gweld amcanion y Ddeddf yn cael eu bodloni.

Senedd.tv
Fideo Video

13:56 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

First Minister, one of the issues that has arisen out of the sad deaths of a number of cyclists in London recently is the poor design of cycle routes, with cycle lanes being marked intermittently along roads, and misleadingly giving the impression that fully realised routes are in operation. Can you tell us how this Act will help alleviate the situation, so that we can ensure that cyclists do not die on Welsh roads?

Brif Weinidog, un o'r materion sydd wedi codi yn sgil marwolaethau trist nifer o feicwyr yn Llundain yn ddiweddar yw cynllun gwael y llwybrau beicio, wrth i lonydd beicio gael eu marcio'n ysbeidiol ar hyd ffyrdd, gan roi'r argraff gamarweiniol bod llwybrau wedi eu cyflawni'n llwyr ar gael. A allwch chi ddweud wrthym sut y bydd y Ddeddf hon yn helpu i liniaru'r sefyllfa, fel y gallwn sicrhau nad yw beicwyr yn marw ar ffyrdd Cymru?

Senedd.tv
Fideo Video

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Design guidance will be issued as a result of the Act. That design guidance will set the standards for the design of both walking and cycling infrastructure. The Member is quite right to point out that there are examples—I have seen them myself—of cyclepaths that come to an abrupt end with the word 'end' at the end of the path and, all of a sudden, people are back on the main highway. So, that guidance will need to be implemented by local authorities, and the delivery guidance will explain what the duties in the Act mean in practice. With those things taken together, I believe that we will see proper cycle routes that do not come to an abrupt end, as we have seen in the past.

Bydd canllawiau cynllunio yn cael eu cyhoeddi o ganlyniad i'r Ddeddf. Bydd y canllawiau cynllunio hynny yn gosod y safonau ar gyfer cynllunio seilwaith cerdded a beicio. Mae'r Aelod yn llygad ei le i ddweud bod yna enghreifftiau—rwyf wedi eu gweld nhw fy hun—o lwybrau beicio sy'n dod i ben yn sydyn gyda'r gair 'diwedd' ar ddiwedd y llwybr ac, yn sydyn, mae pobl yn ôl ar y briffordd. Felly, bydd angen i awdurdodau lleol roi'r canllawiau hynny ar waith, a bydd y canllawiau darparu yn esbonio'r hyn y mae'r dyletswyddau yn y Ddeddf yn ei olygu yn ymarferol. O ystyried y pethau hynny gyda'i gilydd, rwy'n credu y byddwn yn gweld llwybrau beicio go iawn nad ydynt yn dod i ben yn sydyn, fel yr ydym ni wedi ei weld yn y gorffennol.

## Diwygio Lles

## Welfare Reform

13:57 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith diwygio lles yng Nghymru? OAQ(4)1334(FM)*

*5. Will the First Minister provide an update on the impact of welfare reform in Wales? OAQ(4)1334(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We commissioned a three-stage programme of research into the impact of the welfare reforms in Wales. This is helping to inform our response to mitigate, where we can, those impacts in Wales. The next report is due to be published in the new year.

Comisiynwyd rhaglen tri cham o waith ymchwil gennym ar effaith y diwygiadau lles yng Nghymru. Mae hyn yn helpu i lywio ein hymateb i liniaru, pryd y gallwn, yr effeithiau hynny yng Nghymru. Disgwylir i'r adroddiad nesaf gael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

13:57 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nearly 34,000 people across Wales have been hit by the bedroom tax, losing an average of more than £13 per week, while 6,500 households with two spare rooms are losing more than £20 per week. Particularly with Christmas round the corner, I am deeply worried about the 1,700 tenants in Torfaen who are building up housing debt because of this pernicious policy, and I support recent Welsh Government proposals to scrap mandatory ground 8, which can be used to evict them. Although I understand the current informal moratorium on ground 8 has generally worked well, working with the Minister for Housing and Regeneration, will you ensure that this is strengthened by a change in the law, so that people in Torfaen and elsewhere do not face mandatory eviction because of bedroom tax arrears?

Mae bron i 34,000 o bobl ledled Cymru wedi cael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely, gan golli mwy na £13 yr wythnos ar gyfartaledd, tra bod 6,500 o gartrefi â dwy ystafell sbâr yn colli mwy na £20 yr wythnos. Yn enwedig o gofio y bydd y Nadolig yma'n fuan iawn, rwy'n bryderus iawn am y 1,700 o denantiaid yn Nhorfaen sy'n cynyddu eu dyled tai oherwydd y polisi niweidiol hwn, ac rwyf yn cefnogi cynigion diweddar Llywodraeth Cymru i gael gwared ar sail orfodol 8, y gellir ei defnyddio i'w troi allan. Er fy mod yn deall bod y moratoriwm anffurfiol presennol ar sail 8 wedi gweithio'n dda ar y cyfan, a wnewch chi sicrhau, gan weithio gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio, bod hyn yn cael ei gryfhau drwy newid yn y gyfraith, fel nad yw pobl yn Nhorfaen ac mewn mannau eraill yn cael eu troi allan yn orfodol oherwydd ôl-ddyledion treth ystafell wely?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are two points here: first, the bedroom tax is pernicious, there is no question about that, because we see the effect that it has on people, despite the assurances to the contrary that were given by the UK Government. We are exploring, as a Cabinet, ways of ensuring that people do not face the difficulties of unnecessary eviction. I have heard calls from other parties for no-eviction policies; it is not quite as easy as it sounds, because that has an effect on other people who pay, and there is a financial cost to that. Nevertheless, it is something that we are actively giving consideration to at the moment.

Ceir dau bwynt yma: yn gyntaf, mae'r dreth ystafell wely yn niweidiol, nid oes amheuaeth am hynny, gan ein bod yn gweld yr effaith y mae'n ei chael ar bobl, er gwaethaf y sicrwydd i'r gwrthwyneb a roddwyd gan Lywodraeth y DU. Rydym yn archwilio, fel Cabinet, ffyrdd o sicrhau nad yw pobl yn wynebu anawsterau cael eu troi allan yn ddiangen. Rwyf wedi clywed galwadau gan bartïon eraill am bolisïau dim troi allan; nid yw mor rhwydd ag y mae'n swnio, gan fod hynny'n cael effaith ar bobl eraill sy'n talu, ac mae cost ariannol yn gysylltiedig â hynny. Serch hynny, mae'n rhywbeth yr ydym ni'n rhoi ystyriaeth ymarferol iddo ar hyn o bryd.

13:59 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is three years since the private rented sector said that it had built in welfare reform but needed to work with Welsh Government and local government. It is two and a half years since the UK Government issued detailed guidance on the preparation for the changes. Why did the Welsh Government delay action to identify exempt groups—such as those prioritised for discretionary housing payments—and to increase supply until after the changes had taken effect?

Mae tair blynedd wedi mynd heibio ers i'r sector rhentu preifat ddweud ei fod wedi darparu ar gyfer diwygiadau lles, ond bod angen iddo weithio gyda Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Mae dwy flynedd a hanner wedi mynd heibio ers i Lywodraeth y DU gyhoeddi canllawiau manwl ar baratoi ar gyfer y newidiadau. Pam y gwnaeth Llywodraeth Cymru oedi rhag cymryd camau i nodi grwpiau sydd wedi eu heithrio—fel y rhai sydd wedi ei blaenoriaethu ar gyfer taliadau tai dewisol—ac i gynyddu'r cyflenwad tan ar ôl i'r newidiadau ddod i rym?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I assume the Member is joking, given that these reforms came into place in April, if I remember. He expects us to have built some 16,000 to 17,000 units of one-bedroomed accommodation since that time. I am sorry, it is not good enough. It is not good enough for the Conservatives to suddenly blame us, as a party and a Government, for the problem that they introduced. One of their other Members tried it last week; when he was pointing out that people were being evicted, he tried to say that it was our fault. It is your policy: you defend it, you explain it to the people of Wales and you tell those people who face eviction that that is something that, according to your party, they deserve.

Rwy'n tybio bod yr Aelod yn cellwair, o gofio bod y diwygiadau hyn wedi dod i rym ym mis Ebrill, os rwy'n cofio. Mae'n disgwyl i ni fod wedi adeiladu tua 16,000 i 17,000 o unedau llety un ystafell wely ers hynny. Mae'n ddrwg gennyf, nid yw'n ddigon da. Nid yw'n ddigon da i'r Ceidwadwyr ein beio ni'n sydyn, fel plaid ac fel Llywodraeth, am y broblem y maen nhw wedi ei chyflwyno. Ceisiodd un o'u Haelodau eraill wneud hynny yr wythnos diwethaf; pan roedd yn tynnu sylw at y ffaith fod pobl yn cael eu troi allan, ceisiodd ddweud mai ni oedd ar fai. Eich polisi chi yw hwn: cewch chi ei amddiffyn, cewch chi ei esbonio i bobl Cymru a chewch chi ddweud wrth y bobl hynny sy'n wynebu cael eu troi allan bod hynny, yn ôl eich plaid chi, yn rhywbeth maen nhw'n ei haeddu.

14:00 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae miloedd, os nad miliynau, o bobl ar fudd-daliadau a phensiynau yn wynebu gaeaf caled, yn enwedig o gofio bod cost tanwydd yn cynyddu. Os felly, a ydych yn cytuno ei bod yn gywilyddus bod y prif gwmnïau ynni yn eistedd ar arian—ac yn codi prisiau—sydd wedi cael ei gasglu tuag at gynlluniau megis y rhwymedigaeth cwmni ynni, sydd i fod i insiwleiddio tai ac sydd i fod i helpu pobl sydd ar fudd-daliadau i ymdopi â'r gaeaf a thywydd oer? A oes rhywbeth y gallwch ei wneud, fel Llywodraeth, i wasgu mwy ar y prif gwmnïau ynni i ryddhau'r arian hwn, sydd wedi'i gasglu drwy eu prisiau uchel, ond sydd heb ei wario eto ar dai o ansawdd gwael yng Nghymru?

First Minister, there are thousands if not millions of people on benefits and pensions facing a hard winter, particularly bearing in mind that the price of fuel is increasing. If that is the case, would you agree that it is disgraceful that the major energy companies are sitting on money—and increasing prices— that has been gathered for schemes such as the energy company obligation, which is supposed to insulate homes and help people who are on benefits to cope with the winter and cold weather? Is there anything that you as a Government can do to put more pressure on these major energy companies to release this money, which has been gathered through their high pricing, but is yet to be spent on low-quality homes in Wales?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yn ymarferol, wrth gwrs, mae gennym gynlluniau fel Nyth ac Arbed, a'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref. Yr hyn sy'n bwysig dros ben yw bod pobl yn gallu fforddio talu am eu hynni. Un o'r pethau y mae fy mhlaid wedi'i ddweud ar lefel Brydeinig yw y byddwn yn rhewi prisiau yn y dyfodol. Byddai hynny o les mawr i bobl.

Practically, of course, we have schemes such as Nest and Arbed, and the home energy efficiency scheme. What is very important is that people should be able to afford the energy that they use. One of the things that my party has said on a British level is that we will freeze prices in the future. That will be of great benefit to all.

14:01 **Aled Roberts** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Brif Weinidog, fel rhan o'r newidiadau lles a ddechreuwyd o dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf yn Llundain, caewyd y gronfa byw yn annibynnol—yr 'independent living fund'. Mae achos llys wedi bod yn ystod y pythefnos olaf hwn sy'n cwestiynu a fydd y gronfa hon yn parhau. Er hynny, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru benderfynu a fydd y gronfa'n cael ei gweithredu'n genedlaethol yng Nghymru neu ar lefel cynghorau lleol. Pryd fydd y Llywodraeth yn cymryd y penderfyniad hwnnw?

First Minister, as part of the welfare reforms commenced under the last Labour Government in London, the independent living fund was closed. There has been a court case over this past fortnight that questions whether the fund should continue. Despite that, there is a requirement for the Welsh Government to decide whether the fund is to be implemented nationally here in Wales or at the county council level. When will the Government make that decision?

14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'n wir i ddweud nad yw'r ffaith bod ein cyllid wedi cael ei wasgu dros y blynyddoedd diwethaf yn helpu. Rydym yn gwybod, wrth gwrs, bod record gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o roi cyfrifoldebau i ni heb roi'r cyllid yn llawn i ni. Gwelsom hynny gyda budd-daliadau treth cyngor, ac rydym wedi'i weld mewn rhannau eraill, hefyd. Mae'r Llywodraeth honno yn safio arian, ac rydym ni'n gorfod ffeindio arian er mwyn cadw'r un cynllun i fynd.

That is something that we are discussing at present. It is true to say that the fact that our budget has been squeezed over the past years does not help matters. Of course, we know that the United Kingdom Government has a record of giving us the responsibility without giving us the full funding. We saw that with the council tax benefit and we have seen it with other issues too. That Government saves money and we have to find funding in order to maintain the same scheme.

## Y Frech Goch

## Measles

14:02 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*6. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r wybodaeth ddiweddaraf am achosion o'r frech goch yng Nghymru? OAQ(4)1344(FM)*

*6. Will the First Minister outline the latest information on measles outbreaks in Wales? OAQ(4)1344(FM)*

14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The latest information indicates that there have been 39 notifications of measles cases since October. These are centred on four schools in the Pontardawe and south Powys area. We continue to take action to reduce the number of unvaccinated children.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos y bu 39 o hysbysiadau o achosion o'r frech goch ers mis Hydref. Canolbwynt y rhain yw pedair ysgol yn ardal Pontardawe a de Powys. Rydym yn parhau i gymryd camau i leihau nifer y plant sydd heb eu brechu.

14:02 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

It seems clear that these outbreaks confirm that hard-to-reach groups are still not responding to appeals to have both doses of the measles, mumps and rubella vaccine. Public Health Wales has warned that there is a risk of Wales suffering another large outbreak. Somehow, the message that measles can be a very serious condition does not seem to be getting across to the public. First Minister, if current appeals to parents and older children to have this vaccine fail, will the Welsh Government look at tougher measures, including invoking public health law and keeping children who have not had the MMR vaccine and who are close contacts of infected children away from school?

Mae'n ymddangos yn eglur bod yr achosion hyn yn cadarnhau nad yw grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn ymateb i apeliadau i gael y ddau ddos o frechlyn y frech goch, clwy'r pennau a rwbela o hyd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhybuddio bod risg y bydd Cymru yn dioddef argyfwng mawr arall. Rhywsut, nid yw'n ymddangos bod y cyhoedd yn deall y neges y gall y frech goch fod yn gyflwr difrifol iawn. Brif Weinidog, os bydd apeliadau cyfredol i rieni a phlant hŷn dderbyn y brechlyn hwn yn methu, a wnaiff Llywodraeth Cymru edrych ar fesurau llymach, gan gynnwys defnyddio cyfraith iechyd y cyhoedd a chadw plant nad ydynt wedi cael y brechlyn MMR ac sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â phlant sydd wedi'u heintio i ffwrdd o'r ysgol?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The first thing to say is that we would not support compulsory vaccination. Nevertheless, Public Health Wales has identified the need to tighten the law, possibly, in terms of ensuring that unimmunised close contacts of probable cases of measles, for example, are excluded from schools until the infectious period is over. That is something at which we are looking at the moment. It is important to encourage people to ensure that their children are vaccinated. Of course, if that does not happen, it is then important to ensure that the disease, or virus, does not spread to those who are unvaccinated. It may be, in future, that further steps will have to be taken to ensure the safety of those children.

Y peth cyntaf i'w ddweud yw na fyddem yn cefnogi brechu gorfodol. Serch hynny, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi'r angen i dynhau'r gyfraith, o bosibl, o ran sicrhau bod cysylltiadau agos sydd heb eu himiwneiddio o achosion tebygol o’r frech goch, er enghraifft, yn cael eu gwahardd o ysgolion tan fod y cyfnod heintus wedi dod i ben. Mae hynny'n rhywbeth rydym ni’n ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'n bwysig annog pobl i sicrhau bod eu plant yn cael eu brechu. Wrth gwrs, os nad yw hynny'n digwydd, mae'n bwysig wedyn sicrhau nad yw'r clefyd, neu firws, yn lledaenu i'r rhai sydd heb gael eu brechu. Efallai, yn y dyfodol, y bydd yn rhaid cymryd camau pellach i sicrhau diogelwch y plant hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

First Minister, the outbreak that took hold in south Wales was particularly damaging, I think, to the confidence that people have had, sometimes, in the whole of the vaccination programme, because of the adverse publicity that had been received over a decade ago as a result of some very poor media reporting and some atrocious propaganda that was put out by a particular medical professional. What work are you now doing to capture this group of 30,000 young people who still are not vaccinated? I appreciate the response that you gave to Sandy Mewies. We know that many of these people are in the same local health board areas and I wonder what focused work you might be doing in order to play catch-up with those 30,000 young people.

Brif Weinidog, roedd yr argyfwng a welwyd yn ne Cymru yn arbennig o niweidiol, rwy’n credu, i’r hyder y bu gan bobl, weithiau, yn yr holl raglen frechu, oherwydd y cyhoeddusrwydd gwael a dderbyniwyd dros ddegawd yn ôl o ganlyniad i rai adroddiadau gwael iawn yn y cyfryngau a rhywfaint o bropaganda erchyll a gyhoeddwyd gan weithiwr meddygol proffesiynol penodol. Pa waith ydych chi’n ei wneud bellach i gael gafael ar y grŵp hwn o 30,000 o bobl ifanc sy'n dal i fod heb eu brechu? Rwy’n gwerthfawrogi'r ymateb a roesoch i Sandy Mewies. Rydym yn gwybod bod llawer o'r bobl hyn yn yr un ardaloedd byrddau iechyd lleol ac rwy’n meddwl tybed pa waith wedi ei ganolbwyntio y gallech chi fod yn ei wneud er mwyn ceisio brechu'r 30,000 o bobl ifanc hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, the new NHS delivery framework includes, as a tier 1 measure, the need to ensure that 95% of children are fully immunised by the age of four. All health boards have submitted plans to the chief medical officer, providing assurance that measures are in place to meet that objective and to provide catch-up opportunities for children who have missed out on scheduled vaccinations.

Ydy, mae fframwaith cyflawni newydd y GIG yn cynnwys, fel mesur haen 1, yr angen i sicrhau bod 95% o blant yn cael eu himiwneiddio’n llawn erbyn eu bod yn bedair oed. Mae pob bwrdd iechyd wedi cyflwyno cynlluniau i'r prif swyddog meddygol, gan ddarparu sicrwydd bod mesurau ar waith i fodloni'r amcan hwnnw ac i ddarparu cyfleoedd dal i fyny i blant nad ydynt wedi cael brechiadau a drefnwyd o'r blaen.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, the Public Health Wales report says that several of the cases in the current outbreak have been contracted in school, from pupils who have been sent to school with symptoms of measles, and that there are particular problems in terms of the 10 to 18 cohort, who are continuing to resist efforts to get them vaccinated. May I ask you how you are refocusing your messages and the information to parents to try to tackle those two particular issues?

Brif Weinidog, mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datgan bod nifer o'r achosion yn yr argyfwng presennol wedi cael eu heintio yn yr ysgol, gan ddisgyblion a anfonwyd i'r ysgol gyda symptomau'r frech goch, a bod problemau penodol o ran y garfan10-18, sy'n parhau i wrthsefyll ymdrechion iddynt gael eu brechu. A gaf i ofyn i chi sut yr ydych chi’n newid pwyslais eich negeseuon a'r wybodaeth i rieni i geisio mynd i'r afael â’r ddau fater penodol hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, it is difficult with those who missed being vaccinated when they were young children, at the time when the publicity against the vaccination was at its highest. I can say that the Chief Medical Officer for Wales and Public Health Wales have recommended that health professionals use every opportunity that they have in terms of encounters with adolescents or young adults as an opportunity to check immunisation status, and then, of course, to promote vaccination.

Ydy, mae'n anodd gyda'r rhai na chafodd eu brechu pan oeddent yn blant ifanc, ar yr adeg pan roedd cyhoeddusrwydd yn erbyn y brechlyn yn ei anterth. Gallaf ddweud bod Prif Swyddog Meddygol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi argymell bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn achub ar bob cyfle sydd ar gael iddynt wrth ddod i gysylltiad â phobl ifanc neu oedolion ifanc fel cyfle i wirio statws imiwneiddio, ac yna, wrth gwrs, hyrwyddo brechu.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

In the last measles outbreak in the Swansea area, one of my constituents died. In the pre-vaccination era, my sister ended up profoundly deaf. What further can be done to increase awareness of the seriousness of measles and thus increase the number of teenagers who are vaccinated against measles via the MMR vaccine?

Yn yr achosion diwethaf o'r frech goch yn ardal Abertawe, bu farw un o fy etholwyr. Yn y cyfnod cyn-brechu, fe achosodd i fy chwaer fynd yn hollol fyddar. Beth arall ellir ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth o ddifrifoldeb y frech goch a thrwy hynny gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cael eu brechu yn erbyn y frech goch drwy'r brechiad MMR?

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that part of the problem is that many parents are of the generation when the vaccine was not available. They had measles themselves and therefore they think that it is a harmless illness. The reality, of course, is that those of us who did have measles when we were younger were lucky. Measles can be exceptionally serious and, as we know, potentially fatal. It is important that we re-emphasise the message—if I can put it simply—that measles is not to be messed with. It is far, far better to be vaccinated against the disease that potentially might kill somebody. That is the message that I am happy to reiterate in this Chamber today, and I know that health professionals will be doing the same.

Rwy'n meddwl mai rhan o'r broblem yw bod llawer o rieni yn dod o'r genhedlaeth pan nad oedd y brechlyn ar gael. Cawson nhw'r frech goch eu hunain ac felly maen nhw'n meddwl ei fod yn salwch diniwed. Y gwirionedd, wrth gwrs, yw bod y rhai ohonom a gafodd y frech goch pan yr oeddem yn iau yn lwcus. Gall y frech goch fod yn eithriadol o ddifrifol ac, fel y gwyddom, o bosibl yn angheuol. Mae'n bwysig ein bod yn ail-bwysleisio'r neges—os caf ei roi yn syml—na ddylid chwarae gyda'r frech goch. Mae'n llawer, llawer gwell cael eich brechu yn erbyn y clefyd, a allai, o bosibl, ladd rhywun. Dyna'r neges rwy'n hapus i'w hailadrodd yn y Siambr hon heddiw, ac rwy'n gwybod y bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwneud hynny hefyd.

Senedd.tv Fideo Video

## Cyd-gynhyrchu o ran Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

## Co-production in Public Service Delivery

14:07 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyd-gynhyrchu o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)1340(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on co-production in Public Service Delivery? OAQ(4)1340(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Co-production and other forms of public participation can bring real benefits to the design and delivery of public services, and, of course, we are looking at ways in which co-production can become a reality. For example, it is a central tenet of the Social Services and Well-being (Wales) Bill.

Gall cyd-gynhyrchu a mathau eraill o gyfranogiad cyhoeddus gynnig manteision gwirioneddol i'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, ac, wrth gwrs, rydym yn edrych ar ffyrdd o wireddu cyd-gynhyrchu. Er enghraifft, mae'n un o egwyddorion canolog Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

How do you respond to the repeated statements at last week's Coproducing Resilient Communities conference in Wales that now is the time for change, but the fear is that either we will not respond quickly enough or we will respond with an additional programme rather than with reformed services and changed systems and structures that would break down the barriers between those who provide services and those who use those services?

Sut ydych chi'n ymateb i'r datganiadau a ailadroddwyd yng nghynhadledd Cyd-gynhyrchu Cymunedau Cryf yr wythnos diwethaf yng Nghymru mai nawr yw'r amser i newid, ond y pryder yw naill ai na fyddwn yn ymateb yn ddigon cyflym, neu y byddwn yn ymateb gyda rhaglen ychwanegol yn hytrach na gyda gwasanaethau diwygiedig a systemau a strwythurau wedi eu newid a fyddai'n chwalu'r rhwystrau rhwng y rhai sy'n darparu gwasanaethau a'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Let me give the Member some examples of where co-production is becoming a reality. A national social services citizen panel has just been recruited to provide an independent voice for service users, for carers and for citizens. There is also the framework in the proposed Bill that I have mentioned already. Our framework for action on independent living is an example of a co-productive approach to addressing the barriers to equality and inclusion that are faced by disabled people, for example, and, of course, there are elements of co-production in the Supporting People programme, the Families First programme and in Communities First.

Gadewch i mi roi rhai enghreifftiau i'r Aelod o ble mae cyd-gynhyrchu yn dod yn wirionedd. Mae panel dinasyddion gwasanaethau cymdeithasol cenedlaethol newydd gael ei recriwtio i ddarparu llais annibynnol i ddefnyddwyr gwasanaeth, i ofalwyr ac i ddinasyddion. Hefyd, ceir y fframwaith yn y Bil arfaethedig yr wyf wedi ei grybwyll eisoes. Mae ein fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol yn enghraifft o ddull cyd-gynhyrchiol i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gydraddoldeb a chynhwysiant a wynebir gan bobl anabl, er enghraifft, ac, wrth gwrs, ceir elfennau o gyd-gynhyrchu yn y rhaglen Cefnogi Pobl, a'r rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, yn y cyd-destun ariannol sy'n ein hwynebu ni ar hyn o bryd, a ydych chi'n credu y dylai awdurdodau lleol, pan maen nhw'n sôn am ddarparu gwasanaethau sylfaenol, edrych ar ailddosbarthu ymysg y tîm o uwch reolwyr gyfrifoldebau unrhyw uwch swyddogion sy'n gadael yr awdurdod, am ba reswm bynnag, yn hytrach na phenodi rhywun o'r newydd?

First Minister, in the financial context facing us at present, do you believe that local authorities, when they talk about providing basic services, should look at reallocating among the management team the responsibilities of any senior officers who leave the authority, for whatever reason, rather than making a new appointment?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n rhywbeth i'r awdurdodau lleol benderfynu drostynt eu hunain ac, wrth gwrs, maen nhw'n atebol i'r bobl maen nhw'n eu cynrychioli.

That is something for local authorities to decide for themselves and, of course, they are accountable to the people that they represent.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 8, OAQ(4)1336(FM), has been withdrawn by Christine Chapman.

Mae cwestiwn 8, OAQ (4) 1336 (FM), wedi ei dynnu'n ôl gan Christine Chapman.

Senedd.tv Fideo Video

**Maes Awyr Caerdydd**

**Cardiff Airport**

14:09 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)1341(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the development of Cardiff Airport? OAQ(4)1341(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, the business plan is aimed at expanding existing and new routes, and this aligns with the opportunity to support a vital facility for businesses, tourists and the public. I am pleased to note, of course, that passenger numbers are up by 8% from the same time last year.

Gwnaf, nod y cynllun busnes yw ehangu llwybrau presennol a newydd, ac mae hyn yn cyd-fynd â'r cyfle i gefnogi cyfleuster hanfodol i fusnesau, ymwelwyr a'r cyhoedd. Rwy'n falch o nodi, wrth gwrs, fod nifer y teithwyr 8% yn uwch nag yn yr un cyfnod y llynedd.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Vale of Glamorgan local development plan is currently out to consultation and, within that, several parcels of land have been allocated for the development of an airport master plan that it states the Welsh Government is currently developing. However, local residents are concerned that they cannot effectively respond to that allocation in the LDP consultation if the master plan that it is based on is not in the public domain. Will you publish that master plan, First Minister, and, if so, will you do so before the consultation closes on 20 December?

Mae'r ymgynghoriad ar gynllun datblygu lleol Bro Morgannwg yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac, o fewn hynny, neilltuwyd sawl clwt o dir ar gyfer datblygu cynllun meistr ar gyfer y maes awyr y mae'n datgan fod Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae trigolion lleol yn pryderu na allant ymateb yn effeithiol i'r neilltuo hwnnw yn ymgynghoriad y CDLl os nad yw'r cynllun meistr y mae wedi ei seilio arno yn eiddo i'r cyhoedd. A wnewch chi gyhoeddi'r cynllun meistr hwnnw, Brif Weinidog, ac, os felly, a wnewch chi wneud hynny cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 20 Rhagfyr?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The holding company has approved the business plan and the operating budget. I will liaise with the board in terms of the publication of that plan, because, of course, it is its plan and not the Welsh Government's plan. I will write to the Member with the results of my inquiries.

Mae'r cwmni daliannol wedi cymeradwyo'r cynllun busnes a'r gyllideb weithredu. Byddaf yn cysylltu â'r bwrdd o ran cyhoeddi'r cynllun hwnnw, oherwydd, wrth gwrs, ei gynllun ef yw hwn, ac nid cynllun Llywodraeth Cymru. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda chanlyniadau fy ymholiadau.

14:10 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I endorse the comments made about the master plan. There are many residents in the Rhoose area—farmers in particular—whose land, potentially, could fall under development blight following the outcome of that master plan. It is imperative that that master plan is put in the public domain, because the local authority is basing its LDP consultation on it. Therefore, will you also make sure that, when the date is given to you, you make the date publicly available in relation to when the board will publish its master plan?

Rwy'n cymeradwyo'r sylwadau a wnaethpwyd am y cynllun meistr. Ceir llawer o drigolion yn ardal y Rhŵs— yn enwedig ffermwyr—y gallai eu tir, o bosibl, fod yn rhan o falltod datblygu yn dilyn canlyniad y cynllun meistr hwnnw. Mae'n hanfodol bod y cynllun meistr yn cael ei wneud yn eiddo i'r cyhoeddd, gan fod yr awdurdod lleol yn seilio ei ymgynghoriad CDLl arno. Felly, a wnewch chi sicrhau hefyd, pan fydd y dyddiad yn cael ei roi i chi, eich bod yn sicrhau bod y dyddiad ar gael i'r cyhoedd o ran pryd y bydd y bwrdd yn cyhoeddi ei gynllun meistr?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is the board's plan, of course, not the Government's plan. However, as I said to the Member opposite, I will inquire as to what plans there are to publish the plan and when.

Cynllun y bwrdd yw hwn, wrth gwrs, nid cynllun y Llywodraeth. Fodd bynnag, fel y dywedais wrth yr Aelod gyferbyn, byddaf yn holi pa gynlluniau sydd ar y gweill i gyhoeddi'r cynllun a phryd.

14:11 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will know well that Plaid Cymru has been an early supporter of intervention in order to turn around the fortunes of Cardiff Airport. How confident are you that the measures that you have introduced will turn around the airport soon, enabling it to be worthy of its international status?

Brif Weinidog, byddwch yn gwybod yn iawn fod Plaid Cymru wedi bod yn gefnogwr cynnar o ymyrraeth er mwyn gwella'r sefyllfa ym Maes Awyr Caerdydd. Pa mor hyderus ydych chi y bydd y mesurau yr ydych chi wedi eu cyflwyno yn gwella'r sefyllfa yn y maes awyr yn fuan, gan ei alluogi i fod yn haeddiannol o'i statws rhyngwladol?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is already happening. I have already mentioned the 8% increase in passengers, compared to September last year. I very much welcome the announcement of four new winter routes by Flybe as well, including two routes that were previously not served from Cardiff Airport. We know, of course, of the investment that has been put in to international arrivals and, of course, the business plan will look at further investment into the airport over the course of the next few years. Passenger numbers have increased. We knew that the airport had a future as long as it was in the hands of an organisation that was deeply interested in its future. The fact that passenger numbers have increased is a sign of that.

Mae'n digwydd eisoes. Rwyf eisoes wedi sôn am y cynnydd o 8% yn nifer y teithwyr, o'i gymharu â mis Medi y llynedd. Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y cyhoeddiad o bedwar llwybr newydd gan Flybe yn ystod y gaeaf hefyd, gan gynnwys dau lwybr nad oeddent yn cael eu gwasanaethu o Faes Awyr Caerdydd o'r blaen. Rydym yn gwybod, wrth gwrs, am y buddsoddiad a wnaed yn yr ardal cyraeddiadau rhyngwladol ac, wrth gwrs, bydd y cynllun busnes yn edrych ar fuddsoddi ymhellach yn y maes awyr yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae nifer y teithwyr wedi cynyddu. Roeddem yn gwybod bod gan y maes awyr ddyfodol cyn belled â'i fod yn nwylo sefydliad a oedd â chryn ddiddordeb yn ei ddyfodol. Mae'r ffaith fod nifer y teithwyr wedi cynyddu yn arwydd o hynny.

## Ysgrifennydd Gwladol Cymru

## Secretary of State for Wales

14:12 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. Pa bryd y cyfarfu'r Prif Weinidog ddiwethaf ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? OAQ(4)1348(FM)*

*10. When did the First Minister last meet with the Secretary of State for Wales? OAQ(4)1348(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn bresennol pan gwrddais i â'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog ar 1 Tachwedd i drafod cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer diwygio ariannol i Gymru.

The Secretary of State for Wales was present when I met the Prime Minister and the Deputy Prime Minister on 1 November to discuss the United Kingdom Government's proposals on financial reform for Wales.

14:12 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ei ateb. Rwy'n siŵr y bydd y Prif Weinidog yn deall fy mod yn ddarllenwr brwd o holl ddatganiadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Fodd bynnag, a fyddai'n ymateb i'r tueddiad diweddar ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud datganiadau cyhoeddus o blaid ynni adnewyddadwy tra'n parhau i wrthod cytuno i ddatganoli ynni i Brif Weinidog Cymru ac i Lywodraeth Cymru?

I thank the First Minister very much for his response. I am sure that the First Minister will understand that I am a keen reader of all of the Secretary of State for Wales's statements. However, will he respond to the recent tendency of the Secretary of State to make public statements in favour of renewable energy while continuing to refuse to agree to the devolution of energy to the First Minister of Wales and the Welsh Government?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n rhywbeth y mae wedi ei ddweud yn y gorffennol. Dywedodd y byddai'r Blaid Geidwadol yn torri'r dreth incwm petai hynny yn cael ei ddatganoli. Nid wyf yn gwybod os ydyw wedi cytuno hynny gydag arweinydd Ceidwadwyr Cymru—a dyna yw ei deitl, ar ddiwedd y dydd, beth bynnag mae rhai eraill yn dweud o fewn ei blaid ei hunan. Yn fy marn i, a barn y Cynulliad ei hunan, a barn pob plaid, dylem ni yng Nghymru gael y pwerau teg sydd eu heisiau arnom ni er mwyn sicrhau bod pobl Cymru yn elwa o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru.

That is something that he has stated in the past. He has said that the Conservative Party would cut income tax if that was devolved. I do not know whether he has agreed that with the leader of the Welsh Conservatives—and that is his title, at the end of the day, whatever others within his own party may say. In my view, and in the view of the Assembly itself, and it is the view of every party, we in Wales should have the fair powers that we need in order to ensure that the people of Wales benefit from the renewable energy that is generated in Wales.

14:14 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, like all of us, I am sure that you do not like it when Welsh legislation is referred to the Supreme Court. Therefore, I wonder whether, in your discussions with the Secretary of State, you have been discussing any formal process that might help to head off those concerns earlier in the legislative procedure.

Brif Weinidog, fel pob un ohonom, rwy'n siŵr nad ydych yn hapus pan gyfeirir at ddeddfwriaeth Cymru yn y Goruchaf Lys. Felly, tybed a ydych chi, yn eich trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, wedi bod yn trafod unrhyw broses ffurfiol a allai helpu i leddfu'r pryderon hynny yn gynharach yn y weithdrefn ddeddfwriaethol.

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is not one, unfortunately. The difficulty that we have at the moment under the existing settlement is that there is very little scope—well, there is no scope—for going to the Supreme Court and asking for a declaration regarding whether something is within devolved powers or not. That can happen only once a Bill has gone through the Assembly and is then referred either by the Attorney General or the Counsel General. It is unfortunate, because it would be far easier if there was an alternative process in place. The reality is, with the Agricultural Sector (Wales) Bill, that we just take a different view from the UK Government. That is it; there is no scope for agreement on that. It is a matter now for the Supreme Court. However, once again, coming back to the devolution settlement, my view on this issue and on other issues is that things would be far easier in terms of the relationship between the UK Government and the Welsh Government if the devolution settlement was clearer and, indeed, based on a reserved-powers model.

Nid oes un ar gael, yn anffodus. Yr anhawster sydd gennym ar hyn o bryd dan y setliad presennol yw mai prin iawn yw'r posibilrwydd—wel, nid oes unrhyw bosibilrwydd—o fynd i'r Goruchaf Lys a gofyn am ddatganiad ynghylch a yw rhywbeth o fewn y pwerau datganoledig ai peidio. Dim ond ar ôl i Fil fynd drwy'r Cynulliad, ac yna cael ei gyfeirio naill ai gan y Twrnai Cyffredinol neu'r Cwnsler Cyffredinol, y gall hynny ddigwydd. Mae'n anffodus, gan y byddai'n llawer haws pe byddai proses amgen ar waith. Y gwir amdani yw, gyda Bil Sector Amaethyddol (Cymru), bod gennym ni wahanol farn i Lywodraeth y DU. Dyna ni; nid oes unrhyw bosibilrwydd o gytuno ar hynny. Mae'n fater i'r Goruchaf Lys bellach. Fodd bynnag, unwaith eto, i ddod yn ôl at y setliad datganoli, fy marn i ar y mater hwn ac ar faterion eraill yw y byddai pethau'n llawer haws o ran y berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru pe byddai'r setliad datganoli yn fwy eglur ac, yn wir, yn seiliedig ar fodel pwerau neilltuedig.

14:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch i chi, Brif Weinidog.

14:15

## Cwestiwn Brys: Cyllid Addysg Uwch

## Urgent Question: Higher Education Funding

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Angela Burns to ask the question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Angela Burns i ofyn y cwestiwn.

14:15 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei adolygiad o gyllid Addysg Uwch? EAQ(4)0343(ESK)*

*Will the Minister make a statement on his review of Higher Education funding? EAQ(4)0343(ESK)*

14:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I discussed my proposals for this review with party spokespeople last week, and will make a full statement once the membership and terms of reference are finalised. The review will focus on widening access, supporting the skills needs of Wales, strengthening part-time and postgraduate provision and ensuring long-term financial stability.

Trafodais fy nghynigion ar gyfer yr adolygiad hwn â llefarwyr y pleidiau yr wythnos diwethaf, a gwnaf ddatganiad llawn cyn gynted ag y bydd yr aelodaeth a'r cylch gorchwyl wedi'u cadarnhau. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ehangu mynediad, cefnogi anghenion sgiliau Cymru, cryfhau darpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig a sicrhau sefydlogrwydd ariannol yn y tymor hir.

14:15 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you announced a major review of a key strand of education policy at Cardiff University rather than here, where we could scrutinise it. You discussed this in passing with me for one—I cannot speak for the other party spokespersons—and I am very concerned that there is no agreed terms of reference, given that this is to be a cross-party review. I am also concerned that it is going on for almost three years, conveniently side-stepping the 2016 Assembly election. While I wholeheartedly welcome the review, we need a full debate here, Presiding Officer, to agree the terms of reference and how this will work in practice. Minister, you know that I am very keen on collaboration—

Weinidog, cyhoeddasoch adolygiad mawr o un o elfennau allweddol y polisi addysg ym Mhrifysgol Caerdydd yn hytrach nag yma, lle y gallem graffu arno. Trafodasoch hyn yn fras â mi—ni allaf siarad ar ran llefarwyr y pleidiau eraill—ac rwyf yn bryderus iawn nad oes cylch gorchwyl y cytunwyd arno, ac ystyried mai adolygiad trawsbleidiol fydd hwn. Rwyf hefyd yn pryderu y bydd yn para bron i dair blynedd, gan ochrgamu'n gyfleus etholiad y Cynulliad yn 2016. Er fy mod yn croesawu'r adolygiad yn galonnog, mae arnom angen dadl lawn yma, Lywydd, i gytuno ar y cylch gorchwyl ac ar sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Weinidog, rydych yn gwybod fy mod yn frwd dros gydweithredu—

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you coming to the question?

A ydych yn dod at y cwestiwn?

14:16 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have already asked for the review to happen here, but what I do not do, Minister, is provide air cover for an unsustainable and simple-minded policy like this.

Rwyf eisoes wedi gofyn am i'r adolygiad ddigwydd yma, ond yr hyn nad wyf yn ei wneud, Weinidog, yw amddiffyn polisi anghynaliadwy a gor-syml fel hwn.

14:16 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Presiding Officer, it is not for me to underscore or point out which issues in Welsh public life really are important for the benefit of opposition parties; I would assume that they could do that for themselves. Clearly, the future funding regime around student support in Welsh higher education is important. I also hope—as I expressed last week to party spokespeople, in my comments last night at Cardiff University, once again during my media interviews today, and I will do it one more time—for as consensual an approach to this very important issue as is possible across parties and across Welsh civil society. I was under the impression that the Welsh Conservatives shared that ambition. They seem to have shared it for about 18 hours thus far.

Wel, Lywydd, nid fy lle i yw tanlinellu na nodi pa faterion ym mywyd cyhoeddus Cymru sy'n wirioneddol bwysig er budd y gwrthbleidiau; byddwn yn tybio y gallant wneud hynny drostynt eu hunain. Yn amlwg, mae'r gyfundrefn ariannu o ran cymorth i fyfyrwyr mewn addysg uwch yn y dyfodol yng Nghymru'n bwysig. Rwyf hefyd yn gobeithio—fel y dywedais yr wythnos diwethaf wrth lefarwyr y pleidiau, yn fy sylwadau neithiwr ym Mhrifysgol Caerdydd, unwaith eto yn ystod fy nghyfweliadau â'r cyfryngau heddiw, a gwnaf hynny unwaith eto—gweld ymagwedd mor gydsyniol â phosibl at y mater pwysig iawn hwn ar draws y pleidiau ac ar draws cymdeithas sifil Cymru. Roeddwn dan yr argraff bod Ceidwadwyr Cymru'n rhannu'r uchelgais hwnnw. Mae'n ymddangos eu bod wedi ei rannu am tua 18 awr hyd yn hyn.

14:17 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Plaid Cymru welcomes in principle the establishment of what we may be calling the Diamond commission before long, and we have called for such cross-party co-operation for some months. However, the Minister's response to the urgent question today leaves two key questions unresolved. First, why cannot this commission report much earlier so as to inform all parties' policies for the next election, and to give the people of Wales a choice about the sort of policies that they want to see in HE? Surely, the Minister cannot intend to go into a Welsh general election without a higher education funding policy. The second key question that the Minister must answer today, or very soon, is: what will be the remit and membership of the commission, and how will it be empowered to act according to its own terms of reference as much as possible? I am sure that Professor Diamond would want to be in control of his own review in that analysis. A commission that does not report until after the next election will be seen as saying as much about the reluctance of the Minister to engage with his own party on reform as it does about anything else. However, if this is a genuine cross-party commission, we will play our part fully, but we will also continue to scrutinise and advance our own ideas.

Mae Plaid Cymru'n croesawu, mewn egwyddor, sefydlu'r hyn y gallem fod yn ei alw'n gomisiwn Diamond cyn bo hir, ac rydym yn galw am gydweithredu o'r fath rhwng y pleidiau ers rhai misoedd. Fodd bynnag, mae ymateb y Gweinidog i'r cwestiwn brys heddiw yn gadael dau gwestiwn allweddol heb eu hateb. Weinidog, pam na all y comisiwn hwn adrodd yn gynharach o lawer er mwyn llywio polisïau pob plaid ar gyfer yr etholiad nesaf, a rhoi dewis i bobl Cymru am y math o bolisïau yr hoffent eu gweld ym maes addysg uwch? Does bosib ei bod yn fwriad gan y Gweinidog fynd i mewn i etholiad cyffredinol yng Nghymru heb bolisi ariannu addysg uwch. Yr ail gwestiwn allweddol y mae'n rhaid i'r Gweinidog ei ateb heddiw, neu'n fuan iawn, yw hyn: beth fydd cylch gwaith ac aelodaeth y comisiwn, a sut y caiff ei rymuso i weithredu'n unol â'i gylch gorchwyl ei hun cyhyd ag y bo modd? Rwyf yn siŵr y byddai ar yr Athro Diamond eisiau rheolaeth dros ei adolygiad ei hun yn y dadansoddiad hwnnw. Os na fydd y comisiwn yn adrodd tan ar ôl yr etholiad nesaf, un o'r prif gasgliadau a gaiff eu ffurfio fydd bod y Gweinidog yn amharod i ymgysylltu â'i blaid ei hun ar ddiwygio. Fodd bynnag, os yw hwn yn gomisiwn gwirioneddol drawsbleidiol, byddwn yn chwarae ein rhan yn llawn, ond byddwn hefyd yn parhau i graffu ac i ddatblygu ein syniadau ein hunain.

14:18 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would reassure the Plaid Cymru spokesperson that this is, of course, a genuine and sincere attempt to secure a stable future for Welsh higher education. We are talking about a future post 2016, and I would hope a future that goes some way into the 2020s and possibly beyond. The more that we can, across Welsh political life and across Welsh civil society, debate ourselves towards a robust and consensual future in terms of student support, the greater the service we will have performed for Welsh students and for Welsh higher education. Of course, the review could report earlier—it could report a week on Wednesday, in a year's time, or in five years' time—but I have made my opinion very clear that this is a complex issue that needs a good time in which—[Interruption.]

Hoffwn sicrhau llefarydd Plaid Cymru mai ymgais didwyll a diffuant yw hyn, wrth gwrs, i sicrhau dyfodol sefydlog i addysg uwch yng Nghymru. Rydym yn sôn am ddyfodol ar ôl 2016 a, byddwn yn gobeithio, am ddyfodol sy'n mynd gryn ffordd i mewn i'r 2020au ac o bosibl y tu hwnt i hynny. Po fwyaf y gallwn, ar draws bywyd gwleidyddol Cymru ac ar draws cymdeithas sifil Cymru, ddadlau ein ffordd tuag at ddyfodol cadarn a chydsyniol o ran cymorth i fyfyrwyr, mwyaf y gwasanaeth y byddwn wedi'i gyflawni i fyfyrwyr o Gymru ac i addysg uwch yng Nghymru. Wrth gwrs, gallai'r adolygiad gyflwyno adroddiad yn gynharach —gallai adrodd wythnos i ddydd Mercher, ymhen blwyddyn, neu ymhen pum mlynedd—ond rwyf wedi lleisio fy marn yn glir iawn fod hwn yn fater cymhleth a bod angen digonedd o amser i—[Torri ar draws.]

Presiding Officer, perhaps we can see here this afternoon why it is difficult to contend with difficult issues such as this, which matter so very much to young people here in Wales, when so many people are content to address the issue on the basis of cheap political point scoring instead of getting to grips—[Interruption].

Lywydd, efallai y gallwn weld yma y prynhawn yma pam y mae'n anodd ymdrin â materion anodd fel hwn, sydd mor bwysig i bobl ifanc yma yng Nghymru, pan fo cynifer o bobl yn fodlon ymdrin â'r mater drwy geisio sgorio pwyntiau gwleidyddol hawdd yn hytrach na mynd i'r afael —[Torri ar draws].

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:20 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Instead of getting to grips with the fundamental issues that matter. I have made it clear. In 2015, we will see a general election and the debate that goes with that, and, in 2016, we will see a Welsh general election and the debate that goes with that. However, what we must have from this review is an enduring settlement that is above and beyond the sound and fury of any particular election campaign, and hence the timetable.

Yn hytrach na mynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n bwysig. Rwyf wedi ei gwneud yn glir. Yn 2015, byddwn yn gweld etholiad cyffredinol a'r ddadl sy'n gysylltiedig â hynny, ac, yn 2016, byddwn yn gweld etholiad cyffredinol yng Nghymru a'r ddadl sy'n gysylltiedig â hynny. Fodd bynnag, yr hyn y mae'n rhaid inni ei sicrhau o'r adolygiad hwn yw setliad parhaol sydd y tu hwnt i sain a llid unrhyw ymgyrch etholiadol penodol, a dyna pam y mae'r amserlen fel y mae.

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that people thought that it was important. That is why they asked the urgent question, Minister. I call Aled Roberts.

Credaf fod pobl yn meddwl ei fod yn bwysig. Dyna pam y gofynnwyd y cwestiwn brys, Weinidog. Galwaf Aled Roberts.

14:21 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I recognise the importance of the issue, not only as far as student support is concerned, but also in relation to the role that universities will play if we are to change the economic success of our country. I ask you to consider the timeline as far this commission is concerned, given that the Silk commission itself was able to address a whole range of issues in a much shorter timeframe than the three years that have been given to this commission. I do think that there is need. There is a Wales Audit Office report this week, which will deal with the sustainability or otherwise of this current system, despite what the First Minister says.

Weinidog, rwyf yn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn, nid yn unig o ran cymorth i fyfyrwyr, ond hefyd o ran y swyddogaeth a fydd i brifysgolion os ydym am newid llwyddiant economaidd ein gwlad. Gofynnaf ichi ystyried llinell amser y comisiwn hwn, o gofio bod comisiwn Silk ei hun wedi gallu ymdrin ag ystod eang o faterion o fewn amserlen fyrrach o lawer na'r tair blynedd a roddwyd i'r comisiwn hwn. Credaf fod angen gwneud hynny. Cawn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yr wythnos hon, a fydd yn ymdrin â chynaliadwyedd neu ddiffyg cynaliadwyedd y system bresennol, er gwaethaf yr hyn y mae'r Prif Weinidog yn ei ddweud.

In reality, if this commission does not report until 2016, it will take at least two years for a new funding mechanism to be put in place and a further three years before a whole cohort moves through university. Are we really suggesting that Welsh higher education can wait until 2020, or 2021, until we have a successor to the current regime?

Mewn gwirionedd, os nad yw'r comisiwn hwn yn adrodd tan 2016, bydd yn cymryd o leiaf ddwy flynedd i roi mecanwaith ariannu newydd ar waith a thair blynedd arall cyn i garfan gyfan symud drwy'r brifysgol. A ydym yn awgrymu mewn gwirionedd y gall addysg uwch yng Nghymru aros tan 2020, neu 2021, nes y bydd gennym olynydd i'r drefn bresennol?

14:22 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have a stable, affordable student finance regime in place at the moment. I would challenge any opposition spokesperson or opposition Assembly Member to put forward the figures that prove that it is not. We do have a window of time because of the pledge made by my predecessor, and the pledge made by the Labour Party at the last Assembly election, to support students across Wales. We have a period of stability, at least between now and 2016.

Mae gennym gyfundrefn cyllid myfyrwyr fforddiadwy, sefydlog ar waith ar hyn o bryd. Byddwn yn herio unrhyw lefarydd gwrthblaid neu Aelod Cynulliad gwrthblaid i gyflwyno'r ffigurau sy'n profi nad yw hynny'n wir. Mae gennym ffenestr amser oherwydd yr addewid a wnaeth fy rhagflaenydd, a'r addewid a wnaeth y Blaid Lafur yn etholiad diwethaf y Cynulliad, i gefnogi myfyrwyr ledled Cymru. Mae gennym gyfnod o sefydlogrwydd, o leiaf rhwng nawr a 2016.

However, I am very open and honest about the fact that we also need to plan for the future beyond that. In terms of the timeline, I can understand the questions and people's concerns about the timeline here, but it is important to understand that I am making a sincere and honest attempt here at a cross-party debate, which carries with it evidence before point scoring. I would have hoped that that would last throughout the lifetime of the review. We need something here that does a good job for Wales and for the young people of Wales.

Fodd bynnag, rwyf yn agored ac yn onest am y ffaith fod angen inni hefyd gynllunio ar gyfer y dyfodol y tu hwnt i hynny. O ran yr amserlen, gallaf ddeall y cwestiynau a phryderon pobl am yr amserlen yn hyn o beth, ond mae'n bwysig deall fy mod yn gwneud ymgais ddidwyll a gonest yma i gael dadl drawsbleidiol, lle mae tystiolaeth yn bwysicach na sgorio pwyntiau. Byddwn yn gobeithio y byddai hynny'n para drwy gydol oes yr adolygiad. Mae arnom angen rhywbeth yma sy'n gwneud gwaith da dros Gymru a thros bobl ifanc Cymru.

When I issue a statement to Members with full details of the membership remit and scope of the review panel's intended work over the next two years—and I will make that statement, despite being asked an urgent question on it today, when I have not actually made the statement to the Chamber—I hope that we can move beyond this initial synthetic outrage on the part of opposition parties into a full and proper debate.

Pan fyddaf yn cyhoeddi datganiad i'r Aelodau â manylion llawn aelodaeth, cylch gwaith a chwmpas y gwaith y bwriedir i'r panel adolygu ei wneud dros y ddwy flynedd nesaf—a byddaf yn gwneud y datganiad hwnnw, er bod cwestiwn brys wedi'i ofyn imi amdano heddiw, pan nad wyf hyd yn oed wedi gwneud y datganiad i'r Siambr—rwyf yn gobeithio y gallwn symud y tu hwnt i'r dicter synthetig cychwynnol hwn ar ran y gwrthbleidiau tuag at ddadl lawn a phriodol.

14:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The final question is from Leighton Andrews.

Mae'r cwestiwn olaf gan Leighton Andrews.

14:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the Minister agree that policy outcomes at a UK level following the next 2015 general election could be a critical factor in informing the work of this review? Does he also agree with me that it is essential that the full first year cohort pass through their three years of study, which will be in the summer of 2015, so that the review can take a proper view of what has transpired? Finally, does he agree that, far from being unsustainable, the cost of this policy, on latest estimates, is several hundred million pounds lower than the estimates available to the One Wales Government when we implemented this policy three years ago?

A yw'r Gweinidog yn cytuno y gallai canlyniadau polisi ar lefel y DU ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf yn 2015 fod yn ffactor allweddol o ran llywio gwaith yr adolygiad hwn? A yw hefyd yn cytuno â mi ei bod yn hanfodol bod carfan lawn y flwyddyn gyntaf yn mynd drwy eu tair blynedd o astudio, a fydd yn haf 2015, fel y gall yr adolygiad gael gweld yn iawn yr hyn sydd wedi digwydd? Yn olaf, a yw'n cytuno bod cost y polisi hwn, yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf, gannoedd o filiynau o bunnau'n is na'r amcangyfrifon a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru'n Un pan roddwyd y polisi hwn ar waith dair blynedd yn ôl, a'i bod ymhell o fod yn anghynaliadwy?

14:24 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course. The Member for Rhondda is quite right and the figures are publicly available. Not only is this current system of student support and HE funding robust, it is manifestly affordable, and, in fact, is coming in £200 million, as the Member says, under the cost predicted just a few years ago.

Wrth gwrs. Mae Aelod y Rhondda yn llygad ei le ac mae'r ffigurau ar gael i'r cyhoedd. Mae'r system bresennol hon ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a chyllido addysg uwch nid yn unig yn gadarn, ond mae'n amlwg yn fforddiadwy, ac, yn wir, yn costio £200 miliwn yn llai, fel y dywed yr Aelod, na'r gost a ragwelwyd dim ond ychydig flynyddoedd yn ôl.

In reference to Leighton Andrews's other points, they are points that are very important, and I hope that the opposition parties will listen carefully and take them on board. We have a general election in 2015, which could change profoundly the context within which Welsh higher education has to operate. So, it would be thoroughly pointless to have a review with a timetable that had a reporting deadline before 2015 at least. I would apply the same logic around the sustaining of a consensual debate through the sound and fury of a Welsh general election too, and I apply that logic likewise to that. It might well be the case that post 2015 and the general election, we could be in such a different context that we would need, almost, to start reviewing the situation all over again, and clearly that would be silly.

O ran pwyntiau eraill Leighton Andrews, maent yn bwyntiau pwysig iawn, ac rwyf yn gobeithio y gwnaiff y gwrthbleidiau wrando'n ofalus ac ystyried y pwyntiau hyn. Mae gennym etholiad cyffredinol yn 2015, a allai newid yn sylfaenol y cyd-destun y mae addysg uwch yng Nghymru'n gweithredu ynddo. Felly, byddai'n gwbl ddibwrpas cael adolygiad ag amserlen â therfyn amser adrodd cyn 2015 o leiaf. Byddwn yn defnyddio'r un rhesymeg ynglŷn â chynnal dadl gydsyniol drwy sain a llid etholiad cyffredinol Cymru hefyd, ac rwyf yn defnyddio'r rhesymeg honno yn yr un modd ar gyfer hynny. Efallai y byddwn, yn wir, mewn sefyllfa mor wahanol ar ôl 2015 a'r etholiad cyffredinol nes y byddai angen inni, bron, ailddechrau adolygu'r sefyllfa o'r cychwyn, ac yn amlwg byddai hynny'n wirion.

I would also say—[interruption.]

Byddwn hefyd yn dweud—[Torri ar draws.]

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:26 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would also say that the Member for the Rhondda's second point about considering the evidence of where we are, taking on board the fact that we need to see a full cohort pass through its three-year undergraduate study, is plain common sense. Let us get back to common sense and away from this synthetic first-day argument around a review that the Welsh public will see for what it is, which is of profound importance, even if some elements in this Chamber cannot.

Byddwn hefyd yn dweud bod ail bwynt Aelod y Rhondda ynglŷn ag ystyried y dystiolaeth am ble yr ydym, gan ystyried y ffaith fod angen inni weld carfan lawn yn mynd drwy eu hastudiaethau israddedig tair blynedd, yn amlwg yn synnwyr cyffredin. Gadewch inni droi'n ôl at synnwyr cyffredin ac oddi wrth y ddadl synthetig hon ar y diwrnod cyntaf am yr adolygiad; bydd y cyhoedd yng Nghymru'n gallu gweld beth ydyw, sy'n bwysig iawn, hyd yn oed os na all rhai elfennau yn y Siambr hon weld hynny.

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

14:26

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv
Fideo Video

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have one change to report to this week's business: the time allocated to tomorrow's questions to the Counsel General has been reduced. Business for the next three weeks in as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon: mae'r amser a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau yfory i'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei gwtogi. Mae busnes y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymysg papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:27

### Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, there are huge concerns in my constituency surrounding the future of core health services at Withybush General Hospital. It has been suggested that, after March next year, the paediatric department at the hospital will operate on a part-time basis only: that is, it will not operate overnight. If that happens, it will have a knock-on effect on accident and emergency services. It has been put to me that A&E services will then operate only on a part-time basis as well, because operating a full-time A&E department is dependent on having a full-time paediatric department. Should this take place, it will be totally unacceptable and will put people's lives at risk in Pembrokeshire. Given the circumstances, I would ask you to urge the Minister for health to bring forward an urgent statement on the future of core services at Withybush hospital as soon as possible. It is imperative that the Government make a full statement in order to clarify the position and to give us an opportunity to scrutinise any changes proposed.

Weinidog, mae pryderon mawr yn fy etholaeth ynghylch dyfodol gwasanaethau iechyd craidd yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Awgrymwyd y bydd yr adran pediatrig yn yr ysbyty, ar ôl mis Mawrth y flwyddyn nesaf, yn gweithredu'n rhan-amser yn unig: hynny yw, ni fydd yn gweithredu dros nos. Os digwydd hynny, bydd yn cael effaith ganlyniadol ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys. Rwyf ar ddeall y bydd gwasanaethau damweiniau ac achosion brys hefyd felly'n gweithredu ar sail ran-amser yn unig, gan fod cynnal adran damweiniau ac achosion brys lawn amser yn dibynnu ar gael adran bediatrig lawn amser. Os digwydd hyn, bydd yn gwbl annerbyniol a bydd yn peryglu bywydau pobl yn sir Benfro. Ac ystyried yr amgylchiadau, byddwn yn gofyn ichi annog y Gweinidog iechyd i gyflwyno datganiad brys am ddyfodol gwasanaethau craidd yn ysbyty Llwynhelyg cyn gynted ag y bo modd. Mae'n hanfodol fod y Llywodraeth yn gwneud datganiad llawn er mwyn egluro'r sefyllfa a rhoi cyfle inni i graffu ar unrhyw newidiadau arfaethedig.

14:28

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Minister for Health and Social Services has already made an oral statement on this and has asked Hywel Dda Local Health Board to clarify its plans for obstetric and midwifery services, following his provisional endorsement of its case to develop a level 2 neonatal unit at Glangwili hospital. Obviously, that additional piece of work will then have to be considered by a reconvened scrutiny panel, and the Minister plans to announce his final determination on neonatal provision in the area by oral statement as soon as possible in the new year.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi gwneud datganiad llafar am hyn ac wedi gofyn i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda egluro ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau obstetrig a gwasanaethau bydwreigiaeth, ar ôl i'r Gweinidog roi cymeradwyaeth amodol i achos y bwrdd i ddatblygu uned newyddenedigol lefel 2 yn ysbyty Glangwili. Yn amlwg, bydd yn rhaid i'r darn ychwanegol hwnnw o waith gael ei ystyried gan banel craffu wedi'i ailgynnull, ac mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi ei benderfyniad terfynol am ddarpariaeth newyddenedigol yn yr ardal mewn datganiad llafar cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn newydd.

14:28

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Each week, chapels are becoming redundant and many of those that are not redundant are seeing reducing congregations. In many areas, such as my constituency, these chapel buildings are major landmarks. May I ask for a statement on the future of former chapel buildings in Wales?

Bob wythnos, mae capeli'n cau a chynulleidfaoedd llawer o'r capeli nad ydynt yn cau yn crebachu. Mewn llawer o ardaloedd, fel fy etholaeth i, mae adeiladau'r capeli hyn yn dirnodau pwysig. A gaf i ofyn am ddatganiad am ddyfodol hen adeiladau capel yng Nghymru?

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I thank Mike Hedges for that question. I think that everyone is concerned about the number of chapels that are closing and the impact that this has on community life, but it is perhaps possible to use the buildings for different purposes or as a community resource, and I know that the Minister for Culture and Sport's officials have been having discussions with Cadw, because it is developing new guidance for the care and conservation of places of worship, so we will probably see how that guidance comes out before any statement comes from the Minister.

Diolch i Mike Hedges am y cwestiwn hwnnw. Credaf fod pawb yn pryderu am nifer y capeli sy'n cau ac am effaith hyn ar fywyd y gymuned, ond efallai ei bod yn bosibl defnyddio'r adeiladau at ddibenion eraill neu fel adnodd cymunedol, a gwn fod swyddogion y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon wedi bod yn cael trafodaethau â Cadw, gan ei fod yn datblygu canllawiau newydd ar gyfer gofal a chadwraeth mannau addoli, felly mae'n debyg y byddwn yn aros i weld y canllawiau hynny cyn i'r Gweinidog wneud unrhyw ddatganiad.

Senedd.tv Fideo Video

14:29 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Minister, may I ask you to bring forward a statement on the Welsh Government's stance with regards to the 'Now is the time…' nationwide campaign launched this week by BUSK, a Newport-based bus safety group? The campaign seeks to halt the current system under which teachers and other volunteers can drive school-owned minibuses carrying up to 16 passengers without having sat a minibus driving test, passed a medical, or carrying out any safety checks—unlike commercial drivers. This is allowed by permit 19 licences, which are issued to schools by local authorities, not by the DVLA. Once a permit 19 minibus operator licence has been issued, it is not subject to monitoring by any regulating body.

Weinidog, a gaf i ofyn ichi gyflwyno datganiad am safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ymgyrch genedlaethol 'Nawr yw'r amser ...' a lansiwyd yr wythnos hon gan BUSK, grŵp diogelwch bysiau yng Nghasnewydd? Mae'r ymgyrch yn ceisio atal y system bresennol lle gall athrawon a gwirfoddolwyr eraill yrru bysiau mini sy'n eiddo i ysgolion a chludo hyd at 16 o deithwyr heb fod wedi sefyll prawf gyrru bws mini, pasio prawf meddygol, na chynnal unrhyw wiriadau diogelwch—yn wahanol i yrwyr masnachol. Caiff hyn ei ganiatáu drwy drwyddedau hawlen 19, sy'n cael eu rhoi i ysgolion gan awdurdodau lleol, nid gan y DVLA. Unwaith y bydd trwydded gweithredwr bws mini hawlen 19 wedi ei chyhoeddi, nid yw'n destun monitro gan unrhyw gorff rheoleiddio.

Senedd.tv Fideo Video

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I thank William Graham for the question. The Minister for Economy, Science and Transport will be happy to make a statement in due course.

Diolch i William Graham am y cwestiwn. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn hapus i wneud datganiad maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

14:30 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Last Saturday, I attended the one hundred and twenty-fifth anniversary of the Tongwynlais Temperance Band, which was a fantastic occasion, with wonderful music. I was particularly struck by the number of young people who were in the band. Would it be possible to have a debate to discuss how we can learn from this resurgence of brass bands in Wales, and see what more we can do to encourage them?

Ddydd Sadwrn diwethaf, bûm mewn digwyddiad i ddathlu pen-blwydd Band Dirwest Tongwynlais yn gant a phump ar hugain, a oedd yn achlysur gwych, gyda cherddoriaeth wych. Fe'm trawyd yn arbennig gan nifer y bobl ifanc a oedd yn y band. A fyddai'n bosibl cael dadl i drafod sut y gallwn ddysgu o adfywiad bandiau pres yng Nghymru, a gweld sut y gallwn wneud mwy i'w hannog?

Senedd.tv Fideo Video

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I would certainly add my congratulations to the temperance band on reaching its one hundred and twenty-fifth anniversary. I do not think that it is necessary to have a debate on the issue, but I fully understand the contribution that grass-roots music groups, including brass bands, make to our culture. I think that music is a great redeemer of life, and it brings a lot of pleasure and enjoyment to participants and audiences.

Hoffwn yn sicr ychwanegu fy llongyfarchiadau i'r band dirwest ar gyrraedd ei ben-blwydd yn gant a phump ar hugain. Nid wyf yn credu bod angen cael dadl ar y mater, ond rwyf yn deall yn iawn y cyfraniad y mae grwpiau cerddoriaeth ar lawr gwlad, gan gynnwys bandiau pres, yn ei wneud i'n diwylliant. Credaf fod cerddoriaeth yn un o waredwyr mawr bywyd, ac mae'n dod â llawer o bleser a mwynhad i gyfranogwyr ac i gynulleidfaoedd.

Senedd.tv Fideo Video

14:31 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Leader of the house, could we have two statements? The first statement would be on animal welfare. I appreciate the efforts that the Minister for Natural Resources and Food is making in pushing legislation—consensually, I hope—through the Chamber, regarding fly-grazing. However, there was a serious issue last week in the Vale of Glamorgan, where a substantial number of horses had to be put down. I know that there have been similar examples in other parts of Wales. While we await this legislation, is it possible to have a statement from the Minister for Natural Resources and Food to update Members as to the animal welfare position across Wales, and the situation that many of these horses are finding themselves in as we go further into the winter?

Arweinydd y tŷ, a gawn ni ddau ddatganiad? Byddai'r datganiad cyntaf ynglŷn â lles anifeiliaid. Rwyf yn gwerthfawrogi'r ymdrechion y mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn eu gwneud i wthio deddfwriaeth—yn gydsyniol, rwyf yn gobeithio—drwy'r Siambr, ynghylch pori anghyfreithlon. Fodd bynnag, bu achos difrifol yr wythnos diwethaf ym Mro Morgannwg, lle bu'n rhaid difa nifer sylweddol o geffylau. Gwn y bu enghreifftiau tebyg mewn rhannau eraill o Gymru. A ninnau'n aros am y ddeddfwriaeth hon, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y sefyllfa o ran lles anifeiliaid ledled Cymru, ac am sefyllfa llawer o'r ceffylau hyn wrth inni fynd ymhellach i mewn i'r gaeaf?

The second statement that I would seek to secure is one from the Minister with responsibility for planning, as to the status of local development plans. In the response that the Minister gave me to a recent written question, he indicated that many local authorities are working without current local development plans in place. I would be grateful to understand how the Minister and his officials are working with local authorities to bring local development plans up to speed, so that developers do not build with a shotgun held to planning committees' heads, and that developments are developed by appeal, rather than through a consensual approach with local authorities.

Yn ail, hoffwn gael datganiad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio ynglŷn â statws cynlluniau datblygu lleol. Yn yr ymateb a roddodd y Gweinidog imi i gwestiwn ysgrifenedig diweddar, dywedodd fod llawer o awdurdodau lleol yn gweithio heb gynlluniau datblygu lleol cyfredol ar waith. Hoffwn gael gwybod sut y mae'r Gweinidog a'i swyddogion yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ddiweddaru cynlluniau datblygu lleol, fel nad yw datblygwyr yn dal gwn at bennau pwyllgorau cynllunio wrth adeiladu, ac fel bod datblygiadau'n cael eu datblygu drwy apêl, yn hytrach na thrwy ddull cydsyniol gydag awdurdodau lleol.

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You referred to the fly-grazing legislation that is currently progressing through the Assembly. The Minister for Natural Resources and Food will be happy to meet with you to discuss those issues.

Soniasoch am y ddeddfwriaeth pori anghyfreithlon sy'n mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd. Bydd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn hapus i gyfarfod â chi i drafod y materion hynny.

My officials and the Minister for Housing and Regeneration's officials are working together on this. My understanding is that all local authorities have business cases in place, if not full LDPs.

Mae fy swyddogion a swyddogion y Gweinidog Tai ac Adfywio yn cydweithio ar hyn. Fy nealltwriaeth i yw bod achos busnes ar waith gan bob awdurdod lleol, os nad cynllun datblygu lleol llawn.

14:33 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, last week, I attended a meeting alongside councillors and the police to discuss the issue of so-called legal highs, and their growing impact on communities in Torfaen, and across Wales. You may be aware that Gwent Police has recently raided a legal high shop in my constituency, and the 'South Wales Argus' has been running a high-profile campaign, highlighting the impact of MCAT on the Gwent valleys. I realise that this is a non-devolved issue in some respects, but there are important health and education aspects of this issue that are the responsibility of the Assembly. Therefore, I would like to ask for a statement in the Chamber on this issue, as a starting point for a wider debate on an issue that is having a massive impact on communities across Wales.

Weinidog, yr wythnos diwethaf, bûm mewn cyfarfod ynghyd â chynghorwyr a'r heddlu i drafod mater anterthau cyfreithlon, fel y'u gelwir, a'u heffaith gynyddol ar gymunedau yn Nhorfaen, a ledled Cymru. Efallai eich bod yn ymwybodol bod Heddlu Gwent yn ddiweddar wedi cynnal cyrch ar siop anterthau cyfreithlon yn fy etholaeth, ac mae'r 'South Wales Argus' wedi bod yn cynnal ymgyrch uchel ei phroffil, gan dynnu sylw at effaith MCAT ar gymoedd Gwent. Deallaf fod hwn yn fater sydd heb ei ddatganoli mewn rhai ffyrdd, ond mae agweddau pwysig ar y mater hwn sy'n gysylltiedig ag iechyd ac addysg sy'n gyfrifoldeb ar y Cynulliad. Felly, hoffwn ofyn am ddatganiad yn y Siambr am y mater hwn, fel man cychwyn i drafodaeth ehangach am fater sy'n cael effaith enfawr ar gymunedau ledled Cymru.

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. I was aware of the specific issues in the Gwent and Torfaen area. The Minister for Health and Social Services recently published his annual report on the delivery of ‘Working Together to Reduce Harm’, which included information on the work in relation to legal highs. The Minister has a question session in the Chamber tomorrow if you would like to question him.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Rwyf yn ymwybodol o'r materion penodol yn ardal Gwent a Thorfaen. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei adroddiad blynyddol ar gyflwyno 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y gwaith ynglŷn ag anterthau cyfreithlon. Mae gan y Gweinidog sesiwn holi yn y Siambr yfory os hoffech ei holi.

14:34 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wish to call for two Welsh Government statements. The first statement on the spread of parvovirus. Animal rescue charities have raised concerns with me that parvovirus in dogs is spreading, and they are seeing increased numbers of animals arriving with them, and often dying, with the condition. They say that the public needs to be made aware of the threat, and of the need to vaccinate their animals. Vets are advertising the threat in their surgeries, but not all members of the public see this, and it needs to be published through a public information campaign in libraries, council offices and anywhere else where members of the public regularly go.

Hoffwn alw am ddau ddatganiad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r datganiad cyntaf yn ymwneud â lledaeniad parfofirws. Mae elusennau achub anifeiliaid wedi codi pryderon gyda mi bod parfofirws mewn cŵn yn lledaenu, ac maent yn gweld nifer cynyddol o anifeiliaid yn cyrraedd a’r cyflwr arnynt, ac yn aml yn marw ohono. Maent yn dweud bod angen i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r bygythiad, ac am yr angen i frechu eu hanifeiliaid. Mae milfeddygon yn hysbysebu’r bygythiad yn eu milfeddygfeydd, ond nid yw pob aelod o'r cyhoedd yn gweld hyn, ac mae angen ei gyhoeddi drwy ymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd mewn llyfrgelloedd, yn swyddfeydd y cyngor ac mewn mannau eraill lle mae aelodau o'r cyhoedd yn mynd yn rheolaidd.

Secondly, and finally, I wish to raise a matter that I know that you, personally, will be concerned about, namely the announcement by HSBC that it is closing its Llangollen, Conwy and Beaumaris branches. What engagement is the Welsh Government having, could have, or will have, with the bank regarding this? Widespread concerns have been raised by constituents, business constituents and individual customers regarding the impact this will have on those areas, on themselves, the wellbeing of the businesses in their towns, on their communities, but also on the many thousands of tourists who visit the area. They are afraid that rural areas are taking the brunt, that this is not in the interest of customers and that it is a short-sighted business decision. They believe that we need to take a longer term, truly customer-focused approach.

Yn ail, ac yn olaf, rwyf am godi mater y gwn y byddwch chi, yn bersonol, yn pryderu amdano, sef y cyhoeddiad gan HSBC eu bod yn cau eu canghennau yn Llangollen, Conwy a Biwmares. Pa ymgysylltu sy’n digwydd, a allai ddigwydd, neu a fydd yn digwydd, rhwng Llywodraeth Cymru a’r banc ynglŷn â hyn? Mae etholwyr, etholwyr busnes a chwsmeriaid unigol wedi codi pryderon eang am yr effaith a gaiff hyn ar yr ardaloedd hynny, arnynt hwy eu hunain, ar les y busnesau yn eu trefi, ar eu cymunedau, ond hefyd ar y miloedd lawer o dwristiaid sy'n ymweld â'r ardal. Maent yn ofni mai ardaloedd gwledig sy’n cael y gwaethaf o hyn, nad yw er budd y cwsmeriaid a’i fod yn benderfyniad busnes cibddall. Maent o’r farn bod angen inni gymryd ymagwedd fwy hirdymor, sy’n canolbwyntio mewn gwirionedd ar y cwsmer.

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for raising those two issues. In relation to the spread of parvovirus, it is obviously a very dangerous condition that has a very significant public health impact and the Minister for Natural Resources and Food will make a statement to the Chamber, or provide a written statement.

Diolch ichi am godi'r ddau fater hynny. O ran lledaeniad parfofirws, mae'n amlwg yn gyflwr peryglus iawn sy'n cael effaith sylweddol iawn ar iechyd y cyhoedd, a bydd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn gwneud datganiad i'r Siambr, neu’n darparu datganiad ysgrifenedig.

In relation to your concerns about the closure of HSBC branches—and you referred to Llangollen in my colleague Ken Skates’s constituency—the Minister for Economy, Science and Transport has discussions with all banks and will update the Assembly in due course.

O ran eich pryderon am gau canghennau HSBC—a chyfeiriasoch at Langollen yn etholaeth fy nghyd-weithiwr Ken Skates—mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cynnal trafodaethau â'r holl fanciau a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad maes o law.

14:36 # Datganiad: Cyflwyno’r Bil Tai (Cymru)

# Statement: Introduction of the Housing (Wales) Bill

Senedd.tv
Fideo Video

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Yesterday, I laid the Housing (Wales) Bill, together with the explanatory memorandum, before the National Assembly for Wales. This is a significant piece of legislation and, if passed, it will become Wales’s first ever housing Act. The proposals are the result of a considerable body of work by many people and will contribute to further progress against this Government’s strategic housing priorities of more homes, better homes and better services. Many individuals and organisations have worked hard in producing and developing this Bill, including my predecessor, Huw Lewis, the then Minister for Housing, Regeneration and Heritage. There has been extensive consulation involving representatives of local government, landlords, letting agents, tenants, lenders, housing providers and a range of experts in the housing field. I would like to take the opportunity to thank them all for their valuable contribution to the development of this Bill.

Ddoe, gosodais Fil Tai (Cymru), ynghyd â’r memorandwm esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hwn yn ddarn arwyddocaol o ddeddfwriaeth ac, os caiff ei basio, hon fydd Deddf dai gyntaf Cymru erioed. Mae'r cynigion yn deillio o gorff sylweddol o waith gan lawer o bobl a byddant yn cyfrannu at gynnydd pellach yn erbyn blaenoriaethau tai strategol y Llywodraeth hon o fwy o gartrefi, gwell cartrefi a gwell gwasanaethau. Mae llawer o unigolion a sefydliadau wedi gweithio'n galed i gynhyrchu a datblygu’r Bil hwn, gan gynnwys fy rhagflaenydd, Huw Lewis, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar y pryd. Bu ymgynghori helaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, landlordiaid, asiantau gosod, tenantiaid, benthycwyr, darparwyr tai ac amrywiaeth o arbenigwyr yn y maes tai. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad y Bil hwn.

The benefit of having an affordable home in good condition is more than about just having a roof over one’s head. As well as contributing to the wellbeing of individuals and their families, a suitable, safe and secure home is key to the health, education and self-esteem of an individual. It is a vital component in a child’s upbringing, as well as providing the foundation for strong, safe and fair communities and contributing to the Government’s poverty reduction and promotion of equality agendas.

Mae’r fantais o gael cartref fforddiadwy mewn cyflwr da yn fwy na dim ond to dros eich pen. Yn ogystal â chyfrannu at les unigolion a'u teuluoedd, mae cartref addas a diogel yn allweddol i iechyd, addysg a hunan-barch unigolyn. Mae'n elfen hanfodol o fagwraeth plentyn, yn ogystal â’i fod yn darparu sylfaen ar gyfer cymunedau cryf, diogel a theg ac mae’n cyfrannu at agendâu lleihau tlodi a hyrwyddo cydraddoldeb y Llywodraeth.

With the obvious importance of decent homes, the new law-making powers granted to us in 2011 provide us with an excellent chance to improve what can be done to help meet people’s housing needs. Of course, more legislation is not always the solution to the problem. However, proportionate and well-thought out legislation can make a real difference to people’s lives and the Bill fits that aim. The proposals in it complement the broader policy action that we are taking to meet people’s housing needs and the ambitious targets that we have set for the delivery of new affordable homes and for bringing empty homes back into use, which has been backed by an investment of £20 million by this Welsh Government since 2012-13.

O gofio pwysigrwydd amlwg cartrefi priodol, mae'r pwerau deddfu newydd a roddwyd i ni yn 2011 yn rhoi cyfle gwych i ni wella'r hyn y gellir ei wneud i helpu i ddiwallu anghenion tai pobl. Wrth gwrs, nid mwy o ddeddfwriaeth yw’r ateb i'r broblem bob amser. Er hynny, gall deddfwriaeth gymesur y myfyriwyd arni’n drylwyr wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ac mae'r Bil yn cyd-fynd â’r nod hwnnw. Mae’r cynigion ynddo yn ategu'r camau polisi ehangach yr ydym yn eu cymryd i ddiwallu anghenion tai pobl a'r targedau uchelgeisiol yr ydym wedi eu gosod ar gyfer darparu cartrefi newydd fforddiadwy ac ar gyfer dod â chartrefi gwag yn nôl i ddefnydd, sydd wedi ei gefnogi drwy fuddsoddiad o £20 miliwn gan y Llywodraeth Cymru hon ers 2012-13.

The Bill has several component parts, each contributing to the desired outcomes in different ways and to different extents. The private rented sector is playing an increasingly important role in meeting housing needs. The Bill sets out requirements with respect to the registration and licensing of landlords and agents operating within the private rented sector. This will help improve standards in the private rented sector, make more information available on landlords for local authorities and tenants and lead to raised awareness by landlords of their rights and responsibilities. The Bill does more to tackle homelessness and the threat of homelessness. It ensures a greater emphasis on preventing homelessness in the first place by strengthening the role of prevention in the duties that local authorities owe to homeless people. It also helps to achieve a more inclusive approach to the provision of advice and assistance across the spectrum of people affected by homelessness and provide greater protection for children in households that are found to have caused their own homelessness.

Mae gan y Bil nifer o gydrannau, pob un yn cyfrannu at y canlyniadau a ddymunir mewn gwahanol ffyrdd ac i wahanol raddau. Mae'r sector rhentu preifat yn cyflawni swyddogaeth gynyddol bwysig o ran diwallu anghenion tai. Mae'r Bil yn nodi'r gofynion o ran cofrestru a thrwyddedu landlordiaid ac asiantau sy'n gweithredu o fewn y sector rhentu preifat. Bydd hyn yn helpu i wella safonau yn y sector rhentu preifat, yn sicrhau bod mwy o wybodaeth am landlordiaid ar gael i awdurdodau lleol a thenantiaid ac yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau ymhlith landlordiaid. Mae'r Bil yn gwneud mwy i fynd i'r afael â digartrefedd a'r bygythiad o ddigartrefedd. Mae'n sicrhau mwy o bwyslais ar atal digartrefedd yn y lle cyntaf trwy gryfhau swyddogaeth atal yn y dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol i bobl ddigartref. Mae hefyd yn helpu i sicrhau dull mwy cynhwysol o ddarparu cyngor a chymorth ar draws y sbectrwm o bobl y mae digartrefedd yn effeithio arnynt ac yn rhoi mwy o amddiffyniad i blant mewn aelwydydd y canfuwyd eu bod wedi achosi eu digartrefedd eu hunain.

The legislation, if enacted, will also place a new statutory duty on local authorities to provide new Gypsy and Traveller sites where an unmet need has been identified. Local authorities will be required to undertake robust assessments of accommodation needs and ensure that the required sites are provided. As well as improving the standard of accommodation for Gypsy and Traveller families, it will provide better access to services and help to address the inequalities suffered by the Gypsy and Traveller communities.

Bydd y ddeddfwriaeth, os caiff ei gweithredu, hefyd yn cyflwyno dyletswydd statudol newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd pan nodir bod angen heb ei ddiwallu. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiadau cadarn o anghenion llety a sicrhau y darperir y safleoedd angenrheidiol. Yn ogystal â gwella safon y llety i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr, bydd yn darparu gwell mynediad at wasanaethau ac yn helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a ddioddefir gan y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

The Bill sets a quality of accommodation standards in relation to social housing provided by local housing authorities that have retained their housing stock, too. This will place the Welsh housing quality standard on a statutory basis and enable consideration to be given to setting standards for new-build properties.

Mae'r Bil yn nodi safonau ansawdd llety ar gyfer tai cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau tai lleol sydd wedi cadw eu stoc tai, hefyd. Bydd hyn yn rhoi safon ansawdd tai Cymru ar sail statudol ac yn galluogi i ystyriaeth gael ei rhoi i osod safonau ar gyfer cartrefi sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd.

The legislation will also enable Welsh Ministers to set out standards for rents and service charges and issue guidance on these standards. This will require local authorities to charge rents and service charges separately and ensure that those tenants who receive services, pay the service charges and understand that completely.

Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau ar gyfer rhenti a thaliadau gwasanaeth ac i gyhoeddi canllawiau ar y safonau hyn. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol godi rhenti a thaliadau gwasanaeth ar wahân ac yn sicrhau bod y tenantiaid hynny sy'n derbyn gwasanaethau yn talu'r taliadau gwasanaeth ac yn deall hynny'n llwyr.

Having secured a financial agreement with the Treasury in June 2013, the Bill provides for the abolition of the housing revenue account subsidy system in Wales. It will be replaced with a new self-financing system, allowing each local authority to retain all of its rental income locally to support its local housing services.

Ar ôl sicrhau cytundeb ariannol gyda'r Trysorlys ym mis Mehefin 2013, mae'r Bil yn darparu ar gyfer diddymu system gymhorthdal y cyfrif refeniw tai yng Nghymru. Bydd yn cael ei disodli gan system hunan-ariannu newydd, gan ganiatáu i bob awdurdod lleol gadw ei holl incwm rhent yn lleol i gefnogi ei wasanaethau tai lleol.

We want to maximise housing choice for people and the legislation is intended to facilitate more co-operative housing by allowing fully mutual housing co-operatives to grant-assured tenancies should they choose, providing greater housing security for the co-operative members.

Rydym yn awyddus i sicrhau cymaint o ddewis ag sy'n bosibl o ran tai i bobl a bwriad y ddeddfwriaeth yw hwyluso mwy o dai cydweithredol trwy ganiatáu i fentrau tai cydweithredol cwbl gydfuddiannol roi tenantiaethau sicr os ydynt yn dymuno, gan roi mwy o sicrwydd tai i aelodau'r fenter gydweithredol.

Finally, the Bill provides for local authorities to charge an additional 50% on council tax on top of the standard charge on most properties that have been empty for 12 months or longer. This provides local authorities with the options or the tools for use in their efforts to bring empty homes back into use. The aim is to help make the best possible use of existing homes by giving owners an incentive to make them available for either sale or rent to people who need a home. The Bill will also make a dramatic difference to people's lives when this, I hope, is supported by Members across the Chamber. I look forward to the scrutiny of the Bill in the forthcoming weeks and commend it to the Chamber today. Diolch.

Yn olaf, mae'r Bil yn darparu ar gyfer awdurdodau lleol i godi 50% yn ychwanegol ar y dreth gyngor ar ben y tâl safonol ar y rhan fwyaf o eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy. Mae hyn yn rhoi'r opsiynau neu'r dulliau i awdurdodau lleol eu defnyddio yn eu hymdrechion i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd. Y nod yw helpu i wneud y defnydd gorau posibl o gartrefi presennol drwy roi cymhelliad i berchnogion sicrhau eu bod ar gael i'w gwerthu neu eu rhentu i bobl sydd angen cartref. Bydd y Bil hefyd yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i fywydau pobl pan gefnogir hyn, gobeithio, gan Aelodau ar draws y Siambr. Edrychaf ymlaen at graffu ar y Bil yn ystod yr wythnosau nesaf ac rwy'n ei gymeradwyo i'r Siambr heddiw. Diolch.

14:42

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement and for the pre-briefing meeting on this last week. We want to work constructively with you on the aspects that this Bill covers and seek agreement wherever possible, and oppose or scrutinise constructively where agreement cannot necessarily be found.

Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad ac am y cyfarfod cyn-briffio ar hyn yr wythnos diwethaf. Rydym eisiau gweithio'n adeiladol gyda chi ar yr agweddau y mae'r Bil hwn yn ymdrin â nhw a cheisio sicrhau cytundeb lle bynnag y bo'n bosibl, a gwrthwynebu neu graffu'n adeiladol lle na ellir sicrhau cytundeb o reidrwydd.

You refer to the 'ambitious targets'—your words—for new affordable homes and bringing homes back into use. You are probably aware that in the quarter to August the number of new-home registrations in Wales fell by another quarter or 24%. Welsh Government statistics show that the number of new social housing units in Wales fell by 71% between 1999 and 2011. Therefore, how will this Bill help increase the supply of new affordable homes through the measures it takes, or, as it appears, are its objectives more socially based, which is admirable but not a supply-based matter?

Rydych chi'n cyfeirio at y 'targedau uchelgeisiol'—eich geiriau chi—ar gyfer cartrefi newydd fforddiadwy a dod â chartrefi yn ôl i ddefnydd. Mae'n debyg eich bod yn ymwybodol bod nifer y cofrestriadau o gartrefi newydd yng Nghymru yn y chwarter hyd at fis Awst wedi gostwng o chwarter arall neu 24%. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod nifer yr unedau tai cymdeithasol newydd yng Nghymru wedi gostwng 71% rhwng 1999 a 2011. Felly, sut y bydd y Bil hwn yn helpu i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi newydd fforddiadwy drwy'r mesurau y mae'n eu cymryd, neu, fel y mae'n ymddangos, a yw ei amcanion wedi eu seilio'n fwy cymdeithasol, sydd i'w ganmol ond nid yn fater sy'n seiliedig ar gyflenwad?

You refer to the registration licensing of the private rented sector and landlords and agents. Do I presume that that refers to letting agents? Of course, we would endorse that. However, regarding the private rented sector you will be aware that concerns have been raised in Scotland, where they brought this equivalent legislation in in 2006. It has now come full circle after they found that criminal landlords were falling through the net, because precious resource was being used to regulate good landlords. Scotland is now beginning to move to more selective licensing in problem areas. We heard at the landlord open day in Cardiff, where you spoke, before you having to leave, about the fact that there are over 100 pieces of statutory legislation and over 400 regulations governing property already, and that rather than needing more regulation we need enforcement and implementation of what works.

Rydych chi'n cyfeirio at drwyddedu cofrestriad y sector rhentu preifat a landlordiaid ac asiantau. A ddylwn i dybio bod hynny'n cyfeirio at asiantau gosod? Wrth gwrs, byddem yn cefnogi hynny. Fodd bynnag, o ran y sector rhentu preifat, byddwch yn ymwybodol bod pryderon wedi cael eu codi yn yr Alban, lle y cyflwynwyd deddfwriaeth gyfatebol i hon yn 2006. Mae'r olwyn wedi gwneud tro crwn bellach ar ôl iddynt ganfod bod landlordiaid troseddol yn syrthio drwy'r rhwyd, oherwydd bod adnoddau gwerthfawr yn cael eu defnyddio i reoleiddio landlordiaid da. Mae'r Alban bellach yn dechrau symud at drwyddedu mwy detholus mewn meysydd sy'n peri problemau. Clywsom yn niwrnod agored y landlordiaid yng Nghaerdydd, lle siaradoch chi, cyn i chi orfod gadael, am y ffaith bod dros 100 o ddarnau o ddeddfwriaeth statudol a dros 400 o reoliadau yn llywodraethu eiddo eisoes, ac yn hytrach na bod angen mwy o reoleiddio mae angen gorfodi a gweithredu'r hyn sy'n gweithio.

How do you expect the blanket registration licensing scheme will improve the sector and what is it about your proposal that will make a criminal landlord comply when he or she does not already comply with the current comprehensive legislation? What plans do you have to enforce the proposed legislation regarding landlords and who will meet the cost of that enforcement?

Sut yr ydych chi'n disgwyl y bydd y cynllun trwyddedu cofrestriad cynhwysfawr yn gwella'r sector a beth yn eich cynnig chi fydd yn gwneud i landlord troseddol gydymffurfio pan nad yw eisoes yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gynhwysfawr gyfredol? Pa gynlluniau sydd gennych chi i orfodi'r ddeddfwriaeth arfaethedig o ran landlordiaid a phwy fydd yn talu cost y gorfodi hwnnw?

You referred to homelessness, the threat of homelessness and preventing homelessness. Clearly, we would all want to work towards that prevention. How will you ensure that the local authorities, which will be primarily delivering this, no doubt alongside housing associations, cannot use this to take people who are still technically homeless—'the hidden homeless' is one term used—off the statistics, so that they are not shown as no longer being homeless until they have actually delivered a housing solution for these people? Also, given questions and a commitment from the First Minister earlier, how will you deliver co-production between service users, people in housing or seeking supported or full housing, and service providers focused on best outcomes rather than simply ticking boxes to meet the funding requirements of Government programmes?

Cyfeiriasoch at ddigartrefedd, y bygythiad o ddigartrefedd ac atal digartrefedd. Yn amlwg, byddem i gyd eisiau gweithio tuag at yr atal hwnnw. Sut y byddwch chi'n sicrhau na all yr awdurdodau lleol, a fydd yn darparu hyn yn bennaf, ochr yn ochr â chymdeithasau tai heb os, ddefnyddio hyn i dynnu pobl sydd yn dal i fod yn dechnegol ddigartref—'y digartref cudd' yw un term a ddefnyddir—oddi ar yr ystadegau, fel na ddangosir nad ydynt yn ddigartref bellach tan eu bod wedi darparu ateb tai i'r bobl hyn mewn gwirionedd? Hefyd, o ystyried cwestiynau ac ymrwymiad gan y Prif Weinidog yn gynharach, sut y gwnewch chi ddarparu cyd-gynhyrchiad rhwng defnyddwyr gwasanaeth, pobl mewn tai neu sy'n chwilio am dai â chymorth neu dai llawn, a darparwyr gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau gorau yn hytrach na dim ond ticio blychau i fodloni gofynion ariannu rhaglenni'r Llywodraeth?

You referred to Gypsy and Traveller sites and the need to identify unmet need and require local authorities to assess and provide for that need. Further to our discussion last week, building on the evidence in the Niner report on the accommodation needs of Gypsies and Travellers, and on more recent research carried out by Bangor University on north Wales needs, how will you ensure that we look at the travelling distances and geographical areas of the communities, which cross many different counties and occasionally national boundaries, to ensure that the local authorities, collectively, are working with the communities concerned so that the need meets the real need rather than simply requiring each local authority to tick the box and provide a site?

Cyfeiriasoch at safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a'r angen i nodi angen heb ei ddiwallu a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu a darparu ar gyfer yr angen hwnnw. Yn dilyn ein trafodaeth yr wythnos diwethaf, gan adeiladu ar y dystiolaeth yn adroddiad Niner ar anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, ac ar waith ymchwil mwy diweddar a wnaed gan Brifysgol Bangor ar anghenion gogledd Cymru, sut y byddwch chi'n sicrhau ein bod yn edrych ar y pellterau teithio ac ardaloedd daearyddol y cymunedau, sy'n croesi llawer o wahanol siroedd, a ffiniau cenedlaethol o bryd i'w gilydd, er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau lleol, gyda'i gilydd, yn gweithio gyda'r cymunedau dan sylw fel bod yr angen yn diwallu'r angen go iawn yn hytrach na dim ond ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol roi tic yn y blwch a darparu safle?

You referred to the Welsh housing quality standard being placed on a statutory basis. We have no problem with that in principle, but how will you ensure that shortcuts are not taken and that local authorities that are seeking to achieve this do not cut corners, using reduced budgets to omit certain types of work or to miss out the hardest-to-treat homes?

Cyfeiriasoch at roi safon ansawdd tai Cymru ar sail statudol. Nid oes gennym unrhyw broblem gyda hynny mewn egwyddor, ond sut y byddwch chi'n sicrhau na fydd llwybrau brys yn cael eu cymryd ac nad yw awdurdodau lleol sy'n ceisio cyflawni hyn yn torri corneli, gan ddefnyddio cyllidebau llai i hepgor mathau penodol o waith neu i fethu'r cartrefi sydd fwyaf anodd eu trin?

You referred to the housing revenue account subsidy system allowing each local authority to retain moneys to support housing services. Of course, we support this. We have been calling for it for more than a decade, and this will bring us in line with the other side of the border. However, how will you advise the Assembly that debt levels that are then taken on by local authorities in consequence to the abolition of the HRA affect their ability to borrow, and advise where the decisions on their borrowing levels will be taken? I know that it comes under the Welsh Government, but where does the ministerial responsibility lie?

Cyfeiriasoch at system gymhorthdal y cyfrif refeniw tai yn galluogi pob awdurdod lleol i gadw arian i gefnogi gwasanaethau tai. Wrth gwrs, rydym ni'n cefnogi hyn. Rydym ni wedi bod yn galw amdano ers mwy na degawd, a bydd hyn yn golygu ein bod yn gweithredu yr un fath â'r ochr arall i'r ffin. Fodd bynnag, sut y byddwch chi'n hysbysu'r Cynulliad bod lefelau dyled y mae awdurdodau lleol yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt wedyn o ganlyniad i ddiddymu'r Cyfrif Refeniw Tai yn effeithio ar eu gallu i fenthyca, a hysbysu ble y bydd penderfyniadau ar eu lefelau benthyca yn cael eu gwneud? Rwy'n gwybod ei fod yn dod o dan Lywodraeth Cymru, ond pwy sydd â'r cyfrifoldeb gweinidogol?

In terms of co-operative housing, again, we have no objection in principle. It can be a wonderful way of ensuring its ownership and empowerment—

O ran tai cydweithredol, unwaith eto, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor. Gall fod yn ffordd wych o sicrhau ei perchnogaeth ac ymrymuso—

14:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you think that you could wind up now? You have spoken for longer than the Minister.

A ydych chi'n meddwl y gallech chi ddirwyn i ben nawr? Rydych chi wedi siarad am gyfnod hwy na'r Gweinidog.

14:48 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am just addressing the points on his—

Y cwbl rwy'n ei wneud yw mynd i'r afael â'r pwyntiau ar ei —

14:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, but you have spoken for longer than the Minister. Can you come to the questions?

Ie, ond rydych chi wedi siarad am fwy o amser na'r Gweinidog. A allwch chi ofyn y cwestiynau?

14:48 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How will you ensure that, as has happened in certain Scandinavian countries, this does not become a bolthole for wealthy people who want to select tenants who do not meet their social criteria out of the settlement? Finally, how will you ensure that the proposal for 150% council tax on empty homes does not penalise families and individuals who have personal problems in their lives, such as bereavement, and who therefore need a more sensitive approach? [Interruption.]

Sut y byddwch chi'n sicrhau nad yw hyn yn troi'n hafan i bobl gyfoethog sydd eisiau dewis tenantiaid nad ydynt yn bodloni eu meini prawf cymdeithasol y tu allan i'r anheddiad, fel sydd wedi digwydd mewn rhai gwledydd Sgandinafaidd? Yn olaf, sut y byddwch chi'n sicrhau nad yw'r cynnig ar gyfer 150% o dreth gyngor ar gartrefi gwag yn cosbi teuluoedd ac unigolion sydd â phroblemau personol yn eu bywydau, fel profedigaeth, ac sydd felly angen triniaeth fwy sensitif? [Torri ar draws.]

14:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry, Bethan Jenkins, did you want to make a contribution?

Mae'n ddrwg gennyf, Bethan Jenkins, a oeddech chi eisiau gwneud cyfraniad?

14:48 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No.

Nac oeddwn.

14:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch yn fawr.

14:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That was quite a long questioning session. I will try my best to recap some of the questions that the Member posed. I will start with the Member's starting position on housing supply. Of course, the housing Bill fits within the overall objectives of my department, which will complement the housing task force that we are looking to to increase the supply of homes as well. Within the specifics of the Bill, the co-operative model to which the Member made reference will give new opportunities to stabilise the creation of co-operative models, where it has been legislatively prohibitive for co-operatives to develop in the UK and in Wales. We will be addressing that within the Bill.

Roedd honna'n sesiwn holi eithaf hir. Byddaf yn gwneud fy ngorau i ailadrodd rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr Aelod. Rwyf am ddechrau gyda man cychwyn yr Aelod ar y cyflenwad tai. Wrth gwrs, mae'r Bil tai yn ffitio o fewn amcanion cyffredinol fy adran, a fydd yn cyd-fynd â'r tasglu tai yr ydym yn gobeithio y bydd yn cynyddu'r cyflenwad o gartrefi hefyd. O fewn manylion y Bil, bydd y model cydweithredol y cyfeiriodd yr Aelod ato yn cynnig cyfleoedd newydd i sefydlogi'r broses o greu modelau cydweithredol, lle mae wedi bod yn ddeddfwriaethol waharddol i fentrau cydweithredol ddatblygu yn y DU ac yng Nghymru. Byddwn yn mynd i'r afael â hynny yn y Bil.

We recognise the standards for Gypsy and Traveller sites within the need basis for local authorities, which will also include the additionality of home provision for Gypsy and Travellers with site provision. I will just pick up on the issue of Gypsy and Traveller solutions to which the Member made reference, and local authorities having to assess their needs beyond the boundaries of the natural local authority environment. I am very comfortable with local authorities assessing need on a regional basis. If that includes working across the border with England, that is something that I would encourage them to do, to take a holistic view on this very important issue. What I will not accept is a local authority that is not discharging its duty effectively. Where there is need, and it cannot find an agreed solution outside the community, I would expect the authority to provide a solution within the local authority. That is something that we have to make sure that we are very keen to pursue.

Rydym yn cydnabod y safonau ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr o fewn y sail angen ar gyfer awdurdodau lleol, a fydd hefyd yn cynnwys yn ogystal y ddarpariaeth o gartrefi i Sipsiwn a Theithwyr gyda'r ddarpariaeth o safleoedd. Hoffwn sôn am y mater o atebion i Sipsiwn a Theithwyr y cyfeiriodd yr Aelod atynt, ac awdurdodau lleol yn gorfod asesu eu hanghenion y tu hwnt i ffiniau amgylchedd naturiol yr awdurdod lleol. Rwy'n gyfforddus iawn gyda'r angen i awdurdodau lleol asesu ar sail ranbarthol. Os yw hynny'n cynnwys gweithio ar draws y ffin â Lloegr, mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn eu hannog i wneud, i gymryd golwg gyfannol ar y mater pwysig iawn hwn. Yr hyn nad wyf yn fodlon ei dderbyn yw awdurdod lleol nad yw'n cyflawni ei ddyletswydd yn effeithiol. Lle ceir angen, ac na all ddod o hyd i ateb y cytunir arno y tu allan i'r gymuned, byddwn yn disgwyl i'r awdurdod i ddarparu ateb o fewn yr awdurdod lleol. Mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn awyddus iawn i'w sicrhau.

I recognise the Member's concerns, which he has raised before, in terms of the PRS system and the registration scheme. When I made reference to agents, the reference that I indicated was around letting agents, including the registration around that. He made reference to equivalent legislation in Scotland being pursued. That is not the case. If the Member reads the Bill in detail, he will recognise that this is clearly not the same as any scheme in Scotland. It is very different, and we are providing a different solution to the issues faced by many devolved nations, in terms of dealing with unscrupulous landlords. I accept that we have an awful lot of very good quality landlords in Wales, delivering good-quality services. My intention is not to place a burden on them. My intention is to work with them, to encourage the whole sector to lift up to a quality of service provision that we should be rightly proud of. It is not appropriate or right, where there is a tenancy agreement with an individual, that the property is, in fact, dangerous for people to live in. We need to understand who the landlords are in the first place, in terms of the registration scheme, in order for us to do something about the ones that are not being effective in the discharge of their duties. So, we are seeking to improve the sector.

Rwy'n cydnabod pryderon yr Aelod, y mae wedi eu codi o'r blaen, o ran y system y sector rhentu preifat a'r cynllun cofrestru. Pan gyfeiriais at asiantau, roedd y cyfeiriad a nodwyd gennyf yn ymwneud ag asiantau gosod, gan gynnwys cofrestru yn gysylltiedig â hynny. Cyfeiriodd at ddilyn deddfwriaeth gyfatebol yn yr Alban. Nid yw hynny'n wir. Os gwnaiff yr Aelod ddarllen y Bil yn fanwl, bydd yn cydnabod ei bod yn amlwg nad yw hwn yr un fath ag unrhyw gynllun yn yr Alban. Mae'n wahanol iawn, ac rydym yn darparu ateb gwahanol i'r materion a wynebir gan lawer o genhedloedd datganoledig, o ran ymdrin â landlordiaid diegwyddor. Rwy'n derbyn bod gennym lawer iawn o landlordiaid o ansawdd da iawn yng Nghymru, sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd da. Nid yw'n fwriad gennyf i roi baich arnyn nhw. Fy mwriad yw gweithio gyda nhw, er mwyn annog y sector cyfan i godi i ansawdd o ddarpariaeth gwasanaeth y dylem fod yn wir falch ohono. Nid yw'n briodol nac yn iawn, lle ceir cytundeb tenantiaeth gydag unigolyn, bod yr eiddo, mewn gwirionedd, yn beryglus i bobl fyw ynddo Mae angen i ni ddeall pwy yw'r landlordiaid yn y lle cyntaf, o ran y cynllun cofrestru, er mwyn i ni wneud rhywbeth am y rhai nad ydynt yn effeithiol wrth gyflawni eu dyletswyddau. Felly, rydym yn ceisio gwella'r sector.

In terms of having further discussions with the landlord associations, I listened very careful to their contribution in terms of their ability to support a voluntary scheme. In essence, I would have no problem in working with a voluntary scheme if that was successful. However, we have seen that that is not successful. The very people whom we are trying to target are the people who do not volunteer to join a scheme. They are the people whom we need to target to make sure that we have an effective housing legislation process in place. I also cross-reference the fact that there are cities, towns and communities across all of Wales where there is a heavy bias towards student accommodation and where some unregulated letting landlords are offering dangerous accommodation to our children, whom we all represent in our communities. It is not acceptable, and we will do something about it.

O ran cael trafodaethau pellach gyda'r cymdeithasau landlordiaid, gwrandewais yn ofalus iawn ar eu cyfraniad o ran eu gallu i gefnogi cynllun gwirfoddol. Yn ei hanfod, ni fyddai gennyf unrhyw broblem yn gweithio gyda chynllun gwirfoddol pe byddai'n llwyddiannus. Fodd bynnag, rydym ni wedi gweld nad yw hynny'n llwyddiannus. Yr union bobl yr ydym ni'n ceisio eu targedu yw'r bobl nad ydynt yn gwirfoddoli i ymuno â chynllun. Nhw yw'r bobl y mae angen i ni eu targedu i wneud yn siŵr ein bod yn sefydlu proses deddfwriaeth tai effeithiol. Rwyf hefyd yn croesgyfeirio at y ffaith bod dinasoedd, trefi a chymunedau ledled Cymru gyfan lle ceir gogwydd cryf tuag at lety myfyrwyr a lle mae rhai landlordiaid gosod heb eu rheoleiddio yn cynnig llety peryglus i'n plant, yr ydym i gyd yn eu cynrychioli yn ein cymunedau. Nid yw'n dderbyniol, a byddwn yn gwneud rhywbeth yn ei gylch.

In terms of the WHQS, all authorities now have a full business plan, which is expected, and which is agreed with the authority and with the Welsh Government, in terms of the delivery of the WHQS. It will be useful to put that on a statutory footing, and therefore to ensure compliance with it. Although I have confidence in the ability of local authorities to deal with that, we will just have to make sure that it is followed through in a legislative process for the future. Regarding the housing revenue account subsidy and debt levels, there will be an agreed capping process between the local authorities and my department. The final issue that I have written down, as I was busily scribbling away amid the Member's many questions, was around the issue of the 150% rule on empty homes. This will be based on a discretionary approach taken by local authorities. If they wish to implement it, they can. However, there will be flexibility around the implementation of it for the very people whom the Member raises in relation to vulnerability. That will be a decision made by the local authority in place of who is actioning this piece of legislation in future.

O ran Safon Ansawdd Tai Cymru, mae gan bob awdurdod gynllun busnes llawn bellach, a ddisgwylir, ac a gytunir gyda'r awdurdod a chyda Llywodraeth Cymru, o ran bodloni SATC. Bydd yn ddefnyddiol rhoi hynny ar sail statudol, gan sicrhau cydymffurfiad ag ef. Er bod gennyf hyder yng ngallu awdurdodau lleol i ymdrin â hynny, bydd yn rhaid i ni wneud yn siŵr ei fod yn cael ei gyflawni mewn proses ddeddfwriaethol ar gyfer y dyfodol. O ran cymhorthdal y cyfrif refeniw tai a lefelau dyled, bydd proses gapio wedi ei chytuno rhwng yr awdurdodau lleol a'm hadran i. Roedd y mater olaf rwyf wedi ei ysgrifennu, wrth i mi sgriblo'n brysur yng nghanol cwestiynau lu'r Aelod, yn ymwneud â mater y rheol 150% ar gartrefi gwag. Bydd hyn yn cael ei seilio ar ddull dewisol a ddilynir gan awdurdodau lleol. Os ydynt yn dymuno ei roi ar waith, cânt wneud hynny. Fodd bynnag, bydd hyblygrwydd o ran ei weithredu ar gyfer yr union bobl y mae'r Aelod yn eu crybwyll eu bod yn agored i niwed. Yr awdurdod lleol fydd yn gwneud penderfyniad o ran pwy sy'n gweithredu'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

14:54

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byddwch yn falch o glywed na fyddaf yn siarad mor hir â'r llefarydd a siaradodd o'm mlaen i. Rwyf yn croesawu'r datganiad heddiw, ac yn diolch i'r Gweinidog am ei waith caled. Rwy'n cytuno â'r angen i gael sawl gweithred wahanol i fynd i'r afael â'r broblem sydd gennym, ac rwyf yn falch eu bod wedi'u cynnig.

You will be pleased to hear that I do not intend to speak for as long as the previous speaker. I welcome today's statement and I thank the Minister for his hard work. I agree on the need to have a number of different actions to tackle the problem that we have, and I am pleased that those have now been proposed.

Soniais yr wythnos diwethaf fod dros 2,000 o dai yn wag yn sir Gâr, ac mae'r broblem wedi'i chodi gan sawl un o'm hetholwyr. Maent yn wastraff llwyr o adnodd. Yn eich ateb, amlinellwyd y swm cynyddol a sylweddol a fuddsoddir yn y rhaglen Troi Tai'n Gartrefi. Byddai diddordeb gennyf glywed sut yn union y bydd y ddeddfwriaeth a'r rhaglen yn gweithio ar y cyd i greu momentwm. Rydych yn dweud mai pwerau disgresiwn a fydd gan awdurdodau lleol i godi tâl ychwanegol o 50% ar y dreth gyngor. Pa ystyriaethau y bydd disgwyl i'r awdurdodau lleol gymryd sylw ohonynt? Sut byddwch yn eu hannog hwy i ailfuddsoddi'r arian i ddarparu mwy o dai neu i wella tai cyfredol?

I mentioned last week that there are more than 2,000 empty homes in Carmarthenshire, which is a problem that has been raised with me by many constituents. This is a complete waste of resource. In your response, you outlined the increasing and significant amount invested in the Houses into Homes programme. I would be interested to hear how exactly the legislation and this programme will work jointly in order to generate momentum. You say that local authorities will have discretionary powers to levy an additional charge of 50% on top of council tax. What considerations will local authorities be expected to take account of? How will you encourage them to reinvest these monies in order to provide more homes or to improve the current housing stock?

14:55

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Keith Davies for his important question. He is absolutely right that it is a wasted resource in all our communities where there are empty houses not being turned into homes. That is why we have made a significant investment of a repayable process loan of £20 million to introduce new homes in all communities in Wales. I did commit, during the last debate that we had on the empty homes scheme, to give Members more detail once I had received it from local authorities as to what is happening on the ground. I will do that as and when I receive the data.

Diolch i Keith Davies am ei gwestiwn pwysig. Mae'n hollol iawn ei fod yn adnodd sy'n cael ei wastraffu ym mhob un o'n cymunedau lle ceir tai gwag nad ydynt yn cael eu troi'n gartrefi. Dyna pam rydym ni wedi gwneud buddsoddiad sylweddol o fenthyciad proses ad-daladwy o £20 miliwn i gyflwyno cartrefi newydd ym mhob cymuned yng Nghymru. Ymrwymais yn ystod y ddadl ddiwethaf a gawsom ar y cynllun cartrefi gwag, i roi mwy o fanylion i'r Aelodau ar ôl i mi eu derbyn gan yr awdurdodau lleol ynghylch yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Byddaf yn gwneud hynny ar ôl i mi dderbyn y data.

The 150% levy on an empty home will be based on a property being vacant for at least 12 months. However, as I said, it will be at the discretion of the local authority to implement this—if it wishes to do so, it can, and if it does not, that is also an option for it. In terms of the vulnerability of individuals, however, we will be giving guidance and working with local authorities to ensure that they understand the type of issues that we would consider to be reasonable in terms of discretion. Some of them may be armed forces, or, in areas where bereavement has affected an individual and a property, it is about being reasonable in how they determine this. However, it gives an opportunity so that, for people who do not wish to turn their empty house back into a home, there will be a penalty for not doing so by virtue of the discretion that the local authority may have.

Bydd yr ardoll 150% ar gartref gwag yn cael ei seilio ar y ffaith fod eiddo yn wag am o leiaf 12 mis. Fodd bynnag, fel y dywedais, bydd hyn yn cael ei weithredu yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol—os yw'n dymuno gwneud hynny, caiff wneud hynny, ac os nad ydyw, mae hynny'n ddewis iddo hefyd. O ran unigolion sy'n agored i niwed, fodd bynnag, byddwn yn cyflwyno canllawiau ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn deall y math o faterion y byddem yn ystyried sy'n rhesymol o ran disgresiwn. Efallai y bydd rhai ohonynt o'r lluoedd arfog, neu, mewn meysydd lle mae profedigaeth wedi effeithio ar unigolyn ac eiddo, mae'n golygu bod yn rhesymol yn y ffordd maen nhw'n penderfynu ar hyn. Fodd bynnag, mae'n rhoi cyfle, yn rhinwedd y disgresiwn sydd gan yr awdurdod lleol, i gosbi'r bobl nad ydynt yn dymuno troi eu tŷ gwag yn ôl i gartref, am beidio â gwneud hynny.

14:57

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Minister for introducing the Bill and for making a statement today. I have to say, however, that if the Bill is enacted as it is, I think that it would be a missed opportunity for this important sector. However, I will focus firstly on a few items of common ground where I believe the Minister is to be commended. Obviously, any attempt to prevent homelessness is very welcome indeed, but why did the Minister decide to retain intentionality and priority need? He will know that the Scottish Government is abolishing both, and I would like to hear more from the Minister about why he decided against this here. Also, why not address the much-needed changes to the homelessness legislation as a whole, rather than by this piecemeal approach?

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r Bil, ac am wneud datganiad heddiw. Mae'n rhaid i mi ddweud, fodd bynnag, os bydd y Bil yn cael ei weithredu fel y mae, rwy'n credu y byddai'n gyfle a gollwyd i'r sector pwysig hwn. Fodd bynnag, hoffwn ganolbwyntio yn gyntaf ar ychydig eitemau o dir cyffredin lle rwy'n credu y dylid canmol y Gweinidog. Yn amlwg, mae unrhyw ymgais i atal digartrefedd wir i'w groesawu, ond pam y gwnaeth y Gweinidog benderfynu cadw bwriadoldeb ac angen blaenoriaethol? Bydd yn gwybod bod Llywodraeth yr Alban yn diddymu'r ddau, a hoffwn glywed mwy gan y Gweinidog ynghylch pam y penderfynodd yn erbyn hyn yma. Hefyd, beth am fynd i'r afael â'r newidiadau y mae wir eu hangen i'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd yn ei chyfanrwydd, yn hytrach na drwy'r dull tameidiog hwn?

I very much welcome a duty on local authorities to provide Gypsy and Traveller sites. Members will be all too familiar with the problems of illegal sites that arise where there is not sufficient provision. Also, I welcome the duty for local authority homes to meet the Welsh housing quality standard and the more flexible rent regimes proposed for social housing landlords. I am sure that that will help them to meet standards in their sector. Also, of course, there is the abolition of the HRA. Perhaps the Minister would be prepared to outline the caveats that are attached to that, because I am sure that there are some uncertainties around that abolition. As I have mentioned, this Bill represents a missed opportunity, and I am sure that many in the sector would agree with me. I would like to ask the Minister how he thinks establishing a duty to protect children will work when we consider that issue of retaining intentionality.

Rwy'n croesawu'n fawr y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Bydd yr Aelodau yn gwbl gyfarwydd â phroblemau safleoedd anghyfreithlon sy'n codi lle nad oes darpariaeth ddigonol. Hefyd, rwy'n croesawu'r ddyletswydd i gartrefi awdurdod lleol fodloni safon ansawdd tai Cymru a'r cyfundrefnau rhent mwy hyblyg a gynigir ar gyfer landlordiaid tai cymdeithasol. Rwy'n siŵr y bydd hynny'n eu helpu i fodloni safonau yn eu sector. Hefyd, wrth gwrs, ceir diddymiad y Cyfrif Refeniw Tai Efallai y byddai'r Gweinidog yn barod i amlinellu'r cafeatau sydd ynghlwm â hynny, oherwydd rwy'n siŵr bod rhywfaint o ansicrwydd am y diddymiad hwnnw. Fel rwyf wedi ei grybwyll, mae'r Bil hwn yn gyfle a gollwyd, ac rwy'n siŵr y byddai llawer yn y sector yn cytuno â mi. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog sut mae'n credu y bydd sefydlu dyletswydd i amddiffyn plant yn gweithio wrth i ni ystyried y mater hwnnw o gadw bwriadoldeb.

I have told you how I feel about your proposal for ex-offenders, Minister, and I know that you have the support of Members to my far right in this Chamber for your policy. I hope you will tell us if you are proud of that. However, I would ask you to reconsider your view, and perhaps you would tell us why you are ignoring the 12 Shelter Cymru recommendations and the 36 recommendations from the 2008 report that says that more support, not less, is needed to reduce reoffending. Also, how do you cite that report as justification for your policy stance?

Rwyf wedi dweud wrthych sut rwy'n teimlo am eich cynnig ar gyfer cyn-droseddwyr, Weinidog, ac rwy'n gwybod bod yr Aelodau ar fy ochr dde eithaf yn y Siambr hon yn cefnogi eich polisi. Rwy'n gobeithio y gwnewch chi ddweud wrthym os ydych yn falch o hynny. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn i chi ailystyried eich safbwynt, ac efallai y byddech yn dweud wrthym pam yr ydych chi'n anwybyddu 12 argymhelliad Shelter Cymru a'r 36 argymhelliad o adroddiad 2008 sy'n dweud bod angen mwy o gymorth, nid llai, i leihau aildroseddu. Hefyd, sut ydych chi'n cyfeirio at yr adroddiad hwnnw fel cyfiawnhad dros eich safbwynt polisi?

Now, the Minister knows my views on the register of landlords. However, I would like to reiterate here that having 22 bodies responsible for maintaining and enforcing the register could be a nightmare scenario. Perhaps he would tell us what could be achieved by this measure, and how local authorities, some with no stock, and no housing department, as it turns out, will be able to maintain and implement this legislation. Also, why spread scarce resources so thinly that the rogue landlords that you mentioned earlier will not be confronted effectively? Perhaps the Minister would tell us what advice and evidence he received to suggest that a 150% council tax rate on empty homes would suffice as a means of bringing those properties back into use? Why set it on the face of the Bill? Why not leave it to local authorities to decide how much it should be, and answer for that locally? Perhaps the Minister would tell us the results of the consultation on second homes council tax, which he has been undertaking. Is he considering the same level of tax as on empty properties?

Nawr, mae'r Gweinidog yn gwybod fy marn ar y gofrestr landlordiaid. Fodd bynnag, hoffwn ailadrodd yma y gallai gwneud 22 o gyrff yn gyfrifol am gynnal a gorfodi'r gofrestr fod yn sefyllfa hunllefus. Efallai y byddai'n dweud wrthym beth ellid ei gyflawni gyda'r mesur hwn, a sut fydd awdurdodau lleol, rhai ohonynt heb unrhyw stoc, a dim adran dai, fel mae'n digwydd, yn gallu cynnal a gweithredu'r ddeddfwriaeth hon. Hefyd, pam lledaenu adnoddau prin mor denau fel na fydd y landlordiaid diegwyddor a grybwyllwyd gennych yn gynharach yn cael eu gwrthwynebu'n effeithiol? Efallai y byddai'r Gweinidog yn dweud wrthym pa gyngor a thystiolaeth a dderbyniodd i awgrymu y byddai cyfradd treth gyngor o 150% ar gartrefi gwag yn ddigonol fel ffordd o ddod â'r tai hynny yn ôl i ddefnydd? Pam rhoi hynny ar wyneb y Bil? Beth am adael i awdurdodau lleol benderfynu faint y dylai fod, a bod yn atebol am hynny yn lleol? Efallai y byddai'r Gweinidog yn ein hysbysu am ganlyniadau'r ymgynghoriad ar dreth gyngor ail gartrefi, y mae wedi bod yn ei gynnal. A yw'n ystyried yr un lefel o dreth ag ar eiddo gwag?

It is possible that, within the Bill, there may be a basis for much-needed changes to the housing sector, but I have to say that much more work needs to be done before we reach that point. With evictions and possession orders rising, perhaps tenure reform should have been a focus of this legislation; perhaps the Minister would tell us when we can expect legislation on tenure reform.

Mae'n bosibl, yn y Bil, y gallai fod sail ar gyfer newidiadau y mae wir eu hangen i'r sector tai, ond mae'n rhaid i mi ddweud bod angen gwneud llawer mwy o waith cyn i ni gyrraedd y pwynt hwnnw. Wrth i achosion o droi allan a gorchmynion meddiannu gynyddu, efallai y dylai diwygio deiliadaeth fod wedi bod yn ganolbwynt i'r ddeddfwriaeth hon; efallai y gwnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pryd y gallwn ddisgwyl deddfwriaeth ar ddiwygio deiliadaeth.

15:01

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her contribution and the broad, positive comments that she made in terms of support. There are elements that she clearly wishes me to address in my response.

Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad a'r sylwadau cyffredinol, cadarnhaol a wnaeth o ran cefnogaeth. Mae elfennau y mae'n amlwg yn dymuno i mi i fynd i'r afael â nhw yn fy ymateb.

I will start with the issue around homelessness. I am grateful for the Member's broad support for that process. Of course, we have not created this Bill on the basis of not seeking responses. There was a consultation process around the White Paper in 2012, and we have support from areas such as Shelter, the Welsh Local Government Association, Cymorth and the Chartered Institute of Housing in response to the drafting of this Bill. We are seeking to change the whole way that we deal with the issue of homelessness. The Member mentions the issues around Scotland; actually, the Scottish model was pretty radical, but only tinkered around the edges of current legislation. We are absolutely changing the focus of the way that we deal with homelessness in Wales, rather than an element of dealing homelessness at a reactive stage. We are looking at a preventative model and are working through with people, at a very early stage, the duties of local authorities to deal with homelessness. This is a very different process to the way that England or Scotland are dealing with it.

Hoffwn ddechrau gyda'r mater ynghylch digartrefedd. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth eang yr Aelod i'r broses honno. Wrth gwrs, nid ydym wedi creu'r Bil hwn ar y sail o beidio â gofyn am ymatebion. Bu proses ymgynghori ynghylch y Papur Gwyn yn 2012, ac mae gennym gefnogaeth gan feysydd fel Shelter, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymorth a'r Sefydliad Tai Siartredig mewn ymateb i ddrafftio'r Bil hwn. Rydym yn ceisio newid y modd yr ydym yn ymdrin â'r mater o ddigartrefedd yn gyfan gwbl. Mae'r Aelod yn sôn am y materion yn ymwneud â'r Alban; mewn gwirionedd, roedd model yr Alban yn dra sylfaenol, ond dim ond yn gwneud mân ddiwygiadau o gwmpas ymylon y ddeddfwriaeth gyfredol. Rydym yn newid canolbwynt y ffordd yr ydym ni'n ymdrin â digartrefedd yng Nghymru yn llwyr, yn hytrach nag elfen o ymdrin â digartrefedd ar gam adweithiol. Rydym yn edrych ar fodel ataliol ac yn gweithio drwy ddyletswyddau awdurdodau lleol i ymdrin â digartrefedd gyda phobl, ar gam cynnar iawn. Mae hon yn broses wahanol iawn i'r ffordd y mae Lloegr neu'r Alban yn ymdrin â hyn.

In terms of the housing revenue account subsidy, the finer details are still being worked out with the 11 local authorities. I will bring more details to the Chamber once I have that. We are working through the debt cap and the processes with Treasury too, and it is something that is being welcomed by the 11 local authorities. Again, I pay tribute to the Member as a former Minister for housing for the work that she did to achieve this end.

O ran cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, mae'r manylion mwy manwl yn dal i gael eu datblygu gyda'r 11 awdurdod lleol. Byddaf yn dod â mwy o fanylion i'r Siambr pan fyddant gennyf. Rydym yn gweithio drwy'r cap dyled a'r prosesau gyda'r Trysorlys hefyd, ac mae'n rhywbeth sy'n cael ei groesawu gan yr 11 awdurdod lleol. Unwaith eto, rwy'n talu teyrnged i'r Aelod fel cyn-Weinidog tai am y gwaith a wnaeth hi i gyflawni hyn.

The Member makes reference to the sector being disappointed—or she used some other term—in terms of the overarching process or the launch of the Bill. That is not what we are picking up. Actually, the sector is quite enthusiastic about the Bill. This morning, indeed, there was a comment about this being about grown-up politics in terms of making a real difference to people's lives in Wales. I welcome the scrutiny process in terms of shaping this Bill for the future, to make sure that we do get that right. However, of course, there are things on which we agree, and things on which we do not agree. What I have to do is try to strike that balance in terms of navigating this Bill through for the best outcomes for the people we all represent.

Mae'r Aelod yn cyfeirio at siom y sector—neu defnyddiodd rhyw derm arall—o ran proses gyffredinol neu lansiad y Bil. Nid dyna yr ydym ni'n ei glywed. A dweud y gwir, mae'r sector yn eithaf brwdfrydig am y Bil. Y bore yma, yn wir, roedd sylw am y ffaith fod hyn yn wleidyddiaeth aeddfed o ran gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yng Nghymru. Rwy'n croesawu'r broses graffu o ran llunio'r Bil hwn ar gyfer y dyfodol, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud hynny'n iawn. Fodd bynnag, wrth gwrs, ceir pethau yr ydym yn cytuno arnynt, a phethau nad ydym yn cytuno arnynt. Yr hyn y mae'n rhaid i mi ei wneud yw ceisio sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol o ran llywio'r Bil hwn drwy'r broses i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r holl bobl yr ydym ni i gyd yn eu cynrychioli.

I recognise that the Member has issues with the issue of ex-offenders, and I have tried to reassure the Member, and others. The issue for me is making sure that, whether you are an ex-offender or not, we test the system of vulnerability and ensure that people who need support, wherever they are, and whether they are ex-offenders or not, receive that from the most appropriate people. So, to say that ex-offenders will not be supported at all is inaccurate, and not a true reflection of the intention of this. It is actually testing the intention of vulnerability. Where a person presents to a local authority and is in need of support, they will be given that.

Rwy'n cydnabod bod gan yr Aelod broblemau gyda'r mater o gyn-droseddwyr, ac rwyf wedi ceisio tawelu meddwl yr Aelod, ac eraill. Y peth pwysig i mi yw gwneud yn siŵr ein bod yn profi, pa un a ydych yn gyn-droseddwr ai peidio, y system o fod yn agored i niwed a sicrhau bod pobl sydd angen cefnogaeth, ble bynnag y maent, a pha un a ydynt yn gyn-droseddwyr ai peidio, yn derbyn hynny gan y bobl fwyaf priodol. Felly mae dweud na fydd cyn-droseddwyr yn cael eu cefnogi o gwbl yn anghywir, ac nid yw'n adlewyrchiad cywir o fwriad hyn. Mae'n profi bwriad bod yn agored i niwed mewn gwirionedd. Pan fo unigolyn yn cyflwyno ei hun i awdurdod lleol ac angen cymorth, bydd yn cael hynny.

The Member makes reference to rogue landlords. I am quite surprised, actually, at the Member's stance on the issue. There are rogue landlords across the whole of the UK, including in Wales, and I am surprised that the Member does not want to seek regulation around them. She wishes to see local landlords continue to deliver bad quality—in some circumstances, dangerous—accommodation for many people, including our young people, in our communities. I hope that the Member and I can work together to work through that process, so that we can have a better understanding of where we can come together on some reasonable approach to taking this forward.

Mae'r Aelod yn cyfeirio at landlordiaid diegwyddor. Rwyf wedi fy synnu braidd, a dweud y gwir, gan safbwynt yr Aelod ar y mater. Ceir landlordiaid diegwyddor ledled y DU gyfan, gan gynnwys yng Nghymru, ac rwy'n synnu nad yw'r Aelod eisiau eu gweld yn cael eu rheoleiddio. Mae'n dymuno gweld landlordiaid lleol yn parhau i ddarparu llety o ansawdd gwael—peryglus mewn rhai amgylchiadau—i lawer o bobl, gan gynnwys ein pobl ifanc, yn ein cymunedau. Rwy'n gobeithio y gall yr Aelod a minnau weithio gyda'n gilydd i weithio drwy'r broses honno, fel y gallwn gael gwell dealltwriaeth o ble y gallwn ddod at ein gilydd ar ryw sail resymol i fwrw ymlaen â hyn.

The last issue that I have noted is around the 150% figure that was issued with regard to council tax. There is no science behind this figure; it is an arbitrary figure in terms of what we have decided, pretty much in the same way as your party policy was around 200%. We believe that it is a fair and reasonable fee to levy against empty homes. However, I am more than happy to have further discussions on that. I am considering the outcome of the second-home element, and I will, of course, let the Chamber and Members know more detail about that when I have given it some further consideration.

Mae'r mater olaf yr wyf wedi ei nodi yn ymwneud â'r ffigur o 150% a gyhoeddwyd ar gyfer y dreth gyngor. Nid oes unrhyw wyddoniaeth y tu ôl i'r ffigur hwn; mae'n ffigur mympwyol o ran yr hyn yr ydym ni wedi ei benderfynu, yn yr un modd ag yr oedd polisi eich plaid chi tua 200%. Rydym yn credu ei bod yn ffi deg a rhesymol i'w chodi ar gartrefi gwag. Fodd bynnag, rwy'n fwy na pharod i gael trafodaethau pellach ar hynny. Rwy'n ystyried canlyniad yr elfen ail gartref, a byddaf, wrth gwrs, yn rhoi mwy o fanylion am hynny i'r Siambr ac i'r Aelodau pan fyddaf wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth bellach iddo.

15:06 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I, too, welcome this very substantial Bill and the fact that we have the first housing legislation since we had the new powers. I particularly welcome a number of aspects of the Bill: the extra council tax being charged on empty homes, on which I will ask a question later on, and the reform of the housing revenue account subsidy. I very much welcome the enforcement of standards for social housing in law; I think that that is overdue. I also welcome the registration and licensing of letting agents and the preventative model on homelessness. I think that all of those things are very welcome developments. I also welcome the fact that you are taking the opportunity, Minister, to consolidate existing legislation in this Bill, which I think is very helpful to everybody in terms of understanding housing law in Wales.

Rwyf innau hefyd yn croesawu'r Bil sylweddol iawn hwn a'r ffaith ein bod yn cael y ddeddfwriaeth dai gyntaf ers i ni gael y pwerau newydd. Croesawaf yn arbennig nifer o agweddau ar y Bil: y dreth gyngor ychwanegol sy'n cael ei chodi ar dai gwag, y byddaf yn gofyn cwestiwn ynglŷn yn ag ef nes ymlaen, a diwygio cymhorthdal y cyfrif refeniw tai. Rwy'n croesawu'n fawr y gorfodi safonau ar gyfer tai cymdeithasol yn y gyfraith; rwy'n credu y dylai hynny fod wedi cael ei wneud yn gynharach. Rwyf hefyd yn croesawu cofrestru a thrwyddedu asiantau gosod a'r model ataliol ar ddigartrefedd. Rwy'n credu bod yr holl bethau hynny yn ddatblygiadau i'w croesawu'n fawr. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith eich bod yn manteisio ar y cyfle, Weinidog, i atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol yn y Bil hwn, sydd yn ddefnyddiol iawn i bawb o ran deall cyfraith tai yng Nghymru, yn fy marn i.

I have a number of questions, and I will try not to repeat the questions that have already been asked or to build on them. In relation to the registration and licensing of landlords, I have some concerns about how this is going to be rolled out. I would be interested, Minister, if you could outline to us what sort of timetable you are considering, in terms of putting this into effect, and what sort of resources you believe that local authorities will need to deliver on this particular issue.

Mae gennyf nifer o gwestiynau, a cheisiaf beidio ag ailadrodd y cwestiynau a ofynnwyd eisoes, nac i adeiladu arnynt. O ran cofrestru a thrwyddedu landlordiaid, mae gennyf rai pryderon ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei gyflwyno. Byddai gennyf ddiddordeb, Weinidog, pe gallech amlinellu i ni pa fath o amserlen yr ydych chi'n ei hystyried, o ran rhoi hyn ar waith, a pha fath o adnoddau yr ydych chi'n credu y bydd eu hangen ar awdurdodau lleol i gyflawni o ran y mater penodol hwn.

You will know, of course, that since the licensing of houses in multiple occupation came into being, six or seven years ago, we still have thousands of HMOs that are not licensed, because local authorities have not been able to find them. I wonder whether you could indicate how, given that HMOs stand out a bit more than a single house that is being let, you consider that local authorities will be able to identify all of the properties that are rented and will be subject to that particular provision.

Byddwch yn gwybod, wrth gwrs, ers sefydlu trwyddedu tai amlfeddiannaeth, chwech neu saith mlynedd yn ôl, mae gennym filoedd o HMOau sydd heb eu trwyddedu, oherwydd nad yw awdurdodau lleol wedi gallu dod o hyd iddynt. Tybed a allech chi nodi sut, o ystyried bod HMOau yn sefyll allan ychydig yn fwy nag un tŷ sy'n cael ei osod, yr ydych chi'n credu y bydd awdurdodau lleol yn gallu nodi pob eiddo sy'n cael ei rentu ac a fydd yn destun y ddarpariaeth benodol honno.

In relation to homelessness, I very much reflect Jocelyn Davies's concern about the removal of the priority need for ex-prisoners. I understand that you are relying on vulnerability in relation to that. Can you say what it is about the Housing Act 1996, which also relied on vulnerability and was brought in by the Conservatives, and which the 2001 Order undid, that you consider superior to the existing legislation? Can you also say how it is that the 2008 report, which you are relying on to deliver this particular change, provides evidence for it? Why is it that vulnerability is being relied on for ex-prisoners but not, for example, ex-servicemen? Why is this for that particular group, as opposed to other groups, in terms of where priority need should be applied?

O ran digartrefedd, rwy'n adlewyrchu'n llawn pryder Jocelyn Davies am gael gwared ar y flaenoriaeth o ran angen i gyn-garcharorion. Rwy'n deall eich bod yn dibynnu ar fod yn agored i niwed yn hynny o beth. A allwch chi ddweud pa agweddau ar Ddeddf Tai 1996, a oedd hefyd yn dibynnu ar fod yn agored i niwed ac a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr, ac y gwnaeth Gorchymyn 2001 ei dadwneud, ydych chi'n credu sy'n well na'r ddeddfwriaeth gyfredol? A allwch chi hefyd ddweud sut y mae adroddiad 2008, yr ydych chi'n dibynnu arno i gyflawni'r newid penodol hwn, yn darparu tystiolaeth ar gyfer hyn? Pam y dibynnir ar fod yn agored i niwed yng nghyswllt cyn-garcharorion, ond nid, er enghraifft, yng nghyswllt cyn-filwyr? Pam hyn ar gyfer y grŵp penodol hwn, yn hytrach na grwpiau eraill, o ran pryd y dylid ystyried angen blaenoriaethol?

On the accommodation standard in relation to social housing, can you indicate whether there will be additional funding to try to meet particular targets? Given that the Welsh housing quality standard is coming up to being 10 or 12 years old, most probably, will you be reviewing that standard as part of this legislation and asking local authorities effectively to renew their efforts to raise the standard yet again in social housing?

Yng nghyswllt y safon llety o ran tai cymdeithasol, a allwch chi nodi a fydd cyllid ychwanegol ar gael i geisio cyrraedd targedau penodol? O ystyried bod safon ansawdd tai Cymru yn 10 neu'n 12 mlwydd oed, yn ôl pob tebyg, a fyddwch chi'n adolygu'r safon honno yn rhan o'r ddeddfwriaeth hon ac yn gofyn i awdurdodau lleol adnewyddu eu hymdrechion mewn gwirionedd i godi'r safon unwaith eto mewn tai cymdeithasol?

Finally, in relation to the council tax charge for empty properties, can you outline what flexibility councils have in terms of when they can bring in this extra charge? Why did you not consider a staircasing provision, whereby a property that is empty for a longer period might attract higher council tax: for example, 150% up to five years, 200% up to 10 years and 300% up to 20 years? I think that that would provide an incentive for the owners of those properties to bring them back into use and not to leave them causing a blight on our communities for substantial periods of time.

Yn olaf, o ran y ffi treth gyngor ar gyfer eiddo gwag, a allwch chi amlinellu pa hyblygrwydd sydd gan gynghorau o ran pryd y gallant gyflwyno'r ffi ychwanegol hon? Pam na wnaethoch chi ystyried darpariaeth raddol, lle gallai eiddo sy'n wag am gyfnod hwy ddenu treth gyngor uwch: er enghraifft, 150% hyd at bum mlynedd, 200% hyd at 10 mlynedd a 300% hyd at 20 mlynedd? Rwy'n credu y byddai hynny'n rhoi cymhelliant i berchnogion yr eiddo hynny i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd ac i beidio â'u gadael i achosi malltod ar ein cymunedau am gyfnodau sylweddol o amser.

15:10

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Peter Black for his very positive comments, overall, on the Bill presented today. May I pick up three significant elements that the Member brings in? I will take the last point around council tax first, if I may.

Diolchaf i Peter Black am ei sylwadau cadarnhaol iawn, ar y cyfan, ar y Bil a gyflwynwyd heddiw. A gaf fi godi tair elfen arwyddocaol y mae'r Aelod yn eu crybwyll? Dechreuaf gyda'r pwynt olaf ynghylch y dreth gyngor, os caf.

The Bill will be about enabling local authorities to have that discretion in terms of whether they want to introduce this or not. I say up to 150%, so it is variable up to that point. The Member raises an interesting point with regard to staircasing this over a period of time. I have not given any consideration to that, but I would welcome further discussion on that during the scrutiny process on this Bill.

Diben y Bil fydd galluogi awdurdodau lleol i gael y disgresiwn sydd ei angen o ran a ydynt eisiau cyflwyno hyn ai peidio. Rwy'n dweud hyd at 150%, felly mae'n gallu amrywio hyd at y pwynt hwnnw. Mae'r Aelod yn codi pwynt diddorol o ran gwneud hyn yn raddol dros gyfnod o amser. Nid wyf wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i hynny, ond byddwn yn croesawu trafodaeth bellach ar hynny yn ystod y broses o graffu ar y Bil hwn.

I listened carefully to the Member's comments regarding the vulnerability issues around ex-offenders. The Member seems to be missing the point that, purely by being an ex-offender, you will be prioritised for housing need. My view on that process, and recognising the responses to the consultation, is that we believe that we should be treating individuals fairly in terms of the criteria around vulnerability. If you are a vulnerable ex-offender, you will still receive priority need if that is deemed necessary by the local authority. Just being an ex-offender does not give you a right to a property in a community. I was talking to a Member this morning who said that he had recently been visiting his local community, where people were very concerned about the priority being given to ex-offenders purely on the basis of release from a prison environment.

Gwrandewais yn ofalus ar sylwadau'r Aelod ynghylch y materion yn ymwneud â bod yn agored i niwed yng nghyswllt cyn-droseddwyr. Mae'n ymddangos bod yr Aelod yn methu'r pwynt y byddwch, dim ond trwy fod yn gyn-droseddwr, yn cael eich blaenoriaethu ar gyfer angen tai. Fy marn i ar y broses honno, a chan gydnabod yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yw ein bod yn credu y dylem fod yn trin unigolion yn deg o ran y meini prawf yn ymwneud â bod yn agored i niwed. Os ydych chi'n gyn-droseddwr sy'n agored i niwed, byddwch yn dal i dderbyn blaenoriaeth o ran angen os bydd yr awdurdod lleol yn tybio bod hynny'n angenrheidiol. Nid yw bod yn gyn-droseddwr yn unig yn rhoi hawl i chi gael cartref mewn cymuned. Roeddwn yn siarad ag Aelod y bore yma a ddywedodd ei fod wedi bod yn ymweld â'i gymuned leol yn ddiweddar, lle'r oedd pobl yn bryderus iawn am y flaenoriaeth a roddir i gyn-droseddwyr dim ond ar sail cael eu rhyddhau o amgylchedd carchar.

Finally, I would like to touch on the issue of registration of landlords. I welcome the Member's comments. The implementation of this is important, to make sure that we get it right for the right reason. I should have picked up on Jocelyn Davies's point earlier on. The implementation of this will be based on the principle of Cardiff Council hosting the registration scheme for the whole of Wales, distributing information across the 22 authorities in order to regulate the landlord system. The way that the process will work is that letting agents will be required to register first, and then the landlords further in to the legislation. There will be a phased approach to delivery. Of course, we want to get this right for the right reasons, to create an environment that is very different to what has happened in Scotland. The lessons learned will lead to this Bill hopefully not making the same mistakes that were made in Scotland.

Yn olaf, hoffwn drafod y mater o gofrestru landlordiaid. Rwy'n croesawu sylwadau'r Aelod. Mae gweithredu hyn yn bwysig, er mwyn sicrhau ein bod yn cael pethau'n iawn am y rheswm iawn. Dylwn fod wedi dweud hyn yn sgil pwynt Jocelyn Davies yn gynharach. Bydd gweithredu hyn yn seiliedig ar yr egwyddor o Gyngor Caerdydd yn cynnal y cynllun cofrestru ar gyfer Cymru gyfan, gan ddosbarthu gwybodaeth ar draws y 22 awdurdod er mwyn rheoleiddio'r system landlordiaid. Y ffordd y bydd y broses yn gweithio yw y bydd yn ofynnol i asiantau gosod i gofrestru yn gyntaf, ac yna'r landlordiaid ymhellach i mewn i'r ddeddfwriaeth. Cyflawnir hyn fesul cam. Wrth gwrs, rydym ni eisiau gwneud hyn yn iawn am y rhesymau iawn, er mwyn creu amgylchedd sy'n wahanol iawn i'r hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban. Y gobaith yw y bydd y gwersi a ddysgwyd yn golygu na fydd y Bil hwn yn gwneud yr un camgymeriadau a wnaethpwyd yn yr Alban.

15:13 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the statement and the legislation. I think that it is very significant. I welcome the greater protection for children threatened with homelessness, but if intentional homelessness is to remain, how would families with children be dealt with in a different way?

Rwy'n croesawu'r datganiad a'r ddeddfwriaeth. Credaf ei bod yn arwyddocaol iawn. Rwy'n croesawu mwy o amddiffyniad i blant sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref, ond os bydd digartrefedd bwriadol yn parhau, sut y byddai teuluoedd â phlant yn cael eu trin mewn ffordd wahanol?

I also welcome the decision about Gypsies and Travellers, putting a duty on local authorities to provide sites. I hope that we will be able to avoid some of the difficulties that we have seen with regard to providing adequate accommodation. Will this include stopping places as well, because there is an issue when Gypsies/Travellers travel around the country and have nowhere to stop?

Rwyf hefyd yn croesawu'r penderfyniad am Sipsiwn a Theithwyr, gan ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu osgoi rhai o'r anawsterau yr ydym ni wedi eu gweld o ran darparu llety digonol. A fydd hyn yn cynnwys mannau aros hefyd, gan fod problem pan fydd Sipsiwn / Teithwyr yn teithio o gwmpas y wlad heb unrhyw le i aros?

15:13 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie Morgan for her comments. The issue around children and intentionality is something that we have done a significant amount of work on, to ensure that we protect the rights of the child. I have had discussions with the Deputy Minister for Social Services to ensure that we have the right approach to dealing with the very challenging circumstances when a family presents itself as intentionally homeless. We have to make sure that we have the right provision in place for children in these circumstances.

Diolchaf i Julie Morgan am ei sylwadau. Mae'r mater yn ymwneud â phlant a bwriadoldeb yn rhywbeth yr ydym ni wedi gwneud cryn dipyn o waith arno, er mwyn sicrhau ein bod yn diogelu hawliau'r plentyn. Rwyf wedi cael trafodaethau gyda Dirprwy Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod gennym y dull cywir o ymdrin â'r amgylchiadau heriol iawn pan fydd teulu yn gwneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod y ddarpariaeth iawn ar waith gennym ar gyfer plant yn yr amgylchiadau hyn.

As to the Gypsy/Traveller provision, we are keen to ensure that local authorities across Wales recognise their duty and make a full assessment of need, whether that is for Gypsies/Travellers coming through on a stopping off basis, or whether that is a permanent site. This will have to be considered in line with the information given to the Welsh Government, in order for us to assess whether they have complied with the duty. If not, we will be asking them to carry out that duty again. There is a third element to that in that, should that fail, it can come back to the Minister in order for the Minister to direct local authorities to act in relation to offering support and provision for Gypsies and Travellers in the future.

O ran y ddarpariaeth Sipsiwn / Teithwyr, rydym yn awyddus i sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn cydnabod eu dyletswydd ac yn gwneud asesiad llawn o angen, boed hynny ar gyfer Sipsiwn / Teithwyr sy'n teithio drwy'r ardal ac yn aros ar y ffordd, neu ar gyfer safle parhaol. Bydd yn rhaid i hyn gael ei ystyried yn unol â'r wybodaeth a roddwyd i Lywodraeth Cymru, er mwyn i ni asesu a ydynt wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd. Os nad ydynt, byddwn yn gofyn iddynt gyflawni'r ddyletswydd honno eto. Ceir trydedd elfen i hynny o ran pe byddai hynny'n methu, gall ddod yn ôl at y Gweinidog er mwyn i'r Gweinidog gyfarwyddo awdurdodau lleol i weithredu ar gyfer cynnig cefnogaeth a darpariaeth i Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol.

15:15 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome this debate, and I want to focus on the regulation—

Croesawaf y ddadl hon, ac rwyf eisiau canolbwyntio ar y rheoleiddio—

15:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. This is a statement, not a debate.

Trefn. Datganiad yw hwn, nid dadl.

15:15 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry; I stand corrected. It is a statement.

Mae'n ddrwg gennyf; syrthiaf ar fy mai. Datganiad yw hwn.

I welcome the regulation of the private rented housing sector in particular. I want to ask the Minister about best practice, because Wales has a vibrant network of local authorities, and there is best practice within that. It splits into two: keeping tenants safe, and good examples exist in Carmarthenshire, where the landlords accreditation scheme has been used already to good effect; and keeping them housed, in relation to which, in order negate the effects of the bedroom tax, Pembrokeshire Housing has a scheme that gives £500 to allow tenants to clear rent arrears that they have accumulated and to keep them in housing. Therefore, Minister, how will we, first of all, gather all of this good practice that already exists in this area and how will we—or, rather, you—get that out there to save people from reinventing the wheel?

Rwyf yn croesawu rheoleiddio’r sector rhentu preifat yn arbennig. Rwyf eisiau holi’r Gweinidog am arfer gorau, oherwydd bod gan Gymru rwydwaith egnïol o awdurdodau lleol, a cheir arfer gorau o fewn hynny. Mae’n rhannu’n ddau: cadw tenantiaid yn ddiogel, a cheir enghreifftiau da yn Sir Gaerfyrddin, lle y mae’r cynllun achredu landlordiaid eisoes wedi ei ddefnyddio’n effeithiol; a’u cadw mewn tai, ac mae gan Tai Sir Benfro gynllun, er mwyn dirymu effeithiau’r dreth ystafell wely, sy’n rhoi £500 i ganiatáu i denantiaid dalu ôl-ddyledion rhent sydd wedi crynhoi, ac felly eu cadw yn eu cartref. Felly Weinidog, sut y byddwn ni, yn gyntaf, yn casglu ynghyd yr holl arfer da hwn sydd eisoes yn bodoli yn y maes hwn, a sut y byddwn ni—neu chi, yn hytrach—yn sicrhau y defnyddir hyn i gyd i arbed pobl rhag gorfod ail-ddyfeisio’r olwyn?

15:16

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Joyce Watson for her questions. Of course, there is already good practice, as the Member related, such as the Carmarthenshire accreditation scheme, which I welcome. This has been tested to see whether it does actually work. I welcome the fact that, already, the private sector is engaging in that process.

Diolch i Joyce Watson am ei chwestiynau. Wrth gwrs, ceir arfer da eisoes, fel y dywedodd yr Aelod, fel cynllun achredu Sir Gaerfyrddin, yr wyf yn ei groesawu. Mae hwn wedi ei brofi i weld a yw'n gweithio mewn gwirionedd. Croesawaf y ffaith fod y sector preifat eisoes yn ymgysylltu â’r broses honno.

I said earlier that there are some fantastic landlords operating in Wales and the UK. It is not my intention to place an additional burden upon them. The cost of the licensing scheme to a PRS landlord with two properties will be around 65p per week. This is not financially onerous. The intention of this legislation is to improve the standards of management within the private rented sector; to ensure that more information is available for landlords, local authorities and tenants; and to raise awareness among landlords and tenants of their respective rights and responsibilities. This is about making the home a safe place to be and has benefits for both the tenant and the landlord.

Dywedais yn gynharach fod rhai landlordiaid gwych yn gweithredu yng Nghymru ac yn y DU. Nid yw’n fwriad gennyf i roi baich ychwanegol arnynt. Tua 65c yr wythnos fydd cost y cynllun trwyddedu i landlord y sector rhentu preifat â dau eiddo. Nid yw hyn yn feichus yn ariannol. Bwriad y ddeddfwriaeth hon yw gwella safonau rheoli yn y sector rhentu preifat, i sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i landlordiaid, awdurdodau lleol a thenantiaid; ac i godi ymwybyddiaeth ymhlith landlordiaid a thenantiaid o’u hawliau a'u cyfrifoldebau penodol. Diben hyn yw gwneud y cartref yn lle diogel i fod ynddo a cheir manteision i'r tenant a'r landlord.

Sharing best practice on these issues has always been a challenge for Governments and local authorities, and we rely on organisations like Community Housing Cymru, the Chartered Institute of Housing Cymru and local authorities to share when they do things in a positive process, and they can share that with their neighbours. I will be holding some further conferences in the new year to share best practice on other elements of housing. This is something that we can learn from. There are some fantastic organisations and some fantastic registered social landlords operating in Wales that can deliver much more than just a roof over somebody’s head.

Mae rhannu arfer gorau ar y materion hyn wedi bod yn her i Lywodraethau ac awdurdodau lleol erioed, ac rydym yn dibynnu ar sefydliadau fel Cartrefi Cymunedol Cymru, Sefydliad Tai Siartredig Cymru ac awdurdodau lleol i rannu pan fyddant yn gwneud pethau mewn proses gadarnhaol, a gallant rannu hynny gyda'u cymdogion. Byddaf yn cynnal rhai cynadleddau ychwanegol yn y flwyddyn newydd er mwyn rhannu arfer gorau ar elfennau eraill yn ymwneud â thai. Mae hyn yn rhywbeth y gallwn ddysgu oddi wrtho. Ceir rhai sefydliadau gwych a rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gwych sy'n gweithredu yng Nghymru a all gyflawni llawer mwy na dim ond rhoi to uwch ben rhywun.

15:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog

15:18

## Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddinas-ranbarthau

## Statement: Update on City Regions

Senedd.tv
Fideo Video

**Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Today, I am announcing the membership of the Swansea bay and south-east Wales city region boards. I am also taking this opportunity to update Members on the progress being made on the city regions more generally.

Heddiw, rwy'n cyhoeddi aelodaeth byrddau dinas-ranbarthau bae Abertawe a de-ddwyrain Cymru. Rwyf hefyd yn cymryd y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni o ran y dinas-ranbarthau yn fwy cyffredinol.

The formation of the city region boards is the latest significant step in further embedding the development and delivery of city regions in Swansea bay and south-east Wales. I expect each board to play a critical role in providing the leadership, vision and strategic direction for its city region, acting as the driver that secures input and expertise from the private, public and education sectors.

Ffurfio byrddau'r dinas-ranbarthau yw'r cam arwyddocaol diweddaraf yn y broses o ymwreiddio datblygiad a chyflwyniad dinas-ranbarthau ym mae Abertawe a de-ddwyrain Cymru. Rwy'n disgwyl i bob bwrdd chwarae rôl dyngedfennol trwy ddarparu arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer ei ddinas-ranbarth, gan weithredu fel y sbardun sy'n sicrhau cyfraniad ac arbenigedd gan y sectorau preifat, cyhoeddus ac addysg.

Councillor David Phillips will chair the Swansea bay city region board. David is the leader of the City and County of Swansea and will work alongside the other local authorities in the region as key partners in the delivery of the city region. David will be joined by board members drawn from the highest levels in local government, the private sector, trade unions and higher and further education. In south-east Wales, Roger Lewis will take the chair of the city region board. Roger is the group chief executive of the Welsh Rugby Union and has strong credentials in the private sector, with a proven track record of working with partners across the public and private sectors in senior leadership positions. Roger will be supported by board members who, once again, are drawn from the most senior levels in local government, the private sector and higher education. Details of the membership of both boards and their terms of reference will be published on our website shortly.

Bydd y Cynghorydd David Phillips yn cadeirio bwrdd dinas-ranbarth bae Abertawe. David yw arweinydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe a bydd yn gweithio ochr yn ochr â'r awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth fel partneriaid allweddol wrth gyflwyno'r dinas-ranbarth. Daw aelodau'r bwrdd o blith y lefelau uchaf mewn llywodraeth leol, y sector preifat, undebau llafur ac addysg uwch a phellach. Roger Lewis fydd yn cadeirio bwrdd y dinas-ranbarth yn ne-ddwyrain Cymru. Roger yw prif weithredwr grŵp Undeb Rygbi Cymru ac mae ganddo gymwysterau cryf yn y sector preifat, â hanes profedig o weithio gyda phartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat mewn swyddi arweinyddiaeth uwch. Bydd Roger yn cael ei gefnogi gan aelodau o'r bwrdd sydd, unwaith eto, yn dod o'r lefelau uchaf mewn llywodraeth leol, y sector preifat, ac addysg uwch. Bydd manylion aelodau'r ddau fwrdd a'u cylch gorchwyl yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn fuan.

Both chairs will be supported by very influential vice-chairs in the form of Russell Goodway, cabinet member for finance and development at Cardiff Council, and Professor Colin Riordan, vice-chancellor of Cardiff University, in south-east Wales. In Swansea bay, Councillor Meryl Gravell, executive board member for regeneration and leisure at Carmarthenshire County Council, and Steve Penny, chairman of JCP Solicitors, are vice-chairs.

Bydd y ddau gadeirydd yn cael eu cefnogi gan is-gadeiryddion dylanwadol iawn, sef Russell Goodway, aelod y cabinet dros gyllid a datblygu yng Nghyngor Caerdydd, a'r Athro Colin Riordan, is-ganghellor Prifysgol Caerdydd, yn ne-ddwyrain Cymru. Ym mae Abertawe, mae'r Cynghorydd Meryl Gravell, Aelod o'r bwrdd gweithredol dros Adfywio a Hamdden yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, a Steve Penny, cadeirydd JCP Solicitors, yn is-gadeiryddion.

In terms of local authority representation on the south-east Wales city region board, the leaders of Torfaen, Newport, Monmouth and Merthyr have been appointed to serve on the board. I believe that this will give a balanced political representation to meet a range of social and economic challenges across the region. If the south-east Wales local authority leaders wish to make any amendments to the membership over the course of time, I will be happy to consider that, however, political balance will continue to apply.

O ran cynrychiolaeth awdurdodau lleol ar fwrdd dinas-ranbarth de-ddwyrain Cymru, mae arweinwyr Torfaen, Casnewydd, Sir Fynwy a Merthyr wedi cael eu penodi i wasanaethu ar y bwrdd. Rwy'n credu y bydd hyn yn rhoi cynrychiolaeth wleidyddol gytbwys i ddiwallu ystod o heriau cymdeithasol ac economaidd ar draws y rhanbarth. Os bydd arweinwyr awdurdodau lleol de-ddwyrain Cymru yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau i'r aelodaeth dros amser, byddaf yn fodlon ystyried hynny, fodd bynnag, bydd cydbwysedd gwleidyddol yn parhau i fod yn berthnasol.

A very important feature of both boards is the strong representation that we have secured from the private sector. For the Swansea bay city region, this includes Keith Baker of Pure Wafer plc and Juliet Luporini, chair of the Swansea business improvement district. In south-east Wales, I am delighted that the board has secured the services of major employers like Admiral, represented by its chief operating officer, David Stevens, and BT, represented by its Wales director, Ann Beynon. Private sector board members have been chosen in consultation with the Confederation of British Industry and the Institute of Directors. I am delighted that so many high-calibre individuals have agreed to serve on the city region boards during this initial phase. We should be very encouraged by the interest and enthusiasm to support the development of city regions.

Nodwedd bwysig iawn o'r ddau fwrdd yw'r gynrychiolaeth gref yr ydym wedi'i sicrhau gan y sector preifat. Ar gyfer dinas-ranbarth Bae Abertawe, mae hyn yn cynnwys Keith Baker o Pure Wafer plc a Juliet Luporini, cadeirydd ardal gwella busnes Abertawe. Yn ne-ddwyrain Cymru, rwyf wrth fy modd bod y bwrdd wedi sicrhau gwasanaethau cyflogwyr mawr fel Admiral, a gynrychiolir gan ei brif swyddog gweithredol, David Stevens, a BT, a gynrychiolir gan gyfarwyddwr Cymru, Ann Beynon. Dewiswyd aelodau'r bwrdd o'r sector preifat mewn ymgynghoriad â Chydffederasiwn Diwydiant Prydain a Sefydliad y Cyfarwyddwyr. Rwyf wrth fy modd bod cynifer o unigolion o safon uchel wedi cytuno i wasanaethu ar fyrddau'r dinas-ranbarthau yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn. Dylem gael ein calonogi'n fawr iawn gan y diddordeb a'r brwdfrydedd i gefnogi datblygiad y dinas-ranbarthau.

I am also particularly encouraged that both boards have such strong representation from the education sectors. In Swansea bay, the board benefits from the presence of Professor Richard Davies, vice-chancellor at Swansea University, and Barry Liles, principal of Coleg Sir Gâr. In south-east Wales, in addition to Professor Riordan as vice-chair, there is strong education sector representation from Professor Julie Lydon, vice-chancellor of the University of South Wales, and Professor Brian Morgan of Cardiff Metropolitan University. This is particularly important given the critical importance of education and training in preparing our young people to be active members of the future labour market, equipped with the skills that business needs and which a successful city region demands.

Rwyf hefyd wedi fy nghalonogi'n arbennig bod gan y ddau fwrdd gynrychiolaeth mor gref o'r sectorau addysg. Ym mae Abertawe, mae'r bwrdd yn elwa o bresenoldeb yr Athro Richard Davies, is-ganghellor ym Mhrifysgol Abertawe, a Barry Liles, prifathro Coleg Sir Gâr. Yn ne-ddwyrain Cymru, yn ogystal â'r Athro Riordan fel is-gadeirydd, ceir cynrychiolaeth gref o'r sector addysg gan yr Athro Julie Lydon, is-ganghellor Prifysgol De Cymru, a'r Athro Brian Morgan o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried pwysigrwydd hanfodol addysg a hyfforddiant i baratoi ein pobl ifanc i fod yn aelodau gweithgar o'r farchnad lafur yn y dyfodol, sy'n meddu ar y sgiliau y mae ar fusnes eu hangen ac y mae dinas-ranbarth llwyddiannus yn eu mynnu.

It is also of significance in the context of the European Commission's Horizon 2020 agenda, which promises to help bridge the gap between skills and education, and research and the market. This is of enormous importance to both Swansea bay and south-east Wales city regions. Both regions are well-equipped with first-class education and research institutions that already have established links with industry, in addition to new and exciting developments such the science and innovation campus at Swansea University.

Mae hefyd yn bwysig yng nghyd-destun agenda Horizon 2020 y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n addo helpu i bontio'r bwlch rhwng sgiliau ac addysg, ac ymchwil a'r farchnad. Mae hyn yn eithriadol o bwysig i ddinas-ranbarthau bae Abertawe a de-ddwyrain Cymru. Mae gan y ddau ranbarth sefydliadau addysg ac ymchwil o'r radd flaenaf sydd eisoes wedi sefydlu cysylltiadau â diwydiant, yn ogystal â datblygiadau newydd a chyffrous megis y campws gwyddoniaeth ac arloesedd ym Mhrifysgol Abertawe.

I have given the boards strong and clear terms of reference that encourage and support local discretion and input in shaping the city regions. Ultimately, I expect the boards to deliver a more strategic regional approach and better collaborative spatial development, starting with their inaugural meetings next month.

Rwyf wedi rhoi i'r byrddau gylch gorchwyl cadarn ac eglur sy'n annog ac yn cefnogi disgresiwn a chyfraniad lleol wrth lunio'r dinas-ranbarthau. Yn y pen draw, rwy'n disgwyl i'r byrddau ddarparu ymdriniaeth ranbarthol fwy strategol a gwell datblygiad gofodol ar y cyd, gan ddechrau gyda'u cyfarfodydd cyntaf y mis nesaf.

To my mind, there are a number of overarching objectives, the first being the need to set out the key priorities required to develop the city region framework in the next five years. This will include major infrastructure requirements, funding mechanisms and investment. The second is the prioritisation of projects which demonstrate the potential to achieve real economic improvements across the region. These projects will need to be transformational and add real value. The third is the need to encourage the alignment of relevant functions and activities, and consider the strategic application of funds as part of an integrated city region. The fourth is the receipt of input from the business community and others through a structured process of engagement to make the city region a success. In meeting those objectives, both boards will have access to some first-class advice. Dave Gilbert, director of regeneration and leisure at Carmarthenshire County Council, will be an adviser to the Swansea bay board and Professor Kevin Morgan of Cardiff University will be an advisor to the south-east Wales board. I thank them for agreeing to support this important work.

Yn fy marn i, ceir nifer o amcanion cyffredinol, a'r cyntaf yw'r angen i bennu'r blaenoriaethau allweddol sydd eu hangen i ddatblygu fframwaith y dinas-ranbarthau yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys gofynion seilwaith mawr, mecanweithiau cyllido a buddsoddiad. Yr ail yw blaenoriaethu prosiectau sy'n dangos y potensial i gyflawni gwelliannau economaidd go iawn ar draws y rhanbarth. Bydd angen i'r prosiectau hyn fod yn drawsnewidiol ac ychwanegu gwerth go iawn. Y trydydd yw'r angen i annog cydnawsedd rhwng swyddogaethau a gweithgareddau perthnasol, ac ystyried sut i ddefnyddio arian yn strategol fel rhan o ddinas-ranbarth integredig. Y pedwerydd yw derbyn cyfraniad gan y gymuned fusnes ac eraill drwy broses strwythuredig o ymgysylltiad i wneud y dinas-ranbarthau yn llwyddiant. Wrth gyflawni'r amcanion hynny, bydd cyngor o'r radd flaenaf ar gael i'r ddau fwrdd. Bydd Dave Gilbert, cyfarwyddwr adfywio a hamdden yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, yn cynghori bwrdd bae Abertawe a bydd yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd yn cynghori bwrdd de-ddwyrain Cymru. Diolch iddynt am gytuno i gefnogi'r gwaith pwysig hwn.

I have always made it clear that it is not the role of Welsh Government to drive the city regions. That drive must come from partners within the region, rather than from the centre. Dr Elizabeth Haywood's report showed how regional and local buy-in and input is vital to successful city regions, and I will be looking to the boards in that regard.

Rwyf bob amser wedi'i gwneud yn glir nad rôl Llywodraeth Cymru yw sbarduno'r dinas-ranbarthau. Rhaid i'r sbardun hwnnw ddod gan bartneriaid yn y rhanbarth, yn hytrach nag o'r canol. Dangosodd adroddiad Dr Elizabeth Haywood sut y mae ymrwymiad a chyfraniad lleol yn hanfodol i ddinas-ranbarthau llwyddiannus, a byddaf yn dibynnu ar y byrddau yn hynny o beth.

I am also looking forward with interest to the imminent publication of a study commissioned by the south-east Wales economic forum. The study will provide important business views on what needs to be done to fulfil the economic potential of the south-east Wales city region, and will be a topic for the board's consideration at its early meetings.

Rwyf hefyd yn edrych ymlaen yn eiddgar at astudiaeth a gomisiynwyd gan fforwm economaidd de-ddwyrain Cymru ac sydd ar fin cael ei chyhoeddi. Bydd yr astudiaeth yn darparu safbwyntiau pwysig gan fyd busnes ar yr hyn y mae angen ei wneud i gyflawni potensial economaidd dinas-ranbarth de-ddwyrain Cymru, a bydd yn bwnc i'w ystyried gan y bwrdd yn ei gyfarfodydd cynnar.

In terms of the south-east Wales city region board, I am pleased to announce that the vice-chancellor of Cardiff University has agreed to support the administrative and secretariat requirements for the board. My department and Cardiff Council will also contribute resource to support the board, and I call upon other local authorities to consider any future support that they might give to the board. I am also pleased that the secretariat and administrative arrangements for the Swansea bay city region board will be supported through Steve Phillips, chief executive of Neath Port Talbot County Borough Council.

O ran bwrdd dinas-ranbarth de-ddwyrain Cymru, rwy'n falch o gyhoeddi bod is-ganghellor Prifysgol Caerdydd wedi cytuno i gefnogi gofynion gweinyddol ac ysgrifenyddiaeth y bwrdd. Bydd fy adran i a Chyngor Caerdydd hefyd yn cyfrannu adnoddau i gefnogi'r bwrdd, ac rwy'n galw ar awdurdodau lleol eraill i ystyried unrhyw gefnogaeth yn y dyfodol y gallent ei roi i'r bwrdd. Rwyf hefyd yn falch y bydd yr ysgrifenyddiaeth a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer bwrdd dinas-ranbarth bae Abertawe yn cael eu cefnogi trwy Steve Phillips, prif weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

We can take pride here in Wales at the way in which we are acting to bring together the public and private sectors to collaborate and co-operate to create economic benefit for the city regions. We can already see the signs of early progress of this approach. Just last month, a major conference took place to help promote the economic opportunities of the Swansea bay city region, and work has already started to implement an economic regeneration strategy for the region.

Gallwn ymfalchïo yma yng Nghymru yn y ffordd yr ydym yn gweithredu i ddwyn ynghyd y sectorau cyhoeddus a phreifat i gydweithio a chydweithredu i greu budd economaidd ar gyfer y dinas-ranbarthau. Gallwn eisoes weld arwyddion cynnydd cynnar yn sgil yr agwedd hon. Y mis diwethaf, cynhaliwyd cynhadledd bwysig i gynorthwyo i hyrwyddo cyfleoedd economaidd dinas-ranbarth Bae Abertawe, ac mae gwaith eisoes wedi dechrau i weithredu strategaeth adfywio economaidd ar gyfer y rhanbarth.

Looking forward, European funding and the prioritisation of projects to compete successfully for that funding will be a key focus for the city regions. A city region structure is already accepted across Europe as a successful approach to managing and prioritising projects. We have now embarked on that journey of looking at funding and projects collectively. Along with European funding, transport and connectivity are the other key issues that the boards will need to consider. In thinking about transport infrastructure, we must focus on how it can serve the needs of businesses, people and communities across both city regions.

Gan edrych ymlaen, bydd y dinas-ranbarthau yn rhoi pwyslais allweddol ar arian Ewropeaidd ac ar flaenoriaethu prosiectau i gystadlu'n llwyddiannus am y cyllid. Mae strwythur dinas-ranbarthau eisoes yn cael ei dderbyn ledled Ewrop fel dull llwyddiannus o reoli a blaenoriaethu prosiectau. Rydym bellach wedi cychwyn ar y broses honno o ystyried cyllid a phrosiectau ar y cyd. Ynghyd â chyllid Ewropeaidd, trafnidiaeth a chysylltedd yw'r materion allweddol eraill y bydd angen i'r byrddau eu hystyried. Wrth feddwl am seilwaith trafnidiaeth, rhaid inni ganolbwyntio ar sut y gall wasanaethu anghenion busnesau, pobl a chymunedau ar draws y ddwy ddinas-ranbarth.

In the south-east Wales city region, the proposals for a metro are particularly important in this regard. Following receipt of the report from Mark Barry, I have agreed to set up a group to move us quickly to the planning and delivery stage. By aligning wider strategic activities, the metro will be a catalyst for transforming the economic prospects of the region and Wales. I therefore intend to ask Professor Kevin Morgan for his initial views on how these linkages can be made from a governance perspective.

Yn ninas-ranbarth de-ddwyrain Cymru, mae'r cynigion ar gyfer metro yn arbennig o bwysig yn hyn o beth. Ar ôl derbyn yr adroddiad gan Mark Barry, rwyf wedi cytuno i sefydlu grŵp i'n symud yn gyflym at y cyfnod cynllunio a chyflwyno. Trwy sicrhau bod gweithgareddau strategol ehangach yn cydweddu â'i gilydd, bydd y metro yn gatalydd ar gyfer trawsnewid rhagolygon economaidd y rhanbarth a Chymru. Felly, rwy'n bwriadu gofyn i'r Athro Kevin Morgan am ei farn gychwynnol ar sut y gellir gwneud y cysylltiadau hyn o safbwynt llywodraethu.

This is a long journey, but I am encouraged by the progress that has been made over the last few months. In both city regions, collaboration to meet shared aspirations for jobs and growth has entered a new and exciting phase. Action is key. Establishing the city region boards is the next step in that journey and provides the vehicle to build on the momentum and consensus that has been achieved.

Mae hon yn daith hir, ond mae'r hyn a gyflawnwyd dros yr ychydig fisoedd diwethaf wedi fy nghalonogi. Yn y ddau ddinas-ranbarth, dechreuwyd ar gyfnod newydd a chyffrous o ran cydweithio i fodloni'r dyheadau a rennir ar gyfer swyddi a thwf. Mae gweithredu yn allweddol. Sefydlu byrddau'r dinas-ranbarthau yw'r cam nesaf ar y daith ac mae'n darparu'r cyfrwng i adeiladu ar y momentwm a'r consensws a gyflawnwyd.

I welcome the cross-party and private and public sector support for this agenda. I also recognise the positive response that I have received from other Ministers, particularly the Minister for Finance, in helping to ensure the delivery of this approach. We also need to continue to focus on the positive steps that are taking place in north Wales, following Dr Haywood's Dee region cross-border economy report. We will continue to look at ways of strengthening the cross-border relationships in the Dee region. Momentum must be maintained and I will continue to support the city region boards in driving the agenda forward.

Croesawaf y gefnogaeth drawsbleidiol a chefnogaeth y sector preifat a chyhoeddus i'r agenda hon. Rwyf hefyd yn cydnabod yr ymateb cadarnhaol yr wyf wedi'i gael gan Weinidogion eraill, yn enwedig y Gweinidog Cyllid, i helpu i sicrhau y cyflawnir y dull gweithredu hwn. Mae angen i ni hefyd barhau i ganolbwyntio ar y camau cadarnhaol a gymerir yng ngogledd Cymru, yn dilyn adroddiad y Dr Haywood ar economi traws-ffiniol rhanbarth Dyfrdwy. Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd o gryfhau'r cysylltiadau traws-ffiniol yn rhanbarth Dyfrdwy. Rhaid cynnal y momentwm a byddaf yn parhau i gefnogi byrddau'r dinas-ranbarthau i yrru'r agenda yn ei blaen.

15:27

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for today's statement. You just said that action is the key and I think that we would all agree with that and hope that progress can be made. I welcome the statement and the information that the Minister has provided on the appointments that have been made. I particularly welcome the appointment of Roger Lewis as chair of the city region board for south-east Wales. I worked with Roger during the second referendum campaign and I know first-hand of his ability to work with partners across the public and private sectors.

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw. Rydych newydd ddweud bod gweithredu'n allweddol ac rwy'n meddwl y byddem i gyd yn cytuno â hynny, ac yn gobeithio y gellir symud ymlaen. Rwy'n croesawu'r datganiad a'r wybodaeth y mae'r Gweinidog wedi'i darparu ynglŷn â'r penodiadau. Croesawaf yn arbennig benodiad Roger Lewis fel cadeirydd bwrdd dinas-ranbarth de-ddwyrain Cymru. Gweithiais gyda Roger yn ystod ymgyrch yr ail refferendwm ac rwy'n gwybod yn bersonol am ei allu i weithio gyda phartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

It is also important—I know from discussions with you, Minister, that you see the benefit of this—that we remember what a city region actually is. There is, too often, confusion about the structure and about the role of it. It is important that you send a signal that city regions are not simply larger local authority areas, or large local committees boasting the usual suspects; they must be completely focused on delivery and making the city region areas work economically. My first question to you is: how do you intend to make sure that this does not drift over time and that delivery remains the priority?

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn cofio beth yw dinas-ranbarth mewn gwirionedd—rwy'n gwybod o drafodaethau gyda chi, Weinidog, eich bod yn gweld budd hyn. Ceir dryswch yn rhy aml ynghylch ei strwythur a'i swyddogaeth. Mae'n bwysig eich bod yn anfon arwydd nad dim ond ardaloedd awdurdodau lleol mwy yw dinas-ranbarthau, neu bwyllgorau lleol mawr â'r un hen wynebau; mae'n rhaid iddynt ganolbwyntio'n llwyr ar gyflawni a gwneud i ardal y dinas-ranbarth weithio'n economaidd. Fy nghwestiwn cyntaf i chi yw: sut rydych chi'n bwriadu gwneud yn siŵr nad yw hyn yn llithro dros amser a'u bod yn parhau i roi blaenoriaeth i gyflawni?

The south-east Wales city region takes in 10 local authority areas, but only five are represented. I think that that is a good number, but nonetheless you have had to take a decision about which areas are directly represented. I am pleased that you have included representatives from a range of rural and urban areas, and also a range of political views. I think that Peter Fox, the leader of Monmouthshire County Council is on that board, so I welcome that. Nonetheless, there are other areas that are not directly represented, so how will you ensure that their views are adequately covered?

Mae dinas-ranbarth de-ddwyrain Cymru yn cynnwys ardaloedd 10 awdurdod lleol, ond dim ond pump sy'n cael eu cynrychioli. Credaf fod hynny'n nifer dda, ond serch hynny rydych wedi gorfod gwneud penderfyniad ynghylch pa ardaloedd sy'n cael eu cynrychioli'n uniongyrchol. Rwy'n falch eich bod wedi cynnwys cynrychiolwyr o ystod o ardaloedd gwledig a threfol, a hefyd ystod o safbwyntiau gwleidyddol. Credaf fod Peter Fox, arweinydd Cyngor Sir Fynwy ar y bwrdd hwnnw, felly rwy'n croesawu hynny. Serch hynny, mae ardaloedd eraill nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol, felly sut y byddwch yn sicrhau bod eu barn yn cael eu cwmpasu'n ddigonol?

On the subject of private sector involvement, this is crucial if we are to get results on the ground and economic improvement. So, how did you decide on the partners whom you have chosen? I imagine that you had a difficult choice and needed to ensure that a range of businesses were represented. While I welcome the involvement of Admiral and the other businesses that you have chosen, I see that areas such as construction are not directly represented. Clearly, construction and manufacturing are a big aspect of the economy and it is an area that we need to improve, so I would like to hear how you are going to ensure that those sectors of the economy are represented and included.

O ran cyfraniad y sector preifat, mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau ar lawr gwlad a gwelliant economaidd. Felly, sut gwnaethoch chi benderfynu ar y partneriaid yr ydych wedi'u dewis? Rwy'n tybio y bu'r dewis yn un anodd ac y bu angen sicrhau bod ystod o fusnesau yn cael eu cynrychioli. Er fy mod yn croesawu cyfraniad Admiral a'r busnesau eraill yr ydych wedi'u dewis, rwy'n gweld nad yw meysydd fel adeiladu yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol. Yn amlwg, mae adeiladu a gweithgynhyrchu yn agwedd fawr ar yr economi ac mae'n faes y mae angen i ni ei wella, felly hoffwn glywed sut rydych yn mynd i sicrhau bod y sectorau hynny o'r economi yn cael eu cynrychioli a'u cynnwys.

I was very interested in the point that you made about the importance of matching the education and the training available with the job opportunities that are offered by the city-region area. We know that organisations such as the Federation of Small Businesses have recently expressed concern at a perceived current disconnect, whereby the training that is being provided is often not appropriate for the local economic area. This point was highlighted by the Enterprise and Business Committee's inquiry. How are you addressing these concerns now?

Roedd gennyf ddiddordeb mawr yn y pwynt a wnaethoch ynglŷn â phwysigrwydd cyfateb yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael gyda'r cyfleoedd am swyddi a gynigir gan ardal y dinas-ranbarth. Rydym yn gwybod bod sefydliadau megis y Ffederasiwn Busnesau Bach wedi mynegi pryder yn ddiweddar bod canfyddiad ar hyn o bryd nad yw'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yn aml yn briodol ar gyfer yr ardal economaidd leol. Amlygwyd y pwynt hwn gan ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes. Sut rydych chi'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn awr?

I have a few more questions on issues that were not clear from the statement. Is South East Wales Transport Alliance going to be incorporated within the remit of the city regions? If that is an aim, then how will you safeguard accountability and impartiality? You mentioned the metro. We agree that the metro is a potential catalyst for transforming the economic prospects of the region, and of south Wales. With the city region likely to be responsible for this project, can the Minister flesh out some detail as to the timescales that are involved, what the programme for consultation will be, and, in particular, how it will link in with the promised M4 improvements?

Mae gennyf ychydig mwy o gwestiynau ar faterion nad oeddent yn glir o'r datganiad. A fydd Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn cael ei hymgorffori o fewn cylch gwaith y dinas-ranbarthau? Os mai dyna'r nod, sut byddwch chi'n diogelu atebolrwydd ac agwedd ddiduedd? Soniasoch am y metro. Rydym yn cytuno bod y metro yn gatalydd bosibl ar gyfer trawsnewid rhagolygon economaidd y rhanbarth, a de Cymru. Gan fod y dinas-ranbarth yn debygol o fod yn gyfrifol am y prosiect hwn, a all y Gweinidog ymhelaethu ynghylch yr amserlenni, beth fydd y rhaglen ar gyfer ymgynghori, ac, yn benodol, sut y bydd yn cysylltu â'r gwelliannau a addawyd i'r M4?

Finally, I would be grateful if the Minister could outline what other projects she envisages recommending that the board prioritise. However, we broadly welcome today's statement.

Yn olaf, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog amlinellu pa brosiectau eraill y mae'n rhagweld eu hargymell y dylai'r bwrdd roi blaenoriaeth iddynt. Fodd bynnag, rydym yn croesawu datganiad heddiw yn gyffredinol.

15:31

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much for your broad welcome. I know that Roger Lewis is very excited about and very committed to this particular project. He sees that this is an opportunity for leading a very strategic change of direction, and I think that he is particularly pleased with the appointments to the board.

Diolch yn fawr iawn am eich croeso cyffredinol. Rwy'n gwybod bod Roger Lewis yn gyffrous iawn am y prosiect penodol hwn ac yn ymroddedig iawn iddo. Mae'n gweld bod hwn yn gyfle i arwain newid cyfeiriad strategol iawn, ac rwy'n meddwl ei fod yn arbennig o hapus gyda'r penodiadau i'r bwrdd.

However, you are absolutely correct to say that this will have to focus on delivery. They are going to have to identify their projects pretty quickly, in terms of discussion. I am aware of the initial discussions that have already taken place in Swansea, and what they are looking at. To be able to have the icing on the cake in success in the city of culture bid next week would certainly be something that the region would also look forward to in terms of how that could help in terms of economic delivery and what is required. I also know that, in south-east Wales, they have looked at some exciting projects, including tourism projects, such as the Brecon canal coming back to Newport. So, they are going to have to have a number of key projects. However, we cannot afford any element of drift on this. That is why it is so important that we have a good secretariat driving it, and that we have that commitment.

Fodd bynnag, rydych yn hollol gywir i ddweud y bydd yn rhaid i hyn ganolbwyntio ar gyflawni. Bydd yn rhaid iddynt nodi eu prosiectau yn weddol gyflym, yn eu trafodaethau. Rwy'n ymwybodol o'r trafodaethau cychwynnol sydd eisoes wedi digwydd yn Abertawe, a'r hyn y maent yn ei ystyried. Byddai'r rhanbarth hefyd yn sicr yn edrych ymlaen at gael yr eisin ar y gacen ar ffurf llwyddiant y cynnig i fod yn ddinas diwylliant yr wythnos nesaf, o ran sut y gallai hynny helpu i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol yn economaidd. Rwyf hefyd yn gwybod eu bod wedi edrych, yn ne-ddwyrain Cymru, ar rai prosiectau cyffrous, gan gynnwys prosiectau twristiaeth, er enghraifft dod â chamlas Aberhonddu yn ôl i Gasnewydd. Felly, bydd yn rhaid iddynt gael nifer o brosiectau allweddol. Fodd bynnag, ni allwn fforddio unrhyw lithro yn hyn o beth. Dyna pam ei bod mor bwysig bod gennym ysgrifenyddiaeth dda yn ei yrru, a bod gennym yr ymrwymiad hwnnw.

I have to say as well that it was a difficult decision, but I did not envisage having every representative group of everybody on the city region board, hence the decision with local authorities that several of them would be on the board. However, I did feel that there should be political balance, and that that should be reflected, hence the appointment of Councillor Peter Fox, from Monmouthshire County Council, who has been extremely supportive of the city-region concept, and has been very helpful in that regard.

Rhaid imi ddweud yn ogystal ei fod yn benderfyniad anodd, ond nad oeddwn yn rhagweld y byddai bwrdd y dinas-ranbarth yn cynnwys pob grŵp cynrychiadol. Dyna pam y gwnaed y penderfyniad gydag awdurdodau lleol y byddai sawl un ohonynt ar y bwrdd. Fodd bynnag, roeddwn yn teimlo y dylid cael cydbwysedd gwleidyddol, ac y dylid adlewyrchu hynny, a dyna pam y penodwyd y Cynghorydd Peter Fox, o Gyngor Sir Fynwy, sydd wedi bod yn hynod gefnogol i gysyniad y dinas-ranbarthau, ac yn barod iawn ei gymorth yn hynny o beth.

So, in terms of the local authorities, the local authority group was offered the opportunity to elect who its representatives would be. Unfortunately, that did not come to pass, and I have made the appropriate nominations. However, as I indicated in my statement, if it wishes to look at its representation—keeping political balance, of course—it will then be entitled to make further representations to me if it wants other local authority leaders involved. However, I do not think that it was possible, just as with the private sector, to put everyone on.

Felly, cafodd grŵp yr awdurdodau lleol gynnig y cyfle i ethol pwy fyddai ei gynrychiolwyr. Yn anffodus, ni ddigwyddodd hynny, ac rwyf wedi gwneud yr enwebiadau priodol. Fodd bynnag, fel y dywedais yn fy natganiad, os yw'n dymuno edrych ar ei gynrychiolaeth—gan gadw cydbwysedd gwleidyddol, wrth gwrs—bydd hawl ganddo wedyn i gyflwyno sylwadau pellach i mi os yw am gynnwys arweinwyr awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, nid wyf yn credu ei bod yn bosibl cynnwys pawb, yn union fel yn achos y sector preifat.

I took advice from the Institute of Directors, and from the Confederation of British Industry. The IOD and the CBI are also looking at the structure underlying the city regions, and they are going to be consulting widely with business, and then feeding into their representatives on the board. They are going to do that across the piece, so I think that we can take the views of industry in.

Cymerais gyngor gan Sefydliad y Cyfarwyddwyr, a chan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain. Mae'r ddau sefydliad hyn hefyd yn edrych ar y strwythur sy'n sail i'r dinas-ranbarthau, ac maent yn bwriadu ymgynghori'n eang gyda byd busnes, ac yna bwydo'r wybodaeth i'w cynrychiolwyr ar y bwrdd. Maent yn mynd i wneud hynny ar draws y sector, felly rwy'n meddwl y byddwn yn clywed barn byd diwydiant.

You are quite right about education. I think that education is the key to this, in terms of what skills are required for the development of what within the city regions. Regarding the report that was completed by the committee, I think that the committee will be very pleased when it sees the focus of the work that is likely to come through in that area from the boards.

Rydych yn llygad eich lle ynghylch addysg. Rwy'n meddwl bod addysg yn allweddol i hyn, o ran pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer datblygu hyn o fewn y dinas-ranbarthau. O safbwynt yr adroddiad a gwblhawyd gan y pwyllgor, rwy'n credu y bydd y pwyllgor yn falch iawn pan fydd yn gweld ffocws y gwaith sy'n debygol o ddod i'r amlwg gan y byrddau yn y maes hwnnw.

In terms of Sewta, I have yet to make the formal or final decisions on these matters. I hope to do so within the next few weeks, and to advise the Assembly before we go into recess. In terms of the metro, it is an exciting project, and I think that I do have to consider whether I can have a city-region structure in south-east Wales that will be able to take that project on board. That is why I have asked Professor Kevin Morgan to look at governance issues.

O ran Sewta, nid wyf hyd yma wedi gwneud y penderfyniadau ffurfiol neu derfynol ar y materion hyn. Rwy'n gobeithio gwneud hynny o fewn yr ychydig wythnosau nesaf, a rhoi gwybod i'r Cynulliad cyn y toriad. O ran y metro, mae'n brosiect cyffrous, a chredaf fod yn rhaid imi ystyried a allaf gael strwythur dinas-ranbarth yn ne-ddwyrain Cymru a fydd yn gallu cymryd cyfrifoldeb am y prosiect hwnnw. Dyna pam yr wyf wedi gofyn i'r Athro Kevin Morgan edrych ar faterion llywodraethu.

I say to Members across the piece that, in terms of governance and any issues, if any Members wish to discuss that directly with Professor Morgan before he makes any representations to me, you only have to ask and we can facilitate the meetings. I recognise that, on issues around governance, I do not have the sole source of wisdom, and neither does Professor Morgan. However, we have to be quite certain that we have the right methods in place. You are quite right to say that it is about other issues beside the metro—it is about the M4 improvement, what they see as strategic, and what they see in terms of the delivery of other projects as well.

Dywedaf wrth Aelodau yn gyffredinol, os oes unrhyw Aelod yn dymuno trafod llywodraethu ac unrhyw faterion eraill yn uniongyrchol â'r Athro Morgan cyn iddo wneud unrhyw sylwadau imi, dim ond gofyn sydd raid i chi a gallwn hwyluso cyfarfodydd. Rwy'n cydnabod nad fi, na'r Athro Morgan chwaith, yw'r unig ffynhonnell doethineb ar faterion yn ymwneud â llywodraethu. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni fod yn eithaf sicr bod y dulliau cywir ar waith. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud ei fod yn ymwneud â materion eraill ar wahân i'r metro—mae'n ymwneud â gwelliant yr M4, yr hyn y maent yn ei ystyried yn strategol, a'r hyn y maent yn ei ystyried o ran cyflawni prosiectau eraill hefyd.

15:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have a number of speakers, whom I will not be able to get to unless people curtail their contributions. I call Mike Hedges.

Mae gennyf nifer o siaradwyr, na fyddaf yn gallu eu cyrraedd oni bai bod pobl yn cwtogi eu cyfraniadau. Galwaf ar Mike Hedges.

15:34

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First of all, I welcome the statement, and I welcome the make-up of the Swansea city region board. Of course, historically, the Swansea city region area has always worked together since local government reorganisation.

Diolch, Lywydd, Yn gyntaf oll, rwy'n croesawu'r datganiad, ac rwy'n croesawu cyfansoddiad bwrdd dinas-ranbarth Abertawe. Wrth gwrs, yn hanesyddol, mae ardal dinas-ranbarth Abertawe bob amser wedi gweithio gyda'i gilydd ers ad-drefnu llywodraeth leol.

I have two questions for the Minister. Does the Minister believe that it is important that the city region works for the whole region, not just for a part of it? Secondly, does the Minister expect the Swansea region to build on the work previously done by both the South West Wales Integrated Transport Consortium and the west Wales economic forum as, effectively, the precursors of the city-region system that you now have? Historically, we have worked very well together in the south-west Wales area, and I am sure this would be an opportunity for that to continue to improve.

Mae gennyf ddau gwestiwn cyflym i'r Gweinidog. A yw'r Gweinidog yn credu ei bod yn bwysig i'r dinas-ranbarth weithio ar gyfer y rhanbarth cyfan, nid ar gyfer rhan ohono'n unig? Yn ail, a yw'r Gweinidog yn disgwyl i ranbarth Abertawe adeiladu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol gan Gonsortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru a fforwm economaidd gorllewin Cymru, sef rhagflaenwyr y system dinas-ranbarth sydd gennych yn awr, i bob pwrpas? Yn hanesyddol, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd yn dda iawn yn ardal de-orllewin Cymru, ac rwy'n siŵr y bydd hyn yn gyfle i hynny barhau i wella.

15:35 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The city region does work for all of the region, and it is important to recognise that. There are no senior partners in any of these arrangements; let me make that quite clear. The voice of a small authority, a rural area, an urban area, or whatever, has equal weight and that will be important. That is why I have advisers on the boards: to make sure that there is equity and fair play within these particular areas. Yes, there will certainly be aspects from both SWWITCH and the work that was undertaken by the economic forum within south-west Wales that it can build upon, but the important thing is that we do not want to get bogged down into talking shops and into the fiefdom mentality. We have to deliver this as a regional approach in terms of the best utilisation of the structural funds, which is a matter that I have discussed with my colleague, Jane Hutt. There also needs to be a clear understanding that, sometimes, you will not see something shiny and new in your patch, but what you do will actually benefit you and the entire region.

Mae'r dinas-ranbarth yn gweithio ar gyfer yr holl ranbarth, ac mae'n bwysig cydnabod hynny. Nid oes uwch bartneriaid yn unrhyw un o'r trefniadau hyn; gadewch imi wneud hynny'n gwbl glir. Rhoddir yr un sylw i lais awdurdod bach, ardal wledig, ardal drefol, neu beth bynnag, a bydd hynny'n bwysig. Dyna pam y mae gennyf gynghorwyr ar y byrddau: i wneud yn siŵr bod cydraddoldeb a chwarae teg o fewn yr ardaloedd penodol hyn. Bydd, fe fydd yn sicr yn gallu adeiladu ar agweddau o'r Consortiwm a'r gwaith a wnaed gan y fforwm economaidd yn ne-orllewin Cymru, ond y peth pwysig yw nad ydym yn cael ein llethu gan greu siopau siarad a meddylfryd teyrnasoedd bach. Mae'n rhaid inni gyflawni hyn fel dull rhanbarthol o wneud y defnydd gorau o'r cronfeydd strwythurol, sy'n fater yr wyf wedi'i drafod gyda'm cydweithiwr, Jane Hutt. Mae angen hefyd cael dealltwriaeth glir na fyddwch, weithiau, yn gweld rhywbeth sgleiniog a newydd yn eich ardal chi, ond y bydd yr hyn yr ydych yn ei wneud o fudd i chi a'r rhanbarth cyfan mewn gwirionedd.

15:36 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr am y datganiad. Rwy'n cytuno bod y byrddau i weld â chynrychiolaeth gref o wahanol sectorau a rhanddeiliaid, ac rwy'n cytuno hefyd bod rhaid i'r partneriaid-rydym yn siarad yn blaen yn y fan hon, felly, yr awdurdodau lleol-fod yn awyddus i gydweithio a chymryd rôl arweiniol os yw'r cynllun hwn yn mynd i weithio. Mae'r datganiad yn codi cwestiwn arall, serch hynny, am weddill Cymru a beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru yng ngogledd Cymru, er enghraifft. Rwy'n cytuno â'r gwrthodiad o'r syniad o ddinas-ranbarth yn y gogledd, ond a ydych yn cytuno bod bwrdd arweinyddiaeth gogledd Cymru, sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol yno, yn gallu gweithredu fel ffocws i brif ddatblygiadau potensial yn y gogledd, gan osgoi dyblygu ac annog cydweithio ar draws yr awdurdodau? Dyna fy nghwestiwn cyntaf.

Thank you for the statement. I agree that the boards seem to have strong representation from different sectors and stakeholders, and I also agree that the partners—we are speaking plainly here, so, the local authorities—have to be eager to collaborate and to take a lead role if this scheme is to work. The statement does raise another question, however, about the rest of Wales, and what the Welsh Government's strategy is, for example, in north Wales. I agree with the rejection of the idea of a north Wales city region, but do you agree that the north Wales leadership board, which represents the local authorities there, can actually operate as a focus for the main potential developments in north Wales, and avoid duplication and encourage collaboration across authorities? That is my first question.

I would also ask the Minister for some clarity on her approach to the development of city regions. The First Minister has announced that city regions are the way forward and it is a central plank of Government economic policy. So, if this is a Government priority, why do you say in your statement:

Byddwn hefyd yn gofyn i'r Gweinidog am rywfaint o esboniad ynglŷn â'i hagwedd tuag at ddatblygu dinas-ranbarthau. Mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi mai'r dinas-ranbarthau yw'r ffordd ymlaen a'u bod yn rhan ganolog o bolisi economaidd y Llywodraeth. Felly, os yw'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth, pam rydych chi'n dweud yn eich datganiad:

'I have always made it clear that it is not the role of Welsh Government to drive the city regions. That drive must come from partners within the region rather than from the centre'?

'Rwyf bob amser wedi'i gwneud yn glir nad rôl Llywodraeth Cymru yw sbarduno'r dinas-ranbarthau. Rhaid i'r sbardun hwnnw ddod gan bartneriaid yn y rhanbarth, yn hytrach nag o'r canol'?

While buy-in is essential and vital, of course, that seems to contrast with, if not to contradict, other elements in your statement today regarding the south-east metro. I will quote from that paragraph as well. You say:

Er bod ymrwymiad yn angenrheidiol ac yn hanfodol, wrth gwrs, mae'n ymddangos bod hynny'n cyferbynnu ag elfennau eraill yn eich datganiad heddiw am fetro'r de-ddwyrain, os nad yn eu gwrth-ddweud. Dyfynnaf y paragraff hwnnw hefyd. Rydych yn dweud:

'The proposals for a Metro are particularly important in this regard…I have agreed to set up a group to move us quickly to the planning and delivery stage.'

'Mae'r cynigion ar gyfer metro yn arbennig o bwysig yn hyn o beth… rwyf wedi cytuno i sefydlu grŵp i'n symud yn gyflym at y cyfnod cynllunio a chyflwyno.'

If you are leading the way in this huge segment of the city-region concept, why are you not leading on the rest? Professor Morgan said to the committee when he was before us that transport, planning, economic development and housing must dovetail; indeed, that is the big win. I would be interested to hear the Minister's views on the seeming contradiction that you are driving forward one element of the city-region concept, while seeming to say that it is up to the partners to deliver on the rest. It does seem to me that all this must hang together or it will not happen at all.

Os ydych yn arwain y ffordd yn y segment enfawr hwn o gysyniad y dinas-ranbarth, pam nad ydych yn arwain ar y gweddill? Dywedodd yr Athro Morgan wrth y pwyllgor pan oedd ger ein bron bod rhaid i drafnidiaeth, cynllunio, datblygu economaidd a thai gydblethu, yn wir, dyna'r fuddugoliaeth fawr. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed barn y Gweinidog ynglŷn â'r anghysondeb ymddangosiadol eich bod yn gyrru ymlaen un elfen o gysyniad y dinas-ranbarth, ond fel pe baech yn dweud ei bod yn fater i'r partneriaid gyflawni ar y gweddill. Mae'n ymddangos i mi bod yn rhaid i hyn i gyd gyd-fynd neu ni fydd yn digwydd o gwbl.

15:38 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think that it does all hang together. What I have to make absolutely clear is that, if they are partners, are at the table and want to be part of this, they have to contribute to it. So, they have to have the ideas, they have to bring the ideas forward, they have to make the case for them with their partners, and it all has to be transformational. I do not see any difference in my statements to what the First Minister has said; perhaps it was just the emphasis. I want to make it clear today that the partners have a definitive role, particularly local authorities, in delivering this agenda. However, let me make it absolutely clear: if local authorities feel that they are not able to be part of this agenda, this will become a private sector and education-led initiative in some areas if they cannot participate fully. I make my views absolutely clear on that. There would then be more direction coming in from Government, but I want to try to build this bottom-up approach.

Wel, rwy'n meddwl ei fod i gyd yn cyd-fynd. Yr hyn y mae'n rhaid i mi ei gwneud yn gwbl glir yw, os ydynt yn bartneriaid, wrth y bwrdd ac yn awyddus i fod yn rhan o hyn, bod yn rhaid iddynt gyfrannu. Felly, mae'n rhaid iddynt gael y syniadau, mae'n rhaid iddynt gyflwyno'r syniadau, mae'n rhaid iddynt ddadlau'r achos drostynt gyda'u partneriaid, ac mae'n rhaid i'r cyfan fod yn drawsnewidiol. Dydw i ddim yn gweld unrhyw wahaniaeth rhwng fy natganiadau i a'r hyn y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud; efallai ei bod yn fater o bwyslais. Rwyf am ei gwneud yn glir heddiw bod gan y partneriaid, yn enwedig awdurdodau lleol, rôl ddiffiniol wrth gyflawni'r agenda hon. Fodd bynnag, gadewch i mi ei gwneud yn gwbl glir: os yw awdurdodau lleol yn teimlo na allant fod yn rhan o'r agenda hon, daw yn fenter a arweinir gan y sector preifat ac addysg mewn rhai ardaloedd os nad ydynt yn gallu cymryd rhan yn llawn. Rwy'n gwneud fy marn yn gwbl glir ar hynny. Yna byddai mwy o gyfarwyddyd gan y Llywodraeth, ond rwyf am geisio adeiladu'r dull hwn o weithio o'r gwaelod i fyny.

In terms of the rest of Wales, this is very difficult, which is why I have established the group, under my colleague the Minister for local government, to look in particular at the transport issues around that. I am also in the process of discussing with Welsh local government leaders an economic arrangement in terms of an agreement on who does what in terms of developing the economy, and who takes the role for this, that and the other, so that there is not an element of duplication. I hope that we will be finalising that in January, which will give greater clarity. Then, of course, we can look at the role of the leadership board once we have that type of consensus about who is doing what, where and when without having any duplication of resources. I think that we also have to recognise that some of the authorities, when it comes to economic development, are really quite small in terms of their expertise and departments. So, a collaborative approach will be absolutely essential.

O ran gweddill Cymru, mae hyn yn anodd iawn, a dyna pam yr wyf wedi sefydlu'r grŵp, o dan fy nghydweithiwr, y Gweinidog llywodraeth leol, i edrych yn benodol ar y materion trafnidiaeth yn hynny o beth. Rwyf hefyd yn y broses o drafod trefniant economaidd gydag arweinwyr llywodraeth leol yng Nghymru, o ran cytuno pwy sy'n gwneud beth o ran datblygu'r economi, a phwy sy'n gyfrifol am hyn a'r llall, fel nad oes elfen o ddyblygu. Rwy'n gobeithio y byddwn yn cwblhau hynny ym mis Ionawr, a fydd yn gwneud pethau'n fwy eglur. Yna, wrth gwrs, gallwn edrych ar swyddogaeth y bwrdd arweinyddiaeth ar ôl inni gael y math hwnnw o gonsensws ynghylch pwy sy'n gwneud beth, ble a phryd ddyblygu unrhyw adnoddau. Credaf fod yn rhaid inni hefyd gydnabod bod rhai o'r awdurdodau, o safbwynt datblygiad economaidd, yn eithaf bach mewn gwirionedd o ran eu harbenigedd a'u hadrannau. Felly, bydd dull cydweithredol yn gwbl hanfodol.

15:40 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf innau hefyd yn croesawu eich datganiad, Weinidog. Fel Aelod lleol dros etholaeth yn rhanbarth bae Abertawe, rwy'n credu ei bod yn bwysig na cheir canfyddiad bod y polisi yn deillio o ddwy ran, sef y ddinas ar y naill law a'r rhanbarth ar y llall. Fel y dywedoch yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes, mae'n weithred ar gyfer yr holl ardal ac mae eich byrddau yn dangos hyn yn glir. Mae gennyf gwestiynau. Gan fod trafnidiaeth yn eich portffolio yn awr, sut y bydd yn cael ei chydlynu'n fwy gyda pholisi economaidd? O ran y wybodaeth ddiweddaraf, beth yw eich barn ynglŷn â sut y bydd pwerau benthyg o fantais i ddinas-ranbarth bae Abertawe? Rydych wedi dweud yn barod heddiw bod y ddinas-ranbarth ynghlwm â'r ymgyrch 'Cwtch the Bid' o ran cais Abertawe am statws ddinas diwylliant, ac rwy'n gobeithio y cawn newyddion da yfory am y cais.

I also welcome your statement, Minister. As a local Member for a constituency in the Swansea bay region, I think that it is important that there is not a perception that the policy emerges from two parts, namely the city on the one hand and the region on the other. As you said in your evidence to the Enterprise and Business Committee, this is action for the whole area and your boards demonstrate that clearly. I have some questions. Now that transport is within your portfolio, how will it be more closely co-ordinated with economic policy? In terms of an update, what is your view on how borrowing powers will benefit the Swansea bay city region? You have already stated today that the city region is linked to the 'Cwtch the Bid' campaign in terms of Swansea's bid for city of culture status, and I hope that we will receive some good news tomorrow about the bid.

Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y gorllewin yn canolbwyntio ar dwristiaeth. A ydych yn tybio y bydd y polisi ar ddinas-ranbarthau wedi bod ar waith am ddigon o amser i fanteisio ar ddigwyddiadau sy'n mynd i ddigwydd yn ein hardal ni dros y ddwy flynedd nesaf? Yn olaf, rwy'n gwybod nad yw'r polisi'n yn un o'r brig i lawr a bod cefnogaeth leol yn hollbwysig, ond sut ydych chi, fel Gweinidog, yn mynd i sicrhau bod manteisio i'r eithaf yn y polisi ar sgiliau a gallu pob ardal fel y gall manteision ddod yn ôl yn lleol?

I welcome the fact that the west is concentrating on tourism. Do you believe that the city-region policy will have been in place long enough to benefit from the events that will be taking place in our area over the next two years? Finally, I know that the policy is not top-down and that local support is crucial, but how will you, as Minister, ensure that the skills and abilities of all areas are taken full advantage of in the policy so that benefits can accrue locally?

15:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is very important that transport is now in my portfolio. This is the key to the development within the city regions. That is why it is very important that they have their transport priorities. With regard to transport priorities, it is quite clear from initial discussions in the south-east Wales region that it regards the M4 relief road as being a priority for economic development. Obviously, that is an issue that I will have to discuss with my colleague, the Minister for Finance, if we go ahead with any developments, in terms of what we do with borrowing powers. Similarly, I have always regarded the A40 as a key route into west Wales, but there are the same issues about the financial requirements there. So, it is a question of identifying the projects and seeing whether the money can be raised to deal with those particular issues.

Mae'n bwysig iawn bod trafnidiaeth yn awr yn fy mhortffolio i. Dyma sy'n allweddol i ddatblygiad o fewn y dinas-ranbarthau. Dyna pam ei bod yn bwysig iawn bod ganddynt eu blaenoriaethau trafnidiaeth. O ran blaenoriaethau trafnidiaeth, mae'n eithaf amlwg o'r trafodaethau cychwynnol yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru ei fod yn ystyried ffordd liniaru'r M4 fel blaenoriaeth ar gyfer datblygu economaidd. Yn amlwg, mae hwnnw'n fater y bydd yn rhaid imi ei drafod gyda'm cydweithiwr, y Gweinidog Cyllid, os ydym yn bwrw ymlaen ag unrhyw ddatblygiadau, o ran yr hyn a wnawn gyda phwerau benthyca. Yn yr un modd, rwyf bob amser wedi ystyried yr A40 fel llwybr allweddol i orllewin Cymru, ond mae'r un materion yn codi yno o ran gofynion ariannol. Felly, mae'n fater o nodi'r prosiectau a gweld a ellir codi'r arian i ddelio â'r materion penodol hynny.

On the question of the city of culture bid, that would be enormously exciting for us, and the opportunities for tourism in Swansea and the west in particular are enormous. We have to work very hard to ensure that we have everything in place—that also means, of course, the skills of the population in terms of delivering the project. So, that will be quite important. However, the reason that I have advisers on each board is that they will be seeing what is happening. They will see whether they are talking shops, whether they are they delivering, whether they are doing something, and where they feel people are not listening. They can report that back in and I can then have the necessary delicate discussions with the chairs.

O ran y cynnig ar gyfer dinas diwylliant, byddai hynny'n hynod o gyffrous i ni, ac mae'r cyfleoedd ar gyfer twristiaeth yn Abertawe a'r gorllewin yn benodol yn enfawr. Mae'n rhaid inni weithio'n galed iawn i sicrhau bod popeth yn ei le—mae hynny hefyd yn golygu, wrth gwrs, sgiliau'r boblogaeth o ran cyflawni'r prosiect. Felly, bydd hynny'n eithaf pwysig. Fodd bynnag, y rheswm pam fod gennyf gynghorwyr ar bob bwrdd yw y byddant yn gweld beth sy'n digwydd. Byddant yn gweld a ydynt yn siopau siarad, p'un a ydynt yn cyflawni, p'un a ydynt yn gwneud rhywbeth, a lle maent yn teimlo nad yw pobl yn gwrando. Gallant fy hysbysu am hynny a gallaf wedyn gael y trafodaethau sensitif angenrheidiol gyda'r cadeiryddion.

15:43 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for this very comprehensive statement today. I would also like to thank those board members who have agreed to take part for their support and, in particular, Neath Port Talbot council and Cardiff University for providing a secretariat, which I hope will really allow these city regions to be kick-started and drive forward their agenda.

Diolch ichi, Weinidog, am y datganiad cynhwysfawr iawn hwn heddiw. Hoffwn hefyd ddiolch am eu cefnogaeth i'r aelodau hynny o'r bwrdd sydd wedi cytuno i gymryd rhan ac, yn benodol, i Gyngor Castell-nedd Port Talbot a Phrifysgol Caerdydd am ddarparu ysgrifenyddiaeth. Gobeithio wir y bydd hynny'n rhoi hwb i'r dinas-ranbarthau ac yn sbarduno eu hagenda.

I very much welcome the strong representation of higher education on those boards. I think that it is a recognition of the extraordinary potential of such things as Horizon 2020, and other opportunities in innovation and engagement in our universities, to drive economic development. I absolutely agree that it is crucial that our education sector is involved in these in terms of the development of skilled workforces. However, I would ask the Minister not to forget the potential as well for further education to be involved in this and the importance of vocational education in creating the kind of skilled workforce that we want to see in the future.

Croesawaf yn fawr iawn y ffaith bod addysg uwch yn cael ei chynrychioli'n gryf o ar y byrddau hynny. Rwy'n meddwl bod hynny'n cydnabod potensial anhygoel pethau fel Horizon 2020, a chyfleoedd eraill o ran arloesedd ac ymgysylltu yn ein prifysgolion, i ysgogi datblygiad economaidd. Cytunaf yn llwyr ei bod yn hanfodol i'n sector addysg gymryd rhan o ran datblygu gweithlu medrus. Fodd bynnag, hoffwn ofyn i'r Gweinidog beidio ag anghofio'r potensial hefyd i gynnwys addysg bellach yn rhan o hyn, a phwysigrwydd addysg alwedigaethol mewn creu'r math o weithlu medrus yr ydym am ei weld yn y dyfodol.

Thank you for providing your overarching aims for the boards. I look forward to seeing perhaps some benchmarks and more specific timetables as soon as possible. I wonder whether you could give us an idea of when you are hoping to be able to provide those to us. Minister, I am glad to provide some of the cross-party support for this agenda that you have welcomed. However, there are issues that we must discuss surrounding governance, accountability and representation, as I am sure that you have anticipated. I welcome the fact that you have asked Professor Kevin Morgan to explore governance issues with specific regard to the links between the city regions and the south-east Wales metro, but the issue is much wider than that. The issue is that where public money is spent in pursuit of public sector objectives, we have to have a clear understanding of how these projects are governed. As Alun Ffred mentioned, you say in your statement that it is not the role of Welsh Government to drive the city regions. That local drive is laudable in theory, but the policy agenda has been launched by you, and if accountability does not rest with you, then the question is, of course, where does accountability rest for these very significant projects?

Diolch ichi am ddarparu eich amcanion cyffrredinol ar gyfer y byrddau. Edrychaf ymlaen at weld efallai rai meincnodau ac amserlenni mwy penodol cyn gynted ag y bo modd. Tybed a allech chi roi syniad inni pryd yr ydych yn gobeithio gallu darparu hynny? Weinidog, rwy'n falch o ddarparu rhywfaint o'r gefnogaeth drawsbleidiol yr ydych wedi'i chroesawu ar gyfer yr agenda hon. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni drafod rhai materion o safbwynt llywodraethu, atebolrwydd a chynrychiolaeth, fel rydych wedi rhagweld rwy'n siŵr. Croesawaf y ffaith eich bod wedi gofyn i'r Athro Kevin Morgan archwilio materion llywodraethu gyda golwg benodol ar y cysylltiadau rhwng y dinas-ranbarthau a metro de-ddwyrain Cymru, ond mae'r broblem yn llawer ehangach na hynny. Pan fo arian cyhoeddus yn cael ei wario er mwyn cyflawni amcanion y sector cyhoeddus, y broblem yw bod yn rhaid inni gael dealltwriaeth glir o sut y llywodraethir y prosiectau hyn. Fel y soniodd Alun Ffred, rydych yn dweud yn eich datganiad nad rôl Llywodraeth Cymru yw sbarduno'r dinas-ranbarthau. Mae'r sbardun lleol hwnnw'n ganmoladwy mewn theori, ond chi sydd wedi lansio'r agenda polisi, ac os nad chi sy'n atebol, yna y cwestiwn yw, wrth gwrs, pwy sy'n atebol am y prosiectau arwyddocaol iawn hyn?

Local authorities are partners in these regions, but we cannot hold them to account across local authority borders for the partnership projects effectively, particularly when there are some local authorities that, as you recognise, have not been represented on their city region boards. Therefore, another question that I might raise as a South Wales Central Member is this: how are the people of Rhondda Cynon Taf and the Vale of Glamorgan in my region to be represented in this way? I welcome the opportunity for that to be further explored, but as you say in your statement, it is essential that we have local buy-in and input, which is vital to successful city regions. That local buy-in and input obviously need to be there.

Mae awdurdodau lleol yn bartneriaid yn y rhanbarthau hyn, ond ni allwn eu dwyn i gyfrif yn effeithiol ar draws ffiniau awdurdodau lleol am brosiectau'r bartneriaeth, yn enwedig pan nad yw rhai awdurdodau lleol, fel yr ydych yn cydnabod, wedi cael eu cynrychioli ar fyrddau'r dinas-ranbarthau. Felly, cwestiwn arall y gallaf fi ei godi fel Aelod dros Ganol De Cymru yw hyn: sut mae pobl Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg yn fy rhanbarth i i gael eu cynrychioli yn y modd hwn? Croesawaf y cyfle i hynny gael ei archwilio ymhellach, ond fel y dywedwch yn eich datganiad, mae'n hanfodol bod gennym ymrwymiad a chyfraniad lleol, sy'n hanfodol i ddinas-ranbarthau llwyddiannus. Mae'n amlwg bod angen yr ymrwymiad a'r cyfraniad lleol hynny.

I recognise that there is a delicate balance between ensuring that the boards are effective, able to move quickly and deliver and ensuring that there is representation across the area. However, I think that a clearer idea of how the city regions will be governed and held to democratic account by the people of those regions will really help. Minister, will you agree to broaden the remit of Professor Kevin Morgan's study in this area and will you come back to the Chamber with a further statement on these issues as soon as you are able?

Rwy'n cydnabod bod yna gydbwysedd sensitif rhwng sicrhau bod y byrddau yn effeithiol, yn gallu symud yn gyflym a chyflawni, a sicrhau cynrychiolaeth o bob rhan o'r ardal. Fodd bynnag, rwy'n credu y byddai o gymorth mawr cael syniad cliriach o sut y bydd y dinas-ranbarthau yn cael eu llywodraethu a'u dwyn i gyfrif democrataidd gan bobl y rhanbarthau hynny. Weinidog, a wnewch chi gytuno i ehangu cylch gwaith astudiaeth yr Athro Kevin Morgan yn y maes hwn ac a wnewch chi gyflwyno datganiad arall i'r Siambr ar y materion hyn cyn gynted ag y bo modd?

15:46

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much for those comments and for the broad recognition that we are going in the right direction here. I think that it is very important to recognise that no stakeholder should feel, because they are not involved in the board, that they do not have a role to play. You made a very good point about FE, because within the structures, I have indicated that local government will have a local government leaders group, but also education will have another group that will feed into its representatives, including FE, so that we can get that feel across the whole of the city region.

Diolch yn fawr iawn am y sylwadau hynny ac am y gydnabyddiaeth gyffredinol ein bod yn mynd i'r cyfeiriad iawn. Credaf ei bod yn bwysig iawn cydnabod na ddylai unrhyw randdeiliad deimlo nad oes ganddo ran i'w chwarae, oherwydd nad yw'n rhan o'r bwrdd. Gwnaethoch bwynt da iawn am addysg bellach, oherwydd o fewn y strwythurau, rwyf wedi nodi y bydd gan lywodraeth leol grŵp arweinwyr llywodraeth leol, ond hefyd bydd gan addysg grŵp arall a fydd yn ymgysylltu â'i gynrychiolwyr, gan gynnwys addysg bellach, fel y gallwn gael y teimlad hwnnw ar draws y dinas-ranbarth.

You are quite right about governance and accountability issues, and I am more than happy to discuss further with Professor Morgan widening the report that he is likely to undertake, and I would be more than happy, Presiding Officer, to report back, by the end of January, on the further discussions that I will probably have with the chairs of the boards and Professor Morgan about the issues that Eluned Parrott has raised.

Rydych yn llygad eich lle ynghylch materion llywodraethu ac atebolrwydd, ac rwyf yn fwy na pharod i drafod gyda'r Athro Morgan y syniad o ehangu'r adroddiad y mae'n debygol o'i baratoi, a byddwn yn fwy na pharod, Lywydd, i gyflwyno gwybodaeth, erbyn diwedd mis Ionawr, am y trafodaethau ychwanegol y byddaf yn ôl pob tebyg yn eu cael gyda chadeiryddion y byrddau a'r Athro Morgan am y materion y mae Eluned Parrott wedi'u codi.

15:47

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I would like to thank you for your statement today. I was pleased to see the progress being made on the city regions in south Wales. However, I wanted to mention the importance of the A55 corridor to the economy of north-east Wales and of north Wales. It is estimated to be in the tens of billions of pounds. The economy of north Wales does not depend solely on working in Wales, but on cross-border working with Merseyside and with the north-west of England. Therefore, I think that the A55 can be seen as an artery for the economic powerhouse of north Wales.

Weinidog, hoffwn ddiolch ichi am eich datganiad heddiw. Rwy'n falch o weld pethau'n symud ymlaen o ran y dinas-ranbarthau yn ne Cymru. Fodd bynnag, roeddwn am sôn am bwysigrwydd coridor yr A55 i economi gogledd-ddwyrain Cymru a gogledd Cymru. Amcangyfrifir ei fod yn werth degau o biliynau o bunnoedd. Nid yw economi gogledd Cymru yn dibynnu yn unig ar weithio yng Nghymru, ond ar weithio ar draws y ffin gyda Glannau Mersi a chyda gogledd-orllewin Lloegr. Felly, rwy'n credu y gellir gweld yr A55 fel prif wythïen i bwerdy economaidd gogledd Cymru.

Minister, you have already mentioned Dr Haywood's report. In that report, she makes recommendations around cross-border co-operation for north-east Wales and continuing work with the Mersey Dee Alliance. I mentioned earlier to the First Minister the importance of the additional work in Airbus and how that is important to constituencies across north Wales. What progress is being made in developing the approach to cross-border working, particularly around transport issues, which are key for those of us who have constituents who are looking to travel to north-east Wales to access high-powered and good manufacturing jobs? I think that it is something that needs particular attention and if we are to have a city region across north Wales, what are your ideas around the priorities for transport?

Weinidog, rydych eisoes wedi crybwyll adroddiad Dr Haywood. Yn yr adroddiad hwnnw, mae hi'n gwneud argymhellion ynghylch cydweithrediad traws-ffiniol ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru a gwaith parhaus gyda Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy. Soniais yn gynharach wrth y Prif Weinidog am bwysigrwydd y gwaith ychwanegol yn Airbus a sut mae hynny'n bwysig i etholaethau ar draws gogledd Cymru. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu dull o weithio ar draws y ffin, yn enwedig o ran materion trafnidiaeth, sy'n allweddol i'r rhai ohonom sydd ag etholwyr sy'n dymuno teithio i ogledd-ddwyrain Cymru ar gyfer swyddi gweithgynhyrchu da, o safon uchel? Rwy'n meddwl bod angen rhoi angen sylw arbennig i hynny, ac os ydym am gael dinas-ranbarth ar draws gogledd Cymru, beth yw eich syniadau ar gyfer y blaenoriaethau ym maes trafnidiaeth?

15:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of the city region, it was a very tough decision to take, because Swansea bay almost did not stack up as a city region in terms of its size. In terms of north Wales, even if you could use the title, in the true sense of the word, it could not be a city region. However, the points that you make are absolutely valid, and I am very sure that the group that is being chaired by my colleague Lesley Griffiths of local authority leaders, businesses and so on will look at the key areas of the work that needs to be taken forward to drive the agenda and look at the transport issues particularly. Also, I see the A55 very much like you do, that is as an economic driver, a corridor that is essential to the development of the north-Wales economy, to the ability to take people to and from work and to encourage business to come, et cetera. Therefore, that is very much in my mind.

O ran y dinas-ranbarth, roedd yn benderfyniad anodd iawn i'w wneud, oherwydd nad oedd bae Abertawe bron yn dal dŵr fel dinas-ranbarth oherwydd ei faint. O ran y gogledd, hyd yn oed pe gallech ddefnyddio'r teitl, yng ngwir ystyr y gair, ni allai fod yn ddinas-ranbarth. Fodd bynnag, mae'r pwyntiau a wnewch yn hollol ddilys, ac rwy'n siŵr iawn y bydd y grŵp o arweinwyr awdurdodau lleol, busnesau ac ati sy'n cael ei gadeirio gan fy nghyd-Aelod Lesley Griffiths, yn edrych ar feysydd allweddol y gwaith y mae angen ei ddatblygu i yrru'r agenda yn ei blaen, ac edrych ar drafnidiaeth yn benodol. Hefyd, rwy'n gweld yr A55 yn debyg iawn i'r ffordd yr ydych chi'n ei weld, hynny yw fel sbardun economaidd, coridor sy'n hanfodol i ddatblygiad economi gogledd Cymru, i'r gallu i fynd â phobl i'r gwaith ac oddi yno, ac i annog busnesau i ddod , ac ati. Felly, mae hynny yn fy meddwl.

I wish to indicate to the Member that I will be more than happy to update on further progress on the relationships that are emerging across the border in due course.

Hoffwn roi gwybod i'r Aelod y byddaf yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y man am yr hyn a gyflawnir ar y cysylltiadau sy'n dod i'r amlwg ar draws y ffin.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:50.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:50.*

## Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013

Cynnig NDM5355 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Hydref 2013.

## The Welsh Development Agency Act 1975 (Amendment) (Wales) Order 2013

Motion NDM5355 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Welsh Development Agency Act 1975 (Amendment) (Wales) Order 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 22 October 2013.

15:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

15:50 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolchaf i'r Gweinidog am y cyfle i gael brîff ar y mater hwn. Mewn un ystyr, deallaf mai mater technegol yw hwn sy'n ymateb i achos llys; fodd bynnag, rwy'n bryderus am oblygiadau hyn yn y tymor hir. Mae rhai cyfamodau ar dir yno i warchod cymeriad tir neu fwynderau cymunedau. Er enghraifft, os oes gan berson hawl mynediad i dir neu annedd neu anheddau, pam ddylai'r Llywodraeth gael yr hawl i ddiddymu'r hawl hwnnw? Nid wyf cweit yn deall pam fod Llywodraeth, trwy Ddeddf, yn cymryd yr hawl hwnnw i ddiddymu amod neu gyfamod o'r fath. Fel arfer, os ydych yn prynu tir a bod problem gyda'r tir neu fod rhyw amod nad ydych yn ei hoffi, rydych yn dod i gytundeb â'r perchennog ac wedyn yn bwrw ymlaen â'ch cynlluniau. Felly, rwy'n bryderus y gallai'r hawl absoliwt hwn i ddiystyru hawliau unigolion a chymunedau. Byddwn yn gwerthfawrogi petai'r Gweinidog yn gallu rhoi rhyw sicrwydd inni nad dyna yw bwriad y newidiadau hyn.

I thank the Minister for the opportunity to have a briefing on this issue. In one sense, I understand that this is a technical issue that is in response to a court case; however, I am concerned about the implications of this for the long term. Some covenants on land are there to protect the character of the land or communities' amenities. For example, if a person has a right to access land or premises why should the Government be able to take that right away? I do not quite understand why a Government, through legislation, can assume the right to abolish such conditions or covenants. Usually, if you buy land and there is a problem with the land, or if there are some conditions that you dislike, you come to an agreement with the owner and then you press ahead with your plans. Therefore, I am concerned that this absolute right could override the rights of individuals and communities. I would be grateful if the Minister could give us some assurance that that is not the intention of these changes.

15:51 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, that is not the intention of these changes.

Na, nid dyna fwriad y newidiadau hyn.

15:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for replying, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections; therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch ichi am ateb, Weinidog. Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Dadl ar Gyllideb Ddrafft 2014-15

## Debate on the Draft Budget 2014-15

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw William Graham, gwelliant 2 yn enw Elin Jones, a gwelliant 3 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of William Graham, amendment 2 in the name of Elin Jones, and amendment 3 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5356 Lesley Griffiths

Motion NDM5356 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-2015 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ar 8 Hydref 2013.

Notes the Draft Budget for the financial year 2014-2015 laid in the Table Office by the Minister for Finance on 8 October 2013.

15:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The draft budget that we are debating today reflects the determination to deliver a budget that supports our priorities for Wales against the backdrop of reducing public finances.

Mae'r gyllideb ddrafft yr ydym yn ei thrafod heddiw yn adlewyrchu'r penderfyniad i ddarparu cyllideb sy'n cefnogi ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru er bod cyllid cyhoeddus yn lleihau.

By 2015, the Welsh Government's budget will have reduced by nearly £1.7 billion in real terms since 2010-11. Despite these challenges we have stuck to our principles and ensured that our spending plans deliver on our commitments to the NHS, growth and jobs, raising educational attainment, and supporting children, families and deprived communities.

Erbyn 2015, bydd cyllideb Llywodraeth Cymru wedi gostwng bron i £1.7 biliwn mewn termau real ers 2010-11. Er gwaethaf yr heriau hyn, rydym wedi cadw at ein hegwyddorion a sicrhau bod ein cynlluniau gwario yn cyflawni ein hymrwymiadau i'r GIG, twf a swyddi, codi cyrhaeddiad addysgol, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.

Our investment of £570 million in the NHS over three years is in recognition of the needs of the service and the challenges that it faces, but we also know that health spending is vital in terms of the longer-term health and wellbeing of the people of Wales and our economy. We are also determined to use every pound available to invest in infrastructure and boost economic growth in the long term. The £617.5 million capital investment package in this budget, including £65.5 million for immediate investment, will deliver real benefits, creating or sustaining 11,000 jobs across Wales over the next three years. This significant funding boost has been welcomed by, among others, CBI Wales, the Federation of Small Businesses and Community Housing Cymru.

Mae ein buddsoddiad o £570 miliwn yn y GIG dros dair blynedd yn gydnabyddiaeth o anghenion y gwasanaeth a'r heriau y mae'n eu hwynebu, ond gwyddom hefyd fod gwariant ar iechyd yn hanfodol o ran iechyd a lles tymor hwy pobl Cymru a'n heconomi. Rydym hefyd yn benderfynol o ddefnyddio pob punt sydd ar gael i fuddsoddi mewn seilwaith a hybu twf economaidd yn y tymor hir. Bydd y pecyn buddsoddiad cyfalaf o £617.5 miliwn yn y gyllideb hon, gan gynnwys £65.5 miliwn ar gyfer buddsoddi ar unwaith, yn sicrhau manteision go iawn, gan greu neu gynnal 11,000 o swyddi ledled Cymru dros y tair blynedd nesaf. Mae'r hwb ariannol sylweddol hwn wedi cael ei groesawu gan, ymhlith eraill, CBI Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chartrefi Cymunedol Cymru.

We will also continue to use every lever available to support us in driving forward much-needed infrastructure investment, including the development of our invest for Wales programme of innovative investment, already exceeding £900 million, with further announcements in the new year.

Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio pob ysgogiad sydd ar gael i'n cynorthwyo i sbarduno buddsoddiad seilwaith y mae mawr ei angen, gan gynnwys datblygu ein rhaglen o fuddsoddiad arloesol ar gyfer Cymru, sydd eisoes yn fwy na £900 miliwn gyda rhagor o gyhoeddiadau yn y flwyddyn newydd.

Other measures to support growth and jobs include our decision to extend funding for Jobs Growth Wales to reach over 16,000 young people and extend our support for apprenticeships to £20 million in 2015-16.

Mae mesurau eraill i gefnogi twf a swyddi yn cynnwys ein penderfyniad i ymestyn y cyllid ar gyfer Twf Swyddi Cymru i gyrraedd dros 16,000 o bobl ifanc ac ymestyn ein cymorth ar gyfer prentisiaethau i £20 miliwn yn 2015-16.

We are staying true to our commitments to protect front-line spending in schools and to maintain universal benefits to mitigate the impacts of squeezed household incomes and budgets. Our focus on preventative investment and early intervention is a priority. The additional £11 million for Flying Start will ensure that we meet our commitment to double the number of children benefiting from this flagship programme.

Rydym yn cadw at ein hymrwymiadau i ddiogelu gwariant rheng flaen mewn ysgolion ac i gynnal buddion cyffredinol i liniaru'r effeithiau wrth i incwm a chyllidebau aelwydydd gael eu gwasgu. Mae ein pwyslais ar fuddsoddiad ataliol ac ymyrraeth gynnar yn flaenoriaeth. Mae'r £11 miliwn ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i ddyblu nifer y plant sy'n elwa o'r rhaglen flaenllaw hon.

I was also pleased that we were able to agree a set of proposals with Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats that reflects our shared priorities for Wales. Through the budget agreement, additional investment to establish the new £50 million intermediate care fund will provide an important stimulus in promoting the integration of health and social care, as well as the longer-term health and wellbeing of the people of Wales. This development has been welcomed by our partners in health, social care and housing.

Roeddwn hefyd yn falch ein bod wedi gallu cytuno ar gyfres o gynigion gyda Phlaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru sy'n adlewyrchu ein blaenoriaethau cyffredin ar gyfer Cymru. Trwy'r cytundeb ar y gyllideb, bydd buddsoddiad ychwanegol i sefydlu'r gronfa gofal canolraddol newydd gwerth £50 miliwn yn rhoi hwb pwysig i gynorthwyo i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal ag i hyrwyddo iechyd a lles tymor hwy pobl Cymru. Mae'r ein partneriaid ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a thai wedi croesawu'r datblygiad hwn.

A £9.5 million boost to the health technology and telemedicine fund builds on the success of this investment to date. The additional £35 million for the pupil deprivation grant in 2014-15 will also help in terms of our shared commitment to breaking the link between poverty and educational attainment. Our agreement to minimise reductions to the Supporting People programme has also been well received, with widespread recognition that this is a key action in terms of preventative spend.

Mae hwb o £9.5 miliwn i'r gronfa technoleg iechyd a thelefeddygaeth yn adeiladu ar lwyddiant y buddsoddiad hwn hyd yma. Bydd y £35 miliwn ychwanegol ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion yn 2014-15 hefyd yn helpu o ran ein hymrwymiad ar y cyd i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Cafwyd croeso hefyd i'n cytundeb i sicrhau cyn lleied â phosibl o ostyngiadau i'r rhaglen Cefnogi Pobl, gyda chydnabyddiaeth eang bod hwn yn gam allweddol o ran gwariant ataliol.

We have a shared commitment and a joint responsibility to the people of Wales to support the best scrutiny of our spending plans that we can. This accountability has been, and will be, key to the progressive devolution of powers and responsibilities to Wales since 1999. We have taken steps over the last few years to improve the presentation and transparency of our budget proposals, with your guidance. This work has been recognised by the Finance Committee in its report on the draft budget for 2014-15, which was published last week. We are committed to building on this with you. The Finance Committee's report highlights the evolving nature of the Assembly's budget scrutiny. I welcome the work led by the committee to drive effective scrutiny of our budget proposals, including the pre-budget consultation to seek views on priorities for Wales in the budget process.

Mae gennym ymrwymiad a chyfrifoldeb ar y cyd i bobl Cymru i gefnogi'r gwaith craffu gorau bosibl ar ein cynlluniau gwariant. Mae'r atebolrwydd hwn wedi bod, ac fe fydd, yn allweddol i'r broses barhaus o ddatganoli pwerau a chyfrifoldebau i Gymru ers 1999. Rydym wedi cymryd camau yn ystod y blynyddoedd diwethaf i wella cyflwyniad a thryloywder ein cynigion cyllideb, gyda'ch arweiniad chi. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cydnabod gwaith hwn yn ei adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar hyn gyda chi. Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn tynnu sylw at y ffaith mai esblygu y mae gwaith y Cynulliad o graffu ar y gyllideb. Rwy'n croesawu'r gwaith a arweiniwyd gan y pwyllgor i sbarduno gwaith craffu effeithiol ar ein cynigion cyllideb, gan gynnwys yr ymgynghoriad ymlaen llaw i i geisio barn ar flaenoriaethau ar gyfer Cymru yn y broses gyllidebol.

Over the summer, I consulted on the priorities of our partners at the sharp end of delivery—local government and the third sector—and with service users. Evidence that we were choosing shared priorities came from organisations such as Children in Wales, which supported our continued investment in early intervention, in Flying Start and in the foundation phase, to benefit children as part of our tackling poverty agenda. It also came from Llamau, supporting young people in housing need, through the protection afforded to Supporting People. While I will, of course, formally respond to the Finance Committee's report, I can say today that the scrutiny has highlighted the challenge that we face in managing competing priorities within a reducing budget. These are tough times, and I want to assure the Assembly that our focus is on working with our partners across public services to work towards the longer-term challenges that we face.

Dros yr haf, ymgynghorais ar flaenoriaethau ein partneriaid ar y rheng flaen—llywodraeth leol a'r trydydd sector—a chyda defnyddwyr gwasanaeth. Daeth tystiolaeth ein bod yn dewis blaenoriaethau a rennir gan sefydliadau megis Plant yng Nghymru, a oedd yn cefnogi ein buddsoddiad parhaus mewn ymyriad cynnar, yn Dechrau'n Deg ac yn y cyfnod sylfaen, er lles plant fel rhan o'n hagenda trechu tlodi. Daeth hefyd gan Llamau, sy'n cefnogi pobl ifanc ag anghenion tai, trwy'r warchodaeth a roddir i Cefnogi Pobl. Er y byddaf, wrth gwrs, yn ymateb yn ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor Cyllid, gallaf ddweud heddiw fod y craffu wedi amlygu'r her sy'n ein hwynebu o ran rheoli blaenoriaethau sy'n cystadlu o fewn cyllideb sy'n lleihau. Mae hwn yn gyfnod anodd, ac rwyf am sicrhau'r Cynulliad ein bod yn canolbwyntio ar weithio gyda'n partneriaid ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i weithio tuag at yr heriau tymor hwy sy'n ein hwynebu.

The importance of ensuring that new legislation is appropriately funded has been raised through the draft budget scrutiny. The additional £4.9 million that we are making available in 2015-16 to support the implementation of the homelessness element of the Housing (Wales) Bill launched by Carl Sargeant yesterday is one example of our commitment to the challenge of ensuring that people have access to a decent, affordable home, and that people at risk of becoming homeless receive the help that they need.

Mae pwysigrwydd sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn cael ei hariannu'n briodol wedi cael ei godi drwy graffu ar y gyllideb ddrafft. Mae'r swm ychwanegol o £4.9 miliwn yr ydym yn ei ddarparu yn 2015-16 i gynorthwyo i weithredu elfen ddigartrefedd y Bil Tai (Cymru) a lansiwyd gan Carl Sargeant ddoe yn un enghraifft o'n hymrwymiad i sicrhau bod cartref gweddus, fforddiadwy ar gael i bobl, a bod pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

In terms of the budget agreement, this is the first time that the Assembly has had the opportunity to scrutinise, in full, a budget that includes jointly developed proposals of this kind. This is an important achievement and a sign of an increasingly effective and respected budget process, engaging the Welsh Government and the Assembly. I accept both amendments, from Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats, to the draft budget debate in the spirit of that agreement.

O ran cytundeb y gyllideb, dyma'r tro cyntaf i'r Cynulliad gael y cyfle i graffu, yn llawn, ar gyllideb sy'n cynnwys cynigion a ddatblygwyd ar y cyd o'r math hwn. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen ac yn arwydd o broses gyllideb gynyddol effeithiol ac uchel ei pharch, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad. Rwy'n derbyn y ddau welliant, gan Blaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, i'r drafodaeth ar y gyllideb ddrafft yn ysbryd y cytundeb hwnnw.

Yesterday, I hosted the finance Ministers' quadrilateral meeting, attended by the finance Ministers from Scotland and Northern Ireland, and by the Chief Secretary to the Treasury. I pressed for earlier notification of any spending decisions to be announced in the autumn statement on 5 December that could affect our budget plans. I am sure that Members will be pleased to hear that I helped secure the flexibilities that we need for the delivery of our financial transactions funding, which will make up 12% of our capital spending power by 2015-16.

Ddoe, cynhaliais gyfarfod pedairochrog y Gweinidogion Cyllid, gan gynnwys Gweinidogion Cyllid yr Alban a Gogledd Iwerddon, a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Pwysais am gael gwybod yn gynharach am unrhyw benderfyniadau gwariant a fyddai'n cael eu cyhoeddi yn natganiad yr hydref ar 5 Rhagfyr a allai effeithio ar ein cynlluniau cyllidebol. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n falch o glywed fy mod wedi helpu i sicrhau'r hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer darparu ein cyllid trafodion ariannol, a fydd yn 12% o'n pŵer gwariant cyfalaf erbyn 2015-16.

This budget is clearly focused on supporting our priorities for our national health service in Wales; on promoting economic growth and creating jobs; on raising educational attainment; and on tackling poverty, supporting children, families and deprived communities. Importantly, our commitment to consider equality, socioeconomic disadvantage, children's rights, the Welsh language and sustainable development will continue to inform and influence our budget proposals.

Mae'r gyllideb hon yn canolbwyntio'n glir ar gefnogi ein blaenoriaethau ar gyfer ein gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru; ar hyrwyddo twf economaidd a chreu swyddi; ar godi cyrhaeddiad addysgol; ac ar fynd i'r afael â thlodi, gan gefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Yn bwysig, bydd ein hymrwymiad i ystyried cydraddoldeb, anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, yr iaith Gymraeg a datblygu cynaliadwy yn parhau i lywio a dylanwadu ar ein cynigion cyllideb.

I am afraid that the Welsh Conservatives' amendment sums up the weakness of the opposition: uncosted, unrealistic and contradictory. I am clear that our budget, the toughest in a generation, is underpinned by our commitment to create and sustain a fairer, healthier Wales that is good for our people, good for our communities, and good for our economy.

Mae arnaf ofn fod gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig yn crynhoi gwendid yr wrthblaid: afrealistig, anghyson a heb ei gostio. Rwy'n glir fod ein cyllideb, yr un anoddaf ers cenhedlaeth, yn cael ei seilio ar ein hymrwymiad i greu a chynnal Cymru decach, iachach sy'n dda ar gyfer ein pobl, yn dda ar gyfer ein cymunedau, ac yn dda ar gyfer ein heconomi.

15:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

15:59

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Despite the Minister of Finance's best intentions, we can see that there is a disconnect between the Welsh Government's stated priorities—jobs and growth—and a budget whose clearest priority is sending millions of pounds in additional money towards the health service. This is one of the Finance Committee's main concerns about this draft budget. It is okay to give more money to the health service, if that is your priority, and it is all right to have jobs and growth as a priority. However, if they are, they should be backed up with investment. There is a wider issue here, too: the Minister for Finance is committed to driving stronger links between the programme for government and the budget process, and we support that aim. However, it is clear that there is more work to be done here—much more work.

Er gwaethaf bwriadau gorau'r Gweinidog Cyllid, gallwn weld bod anghysondeb rhwng y blaenoriaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u datgan—swyddi a thwf—a chyllideb lle mai ei blaenoriaeth gliriaf yw anfon miliynau o bunnoedd o arian ychwanegol tuag at y gwasanaeth iechyd. Dyma yw un o brif bryderon y Pwyllgor Cyllid ynglŷn â'r gyllideb ddrafft. Mae'n iawn rhoi mwy o arian i'r gwasanaeth iechyd, os mai dyna yw eich blaenoriaeth, ac mae'n iawn rhoi blaenoriaeth i swyddi a thwf. Fodd bynnag, os felly, dylid eu hategu gyda buddsoddiad. Ceir pwynt ehangach yma, hefyd: mae'r Gweinidog Cyllid yn ymrwymedig i ysgogi cysylltiadau cryfach rhwng y rhaglen ar lywodraethu a phroses y gyllideb, ac rydym yn cefnogi'r nod hwnnw. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod mwy o waith i'w wneud yma—llawer mwy o waith.

We note in our report that progress has been made in increasing transparency in recent years, but there is more work to be done here, too, and we very much welcome the Minister's commitment on this point. The growing use of new and untried funding mechanisms to invest in roads and housing means that there is nearly £1 billion-worth of stuff being built by local authorities and housing associations, backed up by Assembly cash. Now, it is not borrowing in the strict definition, but it is money that the Welsh Government is committed to in future years, and we want to see greater clarity in the commitments being made today that will impact on future generations and future Governments.

Rydym yn nodi yn ein hadroddiad bod camau wedi'u cymryd o ran cynyddu tryloywder yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae mwy o waith i'w wneud yma, hefyd, ac rydym yn croesawu'n fawr ymrwymiad y Gweinidog ar y pwynt hwn. Mae'r defnydd cynyddol o ddulliau ariannu newydd a heb eu profi er mwyn buddsoddi mewn ffyrdd a thai yn golygu bod gwerth bron i £1 biliwn o bethau yn cael eu hadeiladu gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, â chefnogaeth arian y Cynulliad. Nawr, nid benthyca yn ôl y diffiniad arferol yw hyn, ond arian y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo yn y blynyddoedd i ddod, ac rydym am weld mwy o eglurder yn yr ymrwymiadau a wneir heddiw a fydd yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol a Llywodraethau'r dyfodol.

A number of issues continue to cause concern: the financial impact of legislation passed by the Assembly is not fully known, while the volume of legislation is accelerating. As a committee, our role is to not just criticise, but support, so we intend to do a piece of work next year that will look at the costs of legislation already enacted to see what lessons we can learn to improve the estimates for future Bills. In that same spirit of being a critical friend, we also plan to do some work on preventative spending, to support the Welsh Government in developing a systematic, strategic approach in this area.

Mae nifer o faterion yn parhau i achosi pryder: nid yw effaith ariannol y ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad yn gwbl hysbys, tra bod crynswth y ddeddfwriaeth yn cyflymu. Mae ein gwaith fel pwyllgor yn cynnwys cefnogi, nid dim ond beirniadu, felly rydym yn bwriadu gwneud darn o waith y flwyddyn nesaf a fydd yn edrych ar gostau deddfwriaeth sydd eisoes wedi'i deddfu i weld pa wersi y gallwn eu dysgu i wella amcangyfrifon ar gyfer Biliau yn y dyfodol . Yn yr un ysbryd o fod yn gyfaill beirniadol, rydym hefyd yn bwriadu gwneud rhywfaint o waith ar wariant ataliol, er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull gwaith strategol, systematig yn y maes hwn.

We heard conflicting evidence about the intermediate care fund, and there needs to be urgent clarity about its aims and what the process will be for applying to the fund. It seems that the number of people who see this fund as a potential source of funding for them is greater than the fund itself. There is also concern about future planning, and we received conflicting evidence about how prepared various sectors were for the scale of budget cuts being faced this year. We recommend a review of how the Government gives warnings to the bodies and organisations it funds. Our suggestion is that there could be a statement at the end of the summer term, giving best and worst-case scenarios, allowing for more meaningful planning time to take place.

Clywsom dystiolaeth anghyson am y gronfa gofal canolraddol, ac mae angen eglurder ar frys ynglŷn â'i hamcanion a beth fydd y broses ar gyfer gwneud cais i'r gronfa. Mae'n ymddangos bod nifer y bobl sy'n gweld y gronfa hon fel ffynhonnell bosibl o gyllid ar eu cyfer yn fwy na'r gronfa ei hun. Mae pryder hefyd ynglŷn â chynllunio yn y dyfodol, ac rydym wedi derbyn tystiolaeth anghyson ynghylch pa mor barod oedd sectorau amrywiol ar gyfer maint y toriadau yn y gyllideb a wynebir eleni. Rydym yn argymell adolygiad o'r modd y mae'r Llywodraeth yn rhoi rhybuddion i'r cyrff a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu. Ein hawgrym yw y gellid gwneud datganiad ar ddiwedd tymor yr haf, gan roi'r sefyllfaoedd gorau a gwaethaf, a chaniatáu ar gyfer amser cynllunio mwy ystyrlon.

This year, a budget deal was struck before the publication of the draft budget. While we were never going to get all-party support on the content of that agreement, we could agree that having it made public meant that we were able to scrutinise the whole budget for the first time.

Eleni, cafodd bargen ei tharo cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft. Er nad oeddem byth yn mynd i gael pob plaid i gefnogi cynnwys y cytundeb hwnnw, gallem gytuno ein bod yn gallu craffu ar y gyllideb gyfan am y tro cyntaf trwy ei gwneud yn gyhoeddus.

I want to say a few words about our approach to financial scrutiny and how that is evolving. I believe that this year's draft budget process marks another step forward. Last year, Members will know that, for the first time, we engaged an expert adviser to support the committee, and we were delighted that Angela Scott, head of the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy Regions was able to return to this work this year. Between times, Angela has worked with Assembly staff to develop a programme of financial scrutiny development for Assembly Members, their support staff and the Assembly's clerking and research teams. The impact of that work could be seen clearly in this year's draft budget process. This improvement in institutional capacity has enabled the Assembly's committee to be more demanding than ever.

Hoffwn ddweud ychydig eiriau am ein dull o graffu ar faterion ariannol a sut mae'n datblygu. Rwy'n credu bod proses y gyllideb ddrafft eleni yn nodi cam arall ymlaen. Bydd yr Aelodau'n gwybod ein bod wedi penodi cynghorydd arbenigol i gefnogi'r pwyllgor y llynedd, am y tro cyntaf, ac rydym yn falch iawn bod Angela Scott, pennaeth y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth Rhanbarthau wedi gallu dychwelyd i'r gwaith hwn eleni. Rhwng yr amseroedd, mae Angela wedi gweithio gyda staff y Cynulliad i ddatblygu rhaglen o ddatblygiad ym maes craffu ariannol i Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a thimau clercio ac ymchwil y Cynulliad. Gellid gweld effaith y gwaith hwnnw yn amlwg ym mhroses y gyllideb ddrafft eleni. Mae'r gwelliant hwn mewn gallu sefydliadol wedi galluogi pwyllgor y Cynulliad i fod yn fwy heriol nag erioed.

With yesterday's announcement that most of the recommendations of part 1 of the Silk commission will be introduced, financial scrutiny will assume a growing importance in the future, and we have to be ready to meet those challenges. The Finance Committee will be looking at what we can do to make sure that we, and the Assembly as a whole, are ready. That includes doing more work to ensure that the public voice is heard in our budget scrutiny process. To meet those challenges, however, we also need all departments of the Welsh Government to raise their game to match the levels already achieved by the best departments. Ministers who provide their papers on time and offer requested levels of detail and transparency give all of us interested in scrutinising the decisions the best opportunity to ask informed questions and to get the best possible value for money, and, of course, conversely, there are Ministers who do not do this as best they could and as we should demand. Ultimately, this is what the process is all about: holding the Government to account, ensuring that its programme is affordable and in line with its stated priorities, and providing taxpayers with the best possible value for their money.

Yn sgil y cyhoeddiad ddoe y bydd y rhan fwyaf o'r argymhellion o ran 1 comisiwn Silk yn cael eu cyflwyno, bydd craffu ariannol yn dod yn bwysicach fyth yn y dyfodol, ac mae'n rhaid inni fod yn barod i ymateb i'r heriau hynny. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn ystyried yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau ein bod ni, a'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd, yn barod. Mae hynny'n cynnwys gwneud mwy o waith i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed yn ein proses o graffu ar y gyllideb. Er mwyn ymateb i'r heriau hynny, fodd bynnag, rydym hefyd angen i bob adran o Lywodraeth Cymru gynyddu eu hymdrechion i gyrraedd y lefelau a gyflawnir eisoes gan yr adrannau gorau. Mae Gweinidogion sy'n darparu eu papurau mewn pryd ac yn cynnig y manylder a'r tryloywder gofynnol yn rhoi'r cyfle gorau i bob un ohonom sydd â budd mewn craffu ar y penderfyniadau, ofyn cwestiynau deallus a chael y gwerth gorau posibl am arian. I'r gwrthwyneb, wrth gwrs, ceir Gweinidogion nad ydynt yn gwneud hyn cystal ag y gallent ac fel y dylem ni ei fynnu. Yn y pen draw, dyma beth y mae'r broses yn ei olygu: dwyn y Llywodraeth i gyfrif, gan sicrhau bod ei rhaglen yn fforddiadwy ac yn cyd-fynd â'i blaenoriaethau a nodwyd, a darparu'r gwerth gorau posibl am eu harian i drethdalwyr.

16:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the three amendments to the motion, and I call on Paul Davies to move amendment 1, tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Paul Davies i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*To propose that the National Assembly for Wales*

*1. Yn cydnabod y buddsoddiad ychwanegol a wnaethpwyd yn y gyllideb ddrafft i'r gwasanaeth iechyd yn sgîl y pwysau a roddwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig; a*

*1. Recognises the additional investment made in the draft budget to the health service arising from the pressure applied by the Welsh Conservatives; and*

*2.Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddrafftio ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2014-15 fel ei bod:*

*2. Calls on the Welsh Government to redraft their Draft Budget for 2014-15 so that it:*

*a) yn diogelu'r gyllideb iechyd mewn termau real ac yn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol eithriadol sy'n wynebu byrddau iechyd lleol yng Nghymru;*

*a) protects the health budget in real terms and fully addresses the extreme financial pressures facing local health boards in Wales;*

*b) yn bodloni anghenion busnesau ledled Cymru, er budd economi Cymru;*

*b) meets the needs of businesses across Wales, for the benefit of the Welsh economy;*

*c) yn mynd i'r afael â'r heriau cyllido sy'n wynebu colegau Addysg Bellach, er mwyn iddynt allu darparu amrywiaeth lawn o sgiliau a chyrsiau galwedigaethol i ddysgwyr yng Nghymru.*

*c) addresses the funding challenges facing FE colleges, so that they can provide a full range of skills and vocational courses for learners in Wales.*

16:05

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i ymateb i gyllideb ddrafft y Llywodraeth y prynhawn yma, ac i gynnig y gwelliant yn enw William Graham ar ran y Ceidwadwyr Cymreig.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am grateful for the opportunity to respond to the Government's draft budget this afternoon and to move the amendment in the name of William Graham on behalf of the Welsh Conservatives.

Ni fydd yn syndod i'r pleidiau eraill i glywed y byddwn yn pleidleisio yn erbyn gwelliannau 2 a 3. Rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi gosod y gyllideb ddrafft hon mewn amgylchiadau ariannol anodd, a'n bod yn wynebu amgylchiadau economaidd gweddol anodd o hyd yng Nghymru, ac ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'n hanfodol, felly, fod Llywodraeth Cymru yn gwario arian trethdalwyr yn effeithiol, ac yn gweld canlyniadau go iawn—yn wir, canlyniadau gwell i bobl Cymru. Yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu taw blaenoriaethau pobl Cymru yw iechyd, yr economi ac addysg, ac felly mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny.

It will come as no surprise to the other parties that we will be voting against amendments 2 and 3. I accept that the Welsh Government laid this draft budget in financially difficult circumstances and that we continue to face relatively difficult economic circumstances in Wales and across the UK. It is crucial, therefore, that the Welsh Government spends taxpayers' money effectively and that we see real outcomes to that expenditure, and, indeed, improved outcomes for the people of Wales. We on this side of the Chamber believe that the priorities of the people of Wales are health, the economy and education, and that, therefore, it is crucially important that the Welsh Government should concentrate on those areas.

It is clear that this Labour Government's previous budgets have failed to deliver, given that real outcomes in health and education have not improved. So much for the other opposition parties holding this Government to account. Plaid Cymru and the Liberal Democrats agreed a deal on this draft budget even before it had been laid, and one has to question why they were willing to reach an agreement before the plans were in the public domain. Clearly, they negotiated from a position of weakness, showing their hand before the Government had dealt the cards. It seems to me that Plaid Cymru and the Liberal Democrats will do anything to prop up this failing Labour Government.

Mae'n amlwg bod cyllidebau blaenorol y Llywodraeth Lafur hon wedi methu â chyflawni, o ystyried nad yw canlyniadau gwirioneddol mewn iechyd ac addysg wedi gwella. Dyna werth y gwrthbleidiau eraill o ran dwyn y Llywodraeth hon i gyfrif. Cytunodd Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol fargen ar y gyllideb ddrafft hyd yn oed cyn iddi gael ei gosod, ac mae'n rhaid cwestiynu pam eu bod yn fodlon dod i gytundeb cyn bod y cynlluniau wedi'u gwneud yn gyhoeddus. Yn amlwg, roeddent yn trafod o sefyllfa o wendid, gan ddangos eu llaw cyn i'r Llywodraeth ddelio'r cardiau. Mae'n ymddangos i mi bod Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn fodlon gwneud unrhyw beth i gynnal Llywodraeth Lafur sy'n methu.

Let me turn to some of the specifics in this draft budget. Let us look at its affordability. The Minister will not be surprised that I am once again calling for the ring-fencing of the health budget in real terms. I fully accept that the Welsh Government has injected some additional funding into the health service, but even under these plans, the NHS budget is not being protected, and has unfortunately been brought to the brink of crisis. Do not take my word for it; read the Finance Committee report on the draft budget, which states:

Gadewch i mi droi at rai o'r manylion yn y gyllideb ddrafft. Gadewch i ni edrych a yw'n fforddiadwy. Ni fydd y Gweinidog yn synnu fy mod unwaith eto yn galw am neilltuo'r gyllideb iechyd mewn termau real. Rwy'n derbyn yn llwyr fod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu rhywfaint o arian ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd, ond hyd yn oed o dan y cynlluniau hyn, nid yw cyllideb y GIG yn cael ei gwarchod, ac yn anffodus daethpwyd â'r gwasanaeth at ddibyn argyfwng. Peidiwch â chymryd fy ngair i am hynny; darllenwch adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, sy'n datgan:

'We remain sceptical, based largely on past failures, that all health boards have the correct plans in place to ensure that they can live within their budgets as an ageing population puts greater demands on them'.

'Fodd bynnag, yn seiliedig i raddau helaeth ar fethiannau'r gorffennol, rydym yn parhau'n amheus a yw'r cynlluniau cywir ar waith gan bob bwrdd iechyd i sicrhau eu bod yn cadw o fewn eu cyllidebau wrth i boblogaeth sy'n heneiddio greu mwy a mwy o alw am eu gwasanaethau'.

Let me remind the Minister that the July 2013 Wales Audit Office report on health finances stated that

Gadewch i mi atgoffa'r Gweinidog bod Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru Gorffennaf 2013 ar gyllid iechyd wedi nodi fod y

'The NHS has struggled to sustain levels of service, particularly waiting times. The financial analysis in part 1 of this report suggests the financial position is getting more and more challenging. With the 'low-hanging fruit' already picked, savings are increasingly difficult to find, with lower and lower levels of savings from traditional methods each year. The combination of a trend of declining service performance and delivery of savings suggests that, if nothing changes, there will be continued deterioration in services'.

'GIG wedi ei chael hi'n anodd cynnal lefelau gwasanaeth, yn enwedig o ran amseroedd aros. Mae'r dadansoddiad ariannol yn rhan 1 o'r adroddiad hwn yn awgrymu bod y sefyllfa ariannol yn dod yn fwyfwy heriol. Gyda'r arbedion amlycaf eisoes wedi'u gwneud, mae'n gynyddol anodd gwneud arbedion, gyda lefelau arbedion o ddulliau traddodiadol yn lleihau bob blwyddyn. Mae'r cyfuniad o'r tuedd o ddirywiad o ran perfformiad gwasanaethau ac wrth gyflawni arbedion gwasanaeth yn awgrymu os na wneir unrhyw newidiadau, y bydd y dirywiad mewn gwasanaethau yn parhau.'

We are seeing just that. You do not have to look any further than my own area, where services are under threat. I put it to the Minister that the year-on-year real terms cuts to the Welsh NHS by this Labour Government are coming back to haunt us today. Due to these record-breaking cuts, accident and emergency targets have not been hit since 2009, ambulance response targets have not been met for over a year, and a fifth of all NHS beds have been cut over the past 10 years, leading to the highest bed occupancy rate in over a decade. The number of people waiting more than 36 weeks for their hospital appointment now stands at 11,672, when the target is for no-one to wait that long.

Dyna'n union yr ydym yn ei weld. Nid oes rhaid i chi edrych ymhellach na'm hardal i, lle mae gwasanaethau dan fygythiad. Awgrymaf wrth y Gweinidog fod y toriadau termau real flwyddyn ar ôl blwyddyn i GIG Cymru gan y Llywodraeth Lafur hon yn dod yn ôl i'n dychryn heddiw. O ganlyniad i'r toriadau mwyaf erioed, ni lwyddwyd i gyrraedd targedau adrannau damweiniau ac achosion brys ers 2009, ni lwyddwyd i gyrraedd targedau ymateb ambiwlansys ers dros flwyddyn, ac mae un o bob pump o holl welyau'r GIG wedi cael eu torri yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, gan arwain at y gyfradd defnydd gwelyau uchaf ers dros ddegawd. Mae 11,672 o bobl wedi bod yn aros dros 36 wythnos am apwyntiad yn yr ysbyty bellach, er mai'r targed yw na ddylai neb aros mor hir â hynny.

Clearly, this Government is letting down the patients of Wales, and that is why it has been forced to provide an additional £150 million in this financial year. If the Government had protected the health service budget in real terms over the last few years, we would not be in this position. Despite the tireless work of dedicated NHS staff, capacity constraints, bed shortages and blockages at A&E departments are all exacerbated by the Government's record-breaking health budget cuts. Now more than ever, the NHS needs the Welsh Government's support, but even though additional money is being made available, the NHS budget is again not being protected in real terms.

Yn amlwg, mae'r Llywodraeth hon yn siomi cleifion Cymru, a dyna pam ei bod wedi cael ei gorfodi i ddarparu swm ychwanegol o £150 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon. Pe bai'r Llywodraeth wedi diogelu cyllideb y gwasanaeth iechyd mewn termau real dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ni fyddem yn y sefyllfa hon. Er gwaethaf gwaith diflino staff ymroddedig y GIG, mae'r toriadau mwyaf erioed gan y Llywodraeth yn y gyllideb iechyd yn gwaethygu'r cyfyngiadau capasiti, prinder gwelyau a rhwystrau mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Nawr yn fwy nag erioed, mae angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar y GIG, ond er bod arian ychwanegol yn cael ei ddarparu, eto nid yw cyllideb y GIG yn cael ei diogelu mewn termau real.

The Welsh Government continues to tell us that this is a budget for growth and jobs, and that its priorities have not changed. The Welsh Government must understand, it is not Governments that create jobs, but it is the creativity and innovation of businesses, particularly small businesses, that create jobs. It must therefore do all it can to support small businesses.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddweud wrthym fod hon yn gyllideb ar gyfer twf a swyddi, ac nad yw ei blaenoriaethau wedi newid. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddeall nad Llywodraethau sy'n creu swyddi. Creadigrwydd ac arloesedd busnesau, yn enwedig busnesau bach, sy'n creu swyddi. Felly, mae'n rhaid iddi wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi busnesau bach.

We heard the good news this week that business rates will be fully devolved, something that we have long campaigned for. Yet, once again, there is nothing specific for all businesses with regard to business rate relief in this draft budget. The Federation of Small Businesses said that it was concerned that Welsh Labour has no clear proposals for business rates in its manifesto, and that small businesses had been virtually ignored. It is sad to say that this is still the case. The Welsh Government must create a level playing field with regard to how business rates are calculated. Sadly, unlike Scotland and England, Wales does not have separate multipliers for small and large businesses, and it is about time that the Welsh Government examined the possibility of splitting the Welsh multiplier into small and large businesses to bring Wales in line with other parts of the UK.

Clywsom y newyddion da yr wythnos hon y bydd ardrethi busnes yn cael eu datganoli'n llwyr, rhywbeth yr ydym wedi ymgyrchu'n hir o'i blaid. Eto i gyd, unwaith eto, nid oes dim penodol ar gyfer pob busnes o ran rhyddhad ardrethi busnes yn y gyllideb ddrafft. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach ei fod yn pryderu nad oes gan Lafur Cymru unrhyw gynigion clir ar gyfer ardrethi busnes yn ei maniffesto, a bod busnesau bach wedi cael eu hanwybyddu bron yn llwyr. Mae'n drist dweud bod hyn yn dal yn wir. Rhaid i Lywodraeth Cymru greu sefyllfa deg o ran sut y mae ardrethi busnes yn cael eu cyfrifo. Yn anffodus, yn wahanol i'r Alban a Lloegr, nid oes gan Gymru luosyddion ar wahân ar gyfer busnesau bach a mawr, ac mae'n hen bryd i Lywodraeth Cymru edrych ar y posibilrwydd o rannu lluosydd Cymru yn fusnesau bach a mawr i roi Cymru yn yr un sefyllfa â rhannau eraill o'r DU.

As well as laying a draft budget outlining where money will be spent, it is essential that the Government uses the levers that it currently has at its disposal to maximise its resources and lever in additional funds where it can. The Finance Committee makes the valid point that capital investment, irrespective of the financing route, plays an important role in economic growth. In light of the reduction in capital budgets, maintaining capital investment is likely to be by greater use of innovative financing models. As I have said on numerous occasions, it is important that the Welsh Government looks at other innovative financing models, such as the non-profit-distributing model and tax increment financing, in order to improve our infrastructure and, at the same time, boost our economy.

Yn ogystal â gosod cyllideb ddrafft yn amlinellu lle y bydd yr arian yn cael ei wario, mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi ar hyn o bryd i fanteisio i'r eithaf ar ei hadnoddau a denu arian ychwanegol lle y bo modd. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gwneud y pwynt dilys bod buddsoddiad cyfalaf, beth bynnag fo'r llwybr ariannu, yn chwarae rôl bwysig mewn twf economaidd. Yn sgil y gostyngiad yn y cyllidebau cyfalaf, mae'n debygol y bydd angen defnyddio mwy ar fodelau ariannu arloesol er mwyn cynnal buddsoddiad cyfalaf. Fel yr wyf wedi dweud ar sawl achlysur, mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru edrych ar fodelau ariannu arloesol eraill, megis y model nad yw'n dosbarthu elw ac ariannu drwy gynyddrannau treth, er mwyn gwella ein seilwaith ac, ar yr un pryd, rhoi hwb i'n heconomi.

Last year, the Minister confirmed, in evidence to the Finance Committee, that the Welsh Government would be looking at new ways to lever in private finance, and that there would be partnerships with the private sector. However, there is still uncertainty around the use of innovative financing models. Perhaps, in response to this debate, the Minister will clarify what specific models will be used and how they will work alongside this draft budget.

Y llynedd, cadarnhaodd y Gweinidog, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd newydd o ddenu cyllid preifat, ac y byddai partneriaethau gyda'r sector preifat. Fodd bynnag, ceir ansicrwydd o hyd ynghylch y defnydd o fodelau ariannu arloesol. Efallai y bydd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, yn egluro pa fodelau penodol a fydd yn cael eu defnyddio a sut y byddant yn gweithio ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft.

The Minister must also recognise that, with capital budgets shrinking, the sale of assets will be an important source of funding across the Welsh public sector. Indeed, the Finance Committee report concludes that the Welsh Government needs to give greater guidance and leadership to the wider public sector to manage assets, given the increasing reliance on capital receipts as a funding stream.

Rhaid i'r Gweinidog gydnabod hefyd y bydd gwerthiant asedau yn ffynhonnell bwysig o gyllid ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, wrth i gyllidebau cyfalaf grebachu. Yn wir, mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn dod i'r casgliad bod angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o arweiniad ac arweinyddiaeth i'r sector cyhoeddus ehangach ar reoli asedau, o ystyried y ddibyniaeth gynyddol ar dderbyniadau cyfalaf fel ffrwd ariannu.

Mind you, the Government itself needs to get its own house in order with regard to managing assets before it gives guidance to the wider public sector. The regeneration investment fund for Wales is a classic example. Its closure highlights some very serious issues. Once again, it seems that hard-pressed Welsh taxpayers' money has been thrown down the drain because of this Government's possible incompetence. Hopefully, ongoing investigations will provide some clarity as to how much the taxpayer has lost, why this was allowed to happen on the Government's watch and how such scandalous waste can be avoided in future.

Cofiwch chi, mae angen i'r Llywodraeth ei hun gael trefn ar bethau, o ran rheoli asedau, cyn rhoi arweiniad i'r sector cyhoeddus ehangach. Mae cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio yn enghraifft glasurol. Amlygwyd rhai materion difrifol iawn yn sgil ei chau. Unwaith eto, mae'n ymddangos bod arian trethdalwyr Cymru wedi cael ei daflu i lawr y draen oherwydd anallu posibl y Llywodraeth hon. Gobeithio y bydd yr ymchwiliadau sydd ar y gweill yn darparu rhywfaint o eglurder o ran faint y mae'r trethdalwr wedi'i golli, pam y caniatawyd i hyn ddigwydd gan y Llywodraeth a sut y gellir osgoi gwastraff gwarthus o'r fath yn y dyfodol.

On several occasions in evidence to the Finance Committee, the Minister for Finance assured us that the Welsh Government wants to be more open and transparent in the way it presents its budgets, and that it wants to be more transparent and clear in the way it funds public services. This is something that I very much welcome. However, in February of this year, further education colleges were advised by letter that they were to receive a 1% increase in funding for 2013-14 compared with 2012-13. Understandably, colleges planned ahead on this basis in terms of expenditure on staffing, courses and so on. However, colleges received a further letter in late July of this year to advise that, instead of a 1% increase, they would now receive a decrease of 1.48% compared with 2012-13 figures. This change has, understandably, caused great concern at a time when public bodies are being encouraged to plan further ahead. It is crucial, therefore, that this is not allowed to happen again, and that there are mechanisms in place in this draft budget to provide clarity in future funding arrangements for FE institutions and, indeed, other public bodies.

Ar sawl achlysur mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, rhoddodd y Gweinidog Cyllid sicrwydd inni fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i fod yn fwy agored ac yn dryloyw yn y ffordd y mae'n cyflwyno ei chyllidebau, a'i bod yn awyddus i fod yn fwy tryloyw ac egluryn y ffordd y mae'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn ei groesawu'n fawr iawn. Fodd bynnag, ym mis Chwefror eleni, rhoddwyd gwybod i golegau addysg bellach drwy lythyr y byddent yn derbyn cynnydd o 1% yn eu cyllid ar gyfer 2013-14 o'i gymharu â 2012-13. Yn ddealladwy, aeth colegau ati i gynllunio ymlaen llaw ar y sail hon o ran gwariant ar staffio, cyrsiau ac yn y blaen. Fodd bynnag, cafodd colegau lythyr arall ar ddiwedd mis Gorffennaf eleni i roi gwybod y byddent nawr yn derbyn gostyngiad o 1.48% o'i gymharu â ffigurau 2012-13, yn hytrach na chynnydd o 1%. Mae'r newid hwn, yn ddealladwy, wedi achosi pryder mawr ar adeg pan fo cyrff cyhoeddus yn cael eu hannog i gynllunio ymhellach ymlaen. Mae'n hanfodol, felly, na chaniateir i hyn ddigwydd eto, ac y sefydlir mecanweithiau yn y gyllideb ddrafft hon i sicrhau bod trefniadau ariannu at y dyfodol yn eglur ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac, yn wir, ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill.

Clearly, there are serious concerns around whether the Welsh Government's spending priorities are providing value for money. Take the Finance Committee's eleventh recommendation in its report:

Yn amlwg, ceir pryderon difrifol a yw blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru yn darparu gwerth am arian. Cymerwch unfed argymhelliad ar ddeg y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad:

'We recommend that Welsh Government takes greater efforts to evidence the value for money considerations that go into its funding decisions. Without clear evidence Assembly committees and the people of Wales are not able to say clearly whether Government policies and initiatives are delivering value for money.'

'Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy o ymdrech i ddarparu tystiolaeth o'r ystyriaethau gwerth am arian sy'n llywio'i phenderfyniadau cyllido. Heb dystiolaeth eglur, ni all pwyllgorau'r Cynulliad a phobl Cymru ddweud yn glir a yw polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru yn darparu gwerth am arian.'

This recommendation has been formed from the evidence provided by subject committees through the budget scrutiny process; for example, the Enterprise and Business Committee raised value for money questions about bus services and concerns about the effective evaluation of the current national transport plan. It is essential that the Welsh Government links funding allocations, via the budget, with desired outputs and outcomes. There needs to be greater focus on delivering value for money in each policy area.

Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei ffurfio o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y pwyllgorau pwnc drwy'r broses o graffu ar y gyllideb; er enghraifft, cododd y Pwyllgor Menter a Busnes gwestiynau ynglŷn â gwerth am arian ym maes gwasanaethau bws, a phryderon ynglŷn â gwerthusiad effeithiol o'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol cyfredol. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu dyraniadau ariannu, trwy'r gyllideb, â deilliannau a chanlyniadau a ddymunir. Mae angen mwy o bwyslais ar gyflawni gwerth am arian ym mhob maes polisi.

It is crucial that the Welsh Government ensures that the money it spends on behalf of Welsh taxpayers is efficient and effective, delivering value for money and achieving real outcomes for the people of Wales. As it stands, this draft budget is not fit for purpose and does not meet the needs of the people of Wales. It still does not protect the health budget in real terms and it fails to support small businesses. Let us, therefore, prioritise appropriately, and let us draw up a budget that will meet the needs of the people of Wales. I urge Members to support our amendment.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr arian y mae'n ei wario ar ran trethdalwyr Cymru yn effeithlon ac yn effeithiol, gan ddarparu gwerth am arian a sicrhau canlyniadau gwirioneddol i bobl Cymru. Fel y mae, nid yw'r gyllideb ddrafft hon yn addas at y diben ac nid yw'n diwallu anghenion pobl Cymru. Mae'n dal i fethu ag amddiffyn y gyllideb iechyd mewn termau real ac nid yw'n cefnogi busnesau bach. Gadewch inni, felly, flaenoriaethu'n briodol, a gadewch i ni lunio cyllideb a fydd yn diwallu anghenion pobl Cymru. Rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'n gwelliant.

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Leanne Wood to move amendment 2, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Leanne Wood i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Cefnogwyd gan Aled Roberts.*

*Supported by Aled Roberts.*

*Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new points at end of motion:*

*Yn nodi'r cytundeb pwysig a gyflawnwyd gan Blaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i sicrhau:*

*Notes the important agreement achieved by the Party of Wales and the Welsh Liberal Democrats in securing:*

*a) Cronfa Gofal Canolraddol i leihau'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys ac i ddarparu gofal yn nes at adref;*

*a) an Intermediate Care Fund to alleviate pressures on A&E departments and provide care closer to home;*

*b) bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddyblu;*

*b) more than a doubling of the Pupil Deprivation Grant;*

*c) tri robot Da Vinci modern a fydd yn darparu gweithdrefnau llawfeddygol llai mewnwthiol;*

*c) three state-of-the-art Da Vinci robots that will provide less invasive surgical procedures;*

*d) cronfa technoleg iechyd a thelefeddygaeth i roi Cymru ar flaen y gad ym maes technoleg feddygol;*

*d) a health technology and telemedicine fund to put Wales at the forefront of medical technology;*

*e) bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei diogelu; ac*

*e) protection of the Supporting People Programme; and*

*Yn nodi ymhellach yr effaith gadarnhaol y bydd buddsoddiadau o'r fath yn ei chael ar gymunedau ledled y wlad a'r gwelliannau mewn gwasanaethau cymunedol a fydd yn dilyn hynny.*

*Further notes the positive impact such investments will have on communities across the country and the improvement in community-based services that will follow.*

16:15

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 2.

Cynigiaf welliant 2.

I would like to start by noting that the agreement between Plaid Cymru and the Liberal Democrats with the Welsh Government has enabled the reaching of an early agreement on the budget. Of course, Plaid Cymru recognises that there is a significantly reduced amount available for spending in Wales because of cuts from Westminster. It is more than a shame that this Assembly has no ability at all to have a say on its budget settlement. Our budget is non-negotiable and it does not meet our needs.

Hoffwn ddechrau trwy nodi bod y cytundeb rhwng Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol gyda Llywodraeth Cymru wedi golygu bod modd dod i gytundeb cynnar ar y gyllideb. Wrth gwrs, mae Plaid Cymru yn cydnabod bod swm llawer llai ar gael i'w wario yng Nghymru oherwydd toriadau o San Steffan. Mae'n fwy na thrueni bod y Cynulliad hwn heb allu o gwbl i ddweud ei ddweud am ei setliad cyllideb. Nid yw ein cyllideb yn agored i drafodaeth ac nid yw'n diwallu ein hanghenion.

It is worth noting here the continued failure to date of all Governments—of whatever stripe—in London to ensure a fair funding formula that reflects the needs of the people of Wales. The Party of Wales is of the view that, if parties are serious about fair funding, then fair funding must feature in the manifesto of every political party for the UK's 2015 general election.

Mae'n werth nodi yma bod pob Llywodraeth—o ba bynnag streip—yn Llundain hyd yn hyn wedi methu â sicrhau fformiwla ariannu teg sy'n adlewyrchu anghenion pobl Cymru. Os yw'r pleidiau o ddifrif ynghylch ariannu teg, mae Plaid Cymru o'r farn bod yn rhaid i ariannu teg ymddangos ym maniffesto pob plaid wleidyddol ar gyfer etholiad cyffredinol 2015 y DU.

Equally, we say that all parties should support the package of cross-party, consensual, Silk commission recommendations on fiscal powers for Wales. Those recommendations should not be cherry picked.

Yn yr un modd, rydym yn dweud y dylai pob plaid gefnogi'r pecyn o argymhellion trawsbleidiol, cydsyniol comisiwn Silk ar bwerau cyllidol ar gyfer Cymru. Ni ddylid dewis a dethol yr argymhellion sydd orau gan bobl.

The priorities of a Welsh budget are shaped by the governing party, but I am pleased that Plaid Cymru has been able to make a material difference through forcing concessions from the Government on specific policy areas related to our priorities. Last year, the Party of Wales was able to secure the funding of more than 5,000 apprenticeships—many of them higher-level places. That deal was able to help small and medium-sized enterprises and firms operating through the medium of Welsh. It provided for a science park in north-west Wales.

Mae blaenoriaethau cyllideb Cymru yn cael eu ffurfio gan y blaid sydd mewn llywodraeth, ond rwy'n falch bod Plaid Cymru wedi gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol trwy orfodi consesiynau gan y Llywodraeth ar feysydd polisi penodol sy'n gysylltiedig â'n blaenoriaethau. Y llynedd, llwyddodd Plaid Cymru i sicrhau cyllid ar gyfer mwy na 5,000 o brentisiaethau—llawer ohonynt yn lleoedd ar lefel uwch. Roedd y fargen honno wedi gallu helpu mentrau a chwmnïau bach a chanolig sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Darparodd ar gyfer parc gwyddoniaeth yng ngogledd-orllewin Cymru.

This year, our agreement has focused on health and education. Our Close to Home healthcare package will relieve pressure on the health budget through better integration of health and social care. We hope that this additional funding will see a reduction in the number of delayed transfers of care, by getting patients back into their homes as soon as is possible.

Eleni, mae ein cytundeb wedi canolbwyntio ar iechyd ac addysg. Bydd ein pecyn gofal iechyd Agos at Adre yn lleddfu'r pwysau ar y gyllideb iechyd trwy integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Rydym yn gobeithio y bydd yr arian ychwanegol hwn yn gostwng nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, trwy gael cleifion yn ôl i'w cartrefi cyn gynted ag y bo modd.

We have also agreed other schemes within this package. For example, telemedicine will cut down on patients having to travel to see hospital specialists and, of course, the new Da Vinci robots will carry out specialist treatments for prostate cancer in all areas of Wales. The purchase of these robots means that patients who would have previously had to pay £15,000 or more for treatment over the border will now be able to have their healthcare treatment close to home.

Rydym hefyd wedi cytuno ar gynlluniau eraill yn y pecyn hwn. Er enghraifft, bydd telefeddygaeth yn cwtogi ar nifer y cleifion sy'n gorfod teithio i weld arbenigwyr ysbyty ac, wrth gwrs, bydd y robotiaid Da Vinci newydd yn cynnal triniaethau arbenigol ar gyfer canser y prostad ym mhob rhan o Gymru. Bydd cleifion a fyddai'n flaenorol wedi gorfod talu £15,000 neu fwy am driniaeth dros y ffin yn awr yn gallu cael eu triniaeth gofal iechyd yn agos i'w cartrefi, yn sgil prynu'r robotiaid hyn.

We were pleased that we were able to provide some protection for the Supporting People budget, as well as an increase in the Welsh pupil deprivation grant, which has more than doubled as a result of this agreement. We would like to see this additional cash targeted specifically at programmes and resources that would help to improve our low literacy rates, which are, of course, exacerbated by poverty. We therefore welcome, not just the substantial increase in the grant, but also the fact that there will be a report outlining the most effective ways to use these funds.

Rydym yn falch ein bod wedi gallu gwarchod y gyllideb Cefnogi Pobl i ryw raddau, yn ogystal â chynyddu grant amddifadedd disgyblion Cymru, sydd wedi mwy na dyblu o ganlyniad i'r cytundeb hwn. Hoffem weld yr arian ychwanegol hwn yn cael ei dargedu'n benodol at raglenni ac adnoddau a fyddai'n helpu i wella ein cyfraddau llythrennedd isel, sydd, wrth gwrs, yn cael eu gwaethygu gan dlodi. Rydym felly'n croesawu'r cynnydd sylweddol yn y grant, ond hefyd y ffaith y bydd adroddiad yn cael ei baratoi i amlinellu'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

As I have already said, it is a matter for the governing party to shape the budget and to determine its detail. It is of particular concern to us that deep cuts have been earmarked for local government and for the Welsh language. I have previously asked about the impact that these cuts will have on local authorities and on council tax increases. It would be useful to know what assessments have been carried out on the impacts of local authority cuts on Welsh Government priorities. How, for example, will cutting education provision for three to five-year-olds help to improve child poverty rates or economic performance? How will library closures help with improving literacy rates? We also need to know how Welsh language services can be improved if the budget is being cut.

Fel yr wyf eisoes wedi dweud, mater i'r blaid mewn llywodraeth yw llunio'r gyllideb a phennu ei manylion. Mae'n destun pryder arbennig inni fod toriadau dwfn wedi cael eu clustnodi ar gyfer llywodraeth leol ac ar gyfer yr iaith Gymraeg. Rwyf wedi holi o'r blaen ynglŷn â'r effaith a gaiff y toriadau hyn ar awdurdodau lleol ac ar gynnydd yn y dreth gyngor. Byddai'n ddefnyddiol gwybod pa asesiadau sydd wedi'u cynnal ar effeithiau toriadau awdurdodau lleol ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Sut, er enghraifft, y bydd torri darpariaeth addysg ar gyfer rhai tair i bump oed yn helpu i wella cyfraddau tlodi plant neu berfformiad economaidd? Sut y bydd cau llyfrgelloedd yn helpu i wella cyfraddau llythrennedd? Mae angen inni wybod hefyd sut y gellir gwella gwasanaethau iaith Gymraeg os caiff y gyllideb ei thorri.

This year's budget features further downward pressure on capital budgets. We have heard how borrowing powers in future years might remedy at least some of this pressure, although, of course, borrowing powers are no panacea. Those powers are likely to be limited and, of course, all borrowed money has to be paid back, which requires an income stream. In developing the case for income tax power devolution—hopefully with the constraining lockstep removed—it would be useful for us to receive clarification as to whether income tax varying powers will enable more infrastructure investment. If they will, then income-tax powers will clearly have benefits beyond varying the rates. Therefore, I would be grateful to hear from the Minister what assessment the Welsh Government has made of the impact of transferring income-tax powers on the ability to borrow for investment.

Mae cyllideb eleni yn cynnwys rhagor o bwysau tuag i lawr ar gyllidebau cyfalaf. Rydym wedi clywed sut y gallai pwerau benthyca yn y dyfodol unioni rhywfaint o'r pwysau hwn o leiaf, er nad yw pwerau benthyca yn ateb pob problem, wrth gwrs. Mae'r pwerau hynny'n debygol o fod yn gyfyngedig ac, wrth gwrs, mae'n rhaid ad-dalu pob arian a fenthycir, sy'n gofyn am ffrwd incwm. Wrth ddatblygu'r achos dros ddatganoli pwerau dros dreth incwm—gan ddileu'r cyfyngiadau, gobeithio—byddai'n ddefnyddiol i ni gael eglurhad ynghylch a fydd pwerau i amrywio treth incwm yn galluogi mwy o fuddsoddiad mewn seilwaith. Os byddant, yna mae'n amlwg y bydd manteision i'r pwerau treth incwm y tu hwnt i amrywio'r cyfraddau. Felly, byddwn yn ddiolchgar clywed gan y Gweinidog pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal o effaith trosglwyddo pwerau treth incwm ar y gallu i fenthyca ar gyfer buddsoddi.

Plaid Cymru welcomes the Welsh Government's indications that it is to establish a treasury function. This will, of course, be a vital development in the light of this week's UK Government announcement on part 1 of the Silk commission's report. Some of the UK Government's responses to the Silk recommendations are weak insofar as they want only to improve existing financial data. In terms of producing what it would term 'sub-national accounts', including a Welsh GDP measure, the UK Government has stated that the Office for National Statistics is only considering it. I have pressed the Welsh Government to commission these important data on the Welsh economy, and this call has been supported by organisations representing Welsh business.

Mae Plaid Cymru yn croesawu awgrymiadau Llywodraeth Cymru y bydd yn sefydlu swyddogaeth trysorlys. Bydd hyn, wrth gwrs, yn ddatblygiad hollbwysig yng ngoleuni cyhoeddiad Llywodraeth y DU yr wythnos hon ar ran 1 o adroddiad comisiwn Silk. Mae rhai o ymatebion Llywodraeth y DU i argymhellion Silk yn wan i'r graddau nad ydynt ond eisiau gwella data ariannol presennol. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai dim ond ystyried cynhyrchu'r hyn y byddai'n eu galw'n 'gyfrifon is-genedlaethol', gan gynnwys mesur Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ar gyfer Cymru, y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rwyf wedi pwyso ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu'r data pwysig hwn ar economi Cymru, ac mae'r alwad hon wedi cael ei chefnogi gan sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau Cymru.

Plaid Cymru would like to see the Welsh Government showing a strong lead in setting out the information that will be required by a Welsh treasury. After all, this is information that should be needed by a Welsh Minister for business and economy. For us, this information is a crucial part of the growth and maturing of our Welsh democracy.

Byddai Plaid Cymru yn hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn dangos arweiniad cryf wrth nodi'r wybodaeth a fydd yn ofynnol gan drysorlys Cymru. Wedi'r cyfan, mae hon yn wybodaeth y dylai fod ei hangen ar Weinidog Cymru ar gyfer busnes a'r economi. I ni, mae'r wybodaeth hon yn rhan hanfodol o weld democratiaeth Cymru yn tyfu ac aeddfedu.

My final point is that, unfortunately, there is a clear disconnect between the Welsh Government's focus on jobs and growth and the focus on the economy in the budget. The economy is simply not given the priority that the Government says it has been given. This is a point that has been backed up by the Finance Committee. The budget is much more focused on health and education—two areas that Plaid Cymru has supported this year—and there is nothing inherently wrong with prioritising health and education. However, if it is a deliberate Government choice to prioritise those areas, then what the Government says about the budget must be reflective of the actual position.

Fy mhwynt olaf yw ei bod yn amlwg nad oes cysylltiad, yn anffodus, rhwng pwyslais Llywodraeth Cymru ar swyddi a thwf a'r pwyslais ar yr economi yn y gyllideb. Yn syml, nid yw'r economi'n cael y flaenoriaeth y mae'r Llywodraeth yn dweud ei bod wedi'i chael. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cefnogi'r pwynt hwn. Mae'r gyllideb yn canolbwyntio llawer mwy ar iechyd ac addysg—dau faes y mae Plaid Cymru wedi'u cefnogi eleni—ac nid oes dim o'i le yn ei hanfod mewn blaenoriaethu iechyd ac addysg. Fodd bynnag, os yw'n ddewis bwriadol gan y Llywodraeth i flaenoriaethu'r meysydd hynny, yna rhaid i'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ddweud am y gyllideb adlewyrchu'r sefyllfa go iawn.

The Finance Committee has said that there is still more to be done in terms of linking the programme for government with the budget. You may well remember that Plaid Cymru has previously queried the level of detail in the programme for government as well as the targets that have been set. Therefore, for the reasons that I have outlined here this afternoon, Plaid Cymru is pleased that we have reached an agreement on this draft budget, but we are not in a position to positively endorse it.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi dweud bod mwy eto i'w wneud o ran cysylltu'r rhaglen lywodraethu â'r gyllideb. Efallai y byddwch yn cofio bod Plaid Cymru wedi cwestiynu lefel y manylion yn y rhaglen lywodraethu yn ogystal â'r targedau a osodwyd. Felly, am y rhesymau yr wyf wedi'u hamlinellu yma brynhawn heddiw, mae Plaid Cymru yn falch ein bod wedi dod i gytundeb ar y gyllideb ddrafft, ond nid ydym mewn sefyllfa i'w chymeradwyo yn gadarnhaol.

16:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendment 3 in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Cefnogwyd gan Elin Jones.*

*Supported by Elin Jones.*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert as new point at end of the motion:*

*Yn croesawu'r gweithredu ar y cyd rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Cymru, a sicrhaodd y canlynol yn y Gyllideb Ddrafft:*

*Welcomes the joint approach between the Welsh Liberal Democrats and Plaid Cymru, which has secured within the Draft Budget:*

*a) £35 miliwn ychwanegol i ddyblu'r cyllid ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol;*

*a) an additional £35million to double funding for the Pupil Deprivation Grant to help break the link between poverty and educational underachievement;*

*b) Cronfa Gofal Canolraddol gwerth £50 miliwn i gefnogi byw'n annibynnol ac i leihau'r pwysau ar y system gofal mewn argyfwng;*

*b) a £50million Intermediate Care Fund to support independent living and reduce pressure on the emergency care system;*

*c) buddsoddiad ychwanegol o £9.5 miliwn yn y Gronfa Technoleg Iechyd er mwyn cynyddu buddsoddiad mewn telefeddygaeth; a*

*c) an additional £9.5million investment in the Health Technology Fund to increase investment in telemedicine; and*

*d) Pecyn Cefnogi Pobl gwerth £5.5 miliwn i helpu i fynd i'rafael â digartrefedd.*

*d) a £5.5million Support People Package to help tackle homelessness.*

16:22 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 3.

Cynigiaf welliant 3.

I welcome the very important agreement that has enabled us and Plaid Cymru to allow this budget to pass through our abstentions today. That is a really important agreement, because it has enabled proper scrutiny prior to the budget process and has brought significant benefits for schools and health. It also underlines the reality of a minority Government and how opposition parties can work together constructively to improve the budget, rather than shouting from the sidelines.

Rwy'n croesawu'r cytundeb pwysig iawn sydd wedi ein galluogi ni a Phlaid Cymru i ganiatáu i'r gyllideb hon basio trwy inni ymatal heddiw. Mae hwnnw'n gytundeb pwysig iawn, oherwydd ei fod wedi golygu bod modd craffu'n briodol cyn proses y gyllideb ac wedi dod â buddiannau sylweddol i ysgolion ac iechyd. Mae hefyd yn tanlinellu realiti Llywodraeth leiafrifol a sut y gall y gwrthbleidiau gydweithio'n adeiladol i wella'r gyllideb, yn hytrach na gweiddi o'r cyrion.

The Welsh Liberal Democrats welcome in particular the issues addressed in this agreement. It has always been our intention to be a responsible opposition party during this Assembly term and, this year, being able to work with the Government and Plaid Cymru to secure a deal to achieve those better outcomes has underlined that intention and has helped to bring forward significant benefits for the people of Wales.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'n arbennig y materion sy'n cael sylw yn y cytundeb hwn. Mae bob amser wedi bod yn fwriad gennym i fod yn wrthblaid gyfrifol yn ystod tymor y Cynulliad hwn ac, eleni, mae'r ffaith ein bod wedi gallu gweithio gyda'r Llywodraeth a Phlaid Cymru i sicrhau bargen i gyflawni'r canlyniadau gwell hynny wedi pwysleisio'r bwriad hwnnw ac mae wedi helpu i gyflwyno manteision sylweddol i bobl Cymru.

As part of the £100 million package that has been agreed, investment in the pupil deprivation grant will double to over £70 million per year. That is £918 per pupil to support those from disadvantaged backgrounds in order to help to break the cycle of poverty and low achievement. This was a key Welsh Liberal Democrat policy that was introduced as a result of our last budget deal with the Government in 2011.

Fel rhan o'r pecyn £100 miliwn y cytunwyd arno, bydd buddsoddiad yn y grant amddifadedd disgyblion yn dyblu i dros £70 miliwn y flwyddyn. Mae hynny'n £918 y disgybl i gefnogi rhai o gefndiroedd difreintiedig er mwyn helpu i dorri'r cylch tlodi a chyrhaeddiad isel. Roedd hwn yn bolisi allweddol gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a gyflwynwyd o ganlyniad i'n cytundeb diwethaf gyda'r Llywodraeth ar y gyllideb yn 2011.

We also welcome the additional £9.5 million for the health technology fund, which was, once again, a Welsh Liberal Democrat proposal in the previous budget round that helps to ensure that patients have wider access to the newest and most innovative treatments available. This funding will help to provide robotic cancer treatment in north and south-west Wales to complement the investment announced by the Minister for Health and Social Services of £2.7 million for Velindre and a further investment in telemedicine.

Rydym hefyd yn croesawu'r £9.5 miliwn ychwanegol ar gyfer y gronfa technoleg iechyd, sef cynnig gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, unwaith eto, yn y cylch cyllideb blaenorol sy'n helpu i sicrhau bod y triniaethau mwyaf newydd a mwyaf arloesol bosibl ar gael i fwy o gleifion. Bydd y cyllid hwn yn helpu i ddarparu triniaeth canser robotaidd yng ngogledd a de-orllewin Cymru i gyd-fynd â'r buddsoddiad a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o £2.7 miliwn ar gyfer Felindre a rhagor o fuddsoddiad mewn telefeddygaeth.

In March, we held a debate calling for funding from the loss of exclusivity to be reinvested into revenue support for new medicines and to support engagement with the appraisal process. We hope that this can be looked at in further developing the fund in future.

Ym mis Mawrth, cynhaliwyd dadl yn galw am ail-fuddsoddi arian a arbedir yn sgil colli hawliau unig gynhyrchydd mewn cymorth refeniw ar gyfer meddyginiaethau newydd, ac i gefnogi ymgysylltiad â'r broses arfarnu. Rydym yn gobeithio y gellir edrych ar hyn wrth ddatblygu'r gronfa ymhellach yn y dyfodol.

There is also the £50 million for an intermediate care fund—which Plaid Cymru brought to the table, in fairness—to allow more co-ordinated and joined-up care to support independent living. This will support reablement measures and help reduce the pressure on our hospitals. Finally, there is an additional £5.5 million for the Supporting People package, to help prevent homelessness among vulnerable people, and also to put in other support.

Ceir hefyd y £50 miliwn ar gyfer arian gofal canolraddol—a gyflwynwyd gan Blaid Cymru, a bod yn deg—i ganiatáu gofal mwy cydlynol a chydgysylltiedig i gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol. Bydd hyn yn cefnogi mesurau ailalluogi ac yn helpu i leihau'r pwysau ar ein hysbytai. Yn olaf, ceir swm ychwanegol o £5.5 miliwn ar gyfer y pecyn Cefnogi Pobl, i helpu i atal digartrefedd ymhlith pobl sy'n agored i niwed, a hefyd i gyflwyno cymorth arall.

This planned and mature approach to negotiation has been commended by the Finance Committee for enabling scrutiny of the full budget proposals prior to publication of the final budget, so that it can properly examine the impact of these plans. However, as Leanne said in her contribution, it does not mean that we are entirely happy with the rest of the budget. In abstaining to allow this package to go through, we will be making the point that other aspects need attention and that we will remain a critical and alert opposition party throughout the coming year on how the allocations within the rest of the budget are applied.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi canmol y dull trefnus ac aeddfed hwn o drafod oherwydd y bu modd craffu ar gynigion llawn y gyllideb cyn cyhoeddi'r gyllideb derfynol, fel y gellir archwilio effaith y cynlluniau hyn yn briodol. Fodd bynnag, fel y dywedodd Leanne yn ei chyfraniad, nid yw'n golygu ein bod yn gwbl fodlon ar weddill y gyllideb. Wrth ymatal i ganiatáu i'r pecyn hwn fynd drwyddo, byddwn yn gwneud y pwynt bod angen sylw ar agweddau eraill ac y byddwn yn parhau i fod yn wrthblaid feirniadol ac effro trwy gydol y flwyddyn sydd i ddod o ran sut y defnyddir y dyraniadau o fewn gweddill y gyllideb.

Minister, I want to seek assurances about a number of things, one of which is the funding for schools. As you know, the extra money for the pupil deprivation grant has been widely welcomed by headteachers. However, in addition to that, your Government made a commitment to raise the funding for schools by 1% above the increase in the block grant. I have concerns that some local authorities will not deliver on that, but will rely on the pupil deprivation grant to cover their backs as they reallocate that money elsewhere. So, I would be grateful for some assurances from the Government as to how it will monitor the commitment for the extra 1% on top of the block grant, and what pressure you will be putting on local government to ensure that it delivers on it.

Weinidog, rwyf am geisio sicrwydd ynglŷn â nifer o bethau, ac un ohonynt yw'r arian ar gyfer ysgolion. Fel y gwyddoch, mae'r arian ychwanegol ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion wedi cael croeso mawr gan benaethiaid. Fodd bynnag, yn ychwanegol at hynny, ymrwymodd eich Llywodraeth i gynyddu'r cyllid ar gyfer ysgolion 1% yn uwch na'r cynnydd yn y grant bloc. Rwy'n pryderu na fydd rhai awdurdodau lleol yn cyflawni ar hynny, ond yn hytrach yn dibynnu ar y grant amddifadedd disgyblion i'w diogelu gan ailddyrannu'r arian rhywle arall. Felly, byddwn yn ddiolchgar am gael rhyw sicrwydd gan y Llywodraeth ynghylch sut y bydd yn monitro'r ymrwymiad i'r 1% ychwanegol ar ben y grant bloc, a pha bwysau y byddwch yn ei roi ar lywodraeth leol i sicrhau ei bod yn cyflawni yn hynny o beth.

The point about preventative spending has been made by a number of speakers, as it is a very important one. I refer to the Supporting People package, with the extra £5.5 million, which is a very important part of the preventative spend agenda. However, an aspect highlighted in the Finance Committee report was the care and repair budget. This budget targets money specifically at those in need, helps people come out of hospital and prevents them from going into hospital, and provides other prevention measures to avoid having to spend elsewhere within the Welsh budget. In the current budget, you propose to cut that funding by £500,000. My understanding is that the way that that budget works means that any funding brought in by the Welsh Government is match funded by local government, so the total cut to the care and repair budget could be as much as £1 million. As part of your consideration of the draft budget—between now and the final budget—will you look again at that particular cut? In light of the Government's commitment to put in preventative spend, would you be willing to reinstate the £500,000 to that budget?

Mae nifer o siaradwyr wedi gwneud y pwynt am wariant ataliol, gan ei fod yn un pwysig iawn. Cyfeiriaf at y pecyn Cefnogi Pobl, gyda'r £5.5 miliwn ychwanegol, sy'n rhan bwysig iawn o'r agenda gwariant ataliol. Fodd bynnag, agwedd a amlygwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid oedd y gyllideb gofal a thrwsio. Mae'r gyllideb hon yn targedu arian yn benodol at y rhai sydd mewn angen, yn helpu pobl i ddod allan o'r ysbyty ac yn eu hatal rhag mynd i'r ysbyty, ac yn darparu mesurau ataliol eraill er mwyn osgoi gorfod gwario mewn mannau eraill o fewn cyllideb Cymru. Yn y gyllideb ar hyn o bryd, rydych yn bwriadu torri £500,000 oddi ar y cyllid hwnnw. Fy nealltwriaeth i yw bod y ffordd y mae'r gyllideb honno'n gweithio yn golygu bod llywodraeth leol yn cyfrannu arian cyfatebol ar gyfer unrhyw gyllid a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru, felly gallai cyfanswm y toriad yn y gyllideb gofal a thrwsio fod cymaint â £1 miliwn. Fel rhan o'ch ystyriaeth o'r gyllideb ddrafft—rhwng nawr a'r gyllideb derfynol—a wnewch chi edrych eto ar y toriad penodol hwnnw? O ystyried ymrwymiad y Llywodraeth i wariant ataliol, a fyddech yn barod i adfer y £500,000 i'r gyllideb honno?

In terms of health, we welcome the introduction of the National Health Service Finance (Wales) Bill, which will see health spending shift to a three-year pattern as recommended by the Finance Committee last year. However, significant concerns remain as to whether all health boards have robust plans in place to deal with eventualities such as an aging population. There have been further concerns recently regarding the cancellation of elective procedures—a practice highlighted by the Wales Audit Office report in July. This practice is detrimental not only to patients' health but also causes greater financial implications in the long term. It is vital that the Minister does not allow these quick-win savings to be implemented to the detriment of the wider health provision.

O ran iechyd, rydym yn croesawu'r ffaith y cyflwynwyd Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), a fydd yn gweld gwariant ar iechyd yn symud i batrwm tair blynedd fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid y llynedd. Fodd bynnag, mae pryderon sylweddol yn parhau o ran a oes gan bob bwrdd iechyd gynlluniau cadarn ar waith i ddelio â digwyddiadau megis poblogaeth sy'n heneiddio. Cafwyd rhagor o bryderon yn ddiweddar ynghylch canslo triniaethau dewisol—arfer a amlygwyd gan adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf. Mae'r arfer hwn yn niweidiol i iechyd cleifion, ond mae hefyd yn achosi goblygiadau ariannol mwy yn y tymor hir. Mae'n hanfodol nad yw'r Gweinidog yn caniatáu i'r arbedion cyflym hyn gael eu gweithredu ar draul y ddarpariaeth iechyd ehangach.

Substantial funding of £180 million has been allocated to respond to the Francis agenda, which we welcome, but that is not included within the indicative allocations to local health boards, and there is uncertainty as to how this funding will be distributed or prioritised, what outcomes it is intended to achieve and how value for money will be monitored. In particular, the Royal College of Nursing highlighted a worrying decline in nurse staffing levels following the publication of statistics on the NHS workforce in Wales. Wales lags behind the rest of the UK in terms of two key indicators of nurse staffing levels, and we urge the Minister to examine the benefits of regulations on minimum nurse staffing levels. I hope that we can have some more clarity as to how this particular funding is to be allocated, and what impact it will have on that issue.

Dyrannwyd cyllid sylweddol o £180 miliwn i ymateb i agenda Francis, a chroesawn hynny, ond nid yw'n cael ei gynnwys yn y dyraniadau dangosol i fyrddau iechyd lleol, ac mae ansicrwydd ynghylch sut y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddosbarthu neu ei flaenoriaethu, pa ganlyniadau y bwriedir iddo eu cyflawni a sut y bydd gwerth am arian yn cael ei fonitro. Yn benodol, amlygodd y Coleg Nyrsio Brenhinol ostyngiad yn lefelau staffio nyrsys ar ôl cyhoeddi ystadegau ar weithlu'r GIG yng Nghymru, ac mae hyn yn peri pryder. Mae Cymru yn llusgo ar ôl gweddill y DU o ran dau ddangosydd allweddol o lefelau staffio nyrsys, ac rydym yn annog y Gweinidog i edrych ar fanteision rheoliadau ar lefelau staffio gofynnol ar gyfer nyrsys. Rwy'n gobeithio y gallwn gael rhywfaint o eglurhad o ran sut y bwriedir dyrannu'r arian penodol hwn, a pha effaith a gaiff ar y mater hwnnw.

In terms of capital funding, we welcome the investment of £3 million for HealthVision Swansea and £10 million for adult acute mental health facilities at Llandough Hospital. The Finance Committee raised concerns about a lack of transparency over reprioritisation. Health and social services account for almost 42% of the overall Welsh Government's departmental expenditure limit budget. The revenue DEL has increased by £140.9 million in comparison with indicative plans and the capital DEL by £42.5 million, but there is no transparency over that reprioritisation.

O ran cyllid cyfalaf, rydym yn croesawu'r buddsoddiad o £3 miliwn ar gyfer Gweledigaeth Iechyd Abertawe a £10 miliwn ar gyfer cyfleusterau iechyd meddwl acíwt i oedolion yn Ysbyty Llandochau. Cododd y Pwyllgor Cyllid bryderon am ddiffyg tryloywder ynglŷn ag ailflaenoriaethu. Mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cyfrif am bron i 42% o gyllideb terfyn gwariant adrannol Llywodraeth Cymru yn gyffredinol. Mae'r terfyn gwariant adrannol refeniw £140.9 miliwn yn uwch na'r cynlluniau dangosol a'r terfyn gwariant adrannol cyfalaf £42.5 miliwn yn uwch, ond nid oes tryloywder o ran yr ailflaenoriaethu.

The committee also highlighted the recent Wales Audit Office report that states that there is a significant risk that the June 2014 deadline for completing continuing healthcare claims may be missed, which will have a further impact on the budget. I would urge the Welsh Government to bring forward a statement clarifying progress on clearing these claims. Leading directly from that, particularly in terms of the interface between health and social care, the significant cut to local government, with which I do not think that anybody on this side of the Chamber is comfortable, could have an impact on social care provision by local government itself. If you have an impact on social care provision, it will put further pressure on the health service. In terms of joined-up thinking, we need to look at those issues and look for assurances from the relevant Ministers that the local government settlement will not lead to further financial pressures on the health service. We need assurances that local government will continue to allocate and prioritise social services, particularly children's social services, but also elderly care, which is a growing budget pressure, and make sure that it is able to meet those pressures as best as it can.

Mae'r pwyllgor hefyd yn tynnu sylw at adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru sy'n nodi bod risg sylweddol y gellid methu'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau hawliadau gofal iechyd parhaus, sef mis Mehefin 2014, gan gael effaith bellach ar y gyllideb. Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno datganiad yn egluro'r camau a gymerwyd i glirio'r hawliadau hyn. Yn arwain yn uniongyrchol o hynny, yn enwedig o ran y rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, gallai'r toriad sylweddol i lywodraeth leol—ac nid wyf yn credu bod neb ar yr ochr hon o'r Siambr yn gyfforddus â hynny—gael effaith ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol gan lywodraeth leol ei hun. Bydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn rhoi mwy o bwysau ar y gwasanaeth iechyd. O ran ymdriniaeth gydgysylltiedig, mae angen inni edrych ar y materion hynny a cheisio sicrwydd gan y Gweinidogion perthnasol na fydd y setliad llywodraeth leol yn arwain at ragor o bwysau ariannol ar y gwasanaeth iechyd. Mae arnom angen sicrwydd y bydd llywodraeth leol yn parhau i ddyrannu a blaenoriaethu gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol i blant, ond hefyd gofal yr henoed, sy'n bwysau cyllidebol cynyddol, a gwneud yn siŵr ei bod yn gallu ymateb i'r pwysau hynny gystal ag y bo modd.

Finally, Deputy Presiding Officer, in relation to housing, we welcome the £69 million allocation in 2014-15 for the help to buy Cymru loan equity scheme. Recent statistics in October showed that the average house price increased by 1% over the last month, so it is vital that we have a launch date for this scheme as soon as possible. We need to have a launch date so that buyers have the support that they need now. Furthermore, I have been looking for the Minister for Housing and Regeneration, in this case, to clarify what progress has been made on the arrangements to exit the housing revenue account subsidy scheme, which was touched on in the statement on the housing Bill. That agreement between Welsh Ministers and the Liberal Democrats in Government could have the potential to release about £30 million back into the system to build and repair new homes, and it needs to be unlocked as soon as possible.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, mewn cysylltiad â thai, rydym yn croesawu'r dyraniad o £69 miliwn yn 2014-15 ar gyfer y cynllun ecwiti benthyciad, hawl i brynu Cymru. Roedd ystadegau diweddar ym mis Hydref yn dangos bod pris cyfartalog tai wedi cynyddu 1% dros y mis diwethaf, felly mae'n hanfodol ein bod yn cael dyddiad lansio ar gyfer y cynllun hwn cyn gynted ag y bo modd. Mae angen i ni gael dyddiad lansio fel bod prynwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn awr. Ar ben hynny, rwyf wedi bod yn disgwyl i'r Gweinidog Tai ac Adfywio, yn yr achos hwn, egluro pa gamau a gymerwyd ar y trefniadau i adael cynllun cymhorthdal y cyfrif refeniw tai, a grybwyllwyd yn y datganiad ar y Bil tai. Gallai'r cytundeb hwnnw rhwng Gweinidogion Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Llywodraeth fod â'r potensial i ryddhau tua £30 miliwn yn ôl i mewn i'r system i adeiladu ac atgyweirio cartrefi newydd, ac mae angen ei ddatgloi cyn gynted ag y bo modd.

Deputy Presiding Officer, in summing up this budget, the Welsh Liberal Democrats are very pleased to have the changes that we have to improve health and education. We have concerns about the budget as a whole, which is why we are abstaining, but much more can be done if Ministers are able to bring forward detailed proposals to use the money available much earlier and to deliver on the promises, and I think that the housing thing underlines that particular issue.

Ddirprwy Lywydd, wrth grynhoi'r gyllideb hon, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn falch iawn o gael y newidiadau sydd gennym i wella iechyd ac addysg. Mae gennym bryderon ynglŷn â'r gyllideb yn ei chyfanrwydd, a dyna pam yr ydym yn ymatal, ond gellid gwneud llawer mwy pe bai Gweinidogion yn gallu cyflwyno cynigion manwl i ddefnyddio'r arian sydd ar gael yn llawer cynharach a chyflawni ar yr addewidion, a chredaf fod y mater tai yn tanlinellu'r pwynt penodol hwnnw.

16:32 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Surely we must begin, once again, by reflecting on the unprecedented cuts imposed on Wales by the Tories and Lib Dems in Westminster since 2010—[Interruption.] I know that you do not want to hear it: a £1.68 billion real-terms budget cut between 2010-11 and 2015-16; and departmental spending down by 9% and capital investment slashed by 33%. There are year in, year out reductions to the amount that we have to spend here in Wales that mean that we will have faced more than 20% in total spending cuts by the time that we reach 2018. Add welfare reform into the mix and make no mistake about it, the reality of those statistics on the ground will surely serve to teach another generation of young people that you simply cannot trust the Tories to do the right thing by Wales.

Siawns nad oes raid i ni ddechrau, unwaith eto, trwy fyfyrio ar y toriadau digynsail a osodwyd ar Gymru gan y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan ers 2010—[Torri ar draws.] Gwn nad ydych am ei glywed: toriad o £1.68 biliwn i'r gyllideb mewn termau real rhwng 2010-11 a 2015-16, a gwariant adrannol i lawr 9% a buddsoddiad cyfalaf wedi'i docio 33%. Mae'r swm sydd gennym i'w wario yma yng Nghymru yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn sy'n golygu y byddwn wedi wynebu cyfanswm o dros 20% o doriadau mewn gwariant erbyn inni gyrraedd 2018. Ychwanegwch y diwygiadau i'r gyfundrefn les, a pheidied neb â chael ei dwyllo, bydd realiti'r ystadegau hynny ar lawr gwlad yn sicr yn fodd i ddysgu cenhedlaeth arall o bobl ifanc na allwch chi ymddiried yn y Toriaid i wneud y peth iawn i Gymru.

Even in these incredibly difficult times, there is much in this budget to be welcomed; much that sets it apart as a Labour budget forged by our values and shaped by our priorities. Above all, this budget reaffirms Labour's status as the party of the NHS in Wales. That additional investment in our health service—£150 million this year alone and £570 million over the next three years—is significant. It is more than £0.5 billion that shows that Welsh Labour is responding to those unprecedented pressures that we have seen manifested in A&E departments up and down Wales. For me—

Hyd yn oed yn y cyfnod hynod anodd hwn, mae llawer yn y gyllideb hon i'w groesawu; llawer sy'n ei gosod ar wahân fel cyllideb Lafur a ffurfiwyd gan ein gwerthoedd ac a luniwyd gan ein blaenoriaethau. Yn anad dim, mae'r gyllideb hon yn cadarnhau statws y Blaid Lafur fel plaid y GIG yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad ychwanegol yn ein gwasanaeth iechyd—£150 miliwn y flwyddyn hon yn unig a £570 miliwn dros y tair blynedd nesaf—yn sylweddol. Mae'n fwy na £0.5 biliwn sy'n dangos bod Llafur Cymru yn ymateb i'r pwysau digynsail a welwyd mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar hyd a lled Cymru. I mi—

16:34 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for giving way. We all welcome investment in the NHS, therefore, do you regret the Labour Party's decision not to fully support the NHS budget in real terms over the last two years? You are putting back money that was taken away before.

Diolch i'r Aelod am ildio. Rydym i gyd yn croesawu buddsoddiad yn y GIG, felly, a ydych yn gresynu penderfyniad y Blaid Lafur i beidio â chefnogi cyllideb y GIG yn llawn mewn termau real dros y ddwy flynedd ddiwethaf? Rydych yn rhoi arian yn ôl a gymerwyd i ffwrdd o'r blaen.

16:34 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let us go back to basics here, Nick. Your Government funds our Government. You did not give us enough money. Our Government is doing the best it can with the resources that we have. It is quite simple; try to keep up. [Interruption.]

Gadewch i ni fynd yn ôl at yr hanfodion, Nick. Mae eich Llywodraeth chi yn ariannu'n Llywodraeth ni. Nid ydych chi wedi rhoi digon o arian i ni. Mae ein Llywodraeth yn gwneud y gorau y gall gyda'r adnoddau sydd gennym. Mae'n eithaf syml; ceisiwch ddal i fyny. [Torri ar draws.]

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. We need to calm it down; we need to listen to the views of all Members. I might not call some who are hectoring and shouting from a seated position. I call Lynne Neagle.

Trefn. Mae angen inni dawelu pethau, mae angen inni wrando ar farn yr holl Aelodau. Efallai na fyddaf yn galw ar y rhai sy'n rhefru a gweiddi ar eu heistedd. Galwaf ar Lynne Neagle.

16:35 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Interruption.] No, I am going to speak now, thank you. For me, it has helped to highlight the true dividing line when it comes to health in Welsh politics: disingenuous Tory calls for health spending plans that would mean the decimation of other services, or Welsh Labour investing in our NHS in Government, despite being starved of cash by the coalition Government.

[Torri ar draws.] Na, rwyf i'n mynd i siarad nawr, diolch i chi. I mi, mae wedi helpu i amlygu'r gwir linell derfyn o ran iechyd yng ngwleidyddiaeth Cymru: galwadau ffuantus gan y Toriaid am gynlluniau gwariant ar iechyd a fyddai'n golygu difrodi gwasanaethau eraill, neu Lafur Cymru mewn Llywodraeth yn buddsoddi yn ein GIG, er i'r Llywodraeth glymblaid beidio â rhoi digon o arian inni.

On education too, Welsh Labour in Government is continuing to deliver sustained investment in our schools, despite the financial pressures that we face, not just by sticking to our manifesto promise to increase spending year on year, but with the additional investment that we have announced for Wales's poorest children through the pupil deprivation grant. I welcome the engagement from the Welsh Liberal Democrats that we have seen on this issue in consecutive budget negotiations, because I am happy to support anything that means more investment in education for our most deprived children and young people, especially given the serious challenges within the education sector in Torfaen and other parts of Wales.

O ran addysg hefyd, mae Llafur Cymru mewn Llywodraeth yn parhau i sicrhau buddsoddiad parhaus yn ein hysgolion, er gwaethaf y pwysau ariannol a wynebwn, trwy gadw at ein haddewid maniffesto i gynyddu gwariant flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond hefyd gyda'r buddsoddiad ychwanegol yr ydym wedi'i gyhoeddi ar gyfer plant tlotaf Cymru drwy'r grant amddifadedd disgyblion. Croesawaf yr ymgysylltiad a welwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ar y mater hwn mewn trafodaethau cyllideb olynol, oherwydd fy mod yn hapus i gefnogi unrhyw beth sy'n golygu mwy o fuddsoddiad mewn addysg ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc mwyaf difreintiedig, yn enwedig o ystyried yr heriau difrifol o fewn y sector addysg yn Nhorfaen a rhannau eraill o Gymru.

I was also delighted to see funding for Supporting People maintained. I was happy recently to co-sponsor a cross-party statement of opinion calling for Supporting People to be protected, because I know the real difference that it makes in communities up and down Wales.

Rwyf hefyd yn falch o weld cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl yn cael ei gynnal. Roeddwn yn hapus yn ddiweddar i gyd-noddi datganiad barn traws-bleidiol yn galw am ddiogelu Cefnogi Pobl, gan fy mod yn gwybod ei fod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru.

However, when reflecting on this year's budget, we have to recognise the incredibly tough settlement that we are asking councils up and down Wales to cope with this time around. Yes, we have protected them in previous years from the level of cuts facing authorities in England, and we have not seen the obliteration of non-statutory services that we have seen in councils across the border, but authorities like Torfaen, which is facing a settlement that is 4% lower than last year in cash terms, find themselves between a rock and a hard place, trying to protect vital services while keeping council tax rises to a minimum and, where possible, protecting the jobs of council workers who do such a fantastic job for our communities and are part of the lifeblood of our economy. That is before you take into account the additional pressures facing authorities like Torfaen, which is at the centre of a storm when it comes to dealing with welfare reform.

Fodd bynnag, wrth fyfyrio ar y gyllideb eleni, mae'n rhaid i ni gydnabod y setliad hynod anodd yr ydym yn gofyn i gynghorau ar hyd a lled Cymru ymdopi ag ef y tro hwn. Ydym, rydym wedi eu diogelu mewn blynyddoedd blaenorol rhag lefel y toriadau sy'n wynebu awdurdodau yn Lloegr, ac nid ydym wedi gweld gwasanaethau anstatudol yn cael eu dinistrio yn y modd a welwyd mewn cynghorau ar draws y ffin, ond mae awdurdodau megis Torfaen, sy'n wynebu setliad 4% yn is na'r llynedd yn nhermau arian parod, yn cael eu hunain mewn sefyllfa anodd, yn ceisio gwarchod gwasanaethau hanfodol yn ogystal â chadw codiadau'r dreth gyngor i isafswm a, lle bo modd, yn amddiffyn swyddi gweithwyr y cyngor sy'n gwneud gwaith mor wych ar gyfer ein cymunedau ac sy'n rhan hanfodol o'n heconomi. Mae hynny cyn i chi ystyried y pwysau ychwanegol sy'n wynebu awdurdodau fel Torfaen, sydd yng nghanol storm o ran ymdrin â'r diwygiadau i'r gyfundrefn les.

You cannot debate local government in Wales without highlighting the hypocrisy at the heart of the Tories' council tax freeze policy, championed by Eric Pickles and so enthusiastically supported by his colleagues in Wales over recent years. Even with the financial incentives for councils on offer in England, many Tory councils have raised council tax, and as the Tory leader of Surrey council put it earlier this month,

Ni allwch drafod llywodraeth leol yng Nghymru heb dynnu sylw at y rhagrith wrth wraidd polisi'r Toriaid o rewi'r dreth gyngor, polisi a hyrwyddwyd gan Eric Pickles ac a gefnogwyd mor frwd gan ei gydweithwyr yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Hyd yn oed gyda'r cymhellion ariannol sydd ar gael i gynghorau yn Lloegr, mae llawer o gynghorau Toriaidd wedi codi'r dreth gyngor, ac fel y dywedodd arweinydd cyngor Toriaidd Surrey yn gynharach y mis hwn,

'Central government has a choice - they can either support councils in meeting growing demand pressures via direct support or by giving councils the flexibility to raise taxes locally'.

Mae gan lywodraeth ganolog ddewis - gall naill ai gefnogi cynghorau i fodloni'r pwysau oherwydd galw cynyddol trwy gymorth uniongyrchol, neu drwy roi hyblygrwydd i gynghorau i godi trethi yn lleol.

Perhaps Conservative Members, like their local government spokesperson, who was a cabinet member at Conwy council and voted through successive council tax rises in far less austere times, could reflect on those wise words in the months ahead and develop a coherent policy on council tax that recognises this.

Efallai y gallai Aelodau Ceidwadol, fel eu llefarydd llywodraeth leol, a oedd yn aelod o'r cabinet yng nghyngor Conwy ac a bleidleisiodd dros godiadau cynyddol yn y dreth gyngor mewn cyfnod llawer llai llym, fyfyrio ar y geiriau doeth hynny yn y misoedd sydd i ddod a datblygu polisi cydlynol ar y dreth gyngor sy'n cydnabod hyn.

16:38 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I just wanted to say a few words about the transparency of the draft budget and the confusing place of impact assessments in the process, which makes our scrutiny as Assembly Members less than straightforward. I raise this because the last 12 months have been something of an uncomfortable period for the Government in terms of transparency, not least the council tax reduction regulations, the legislation on the Agricultural Wages Board and now the proposals on fly-grazing. The Constitutional and Legislative Affairs Committee has expressed concerns around other examples. Less than a year ago, the Equality and Human Rights Commission inquiry on the budget recommended that evidence should be,

Rwyf eisiau dweud ychydig o eiriau am dryloywder y gyllideb ddrafft a lle dryslyd asesiadau effaith yn y broses, sy'n gwneud ein gwaith craffu fel Aelodau o'r Cynulliad yn llai na syml. Codaf hyn oherwydd bod y 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod braidd yn anghyfforddus i'r Llywodraeth o ran tryloywder. Gallwn grybwyll rheoliadau gostyngiadau'r dreth gyngor, y ddeddfwriaeth ar y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ac yn awr y cynigion ar bori anghyfreithlon. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi mynegi pryderon ynglŷn ag enghreifftiau eraill. Lai na blwyddyn yn ôl, argymhellodd ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar y gyllideb y dylai'r dystiolaeth gael ei,

'used to inform strategically important decisions'

defnyddio i lywio penderfyniadau strategol pwysig

on the budget and,

ar y gyllideb a,

'should be presented in a clear way to enable effective decision making and scrutiny.'

dylai gael ei chyflwyno mewn ffordd glir er mwyn gallu gwneud penderfyniadau a chraffu yn effeithiol.

The Welsh Government accepted the recommendation, but despite Jocelyn Davies's positive comments earlier, it decided that it was 'not appropriate' to publish equality impact assessments for everything. Therefore, like Leanne Wood, I am curious about why it reached that conclusion and why impact assessment evidence is not included in the main budget narrative, particularly where cuts in one portfolio can impact on ambition in others. For example, the narrative to the draft budget tells us that culture is,

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad, ond er gwaethaf sylwadau cadarnhaol Jocelyn Davies yn gynharach, penderfynwyd nad oedd 'yn briodol' cyhoeddi asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer popeth. Felly, fel Leanne Wood, rwy'n chwilfrydig ynghylch pam y daeth i'r casgliad hwnnw, a pham nad yw tystiolaeth asesiad effaith yn cael ei chynnwys ym mhrif naratif y gyllideb, yn enwedig lle y gall toriadau mewn un portffolio effeithio ar uchelgais mewn eraill. Er enghraifft, mae'r naratif i'r gyllideb ddrafft yn dweud wrthym fod diwylliant,

'at the heart of the Welsh Government's aim to enrich… lives',

'yn gwbl ganolog i nod Llywodraeth Cymru i gyfoethogi bywydau',

and contributes towards,

ac yn cyfrannu at,

'the health and educational outcomes of children, young people and families living in poverty'.

'iechyd a chanlyniadau addysgol plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi'.

It specifically refers to the contribution that the portfolio makes to the economy and to tackling poverty, and, Minister, you referred to them as priorities in your opening remarks.

Mae'n cyfeirio'n benodol at y cyfraniad y mae'r portffolio yn ei wneud i'r economi ac i fynd i'r afael â thlodi, ac, Weinidog, roeddech yn cyfeirio atynt fel blaenoriaethau yn eich sylwadau agoriadol.

If we turn to the separate and overarching equality impact report for the budget, which does not cite any evidence, we see specific reference to the negative impact on children and young people and lower socioeconomic groups that the £3.9 million cut to the arts council budget would make, for example. The £7.6 million cut in the Welsh Books Council budget will also have a negative impact on those groups, as well as an economic effect on the publishing industry. The cuts to the museums budget will also negatively affect children, young people and those from lower socioeconomic groups, although, to be fair, the cuts here are just 1.3%, which apparently protects free access for those from lower socioeconomic groups to national museums. However, what it does not do is protect the budget for the transport from all parts of Wales to get to those museums. So, the upbeat narrative of the budget is immediately undermined by a few paragraphs tucked away in a separate document without detailed explanation.

Os trown at yr adroddiad cyffredinol, ar wahân ar effaith y gyllideb ar gydraddoldeb, nad yw'n dyfynnu unrhyw dystiolaeth, fe welwn gyfeiriad penodol at yr effaith negyddol ar blant a phobl ifanc a grwpiau economaidd-gymdeithasol is y byddai'r toriad o £3.9 miliwn i gyllideb cyngor y celfyddydau yn ei chael, er enghraifft. Bydd y toriad o £7.6 miliwn yng nghyllideb Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn cael effaith negyddol ar y grwpiau hynny, yn ogystal ag effaith economaidd ar y diwydiant cyhoeddi. Bydd y toriadau yng nghyllideb yr amgueddfeydd hefyd yn cael effaith negyddol ar blant, pobl ifanc a'r rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, er nad yw'r toriadau hyn ond yn 1.3%, a bod yn deg, sydd yn ôl pob golwg yn diogelu mynediad am ddim i'r rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is i amgueddfeydd cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'n amddiffyn y gyllideb ar gyfer trafnidiaeth o bob rhan o Gymru i fynd i'r amgueddfeydd hynny. Felly, mae naratif gobeithiol y gyllideb yn cael ei danseilio ar unwaith gan ychydig o baragraffau sydd wedi'u cuddio mewn dogfen ar wahân heb esboniad manwl.

My favourite sleight of hand in this portfolio, however, is on library funding. First, Minister, please let me welcome the additional £3.5 million capital allocated to the National Library of Wales following the fire. Perhaps you can tell us whether any insurance moneys will be forthcoming to help to mitigate the additional cost. Can you also tell us how the 4% revenue funding cut will help children, young people and those from lower socioeconomic groups, again identified as suffering negative impacts, to enjoy the benefits of the restored library? Part of that money is to go towards meeting the Government's Libraries Inspire objectives, but what is happening to the budgets for local authorities with their duty to provide library services? If I remember rightly, it was the previous Minister for culture, in launching Libraries Inspire, who was so horrified that volunteers were making up an increasing part of the libraries' workforce in England, yet that is exactly what is on the cards for libraries in Labour's heartland of Neath Port Talbot in my region as a result of cuts to local government budgets.

Mae fy hoff gonsuriaeth yn y portffolio hwn, fodd bynnag, yn ymwneud â chyllid llyfrgelloedd. Yn gyntaf, Weinidog, gadewch i mi groesawu'r cyfalaf ychwanegol o £3.5 miliwn a ddyrannwyd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn dilyn y tân. Efallai y gallwch ddweud wrthym a fydd unrhyw arian yswiriant ar gael i helpu i liniaru'r gost ychwanegol. A allwch chi hefyd ddweud wrthym sut y bydd y toriad o 4% mewn cyllid refeniw yn helpu plant, pobl ifanc a'r rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a nodir unwaith eto fel y rhai sy'n dioddef effeithiau negyddol, i fwynhau manteision y llyfrgell a adferwyd? Bydd rhan o'r arian hwnnw'n mynd tuag at gyflawni amcanion Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli y Llywodraeth, ond beth sy'n digwydd i'r cyllidebau ar gyfer awdurdodau lleol, a'u dyletswydd i ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd? Os cofiaf yn iawn, y Gweinidog diwylliant blaenorol, wrth lansio Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli, oedd yn arswydo mai gwirfoddolwyr oedd rhan gynyddol o weithlu llyfrgelloedd yn Lloegr, ond dyna'n union yr hyn sydd ar y gweill ar gyfer llyfrgelloedd ym mherfeddwlad Llafur Castell-nedd Port Talbot yn fy rhanbarth i o ganlyniad i doriadau i gyllidebau llywodraeth leol.

Finally, can we just remind ourselves of the Welsh Government's lack of transparency with regard to the Welsh language? We see a 10% cut to the budget of the Welsh Language Commissioner, an independent office, and not a syllable devoted to it in the draft budget or the overarching equality impact report. That report as good as says that you do not know how to assess the impact of individual portfolio cuts on the language generally. So, why are you cutting spending on the Welsh language in the one portfolio where it is mentioned—education—without being in a position to fully assess the effects of those cuts?

Yn olaf, a allwn ni ein hatgoffa ein hunain o ddiffyg tryloywder Llywodraeth Cymru o ran yr iaith Gymraeg? Rydym yn gweld toriad o 10% i gyllideb y Comisiynydd Iaith, sy'n swyddfa annibynnol, a dim un sillaf wedi'i neilltuo i hynny yn y gyllideb ddrafft na'r adroddiad cyffredinol ar yr effaith ar gydraddoldeb. Mae'r adroddiad hwnnw cystal â dweud nad ydych yn gwybod sut i asesu'r effaith ar yr iaith yn gyffredinol yn sgil y toriadau i bortffolios unigol. Felly, pam rydych chi'n torri gwariant ar yr iaith Gymraeg yn yr un portffolio lle mae'n cael ei chrybwyll—addysg—heb fod mewn sefyllfa i asesu effaith y toriadau hynny'n llawn?

The report states that, based on your first 'steps', with the preliminary work that you have done, there will be a negative impact on adult education, and specifically for teaching Welsh as a second language. The First Minister can do as many photo calls as he likes in primary schools, but what is the point if he is cutting funding and does not really know the extent of the effect that it will have?

Mae'r adroddiad yn nodi, yn seiliedig ar eich 'camau' cyntaf, gyda'r gwaith rhagarweiniol yr ydych wedi'i wneud, y bydd effaith negyddol ar addysg i oedolion, ac yn benodol ar gyfer addysgu Cymraeg fel ail iaith. Gall y Prif Weinidog gael tynnu ei lun mor aml ag y dymuna mewn ysgolion cynradd, ond beth yw'r pwynt os yw'n torri ar gyllid ac nad yw wir yn gwybod faint o effaith y bydd yn ei gael?

In your response, Minister, I hope that you will have time today to explain why we do not have an impact assessment that the First Minister promised us back in February regarding the language. Can you tell us how you intend to flag up expenditure on the Welsh language within each portfolio in future budgets? Can you tell us how you intend the Welsh Language Commissioner to undertake her new work in assessing Welsh statutory education plans? Can you tell us how you will be funding the work in this coming year, which has developed out of the 'cynhadledd fawr'?

Yn eich ymateb, Weinidog, rwy'n gobeithio y byddwch yn cael amser heddiw i egluro pam nad oes gennym asesiad o effaith a addawodd y Prif Weinidog i ni yn ôl ym mis Chwefror yn ymwneud â'r iaith. A allwch chi ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu tynnu sylw at y gwariant ar yr iaith Gymraeg o fewn pob portffolio yng nghyllidebau y dyfodol? A allwch chi ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu i Gomisiynydd Iaith Cymru gyflawni ei gwaith newydd wrth asesu cynlluniau addysg statudol Gymraeg? A allwch chi ddweud wrthym sut y byddwch yn ariannu'r gwaith yn y flwyddyn i ddod, sydd wedi datblygu o'r 'gynhadledd fawr'?

16:43

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First, this budget is passing on the cuts made by the Conservative and Lib Dem administration at Westminster. The cuts made at Westminster have made their way here on their way to the public sector organisations wholly or partly funded by the Welsh Government. The Welsh budget has faced unprecedented cuts by the UK Government. By 2015-16, our budget will be nearly £1.7 billion lower in real terms than it was in 2010-11. The capital budget alone will be 33% lower in 2015-16 in real terms than it was in 2009-10.

Yn gyntaf, trosglwyddo'r toriadau a wnaed gan weinyddiaeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan y mae'r gyllideb hon. Mae'r toriadau a wnaed yn San Steffan wedi gwneud eu ffordd yma ar eu ffordd i'r sefydliadau sector cyhoeddus a ariennir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllideb Cymru wedi wynebu toriadau digynsail gan Lywodraeth y DU. Erbyn 2015-16, bydd ein cyllideb bron yn £1.7 biliwn yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11. Bydd y gyllideb gyfalaf yn unig 33% yn is yn 2015-16 mewn termau real nag yr oedd yn 2009-10.

The Welsh Government, with the exception of a small amount of income, is wholly funded by the block grant. The amount of money available—

Mae Llywodraeth Cymru, ac eithrio rhywfaint o incwm, yn cael ei hariannu'n gyfan gwbl gan y grant bloc. Gall faint o arian sydd ar gael—

16:44

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Will you take an intervention?

A dderbyniwch chi ymyriad?

16:44

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can you let me make some progress? I am sure that there will be lot of other bits where you will want to intervene. The amount of money available can be split by competing demands in many ways, but the total available does not change. Previously, I have used the short hand that the Welsh block grant is the Welsh block grant, meaning that it was a fixed sum, but that did not quite make its way into the intellect of some researchers here, so I thought that I would put it out in greater detail.

A wnewch chi ganiatáu i mi wneud rhywfaint o gynnydd? Rwy'n siŵr y bydd llawer o ddarnau eraill lle y byddwch yn dymuno ymyrryd. Gall faint o arian sydd ar gael ei rannu yn ôl gofynion sy'n cystadlu mewn nifer o ffyrdd, ond nid yw'r cyfanswm sydd ar gael yn newid. Yn flaenorol, rwyf wedi defnyddio'r llaw-fer mai grant bloc Cymru yw grant bloc Cymru, sy'n golygu ei fod yn swm penodol, ond ni wnaeth hynny dreiddio i mewn i ddeallusrwydd rhai ymchwilwyr yma, felly roeddwn yn meddwl y byddwn yn ei gyflwyno'n fwy manwl.

The proposed budget effectively gives more money to the health budget at the expense of most of the other services, with the two apparently worst affected being further education and local government. The draft budget includes £570 million additional funding for the NHS in Wales over the three years from 2014-15, including another £150 million for this year. Health has increasing demands and increasing budget needs, as I think that everyone is aware of. The proposed three-year budget cycle should smooth out expenditure, but will not deal with the underlying upward pressure. The Welsh Government is committed to a real-terms increase in health expenditure. However, the question is: what percentage of the Welsh budget, short of the maximum 100%, can be spent on health?

Mae'r gyllideb arfaethedig yn effeithiol yn rhoi mwy o arian i'r gyllideb iechyd ar draul y rhan fwyaf o'r gwasanaethau eraill, ac addysg bellach a llywodraeth leol yw'r ddau yn ôl pob golwg yr effeithir arnynt waethaf. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys £570 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y GIG yng Nghymru dros y tair blynedd o 2014-15, gan gynnwys £150 miliwn arall ar gyfer eleni. Mae gan iechyd ofynion cynyddol ac anghenion cyllidebol cynyddol, fel y mae pawb yn ymwybodol rwy'n credu. Dylai'r cylch cyllideb tair blynedd arfaethedig olygu bod gwariant yn gyson, ond ni fydd yn ymdrin â'r pwysau cynyddol sylfaenol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnydd mewn termau real ar wariant ar iechyd. Fodd bynnag, y cwestiwn yw: pa ganran o gyllideb Cymru, yn fyr o'r uchafswm o 100%, y gellir ei wario ar iechyd?

Further education has, over many years, increased its percentage of funding from the Welsh Government and reduced its percentage of funding from the European social fund. I do not know of a college in Wales that is not getting a smaller percentage of its budget from the ESF now than it was before west Wales and the Valleys achieved Objective 1 status. FE colleges have an opportunity to increase their income from the ESF to fund courses for those aged over 19. In fact, that is what the ESF is aimed at.

Mae addysg bellach, dros flynyddoedd lawer, wedi cynyddu ei chanran o gyllid gan Lywodraeth Cymru a lleihau ei chanran o gyllid o gronfa gymdeithasol Ewrop. Nid wyf yn gwybod am goleg yng Nghymru nad yw'n cael canran llai o'i gyllideb o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn awr nag yr oedd cyn i orllewin Cymru a'r Cymoedd gyflawni statws Amcan 1. Mae colegau addysg bellach yn cael cyfle i gynyddu eu hincwm o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ariannu cyrsiau ar gyfer y rhai dros 19 oed. Mewn gwirionedd, dyna beth yw nod Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

The other major loser is local government. It is not as big a loser as the Conservatives would like it to be. Of all the cuts they are talking about in other areas, local government is the area that is almost like a balancing figure. However, I think that we have to remember that health is not health on its own—it works with other areas. Local government provides a variety of services that contribute to health and wellbeing. For example, if local authorities are unable to provide timely social care packages for those leaving hospitals, bedblocking will occur. If local authorities do not intervene with homecare soon enough, that will inevitably lead to hospitalisation. As budgets become stretched, slowing down the assessment and production of a care package for hospital discharge could be the only way of staying in budget for local government, which could have an effect on health. In order for some people to be discharged from hospital, adaptations to their homes are needed. The disabled facilities grant is managed and funded by local authorities, and, if there is insufficient funding available for the work to be done, the patient often cannot be released from hospital, despite having no medical need to stay there.

Y collwr mawr arall yw llywodraeth leol. Nid yw'n gollwr mor fawr ag y byddai'r Ceidwadwyr yn hoffi iddo fod. O'r holl doriadau y maent yn siarad amdanynt mewn meysydd eraill, llywodraeth leol yw'r maes sydd bron fel ffigwr cydbwyso. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid inni gofio nad yw iechyd yn iechyd ar ei ben ei hun—mae'n gweithio gyda meysydd eraill. Mae llywodraeth leol yn darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n cyfrannu at iechyd a lles. Er enghraifft, os nad yw awdurdodau lleol yn gallu darparu pecynnau gofal cymdeithasol prydlon ar gyfer y rhai sy'n gadael ysbytai, bydd blocio gwelyau yn digwydd. Os nad yw awdurdodau lleol yn ymyrryd â gofal cartref yn ddigon buan, bydd hynny'n anochel yn arwain at driniaeth yn yr ysbyty. Wrth i gyllidebau ddod dan bwysau, efallai mai arafu asesu a chynhyrchu pecynnau gofal ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty yw'r unig ffordd o aros o fewn y gyllideb ar gyfer llywodraeth leol, a allai gael effaith ar iechyd. Er mwyn i rai pobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty, mae angen addasiadau i'w cartrefi. Mae'r grant cyfleusterau i'r anabl yn cael ei reoli a'i ariannu gan awdurdodau lleol, ac, os nad oes digon o arian ar gael ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud, yn aml ni ellir rhyddhau'r claf o'r ysbyty, er nad oes angen meddygol i aros yno.

Environmental health workers check food safety in premises where food is prepared. If there are fewer of them, visits will obviously take place less often, and the chances of food poisoning, such as through salmonella, will increase. Of course, all of these are statutory services. However, if they are fully protected, discretionary services will be hit disproportionately hard. Councils can reduce expenditure on road maintenance and street lighting, but doing so increases the chance of accidents occurring and will add to the pressure on accident and emergency departments. In a country where a lack of exercise and unhealthy lifestyles are contributing to an obesity epidemic, the last thing that the health of the nation needs is the closure of leisure facilities or huge increases in their costs. Local authorities run leisure centres and swimming pools, providing an opportunity for people to engage in exercise at a reasonable cost. It will not improve health and fitness if they are closed or prices are increased to such an extent that they exclude a large proportion of the population. Free swimming for children and young people aged 16 and under during school holidays and for people aged over 60 has been wonderful. That will only work as long as there are swimming pools for it to take place in. If the swimming pools close, I am sure that we will see a reduction in exercise again.

Mae gweithwyr iechyd yr amgylchedd yn gwirio diogelwch bwyd mewn safleoedd lle mae bwyd yn cael ei baratoi. Os oes llai ohonynt, bydd ymweliadau yn amlwg yn digwydd yn llai aml, a bydd y siawns o wenwyn bwyd, megis drwy salmonela, yn cynyddu. Wrth gwrs, mae pob un o'r rhain yn wasanaethau statudol. Fodd bynnag, os ydynt yn cael eu gwarchod yn llawn, bydd gwasanaethau dewisol yn cael eu taro'n anghyfartal o galed. Gall cynghorau leihau gwariant ar gynnal a chadw ffyrdd a goleuadau stryd, ond mae gwneud hynny'n cynyddu'r siawns o ddamweiniau yn digwydd a bydd yn ychwanegu at y pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys. Mewn gwlad lle mae diffyg ymarfer corff a ffyrdd o fyw afiach yn cyfrannu at epidemig o ordewdra, y peth olaf y mae iechyd y genedl ei angen yw cau cyfleusterau hamdden neu gynnydd anferth yn eu costau. Mae awdurdodau lleol yn rhedeg canolfannau hamdden a phyllau nofio, gan roi cyfle i bobl gymryd rhan mewn ymarfer corff am gost resymol. Ni fydd yn gwella iechyd a ffitrwydd os ydynt yn cael eu cau neu os yw prisiau'n cael eu cynyddu i'r fath raddau fel eu bod yn eithrio cyfran fawr o'r boblogaeth. Mae nofio am ddim i blant a phobl ifanc 16 oed ac iau yn ystod gwyliau'r ysgol ac i bobl dros 60 oed wedi bod yn wych. Bydd hynny ond yn gweithio cyn belled â bod pyllau nofio ar gael fel ei fod yn gallu digwydd. Os bydd y pyllau nofio yn cau, rwy'n siŵr y byddwn yn gweld lleihad mewn ymarfer eto.

Of course, things can be done: 3G and 4G pitches can be brought in to get people to play on pitches more often than they currently do. Other things can also be done. However, if we continue to reduce expenditure in areas other than health, it will affect health. About looking at health purely in terms of hospitals, sometimes in here it is almost like a case of shorthand: 'for health see hospitals'. Really, health is about making sure that people do not end up in hospital. That is where a lot of these services are so important. There is a need for preventative services, and some have been mentioned earlier by other people. These are key to keeping people out of hospital. Finally, this is a difficult budget caused by the actions of the Conservatives and the Lib Dems in Westminster. I believe that the Welsh Government has made the best of what it has.

Wrth gwrs, gall pethau gael eu gwneud: gellir dod â chaeau 3G a 4G i mewn i gael pobl i chwarae ar gaeau yn amlach nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Gall pethau eraill hefyd gael eu gwneud. Fodd bynnag, os byddwn yn parhau i leihau gwariant mewn meysydd ar wahân i iechyd, bydd yn effeithio ar iechyd. Ynglŷn ag edrych ar iechyd o ran ysbytai yn unig, weithiau yma mae bron fel achos o law-fer: 'ar gyfer iechyd gweler ysbytai'. Mewn gwirionedd, mae iechyd yn ymwneud â sicrhau nad yw pobl yn gorfod mynd i'r ysbyty. Dyna pam mae llawer o'r gwasanaethau hyn mor bwysig. Mae angen gwasanaethau ataliol, ac mae rhai wedi eu crybwyll yn gynharach gan bobl eraill. Mae'r rhain yn allweddol i gadw pobl allan o'r ysbyty. Yn olaf, mae hon yn gyllideb anodd a achosir gan weithredoedd y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud y gorau o'r hyn sydd ganddi.

16:48 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae Plaid Cymru wedi bod yn awyddus i ddefnyddio cyfle'r gyllideb ddrafft i sicrhau newidiadau i'r gyllideb a fydd yn hyrwyddo integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac a fydd yn sicrhau gwasanaeth sy'n agosach i gartrefi pobl. Mae Plaid Cymru'n credu'n gryf y dylid torri lawr y rhwystrau hynny sy'n tagu'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol ar adegau. Mae'r rhwystrau hynny'n troi'r claf, sydd, yn aml, yn oedrannus ac yn fregus, yn bêl droed, i bob pwrpas, rhwng y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol. Rydym yn credu y dylid integreiddio'r gwasanaethau hyn yn llawn o dan un awdurdod ac o dan un gyllideb. Fodd bynnag, tan y dydd hwnnw, byddwn yn defnyddio pa bynnag offeryn sydd ar gael inni i yrru'r integreiddio hwn er lles pobl Cymru. Dyna pam, felly, y bydd creu cronfa gofal canolraddol —'intermediate care fund'—am y tro cyntaf, a honno'n gronfa o £50 miliwn, yn cymell awdurdodau lleol a byrddau iechyd i integreiddio gwasanaethau a chydweithio, ac i gynnwys y trydydd sector hefyd yn hynny o beth. Bydd y gronfa yn fodd i awdurdodau lleol ddenu cyllid i hyrwyddo gwasanaethau ailalluogi i gadw pobl oedrannus, fregus yn byw yn eu cartrefi eu hunain yn hirach, gyda gwasanaethau iechyd a gofal o'u cwmpas, a hefyd i gynnwys Gofal a Thrwsio, fel bod pob elfen yn gweithio gyda'i gilydd er lles yr unigolyn.

Plaid Cymru has been eager to use the opportunity of the draft budget to secure changes to the budget that will promote the integration of health and social services, and that will secure a service that is closer to people's homes. Plaid Cymru strongly believes that those barriers that are suffocating the health service and social services at times should be broken down. Those barriers turn the patient, often a vulnerable and elderly patient, into a football kicked between the health board and the local authority. We believe that these services should be fully integrated under one authority and a single budget. However, until that day, we will use whatever instrument is available to us to drive that integration forward for the benefit of the people of Wales. That is why, therefore, creating an intermediate care fund for the first time, which is a fund of £50 million, will encourage local authorities and health boards to integrate services and collaborate, and to include the third sector also in that regard. The fund will be a means for local authorities to attract funding to promote reablement services to keep vulnerable elderly people at home longer, with health and care services provided around them, and also to include Care and Repair, so that every element works together for the benefit of the individual.

Mae Ilora Finlay ar hyn o bryd yn gwneud gwaith i'r Gweinidog iechyd ar ofal iechyd brys. Yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ychydig wythnosau yn ôl, dywedodd hi rywbeth trawiadol iawn: disgrifiodd ein gwasanaeth iechyd ni fel gwasanaeth sy'n derbyn cleifion 24 awr y diwrnod, saith diwrnod yr wythnos, ond sydd yn eu rhyddhau o ysbytai ond ryw bedwar diwrnod a hanner o'r wythnos. Mae angen felly inni wneud y gwasanaethau sy'n troi o gwmpas y gwasanaeth ysbytai yn wasanaethau saith diwrnod yr wythnos er mwyn lleihau'r pwysau ar unedau argyfwng a gwelyau acíwt mewn ysbytai. Wrth gymeradwyo'r gyllideb hon, fe fydd cronfa ar gael i ariannu cynllunio integredig rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, a mudiadau'r trydydd sector, i sicrhau y bydd hyn yn rhoi gyriant newydd ac ychwanegol i integreiddio'r gwasanaethau hyn, gan roi buddsoddiad newydd ychwanegol mewn cyfnod o doriadau.

Ilora Finlay is currently doing work for the Minister for health on emergency healthcare. At a meeting of the Health and Social Care Committee just a few weeks ago, she said something very striking: she described our health service as a service that receives patients 24 hours a day, seven days a week, but which releases patients from hospital some four and half days a week only. There is a need, therefore, to make the services that are provided around the hospital service into seven-day-a-week services in order to reduce the pressures on A&E and acute beds in hospitals. With the approval of this budget, a fund will be available to fund integrated planning between local authorities and health boards, and third-sector organisations, to ensure that this provides an additional driver for the integration of these services, providing new, additional investment in a period of cuts.

The intermediate care fund can look to provide a real impetus to reducing avoidable hospital admissions, to speeding up the ability to discharge patients from hospital, to unclogging the pressure points in the NHS, and to providing appropriate care in the appropriate place for patients. We need to move speedily to provide consistently across Wales post-hospital, intensive reablement services for individuals in their homes, and use Care and Repair to rapidly adapt people's homes for their care. Equally, such reablement services could be provided in joint care beds or convalescence beds in residential homes and cottage hospitals.

Gall y gronfa gofal canolraddol gynnig gwir ysgogiad i leihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi, i gyflymu'r gallu i ryddhau cleifion o'r ysbyty, i glirio'r pwyntiau pwysau yn y GIG, ac i ddarparu gofal priodol yn y lle priodol ar gyfer cleifion. Mae angen i ni symud yn gyflym i ddarparu gwasanaethau ail-alluogi dwys, ôl-ysbyty ar gyfer unigolion yn eu cartrefi, yn gyson ledled Cymru, a defnyddio Gofal a Thrwsio i addasu cartrefi pobl yn gyflym ar gyfer eu gofal. Yn yr un modd, gallai gwasanaethau ailalluogi o'r fath gael eu darparu mewn gwelyau gofal ar y cyd neu welyau ymadfer mewn cartrefi preswyl ac ysbytai bwthyn.

Just as importantly, 24/7 rapid response teams need to be in place to work with patients in their homes and in residential homes in order to avoid their having to be taken to an A&E department as an emergency admission. Such community response teams need to be multidisciplinary, including GPs, nurses, social workers, and workers in the Care and Repair and occupational health sectors. We need to create a proper wraparound health service for individuals, and I look forward to working with the Government, and with others, to ensure that this intermediate care fund contributes to transforming how our health and social services co-operate in every part of Wales.

Yr un mor bwysig, mae angen i dimau ymateb cyflym 24/7 fod wedi'u sefydlu i weithio gyda chleifion yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl er mwyn osgoi gorfod mynd â nhw i adran Damweiniau ac Achosion Brys fel derbyniad brys. Mae angen i dimau ymateb yn y gymuned o'r fath fod yn amlddisgyblaethol, gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, a gweithwyr yn y sector Gofal a Thrwsio ac iechyd galwedigaethol. Mae angen i ni greu gwasanaeth iechyd cofleidiol priodol ar gyfer unigolion, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Llywodraeth, a chydag eraill, i sicrhau bod y gronfa gofal canolraddol yn cyfrannu at weddnewid sut y mae ein gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn cydweithio ym mhob rhan o Gymru .

16:52

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n siŵr eich bod yn disgwyl mai'r codiad sylweddol yn y grant amddifadedd yw'r un pwynt yn y gyllideb hon yr ydym yn falch iawn ohono, oherwydd y bydd y grant hwn yn codi rhyw £70 miliwn y flwyddyn. Rydym ni'n credu bod sefydlu'r grant hwn a'i ehangu yn ffordd i dorri'r cyswllt rhwng tlodi a'r tangyrhaeddiad y clywn ni gymaint amdano yn y Senedd hon. Cofiwch fod y bwlch yn y cyrhaeddiad rhwng y rhai hynny sy'n derbyn cinio am ddim a'u cyfoedion yn rhyw 30% yn 2012. Rydym hefyd yn fodlon iawn bod y grant hwn yn cael ei ymestyn ar gyfer 2015 a 2016.

I am sure that you would expect that the substantial increase in the deprivation grant is the one point in this budget that we are pleased about, because this grant increases some £70 million a year. We believe that the establishment of this grant and expanding it is a means of us breaking the link between poverty and the underachievement that we hear so much about in the Senedd. Remember that the gap in attainment between those who receive free school meals and their fellow pupils was around 30% in 2012. We are also very pleased that this grant is being extended for 2015 and 2016.

Wrth gwrs, mae'r canlyniadau PISA—yr ydym yn disgwyl y rhai newydd yn ystod y mis nesaf—ymysg yr isaf yn y Deyrnas Gyfunol, ac rydym yn credu bod ehangu'r grant hwn yn ffordd o weld pa fath o welliant yn union a fydd mewn cyrhaeddiad yn ein hysgolion. Er bod y Prif Weinidog yn disgwyl i'r canlyniadau wella, mae'n debyg bod y Gweinidog addysg tipyn bach yn fwy realistig am y sefyllfa ac yn dangos pam yn union y mae'n rhaid i'r grant hwn gael ei gynyddu eleni.

Of course, the PISA results—we expect the new ones during the next month—are among the lowest in the UK, and we think that expanding this grant is a way of seeing exactly what type of improvement there will be in attainment in our schools. While the First Minister expects the results to improve, it seems that the Minister for education is a little bit more realistic about the situation and shows why exactly this grant needs to be increased this year.

It is for that reason that we will not support the Conservatives' amendment, because I think that they have to realise that ring fencing health spending would have an impact on education spend. We calculate a cut of around 12% in education in order to meet their commitments. That is equivalent to some 9,750 full-time teachers in Wales. If anybody seriously believes that that would not impact on an already challenged education service, then I think that they need to reconsider their position. Our recent survey of the pupil deprivation grant highlighted the many creative ways that schools in Wales are using the funding to deal with this gap in attainment, although we recognise that there is much more to be done on monitoring spend as far as the grant is concerned, and actually in assessing outcomes. That is why we are supportive of the steps that the Minister has announced as far as Estyn and Ipsos MORI are concerned.

Dyna pam na fyddwn yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr, oherwydd rwy'n credu bod yn rhaid iddyn nhw sylweddoli y byddai neilltuo gwariant ar gyfer iechyd yn cael effaith ar wariant ar addysg. Rydym yn cyfrifo toriad o tua 12% mewn addysg er mwyn bodloni eu hymrwymiadau. Mae hynny'n cyfateb i ryw 9,750 o athrawon llawn-amser yng Nghymru. Os oes unrhyw un yn credu o ddifrif na fyddai hynny'n effeithio ar wasanaeth addysg sy'n cael ei herio eisoes, yna rwy'n meddwl bod angen iddynt ailystyried eu safbwynt. Roedd ein harolwg diweddar o'r grant amddifadedd disgyblion yn tynnu sylw at y nifer o ffyrdd creadigol y mae ysgolion yng Nghymru yn defnyddio'r cyllid i ymdrin â'r bwlch hwn mewn cyrhaeddiad, er ein bod yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud ar fonitro gwariant o ran y grant, ac mewn gwirionedd wrth asesu canlyniadau. Dyna pam yr ydym yn cefnogi'r camau y mae'r Gweinidog wedi'u cyhoeddi cyn belled ag y mae Estyn ac Ipsos MORI yn y cwestiwn.

I do think, as Peter Black has outlined, that there is a need for the Welsh Government this afternoon to clarify the position with regard to the commitment as far as the 1% protection for schools funding is concerned, and the use of the pupil deprivation grant, because, of course, this additional £70 million will be transferred to local authorities, and there is some concern that the PDG funding will be used to supplement the protection. Given that the 1% commitment is seen as a major strategic policy by the Government, we need clarity as to how the Government will monitor that local councils pass on the full value of protection to schools. The Minister for Education and Skills gave the reassurance in committee that he expects local authorities to pass on that full protection, and that he does not expect the uplift to be taken from other grant streams, including the pupil deprivation grant, under the budget. He did specifically say that the uplift in the PDG is not a get-out-of-jail-free card when it comes to the 1% commitment. However, the provisional settlement letter to local authorities states that built into the settlement and the pupil deprivation grant is protection for schools funding equivalent to 1% above the change in the Welsh Government's budget from the UK Government.

Rwy'n meddwl, fel y mae Peter Black wedi amlinellu, bod angen i Lywodraeth Cymru y prynhawn yma egluro'r sefyllfa o ran yr ymrwymiad cyn belled ag y mae'r gwarchod 1% ar gyfer cyllid ysgolion yn y cwestiwn, a'r defnydd o'r grant amddifadedd disgyblion, oherwydd, wrth gwrs, bydd y £70 miliwn ychwanegol hwn yn cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol, ac mae peth pryder y bydd cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio i ategu'r gwarchod. O gofio bod yr ymrwymiad 1% yn cael ei ystyried yn bolisi strategol o bwys gan y Llywodraeth, mae angen eglurder o ran sut y bydd y Llywodraeth yn monitro bod cynghorau lleol yn trosglwyddo gwerth llawn y gwarchod ymlaen i ysgolion. Rhoddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y sicrwydd yn y pwyllgor ei fod yn disgwyl i awdurdodau lleol drosglwyddo'r diogelwch llawn hwnnw ymlaen, ac nad yw'n disgwyl i'r codiad gael ei gymryd o ffrydiau grant eraill, gan gynnwys y grant amddifadedd disgyblion, dan y gyllideb. Roedd yn dweud yn benodol nad yw'r codiad yn y Grant Amddifadedd Disgyblion yn gerdyn dod allan o'r carchar am ddim pan ddaw at yr ymrwymiad 1%. Fodd bynnag, mae'r llythyr setliad dros dro i awdurdodau lleol yn datgan bod gwarchod cyllid ysgolion yn cyfateb i 1% uwchlaw'r newid yng nghyllideb Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU wedi'i gynnwys yn y setliad a'r grant amddifadedd disgyblion.

I have seen further e-mails that suggest that the actual protection that will be given to local authorities this year is somewhere in the region of 0.49%, and that there is therefore some indication that they would be allowed to use the PDG to meet the Welsh Government's commitment. I would ask the Minister for Finance, therefore, to reiterate this afternoon that the pupil deprivation grant is only to be used for those pupils who are in receipt of free school meals for the purposes of removing the gap in attainment.

Rwyf wedi gweld rhagor o e-byst sy'n awgrymu bod y gwir warchod a roddir i awdurdodau lleol eleni rhywle o gwmpas 0.49%, ac felly mae rhywfaint o awgrym y byddent yn cael caniatâd i ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ddiwallu ymrwymiad Llywodraeth Cymru. Rwyf yn gofyn i'r Gweinidog Cyllid, felly, i ailadrodd y prynhawn yma fod y grant amddifadedd disgyblion ddim ond i gael ei ddefnyddio ar gyfer y disgyblion hynny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim at ddibenion cael gwared ar y bwlch mewn cyrhaeddiad.

I also think that the announcement or statement that we heard yesterday with regard to HE funding clearly underscores the challenge that we see as far as the whole education brief is concerned, reiterating the observations of the vice-chancellor of Glyndŵr University when giving evidence to the Finance Committee last week: he stated that the policy could not be sustained in the long term.

Rwyf hefyd yn credu bod y cyhoeddiad neu'r datganiad a glywsom ddoe o ran cyllido AU yn tanlinellu'n glir yr her yr ydym yn ei gweld cyn belled ag y mae'r brîff addysg cyfan yn y cwestiwn, sy'n ailadrodd sylwadau is-ganghellor Prifysgol Glyndŵr wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid yr wythnos diwethaf : dywedodd na ellid cynnal y polisi yn y tymor hir.

Finally, I want to put on record my support for the comments of Suzy Davies with regard to support for the Welsh language. I would seriously ask the Government to consider ensuring that, by next year, the assessment as far as the Welsh language is concerned is carried out as part of the budget process.

Yn olaf, rwyf am gofnodi fy nghefnogaeth i sylwadau Suzy Davies ynglŷn â chefnogaeth i'r iaith Gymraeg. Byddwn yn gofyn o ddifrif i'r Llywodraeth ystyried sicrhau, erbyn y flwyddyn nesaf, bod yr asesiad cyn belled ag y mae'r iaith Gymraeg yn y cwestiwn yn cael ei wneud yn rhan o broses y gyllideb.

16:58 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n ymuno â'r rhai sydd wedi croesawu'r cytundeb a sicrhawyd gan Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol i ganiatáu i'r gyllideb gael ei phasio yn nes ymlaen. Yn sicr, rydym yn gwneud hynny mewn cyd-destun lle mae cyllidebau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn dod yn fwyfwy anodd. Mae'n sicr yn gyfnod anodd iawn ar gyfer gwariant cyhoeddus.

I join with those who have welcomed the agreement secured by Plaid Cymru and the Liberal Democrats to allow the budget to be passed later on. Of course, we do that in a context in which Assembly and Welsh Government budgets are becoming more and more difficult. It is certainly a very difficult period for public expenditure.

Rydym ni fel Plaid Cymru yn ymwrthod â'r syniad o lymder parhaol, fel sy'n cael ei hyrwyddo gan y Llywodraeth yn San Steffan. Mae gweld pobl fel David Cameron mewn cinio moethus, mewn cadair foethus, yn sôn am lymder parhaol yn troi stumog dyn i raddau. Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud, felly, wrth basio'r gyllideb, neu o leiaf caniatáu i'r gyllideb fynd ymlaen, yw amddiffyn ein pobl ni rhag effeithiau llymder yn ormodol, a gofalu bod ein gwario ni'n fwy arloesol ac yn dangos gwerth am arian, gan sicrhau ein bod ni'n cael y gwerth gorau o bob ceiniog.

We as the Party of Wales reject this idea of permanent austerity, as is being promoted by the Westminster Government. Seeing people such as David Cameron at a grand dinner, in a throne, talking about permanent austerity can turn your stomach somewhat. What we must do, therefore, in passing the budget, or at least allowing it to proceed, is to protect our own people from the impacts of excessive austerity, and ensure that our expenditure is more innovative and demonstrates value for money, and that we secure the best value from every penny spent.

Mae hanfod y gyllideb a gytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn, rwy'n meddwl. Yn gyntaf oll, mae gennym gytundeb ynglŷn â'r grant amddifadedd disgyblion, sy'n tanlinellu pa mor bwysig yr ydym yn meddwl yw gwella perfformiad addysgol y genedl, a rhoi cyfle i blant yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig i gael dyfodol gwell. Yr hyn sy'n bwysig yn awr yw ein bod yn craffu a sicrhau bod canlyniadau defnyddio'r grant hwn yn cael eu gweld, a'i fod yn cael ei wario mewn ffordd effeithiol. Hefyd, rwy'n cytuno â rhai o'r siaradwyr eraill bod yn rhaid inni sicrhau bod yr 1% hwn sydd wedi cael ei addo yn cael ei amddiffyn y tu mewn i wariant, ac nad yw'n cael ei effeithio gan yr arian grant amddifadedd. Mae'n rhaid gweld y ddau beth hwn yn ddau beth cwbl ar wahân: un sy'n mynd yn uniongyrchol at helpu plant mewn trafferth ac un sy'n mynd yn uniongyrchol at amddiffyn ysgolion, sy'n addewid ers tair blynedd gan y Llywodraeth.

The basis of the budget agreed upon with the Welsh Government reflects these principles, in my opinion. First of all, we have an agreement on the pupil deprivation grant, which highlights how important we feel improvement in the educational performance of the nation, and giving children in our most disadvantaged areas a chance of a better future, is. What is important now is that we scrutinise and ensure that the outcomes of the use of this grant are demonstrated, and that it is spent effectively. Also, I agree with some other speakers that we should ensure that this 1% that has been promised is protected within wider expenditure, and that that is not affected by the pupil deprivation grant. We must see these two things as two entirely separate things: one that is provided directly to help children facing difficulties and one that is provided directly to protect schools, which is a Government pledge that has been in place for three years.

Rydym hefyd, wrth gwrs, yn croesawu'r gronfa gofal canolradd, ond rwyf innau, hefyd, yn rhannu pryderon nifer o bobl sydd wedi cysylltu â mi ers trafod y gronfa hon, sy'n ansicr a fydd y trydydd sector—yr elusennau ac ati—yn gallu cael mynediad uniongyrchol at gronfa sy'n cael ei dosbarthu gan lywodraeth leol. Byddai'n beth braf clywed mwy am hynny gan y Gweinidog heddiw i sicrhau bod hynny'n bosibl.

Of course, we also welcome the intermediate care fund, but I also share some of the concerns of many of the people who have contacted me since we have started discussing this fund, who are unsure as to whether the third sector—charities and so on—will be able to directly access a fund that is distributed by local government. It would be good to hear more detail on that from the Minister today to ensure that that will prove possible.

Yr hyn y gallwn ei gydnabod heddiw, wrth gwrs, yw nid yn unig ymrwymiad Plaid Cymru i adnabod rhai o'r problemau ond ein haeddfedrwydd i fod yn barod i gydweithio, nid dim ond gydag un blaid ond gyda dwy blaid arall, i sicrhau bod rhywfaint o'r gyllideb hon yn adlewyrchu rhai o'r atebion ar gyfer y problemau sy'n wynebu'r genedl. Yn yr un ffordd, rydym am gydweithio â'r hyn y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi sôn amdano heddiw parthed cyllido addysg uwch.

What we can recognise today, of course, is not only Plaid Cymru's commitment to identifying some of these problems, but our maturity in being willing to co-operate not just with one party, but with two other parties in order to ensure that some of this budget reflects some of the solutions for the problems facing our nation. Likewise, we want to collaborate with what the Minister for Education and Skills has discussed today in terms of higher education funding.

Wedi dweud hynny, nid dyma ein cyllideb ni. Nid yw'r gyllideb, yn ei chyfanrwydd, yn adlewyrchu'n egwyddorion na'n blaenoriaethau yn berffaith o bell ffordd. Rwyf am sôn yn benodol am ein siom am y toriad yn y gwariant cyllid i'r iaith Gymraeg. Rydym yn gwybod bod toriadau'n digwydd yn eang ar draws nifer o wasanaethau, ond, i ni, mae gwario ar yr iaith Gymraeg yn wariant ataliol. Rydym yn adlewyrchu rhai o'r pryderon, felly, a fynegwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, sef bod angen gwarchod gwariant ataliol pan fo'r gwariant hwnnw'n talu ar ei ganfed, fel petai.

Having said that, this is not our budget. The budget as a whole does not reflect our principles or our priorities entirely by any stretch of the imagination. I want to refer specifically to our disappointment in the cut to the expenditure on the Welsh language. We know that cuts are taking place across the board in a number of services, but, to us, expenditure on the Welsh language is a preventative spend. We are therefore reflecting some of the concerns expressed by the Chair of the Finance Committee that we need to protect that preventative spending, when that will pay off in the longer term.

Mae gwario ar yr iaith Gymraeg yn ymateb synhwyrol i'r canlyniadau a welsom yn y cyfrifiad, a'r angen i amddiffyn, sicrhau a hybu'r iaith drwy nifer o fesurau clir, megis tai fforddiadwy yng nghefn gwlad, sefydlu marchnad lafur Cymraeg a mesurau'n ymwneud â chynllunio a'r iaith Gymraeg. Mae'n fater o siom i ni, felly, nad yw'r Prif Weinidog, ers dod yn gyfrifol am yr iaith Gymraeg, wedi gwneud yn glir bod ganddo asesiad o'r gwariant ar yr iaith, na'i fod wedi dilyn drwyddo ar asesiad i mewn i'r gyllideb ddrafft hon. Wedi dweud hynny, rwy'n gwybod fod y Gweinidog Cyllid wedi dweud y daw asesiad yn awr, ac rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld yr asesiad hwnnw ac i wneud yn siŵr bod yr arian yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf pwrpasol.

Expenditure on the Welsh language is a sensible response to the results that we saw in the census, and the need to protect and promote the Welsh language through a number of clear measures, such as affordable homes in rural areas, the establishment of a Welsh labour market and steps relating to planning and the Welsh language. It is a cause of disappointment to us, therefore, that the First Minister, since he became responsible for the Welsh language, has not made it clear that he has an assessment of the expenditure on the language or that he has followed through on an assessment of this draft budget. Having said that, I know that the Minister for Finance has stated that an assessment will be made, and we look forward eagerly to seeing that assessment and to ensuring that the funds are spent in the most appropriate way possible.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod cytundeb y tu ôl i'r gyllideb ddrafft hon. Rydym yn croesawu bod hynny wedi rhoi mwy o gyfle i nifer o fudiadau ledled Cymru i baratoi eu cyllidebau nhw ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, yn y bôn, dyma gyllideb y Blaid Lafur mewn Llywodraeth. Rydym yn falch o gael peth cytundeb gyda nhw, ond nid ydym yn cytuno'n llwyr gyda'r gyllideb fel y mae.

We welcome the fact that agreement has been reached behind this draft budget. We welcome the fact that that has given more opportunity for a number of organisations across Wales to prepare their own budgets for the future. However, essentially, this is a budget of the Labour Party in Government. We are pleased to have reached agreement on certain points, but we do not agree fully with the budget as it currently stands.

17:03

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I want to raise some general principles on the Welsh Government's approach to presenting a budget, which I know have caused members of some committees some concerns. With regard to some of those issues around legislation, for example, yes, we are a new legislature, and the process of how we go about implementing legislation is relatively new to this place. However, the costing of legislation is something that is weak in this budget, but the costing of policy proposals is surely not something that is new to this place.

Rwyf am godi rhai egwyddorion cyffredinol ar ddull Llywodraeth Cymru o gyflwyno cyllideb, yr wyf yn gwybod sydd wedi achosi rhywfaint o bryderon i aelodau o rai pwyllgorau. O ran rhai o'r materion hynny ynghylch deddfwriaeth, er enghraifft, ydym, rydym yn ddeddfwrfa newydd, ac mae'r broses o sut yr ydym yn mynd ati i weithredu deddfwriaeth yn gymharol newydd i'r lle hwn. Fodd bynnag, mae costio deddfwriaeth yn rhywbeth sydd yn wan yn y gyllideb hon, ond siawns nad yw costio cynigion polisi yn rhywbeth sy'n newydd i'r lle hwn.

A key concern of the Finance Committee was the cost implications of enacted and forthcoming legislation. More and more frequently, we are seeing Bills, such as the Social Services and Well-being (Wales) Bill in particular, that create framework powers and have wide scope for secondary legislation that are not very clearly explained on the face of the Bill or in explanatory memoranda. This then creates difficulties in determining the cost of implementing such legislation. In advising the committee, Angela Scott stated that

Un pryder allweddol a oedd gan y Pwyllgor Cyllid oedd goblygiadau cost deddfwriaeth wedi'i deddfu ac sydd ar ddod. Yn fwy a mwy aml, rydym yn gweld Biliau, megis y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn benodol, sydd yn creu pwerau fframwaith ac sydd â chwmpas eang i ddeddfwriaeth eilaidd nad ydynt yn cael eu hesbonio'n glir iawn ar wyneb y Bil nac yn y memoranda esboniadol. Mae hyn wedyn yn creu anawsterau wrth benderfynu ar y gost o weithredu deddfwriaeth o'r fath. Wrth gynghori'r pwyllgor, dywedodd Angela Scott:

'the financial memoranda accompanying each Bill was not always presented consistently and did not always readily support identification of the aggregate financial consequences of legislation'.

nid oedd y memoranda ariannol sy'n gysylltiedig â phob Bil wedi'u cyflwyno'n gyson bob amser ac nid oeddynt bob amser yn cefnogi adnabod canlyniadau ariannol crynswth deddfwriaeth mewn modd rhwydd.

The problem that this presents us with is that it does not allow us to scrutinise fully and properly the implications of the legislative proposals when it comes to looking at how they align with the budget.

Y broblem y mae hyn yn ei olygu i ni yw nad yw'n caniatáu inni graffu yn llawn ac yn briodol ar oblygiadau'r cynigion deddfwriaethol pan ddaw'n fater o edrych ar sut y maent yn cyd-fynd â'r gyllideb.

Peter Black has already mentioned the issue of a lack of transparency. I think that, throughout the budget documents, there are large reductions or increases in expenditure areas that are not clearly detailed or accounted for. For example, within the communities and tackling poverty revenue DEL, there is a 10.3% reduction in the sustainable development and equality spending programme area. Given our statutory duty in Wales to embed sustainable development at the heart of our operations, what assessment has been made of the impact of this particular reduction?

Mae Peter Black eisoes wedi sôn am y mater o ddiffyg tryloywder. Credaf, ym mhob rhan o ddogfennau cyllideb, bod gostyngiadau neu godiadau mawr mewn meysydd gwariant nad ydynt yn fanwl nac wedi eu cyfrifo'n glir. Er enghraifft, o fewn y DEL refeniw cymunedau a threchu tlodi, mae gostyngiad 10.3% yn y maes rhaglen datblygiad cynaliadwy a gwariant cydraddoldeb. O ystyried ein dyletswydd statudol yng Nghymru i ymgorffori datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein gwaith, pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith y gostyngiad penodol hwn?

Similarly, there is no explanation given for a 21.9% reduction in the capital DEL in the infrastructure area, or for an 18.7% reduction in the capital DEL in the agriculture and food area. Despite welcome attempts by the Welsh Government to align the draft budget with the programme for government commitments, this builds a picture of a Government that perhaps lacks transparency, or a Government where that alignment process has not been consistently, or completely implemented. That, in itself, gives us problems when it comes to comparing those things.

Yn yr un modd, nid oes unrhyw esboniad wedi'i roi am ostyngiad 21.9% yn y DEL cyfalaf yn y maes seilwaith, neu am ostyngiad o 18.7% yn y DEL cyfalaf yn y maes amaethyddiaeth a bwyd. Er gwaethaf ymdrechion i'w croesawu gan Lywodraeth Cymru i alinio'r gyllideb ddrafft â'r rhaglen ar gyfer ymrwymiadau llywodraeth, mae hyn yn adeiladu darlun o Lywodraeth sydd efallai'n dangos diffyg tryloywder, neu Lywodraeth lle nad yw'r broses alinio wedi ei gweithredu'n gyson, neu'n llwyr. Mae hynny, ynddo'i hun, yn rhoi problemau i ni pan ddaw at gymharu'r pethau hynny.

Another issue of concern was the rigour of the costings that were presented to some of the committees—for example, concerns over costings were raised by the Environment and Sustainability committee regarding financial management and planning within the natural resources and food department. It was the committee's opinion that evidence provided by the department was late, often contradictory and far from transparent. The committee was unable to scrutinise properly due to the quality. It also stated that the Minister's budget included a number of basic errors, such as referring to schemes and policy areas that had ceased to exist.

Mater arall o bryder oedd trylwyredd y costiadau a gyflwynwyd i rai o'r pwyllgorau—er enghraifft, pryderon ynghylch costiadau a godwyd gan y pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ynghylch rheolaeth ariannol a chynllunio o fewn yr adran cyfoeth naturiol a bwyd. Barn y pwyllgor oedd bod y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr adran yn hwyr, yn aml yn anghyson ac yn bell o fod yn dryloyw. Nid oedd y pwyllgor yn gallu craffu'n iawn oherwydd yr ansawdd. Roedd hefyd yn nodi bod cyllideb y Gweinidog yn cynnwys nifer o wallau sylfaenol, megis cyfeirio at gynlluniau a meysydd polisi nad oedd yn bod bellach.

We do urge the Government to review this urgently, because, obviously, any mismanagement could potentially undermine the confidence and progress in this very important portfolio area. We would also appreciate clarity on what activities are being set aside, following the Welsh Government's decision to fund an agricultural wages panel.

Rydym yn annog y Llywodraeth i adolygu hyn ar frys, oherwydd, yn amlwg, gallai unrhyw gamreoli danseilio hyder a chynnydd yn y maes portffolio pwysig iawn hwn. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi eglurder o ran pa weithgareddau sy'n cael eu gosod o'r neilltu, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ariannu panel cyflogau amaethyddol.

Looking at contingency planning, clearly as policy areas change and develop, there may be a need to change the amounts that are set aside. I wonder how much flexibility there is in the budgets that are available. If we look at the economy capital DEL, in comparison with the indicative plans, we will see that £12 million is being allocated into thee Finance Wales fund, for investment funds for SMEs to enable support for access to finance. It may have been mentioned in passing in the Assembly over the last few weeks that both the stage 1 and stage 2 reports into access to finance by Professor Dylan Jones-Evans have highlighted very significant concerns about the implementation and the use of those funds. Questions will have to be asked about how we move forward into the final budgets—whether or not there will be changes and how those will be carried forward.

O edrych ar gynllunio wrth gefn, yn amlwg fel y mae meysydd polisi yn newid ac yn datblygu, efallai y bydd angen newid y symiau a osodir o'r neilltu. Tybed faint o hyblygrwydd sydd yn y cyllidebau sydd ar gael. Os ydym yn edrych ar DEL yr economi cyfalaf, o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol, byddwn yn gweld bod £12 miliwn wedi'i neilltuo i gronfa Cyllid Cymru, ar gyfer cronfeydd buddsoddi ar gyfer busnesau bach a chanolig i alluogi cymorth i gael mynediad at gyllid. Efallai ei fod wedi cael ei grybwyll wrth fynd heibio yn y Cynulliad dros yr ychydig wythnosau diwethaf bod adroddiadau cyfnod 1 a chyfnod 2 i fynediad at gyllid gan yr Athro Dylan Jones-Evans wedi tynnu sylw at bryderon sylweddol iawn am weithredu a defnyddio'r cronfeydd hynny. Bydd yn rhaid gofyn cwestiynau am sut yr ydym yn symud ymlaen i'r cyllidebau terfynol—pa un a fydd newidiadau ai peidio a sut y bydd y rheini'n cael eu dwyn ymlaen.

I will turn to consequential funding. We anticipate that there will be around £30 million consequential as a result of the recent announcement in England on free school meals. We would urge the Welsh Government to examine the potential for introducing a similar policy in Wales. I recognise that in recent First Minister's questions, the First Minister has stated that the free school breakfast scheme is adequate. Figures show that only around 22% of pupils are currently having breakfast at school. The evidence is very clear that providing at least one free hot meal a day at school brings very positive improvements in health and social cohesion and improves the standards of educational attainment, particularly among children from disadvantaged backgrounds.

Trof at arian canlyniadol. Rydym yn rhagweld y bydd tua £30 miliwn o arian canlyniadol yn sgil y cyhoeddiad diweddar yn Lloegr ar brydau ysgol am ddim. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno polisi tebyg yng Nghymru. Rwy'n cydnabod, mewn cwestiynau i'r Prif Weinidog yn ddiweddar, bod y Prif Weinidog wedi datgan bod y cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion yn ddigonol. Mae ffigurau'n dangos mai dim ond tua 22% o ddisgyblion sy'n cael brecwast yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth yn glir iawn bod darparu o leiaf un pryd poeth rhad ac am ddim bob dydd yn yr ysgol yn dod â gwelliannau cadarnhaol iawn o ran iechyd a chydlyniant cymdeithasol ac yn gwella safonau cyrhaeddiad addysgol, yn enwedig ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig.

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:08

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

I welcome the constructive comments that have been made during the scrutiny stage over the last few weeks, and the contributions that we have heard today. I would particularly like to thank the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies, for her contribution, which described the Finance Committee as a critical friend. I would say that it is a critical and a very constructive friend, and that is as it should be in terms of the scrutiny of this draft budget. I acknowledge the importance of improving transparency—this has been raised by Members across the Senedd today—and showing that our priorities clearly link to our programme for government. One point that was made by Eluned Parrott is the importance of ensuring not only the transparency but the affordability of our legislative programme—providing clarity on the costs associated with the legislation, assessing costs and also making sure that the impacts of the legislation are an essential part of that policy.

Croesawaf y sylwadau adeiladol a wnaed yn ystod y cyfnod craffu dros yr ychydig wythnosau diwethaf, a'r cyfraniadau a glywsom heddiw. Yn benodol, hoffwn ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies, am ei chyfraniad, a ddisgrifiodd y Pwyllgor Cyllid fel cyfaill beirniadol. Byddwn yn dweud ei fod yn gyfaill beirniadol ac adeiladol iawn, a dyna fel y dylai fod o ran craffu ar y gyllideb ddrafft hon. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd gwella tryloywder—mae hyn wedi'i godi gan Aelodau ar draws y Senedd heddiw—a dangos bod ein blaenoriaethau'n cysylltu'n glir â'n rhaglen ar gyfer llywodraeth. Un pwynt a wnaed gan Eluned Parrott yw pwysigrwydd sicrhau nid yn unig tryloywder ond fforddiadwyedd ein rhaglen ddeddfwriaethol—gan ddarparu eglurder ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth, asesu costau a hefyd gwneud yn siŵr bod effeithiau'r ddeddfwriaeth yn rhan hanfodol o'r polisi hwnnw.

I would say that, of course, we have used our important new commitments in this draft programme for government to extend Jobs Growth Wales by a further year. It was a three-year programme for government commitment—12,000 job opportunities for 16 to 25-year-olds—and we have now extended it to four years, for 16,000 young people. We have extended the funding for our community support officers. We have the 500 in our programme for government commitment, and we are extending that and securing their funding. We are moving forward, guided by the themes of promoting growth and jobs, improving educational attainment, and supporting children, families and deprived communities.

Byddwn yn dweud, wrth gwrs, ein bod wedi defnyddio ein hymrwymiadau newydd pwysig yn y rhaglen ddrafft ar gyfer y llywodraeth i ymestyn Twf Swyddi Cymru am flwyddyn arall. Roedd yn rhaglen tair blynedd ar gyfer ymrwymiad y llywodraeth—12, 000 o gyfleoedd gwaith ar gyfer rhai 16 i 25 mlwydd oed—ac rydym bellach wedi ei ymestyn i bedair blynedd, i 16,000 o bobl ifanc. Rydym wedi ymestyn y cyllid ar gyfer ein swyddogion cymorth cymunedol. Mae gennym y 500 yn ein rhaglen ar gyfer ymrwymiad y llywodraeth, ac rydym yn ymestyn hynny ac yn sicrhau eu cyllid. Rydym yn symud ymlaen, dan arweiniad y themâu o hyrwyddo twf a swyddi, gwella cyrhaeddiad addysgol, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.

I acknowledge, as I did in my opening remarks, the importance of the budget agreement. Indeed, I feel that the debate today has shown how important the outcome of that budget agreement is. It is about coming together and having those shared priorities. Jocelyn Davies raised this as a point in terms of the Finance Committee's consideration. We now need to move forward on the details of the intermediate care fund, with £50 million being spent to establish what will be an innovative new intermediate care fund. This will help, as Elin Jones said, to support people to stay in their own homes and will relieve pressures in the health service. This investment is key if we are to move to a new joined-up approach that puts the needs of the individual at the forefront. We are committed to this, and we have been working together already with our key delivery partners to develop the detailed proposals underpinning the way in which we will take forward the guidance in terms of the allocation of the £50 million.

Rwy'n cydnabod, fel y gwneuthum yn fy sylwadau agoriadol, pwysigrwydd cytundeb y gyllideb. Yn wir, rwy'n teimlo bod y ddadl heddiw wedi dangos pa mor bwysig yw canlyniad cytundeb y gyllideb. Mae'n ymwneud â dod at ein gilydd a chael y blaenoriaethau cyffredin hynny. Cododd Jocelyn Davies hwn fel pwynt o ran ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid. Mae angen i ni symud ymlaen bellach ar fanylion y gronfa gofal canolraddol, gyda £50 miliwn yn cael ei wario er mwyn sefydlu beth fydd yn gronfa gofal canolraddol newydd arloesol. Bydd hyn yn helpu, fel y dywedodd Elin Jones, i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain ac yn lleddfu'r pwysau yn y gwasanaeth iechyd. Mae'r buddsoddiad hwn yn allweddol os ydym am symud at ddull cydgysylltiedig newydd sy'n rhoi anghenion yr unigolyn yn gyntaf. Rydym wedi ymrwymo i hyn, ac rydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid cyflenwi allweddol eisoes i ddatblygu cynigion manwl a fydd yn sail i'r modd y byddwn yn bwrw ymlaen â'r canllawiau o ran dyraniad y £50 miliwn.

Peter Black raised the issue of Care and Repair, which has been a part of our consideration. It is vital that we do everything we can to protect front-line Care and Repair agency services. Of course our organisations are now under pressure from budget cuts. It is reasonable to expect that they will, of course, respond in terms of efficiencies, but also recognise that there are mergers going on, for example, between the Cardiff and Vale and Glamorgan agencies. That also can ensure that shared services and pooled resources can help in supporting those organisations.

Cododd Peter Black fater Gofal a Thrwsio, sydd wedi bod yn rhan o'n hystyriaeth. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu gwasanaethau asiantaeth Gofal a Thrwsio rheng flaen. Wrth gwrs mae ein sefydliadau bellach o dan bwysau gan doriadau yn y gyllideb. Mae'n rhesymol disgwyl y byddant, wrth gwrs, yn ymateb o ran effeithlonrwydd, ond rydym hefyd yn cydnabod bod uno yn digwydd, er enghraifft, rhwng asiantaethau Caerdydd a'r Fro a Morgannwg. Mae hynny hefyd yn gallu sicrhau y gall gwasanaethau a rennir ac adnoddau ar y cyd helpu i gefnogi'r sefydliadau hynny.

It is important that we are enhancing the investment package as a result of the budget agreement for the health technology fund. Gwenda Thomas and I visited the Velindre Cancer Centre in Julie Morgan's constituency today, and we could see already the impact of our former investment in Velindre Cancer Centre in terms of stereotactic technology. It was also very interested in the opportunities for integrating health and social care for cancer patients. Therefore, a number of opportunities will come forward as a result of that very productive budget agreement.

Mae'n bwysig ein bod yn gwella'r pecyn buddsoddi o ganlyniad i'r cytundeb cyllideb ar gyfer y gronfa technoleg iechyd. Ymwelodd Gwenda Thomas a minnau â Chanolfan Ganser Felindre yn etholaeth Julie Morgan heddiw, a gallem weld eisoes effaith ein buddsoddiad blaenorol yng Nghanolfan Ganser Felindre o ran technoleg stereotactig. Roedd gennym hefyd ddiddordeb mawr yn y cyfleoedd ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer cleifion canser. Felly, bydd nifer o gyfleoedd yn dod ymlaen o ganlyniad i'r cytundeb cyllideb cynhyrchiol iawn hwnnw.

We have allocated an additional £35 million in 2014-15 to boost the pupil deprivation grant, and I thank Peter Black for his very positive contribution this afternoon. We have allocated that additional funding to boost the pupil deprivation grant. We debated this in the Chamber only a few months ago. The extra investment will increase the targeted support that, of course, the Minister welcomes. It will target that support at the children and young people in those schools who most need that extra support. It will be increased from £450 per pupil to £918 in order to build on the commitments that the Minister has made to break that link between educational attainment and poverty.

Rydym wedi dyrannu £35 miliwn ychwanegol yn 2014-15 i roi hwb i'r grant amddifadedd disgyblion, a diolchaf i Peter Black am ei gyfraniad cadarnhaol iawn y prynhawn yma. Rydym wedi dyrannu cyllid ychwanegol i roi hwb i'r grant amddifadedd disgyblion. Trafodwyd hyn yn y Siambr dim ond ychydig fisoedd yn ôl. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn cynyddu'r cymorth wedi'i dargedu y mae'r Gweinidog, wrth gwrs, yn ei groesawu. Bydd yn targedu'r cymorth hwnnw at y plant a phobl ifanc yn yr ysgolion hynny sydd fwyaf angen y cymorth ychwanegol. Bydd yn cael ei gynyddu o £450 y disgybl i £918 er mwyn adeiladu ar yr ymrwymiadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i dorri'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol a thlodi.

I give that reassurance once again to Peter Black, Aled Roberts and all Members—and the Minister is with me—that our commitment to protect schools' budgets is about maximising front-line spending in schools. It is reflected in the settlement for local government and it is clear that our monitoring arrangements must ensure that this funding is utilised to deliver our commitment to grow school funding by 1% above changes to our budget overall. As Aled Roberts has said, the Minister has written to the committee on this matter and we will be reporting on this monitoring. It is vital that we have put this on the record today, and you have my assurances on that matter.

Rhoddaf y sicrwydd hwnnw unwaith eto i Peter Black, Aled Roberts a phob Aelod—ac mae'r Gweinidog gyda mi—bod ein hymrwymiad i ddiogelu cyllidebau ysgolion yn ymwneud â gwneud y gorau o wariant rheng flaen mewn ysgolion. Mae'n cael ei adlewyrchu yn y setliad ar gyfer llywodraeth leol ac mae'n amlwg bod yn rhaid i'n trefniadau monitro sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gyflawni ein hymrwymiad i gynyddu arian ysgolion gan 1% yn uwch na newidiadau i'n cyllideb gyffredinol. Fel y mae Aled Roberts wedi dweud, mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at y pwyllgor ar y mater hwn a byddwn yn adrodd ar y gwaith monitro hwn. Mae'n hanfodol ein bod wedi rhoi hyn ar y cofnod heddiw, ac rydych yn cael fy sicrwydd ar y mater hwnnw.

Paul Davies, fair play, raised some important points. His questions about innovative finance are important. If we take account of our innovative finance initiatives and the additional capital allocations that I have made, we see that the Government has enabled new capital investment of around £2 billion in the Welsh economy and public services through to 2019-20. It is very important in terms of local government that we are actually supporting local government, particularly through the Wales infrastructure investment plan and innovative finance. Funding is going into local services and into the services that it provides. In relation to the local government borrowing initiative, when I have met local government leaders, they have said that this is one of the most important partnerships that the Welsh Government and local government have developed together.

Cododd Paul Davies, chwarae teg iddo, rai pwyntiau pwysig. Mae ei gwestiynau am gyllid arloesol yn bwysig. Os byddwn yn ystyried ein mentrau cyllid arloesol a'r dyraniadau cyfalaf ychwanegol yr wyf wedi'u gwneud, rydym yn gweld bod y Llywodraeth wedi galluogi buddsoddiad cyfalaf newydd o oddeutu £2 biliwn yn economi Cymru a gwasanaethau cyhoeddus hyd at 2019-20. Mae'n bwysig iawn o ran llywodraeth leol ein bod mewn gwirionedd yn cefnogi llywodraeth leol, yn enwedig drwy'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru a chyllid arloesol. Mae arian yn mynd i mewn i wasanaethau lleol ac i'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. O ran y fenter benthyca llywodraeth leol, pan fy mod wedi cyfarfod ag arweinwyr llywodraeth leol, maent wedi dweud bod hyn yn un o'r partneriaethau mwyaf pwysig y mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi'u datblygu ar y cyd.

All local authorities have been involved in highways improvements across Wales, enabling £170 million of investment in our highways before the end of 2014-15. Hundreds of jobs have been secured in our construction industry as a result, and it has directly helped local authorities with their responsibilities. It also, importantly, established a £4 million annual funding stream for a new mechanism to deliver affordable housing, namely our new Welsh housing finance scheme. The finance partner that came to Wales said that this is the only scheme of its kind in the UK, and will see housing associations raise over £100 million of new funding to finance the delivery of more than 1,000 affordable homes over the next four years to meet Carl Sargeant's expectations and challenges in terms of housing need, which has received support from across the Assembly.

Mae pob awdurdod lleol wedi bod yn gysylltiedig â gwelliannau priffyrdd ar draws Cymru, gan alluogi buddsoddiad o £170 miliwn yn ein priffyrdd cyn diwedd 2014-15. Mae cannoedd o swyddi wedi'u diogelu yn ein diwydiant adeiladu o ganlyniad, ac mae'n uniongyrchol wedi helpu awdurdodau lleol gyda'u cyfrifoldebau. Mae hefyd, yn bwysig, wedi sefydlu ffrwd ariannu blynyddol o £4 miliwn ar gyfer dull newydd o ddarparu tai fforddiadwy, sef ein cynllun cyllid tai Cymru newydd. Dywedodd y partner cyllid a ddaeth i Gymru mai hwn yw'r unig gynllun o'i fath yn y DU, a bydd yn gweld cymdeithasau tai yn codi dros £100 miliwn o gyllid newydd i ariannu darpariaeth o fwy na 1,000 o gartrefi fforddiadwy dros y pedair blynedd nesaf i fodloni disgwyliadau a heriau Carl Sargeant o ran yr angen am dai, sydd wedi cael cefnogaeth ar draws y Cynulliad.

Peter Black mentioned Help to Buy, which is a £174.5 million scheme to stimulate house building activities and to support ownership in Wales. It will be operational in this calendar year, and the launch date will be announced very shortly.

Soniodd Peter Black am Cymorth i Brynu, sy'n gynllun gwerth £174.5 miliwn i ysgogi gweithgareddau adeiladu tai ac i gefnogi perchnogaeth yng Nghymru. Bydd yn weithredol yn y flwyddyn galendr hon, a bydd y dyddiad lansio yn cael ei gyhoeddi yn fuan iawn.

Paul Davies mentioned further education. We recognise the important role that further education plays for a highly skilled workforce in Wales. That is why we are protecting provision for 16 to 18-year-olds, and it is why the FE sector has enjoyed relative protection during a phase of considerable reorganisation. It is also why we are keeping the education maintenance allowance for those young people that will benefit from our investment in 16 to 18-year-olds. We expect further education colleges to not only prioritise their delivery for 16 to 18-year-olds, but to maximise their high-level skills provision and support for those learners considered to be most vulnerable.

Soniodd Paul Davies am addysg bellach. Rydym yn cydnabod swyddogaeth bwysig addysg bellach o ran datblygu gweithlu medrus iawn yng Nghymru. Dyna pam yr ydym yn gwarchod darpariaeth ar gyfer rhai 16 i 18 mlwydd oed, a dyna pam mae'r sector AB wedi mwynhau gwarchod cymharol yn ystod cyfnod o gryn ad-drefnu. Dyna hefyd pam yr ydym yn cadw'r lwfans cynhaliaeth addysg i'r bobl ifanc hynny a fydd yn elwa ar ein buddsoddiad mewn rhai 16 i 18 mlwydd oed. Rydym yn disgwyl i golegau addysg bellach nid yn unig i flaenoriaethu eu cyflawni ar gyfer rhai 16 i 18 mlwydd oed, ond i gynyddu eu darpariaeth sgiliau lefel uchel a chefnogaeth ar gyfer y dysgwyr hynny yr ystyrir sydd fwyaf agored i niwed.

Suzy Davies mentioned impact assessments. We have taken steps towards an integrated approach. We published the outcome of our work on the equality impact assessment on 8 October, alongside the draft budget. The development of the future generations Bill will play a key role in improving our considerations of sustainable development in future.

Crybwyllodd Suzy Davies asesiadau o effaith. Rydym wedi cymryd camau tuag at ddull integredig. Cyhoeddwyd canlyniad ein gwaith ar yr asesiad effaith cydraddoldeb ar 8 Hydref, ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft. Bydd datblygiad y Bil cenedlaethau'r dyfodol yn chwarae rhan allweddol mewn gwella ein hystyriaethau datblygu cynaliadwy yn y dyfodol.

Members mentioned the importance of our commitments to the Welsh language. I repeat that we are committed to improving the way in which we approach assessing the impact of expenditure on Welsh language projects. We are taking steps to consider the impact on the Welsh language, but we recognise that we are at the start of this process and that more work needs to be done to embed these practices across Government. We are also being open about the difficult decisions that we face in managing our priorities within a reducing budget as a result of UK Government cuts. We are seeking to make savings in our Welsh learning budget, while making programmes more efficient. All of our programme for government commitments will continue to be met in terms of the Welsh language.

Soniodd yr aelodau am bwysigrwydd ein hymrwymiadau i'r iaith Gymraeg. Dywedaf eto ein bod wedi ymrwymo i wella'r ffordd yr ydym yn mynd ati i asesu effaith y gwariant ar brosiectau'r iaith Gymraeg. Rydym yn cymryd camau i ystyried yr effaith ar yr iaith Gymraeg, ond rydym yn cydnabod mai ar ddechrau'r broses hon yr ydym ac mae angen gwneud mwy o waith i ymgorffori'r arferion hyn ar draws y Llywodraeth. Rydym hefyd yn bod yn agored am y penderfyniadau anodd sy'n ein hwynebu wrth reoli ein blaenoriaethau o fewn cyllideb sy'n lleihau o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU. Rydym yn ceisio gwneud arbedion yn ein cyllideb dysgu Cymraeg, ond yn gwneud rhaglenni yn fwy effeithlon ar yr un pryd. Bydd pob rhan o'n rhaglen ar gyfer ymrwymiadau'r llywodraeth yn parhau i gael eu diwallu o ran yr iaith Gymraeg.

I thank the Member for Swansea East for his clarification of the realities of Welsh Government finance, and the constraints that we have faced as a result of our reduced funding base. This is the toughest budget that we have ever had to set in the context of those austerity cuts from the UK Government, which we always said were too deep and too fast. It was a very valuable contribution from Mike Hedges, because he looked at the wider implications of the decisions that we have to make. Simon Thomas and Elin Jones took us further in considering what we can do within our constrained finances to do something innovative, such as the intermediate care fund. I was very glad to hear about Ilora Finlay's evidence to the committee. We are guided in Wales by eminent people like Professor Ilora Finlay and all of those who guide not just Government but the National Assembly for Wales.

Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe am ei eglurhad ar y gwirionedd o ran cyllid Llywodraeth Cymru, a'r cyfyngiadau yr ydym wedi'u hwynebu o ganlyniad i'n sail ariannu is. Dyma'r gyllideb anoddaf yr ydym erioed wedi gorfod ei gosod yng nghyd-destun y toriadau darbodus hynny gan Lywodraeth y DU, yr ydym bob amser wedi dweud sy'n rhy ddwfn ac yn rhy gyflym. Roedd yn gyfraniad gwerthfawr iawn gan Mike Hedges, oherwydd ei fod yn edrych ar oblygiadau ehangach y penderfyniadau y mae'n rhaid inni eu gwneud. Aeth Simon Thomas ac Elin Jones â ni yn ymhellach wrth ystyried yr hyn y gallwn ei wneud o fewn ein cyllid cyfyngedig i wneud rhywbeth arloesol, megis y gronfa gofal canolraddol. Roeddwn yn falch iawn o glywed am dystiolaeth Ilora Finlay i'r pwyllgor. Rydym yn cael ein harwain yng Nghymru gan bobl amlwg fel yr Athro Ilora Finlay a phawb sy'n arwain nid yn unig y Llywodraeth ond Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

In response to the leader of Plaid Cymru's contribution today, the UK Government's full response to the first Silk commission report is a significant development. It is a hugely important milestone for Wales. It will enable us to use the fiscal levers that we require to stimulate the economy and enhance our public services. I will make a full oral statement on this next week. I am meeting with finance spokespeople tomorrow to start work together on the consensus that we have struck. I would also say that we have other levers and opportunities. The European Parliament will vote on the EU budget today, and tomorrow on the legislative package for structural funds and rural development plans for the next round of programmes, which are worth around £2.3 billion of EU funds to Wales.

Mewn ymateb i gyfraniad arweinydd Plaid Cymru heddiw, mae ymateb llawn Llywodraeth y DU i adroddiad cyntaf comisiwn Silk yn ddatblygiad arwyddocaol. Mae'n garreg filltir hynod bwysig i Gymru. Bydd yn ein galluogi i ddefnyddio'r dulliau ariannol sydd eu hangen arnom i ysgogi'r economi a gwella ein gwasanaethau cyhoeddus. Byddaf yn gwneud datganiad llafar llawn ar hyn yr wythnos nesaf. Byddaf yn cwrdd â llefarwyr cyllid yfory i ddechrau gweithio gyda'n gilydd ar y consensws yr ydym wedi cytuno arno. Byddwn hefyd yn dweud bod gennym ddulliau a chyfleoedd eraill. Bydd Senedd Ewrop yn pleidleisio ar gyllideb yr UE heddiw, ac yfory ar y pecyn deddfwriaethol ar gyfer cronfeydd strwythurol a chynlluniau datblygu gwledig ar gyfer y rownd nesaf o raglenni, sydd werth tua £2.3 biliwn o arian yr UE i Gymru.

In conclusion, throughout our preparations for this budget, we have been clear that, in the current financial climate, difficult decisions would have to be made. The challenge of this draft budget has been to respond to the question and the challenge: what is right? What is right for Wales? What is right for our people, our communities, our workforce and our economy, with the UK Government's deep and ongoing austerity budget cuts, as the Member for Torfaen, Lynne Neagle, so eloquently outlined? What is right and what is principled? Is the answer to cut the funding of education of children and lifelong learning by 12%? As Aled Roberts said, that would result in 9,750 full-time teachers losing their jobs. That is what the Welsh Conservatives were proposing in 2010 for this spending round. That would be the consequence if we had a so-called ring-fenced health budget. What is right? Was it right to take the decision to give opportunities to our 16 to 25-year-olds with Jobs Growth Wales and to extend their opportunities via this draft budget, or should we have cut the economy and transport budget by 30%? That is what the Welsh Conservatives would do, and push 33,000 households in Wales into risk of homelessness as a result of their cruel and callous bedroom tax, which has been brought in by the Tory-led UK Government. Or, is it right to drive change—

I gloi, drwy gydol ein paratoadau ar gyfer y gyllideb hon, rydym wedi bod yn glir, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, y byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Her y gyllideb ddrafft hon oedd ymateb i'r cwestiwn a'r her: beth sy'n iawn? Beth sy'n iawn i Gymru? Beth sy'n iawn ar gyfer ein pobl, ein cymunedau, ein gweithlu a'n heconomi, gyda thoriadau darbodus dwfn a pharhaus Llywodraeth y DU i'r gyllideb, fel y gwnaeth yr Aelod dros Dorfaen, Lynne Neagle, eu hamlinellu mor huawdl? Beth sy'n iawn a beth sy'n egwyddorol? Ai'r ateb yw torri ar ariannu addysg plant a dysgu gydol oes gan 12%? Fel y dywedodd Aled Roberts, byddai hynny'n arwain at 9,750 o athrawon llawn amser yn colli eu swyddi. Dyna'r hyn yr oedd y Ceidwadwyr Cymreig yn ei gynnig yn 2010 ar gyfer y rownd gwariant hon. Dyna fyddai'r canlyniad pe byddai gennym gyllideb iechyd wedi'i neilltuo fel y'i gelwir. Beth sy'n iawn? A oedd yn iawn i gymryd y penderfyniad i roi cyfleoedd i'n rhai 16 i 25 mlwydd oed gyda Twf Swyddi Cymru ac i ymestyn eu cyfleoedd drwy gyfrwng y gyllideb ddrafft hon, neu a ddylem ni fod wedi torri'r gyllideb economi a thrafnidiaeth gan 30%? Dyna'r hyn y byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei wneud, a gwthio 33,000 o aelwydydd yng Nghymru i risg o ddigartrefedd o ganlyniad i'w treth ystafell wely greulon a dideimlad, sydd wedi cael ei dwyn i mewn gan y Llywodraeth dan arweiniad Torïaid y DU. Neu, a yw'n iawn i sbarduno newid—

17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order. You need to conclude now.

Trefn. Mae angen i chi ddod i ben nawr.

*Nick Ramsay a gododd—*

*Nick Ramsay rose—*

17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The Minister is concluding. This is the last point.

Mae'r Gweinidog yn cloi. Dyma'r pwynt olaf.

17:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Or, is it right to drive change and opportunity through a £100 million intermediate care fund, which is backed by three parties in this Assembly? This is a Welsh Government that is playing its part in delivering a budget for a fairer and healthier Wales.

Neu, a yw'n iawn i sbarduno newid a chyfle drwy gronfa gofal canolraddol o £100 miliwn, a gefnogir gan dair plaid yn y Cynulliad hwn? Mae hon yn Llywodraeth Cymru sy'n chwarae ei rhan mewn darparu cyllideb ar gyfer Cymru decach ac iachach.

17:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are objections, therefore, I defer all voting until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau, felly, gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2012-13

## Debate on the Children's Commissioner for Wales's Annual Report 2012-13

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts.*

17:22

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i wneud y cynnig—Jeff Cuthbert.

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Jeff Cuthbert.

Cynnig NDM5357 Lesley Griffiths

Motion NDM5357 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2012-13.

Notes the Children’s Commissioner for Wales’ Annual report 2012-13.

17:22

### Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Deputy Llywydd. I move the motion.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y cynnig.

I welcome the opportunity to respond to the Children’s Commissioner for Wales’s annual report for 2012-13. I would like to thank Keith Towler and his office for the work that they have done in preparing this report. I would also like to acknowledge the significant amount of work done by his office in working with us and others to ensure that children and young people are always at the heart of planning, policies and programmes.

Croesawaf y cyfle i ymateb i adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2012-13. Hoffwn ddiolch i Keith Towler a’i swyddfa am y gwaith y maent wedi'i wneud wrth baratoi'r adroddiad hwn. Hoffwn hefyd gydnabod y gwaith sylweddol a wneir gan ei swyddfa i gydweithio â ni ac eraill i sicrhau bod plant a phobl ifanc bob amser wrth wraidd cynllunio, polisïau a rhaglenni.

I would now like to turn to the amendments. We fully acknowledge the seriousness of the appalling historic abuse cases in north Wales. That is why we have worked closely with stakeholders, including the commissioner, to ensure that the current safeguarding arrangements in Wales are robust and that agencies work effectively together to protect children. Further improvements to ensure more effective leadership and collaboration will be taken forward through the Social Services and Well-being (Wales) Bill. We therefore oppose amendment 1.

Nawr, hoffwn droi at y gwelliannau. Rydym yn llwyr gydnabod difrifoldeb yr achosion cam-drin hanesyddol ofnadwy yng ngogledd Cymru. Dyna pam yr ydym wedi cydweithio'n agos â rhanddeiliaid, gan gynnwys y comisiynydd, er mwyn sicrhau bod y trefniadau diogelu presennol yng Nghymru yn gadarn a bod asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol i amddiffyn plant. Caiff gwelliannau pellach eu datblygu i sicrhau arweinyddiaeth a chydweithio mwy effeithiol drwy gyfrwng y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Felly, rydym yn gwrthwynebu gwelliant 1.

We also oppose amendment 2, which refers to stronger leadership from Welsh Government on access to independent professional advocacy. We take the views of children and young people very seriously and agree with the commissioner that listening to the voices of children and young people does contribute to the safeguarding agenda.

Rydym hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 2, sy'n cyfeirio at arweiniad cryfach gan Lywodraeth Cymru ar fynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae barn plant a phobl ifanc yn bwysig iawn inni ac rydym yn cytuno â'r comisiynydd bod gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc yn cyfrannu at yr agenda diogelu.

The commissioner published ‘Missing Voices’, which is his review of advocacy services for looked-after children, those leaving care and children in need, by which I am not referring to the charity events of Friday headed by the First Minister and Derek Brockway.

Cyhoeddodd y comisiynydd 'Lleisiau Coll', sef ei adolygiad o wasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen—nid wyf yn cyfeirio at y digwyddiadau elusennol ddydd Gwener dan arweiniad y Prif Weinidog a Derek Brockway.

There has been significant progress in taking forward the commissioner's recommendations from that review, and we have issued our response, with regular statements and published an update on progress. I believe that there is significant leadership from Welsh Government. We have written to local authorities and corporate parents, reminding them of the legislation and guidance and asking them for information on their advocacy provision. The Deputy Minister for Social Services and I have established a ministerial expert group and a young persons expert group on advocacy to provide us with advice on commissioning arrangements, access and inspection and regulation of advocates and advocacy services. I met with the chair of the expert group recently, and I am pleased with progress. It will be providing us with advice and recommendations on the commissioning of advocacy services before Christmas, and we will consider how to put these recommendations in place.

Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol o ran cyflwyno argymhellion y comisiynydd o'r adolygiad hwnnw, ac rydym wedi cyhoeddi ein hymateb, gyda datganiadau rheolaidd, ac wedi cyhoeddi diweddariad am y cynnydd. Rwyf yn credu bod arweinyddiaeth sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol a rhieni corfforaethol, gan eu hatgoffa o'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau a gofyn iddynt am wybodaeth am eu darpariaeth eiriolaeth. Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a fi wedi sefydlu grŵp arbenigol gweinidogol a grŵp arbenigol pobl ifanc ar eiriolaeth i roi cyngor inni am drefniadau comisiynu, mynediad ac arolygu a rheoleiddio eiriolwyr a gwasanaethau eiriolaeth. Cyfarfûm â chadeirydd y grŵp arbenigol yn ddiweddar, ac rwyf yn falch o'r cynnydd. Byddant yn rhoi cyngor ac argymhellion inni am gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth cyn y Nadolig, a byddwn yn ystyried sut i roi'r argymhellion hyn ar waith.

Amendment 3 refers to our decision to not introduce a children and young persons Bill at this point. I am confident that the provisions included in the Social Services and Well-being (Wales) Bill ensure that children are safeguarded and prioritised. In relation to the commissioner's statutory basis, we will continue to engage with him to examine possible solutions to the current constraints related to the commissioner's legislation. We therefore oppose amendment 3, as there is no need for a specific Bill on children and young people at this time.

Mae gwelliant 3 yn cyfeirio at ein penderfyniad i beidio â chyflwyno Bil Plant a Phobl Ifanc ar hyn o bryd. Rwyf yn hyderus bod y darpariaethau a gynhwysir yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu a'u blaenoriaethu. O ran sail statudol y comisiynydd, byddwn yn parhau i ymgysylltu ag ef i edrych ar atebion posibl i'r cyfyngiadau presennol o ran deddfwriaeth y comisiynydd. Felly, rydym yn gwrthwynebu gwelliant 3, gan nad oes angen Bil penodol ar blant a phobl ifanc ar hyn o bryd.

Finally, we oppose amendment 4, because this debate is to provide an opportunity to discuss and scrutinise the children's commissioner's annual report, and we would not want to take away from this focus by publishing our response ahead of the debate. The process for the children's commissioner's annual report and the Welsh Government's response is set out in regulation. We have worked with the commissioner to streamline the timings considerably to ensure that the report is still current and that we respond in a timely manner. As the report focuses on 2012-13, I am confident in being able to say that things have moved on considerably.

Yn olaf, rydym yn gwrthwynebu gwelliant 4, oherwydd diben y ddadl hon yw rhoi cyfle i drafod adroddiad blynyddol y comisiynydd plant a chraffu arno, ac ni fyddem am dynnu oddi wrth y ffocws hwn drwy gyhoeddi ein hymateb cyn y ddadl. Mae proses adroddiad blynyddol y comisiynydd plant ac ymateb Llywodraeth Cymru wedi'i nodi mewn rheoliad. Rydym wedi cydweithio â'r comisiynydd i symleiddio'r amseriadau'n sylweddol i sicrhau bod yr adroddiad yn dal i fod yn gyfredol a'n bod yn ymateb mewn modd amserol. Gan fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar 2012-13, rwyf yn hyderus y gallaf ddweud bod pethau wedi symud ymlaen yn sylweddol.

There have been many positive developments that will go some way to addressing some of the concerns raised in the report. The commissioner has called on the Welsh Government to provide direction and guidance for numerous policy areas across, for example, education, health and social services, and to monitor their implementation. For example, he has called for direction to be given to education settings on the adoption of effective and accredited behaviour management strategies, restrictive physical intervention and restraint methods. We issued the guidance entitled 'Safe and effective intervention—use of reasonable force and searching for weapons' in March 2013. This covers the use of restrictive physical intervention and restraint methods, the use of quiet or isolation rooms or areas, and the unacceptable practice of forced isolation.

Bu llawer o ddatblygiadau cadarnhaol a fydd yn mynd beth ffordd i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad. Mae'r comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfarwyddyd ac arweiniad ar gyfer nifer o feysydd polisi ar draws, er enghraifft, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac i fonitro eu rhoi ar waith. Er enghraifft, mae wedi galw am roi cyfarwyddyd i leoliadau addysg ar fabwysiadu strategaethau effeithiol ac achrededig ar gyfer rheoli ymddygiad, ymyriad corfforol cyfyngol a dulliau atal. Gwnaethom gyhoeddi'r canllawiau dan y teitl 'Ymyrraeth ddiogel ac effeithiol—defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau' ym mis Mawrth 2013. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ymyrraeth gorfforol gyfyngol a dulliau atal, defnyddio ystafelloedd neu ardaloedd tawel neu neilltuo, a'r arfer annerbyniol o neilltuo gorfodol.

The commissioner has called on the Welsh Government to closely monitor the implementation of new guidance on disciplinary and dismissal procedures for school staff that was issued in January 2013. At the beginning of October, we wrote to all local authorities to ascertain whether or not they have cascaded the document to local school trade union representatives and to school governors for adoption, and to advise Welsh Government officials of any concerns that they may have about the guidance. We will be analysing the responses over the following months.

Mae'r comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro gweithredu canllawiau newydd ar weithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgolion a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013. Ar ddechrau mis Hydref, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol i ganfod a ydynt wedi rhaeadru'r ddogfen i gynrychiolwyr undebau llafur ysgolion lleol ac i lywodraethwyr ysgol i'w mabwysiadu, ac i gynghori swyddogion Llywodraeth Cymru am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am yr arweiniad. Byddwn yn dadansoddi'r ymatebion yn ystod y misoedd nesaf.

The commissioner also set out his concerns in relation to children and young people being given opportunities to have a voice and be listened to. We have placed a duty on local authorities under the Children and Families Measure (Wales) 2010 to have local arrangements in place to enable children and young people to participate, to have a voice and to influence local services. We have issued statutory guidance and stated within that guidance that we will monitor local arrangements for children and young people’s participation. My officials will be visiting local authorities in the spring/summer of next year to ensure that we have an understanding of how they are taking this duty forward and to ensure that local arrangements are in place to enable children and young people to feel that they are being listened to, being involved and being engaged.

Mae'r comisiynydd hefyd wedi amlinellu ei bryderon am gyfleoedd i blant a phobl ifanc gael llais a chael eu clywed. Rydym wedi gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i roi trefniadau lleol ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan, i gael llais ac i ddylanwadu ar wasanaethau lleol. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau statudol ac wedi nodi o fewn y canllawiau hynny y byddwn yn monitro trefniadau lleol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc. Bydd fy swyddogion yn ymweld ag awdurdodau lleol yng ngwanwyn/haf y flwyddyn nesaf i sicrhau ein bod yn deall sut y maent yn symud ymlaen â’r ddyletswydd hon ac i sicrhau bod trefniadau lleol ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, eu bod yn cael cymryd rhan a’u bod yn cael eu cynnwys yn y prosesau hyn.

In January, we will have to report to the United Nations Committee on the Rights of the Child to inform it of how we are implementing children’s rights and how we have responded to its recommendations from the last reporting round. Tomorrow, on Universal Children’s Day, I will be launching a Welsh Government report on the actions that the Welsh Government has taken to making the rights, as set out in the UN charter, a reality for children and young people in Wales. I am very pleased with this report; it shows how children’s rights are reflected right across Government portfolios and how we are moving positively forward in Wales. I believe that we have a good story to tell.

Ym mis Ionawr, bydd rhaid inni gyflwyno adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i roi gwybod iddynt sut yr ydym yn gweithredu hawliau plant a sut yr ydym wedi ymateb i'w hargymhellion o’r cylch adrodd diwethaf. Yfory, ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant, byddaf yn lansio adroddiad Lywodraeth Cymru am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wneud yr hawliau, fel y’u nodir yn siarter y Cenhedloedd Unedig, yn realiti i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Rwyf yn falch iawn o’r adroddiad hwn; mae'n dangos sut y caiff hawliau plant eu hadlewyrchu ar draws portffolios y Llywodraeth a sut yr ydym yn symud ymlaen yn gadarnhaol yng Nghymru. Rwyf yn credu bod gennym stori dda i'w hadrodd.

The report will be made available to Members, and I will also issue a statement to accompany the report. I hope that all will take the opportunity to read the report, as I believe that you will be heartened by the progress that we are making in Wales.

Bydd yr adroddiad ar gael i'r Aelodau, a byddaf hefyd yn cyhoeddi datganiad i gyd-fynd â'r adroddiad. Rwyf yn gobeithio y bydd pawb yn cymryd y cyfle i ddarllen yr adroddiad; rwyf yn credu y cewch eich calonogi gan y cynnydd yr ydym yn ei wneud yng Nghymru.

I note that the commissioner has highlighted work for the coming year, which includes undertaking projects relating to learner wellbeing in pupil referral units, access for disabled learners and respite. I hope that our response will go some way to reassuring him that we have the same goal: that is, to make the lives of children and young people as good as they can be.

Nodaf fod y comisiynydd wedi tynnu sylw at waith ar gyfer y flwyddyn i ddod, sy'n cynnwys ymgymryd â phrosiectau sy'n ymwneud â lles dysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion, mynediad i ddysgwyr anabl a seibiant. Rwyf yn gobeithio y bydd ein hymateb yn mynd rywfaint o’r ffordd at dawelu ei feddwl ein bod yn rhannu’r un nod: hynny yw, sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cystal bywydau â phosibl.

My colleague Gwenda Thomas, the Deputy Minister for Social Services, has previously led on the relationship with the commissioner and on children’s rights. The commissioner has paid tribute to her commitment to this agenda and thanked her for her work on children’s issues. I also want to express my thanks to the Deputy Minister, and I hope that I will continue in the same vein and develop an effective working relationship with the commissioner and his office.

Fy nghydweithiwr Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, oedd yn arfer arwain y berthynas gyda'r comisiynydd a maes hawliau plant. Mae'r comisiynydd wedi talu teyrnged i’w hymrwymiad i'r agenda hon ac wedi diolch iddi am ei gwaith ar faterion plant. Hoffwn innau fynegi fy niolch i'r Dirprwy Weinidog, ac rwyf yn gobeithio y byddaf yn parhau yn yr un modd ac yn datblygu perthynas waith effeithiol gyda'r comisiynydd a'i swyddfa.

I am aware that the children's commissioner has attended the Children and Young People Committee to discuss his annual report, and that a healthy dialogue took place. I thank the committee for scrutinising the report, and I will ensure that our response will take into account any concerns that it raised that relate to Government policies. These are just some of the issues that the commissioner has highlighted within his report, and I look forward to hearing Members' comments. We will listen carefully, and we will respond fully to each of the issues raised in our final response, which we will be publishing at the end of this month.

Rwyf yn ymwybodol bod y comisiynydd plant wedi ymweld â'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i drafod ei adroddiad blynyddol, a bod deialog iach wedi digwydd. Diolchaf i'r pwyllgor am graffu ar yr adroddiad, a byddaf yn sicrhau y bydd ein hymateb yn ystyried unrhyw bryderon a godwyd sy'n ymwneud â pholisïau'r Llywodraeth. Dim ond rhai o'r materion y mae'r comisiynydd wedi tynnu sylw atynt yn ei adroddiad yw'r rhain, ac edrychaf ymlaen at glywed sylwadau'r Aelodau. Byddwn yn gwrando'n astud, a byddwn yn ymateb yn llawn i bob un o'r materion a godwyd yn ein hymateb terfynol, a gyhoeddir gennym ar ddiwedd y mis hwn.

17:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig hwn, a galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 1 i 4 a gyflwynwyd yn ei enw.

I have selected the four amendments tabled to this motion, and I call Aled Roberts to move amendments 1 to 4 tabled in his name.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert as new point at end of the motion:*

*Yn cydnabod y pryder a godwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ynghylch difrifoldeb trefniadau diogelu annigonol.*

*Acknowledges the concern raised by the Children's Commissioner for Wales regarding the severity of insufficient safeguarding arrangements.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert as new point at end of the motion:*

*Yn gresynu wrth ganfyddiad yn yr adroddiad bod lleisiau plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu hanwybyddu'n llwyr ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddangos arweinyddiaeth gadarnach o ran mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol.*

*Regrets the finding within the report that often the voices of children and young people are completely ignored and calls on the Welsh Government to show stronger leadership on access to independent professional advocacy.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert as new point at end of the motion:*

*Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chyflwyno Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru) er ei hymrwymiad yn natganiad deddfwriaethol 2011, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i wyrdroi'r penderfyniad hwn a chyflwyno deddfwriaeth i gryfhau hawliau plant a phobl ifanc ac i ddiwygio'r sail statudol dros swyddfa'r Comisiynydd Plant.*

*Regrets the decision by the Welsh Government not to introduce a Children and Young Persons (Wales) Bill despite their commitment within the 2011 legislative statement, and calls on the Welsh Government to reverse this decision and bring forward legislation to strengthen the rights of children and young people and reform the statutory basis for the Children's Commissioner's office.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert as new point at end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno ymateb i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru cyn y ddadl flynyddol arno.*

*Calls on the Welsh Government to provide a response to the Children's Commissioner for Wales' Annual Report prior to the annual debate on this report.*

17:32 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 1, 2, 3 and 4 tabled in my name on behalf of the Welsh Liberal Democrats.

Cynigiaf welliannau 1, 2, 3 a 4 a gyflwynwyd yn fy enw i ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

I welcome the opportunity to speak in the debate, and I am sure that we would all like to thank the commissioner and his team for the work. I can assure the Minister that I have read the report. I think that there is much to welcome, but I also think that it would be stretching matters to say that it is a heartening report as far as its overall conclusions are concerned. I have only been here for just over two years—many have been here much longer than I have been—but I think that many of the points that may very well be raised in this debate this afternoon have been raised ever since the commissioner was appointed. Indeed, in both 2011 and 2012, I made many of the points that I will be making again this afternoon.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl, ac rwyf yn siŵr yr hoffem i gyd ddiolch i'r comisiynydd a'i dîm am y gwaith. Gallaf sicrhau'r Gweinidog fy mod wedi darllen yr adroddiad. Credaf fod llawer i'w groesawu, ond rwyf hefyd yn meddwl mai gor-ddweud fyddai dweud ei fod yn adroddiad calonogol o ran ei gasgliadau cyffredinol. Dim ond ers ychydig dros ddwy flynedd yr wyf wedi bod yma—mae llawer wedi bod yma lawer yn hwy na mi—ond rwyf yn meddwl bod llawer o'r pwyntiau y mae’n bosibl iawn y cânt eu codi yn y ddadl hon y prynhawn yma wedi cael eu codi byth ers penodiad y comisiynydd. Yn wir, yn 2011 a 2012, gwnes lawer o'r pwyntiau y byddaf yn eu gwneud eto y prynhawn yma.

The sad fact is that many of us could actually have predicted the issues that are outlined in this report, whether it is CAMHS, safeguarding and young carers, just to name a few. Also, I have to say that I could just as easily predict the Government’s response: strategies, strategies and strategies. However, I have to say that I think that it is time that the Government realised that the existence of a strategy in itself does not necessarily lead to that strategy being implemented. I would like to give two particular examples, which I raised last year. The first issue is school toilets, which I think has been raised in almost every report since 2004. I was told last year, ‘Yes, the Welsh Government has a response. It has ensured that school governors report on the provision of toilet facilities within their schools each year.’ I checked the governors’ reports in my particular community, but there was not one instance of that provision being referred to. We were also told last year that, in view of concerns expressed in the report, the Government would call on governing bodies to ensure that the views of learners are gleaned as part of the overall monitoring process. Again, I have looked through all of the governors’ reports in my locality and have found no particular mention.

Y ffaith drist yw y gallai fod llawer ohonom mewn gwirionedd wedi rhagweld y materion a amlinellir yn yr adroddiad hwn, boed yn CAMHS, diogelu a gofalwyr ifanc, i enwi dim ond rhai. Hefyd, rhaid imi ddweud y gallwn ragweld ymateb y Llywodraeth yr un mor hawdd: strategaethau, strategaethau a strategaethau. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud fy mod yn credu ei bod yn bryd i'r Llywodraeth sylweddoli nad yw bodolaeth strategaeth ynddi'i hun o reidrwydd yn arwain at roi’r strategaeth honno ar waith. Hoffwn roi dwy enghraifft benodol a godais y llynedd. Y mater cyntaf yw toiledau ysgol; rwyf yn credu bod hyn wedi’i godi ym mhob adroddiad bron ers 2004. Dywedwyd wrthyf y llynedd, 'Oes, mae gan Lywodraeth Cymru ymateb. Maent wedi sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn adrodd ar ddarpariaeth cyfleusterau toiled yn eu hysgolion bob blwyddyn.' Edrychais ar adroddiadau'r llywodraethwyr yn fy nghymuned benodol i, ond nid oedd un ohonynt yn cyfeirio at y ddarpariaeth honno. Dywedwyd wrthym hefyd y llynedd y byddai'r Llywodraeth, yn wyneb y pryderon a fynegwyd yn yr adroddiad, yn galw ar gyrff llywodraethu i sicrhau bod barn dysgwyr yn cael ei chasglu fel rhan o'r broses fonitro gyffredinol. Unwaith eto, rwyf wedi edrych drwy adroddiadau'r holl lywodraethwyr yn fy ardal ac ni chefais hyd i ddim sôn penodol am hynny.

So, I submitted a written question to the Government, asking what percentage of school governing bodies were ensuring that the recommendations contained in the commissioner’s report were followed, and I was told that all governing bodies must include this information in their annual report. Therefore, I asked how many of them did so. I was told that this information was not collected by the school census data collection and was not, therefore, held centrally. So, what reassurance can the Government give that these strategies are being implemented at ground level? I must also say that, if you had been present or had listened to the exchange in the Children and Young People Committee on 6 November, you would have heard that we were raising issues regarding the targets et cetera of the NSF. The response from the children’s commissioner at that time was:

Felly, cyflwynais gwestiwn ysgrifenedig i'r Llywodraeth, gan ofyn pa ganran o gyrff llywodraethu ysgolion oedd yn sicrhau bod yr argymhellion a geir yn adroddiad y comisiynydd yn cael eu dilyn, a dywedwyd wrthyf fod rhaid i bob corff llywodraethu gynnwys y wybodaeth hon yn eu hadroddiad blynyddol. Felly, gofynnais faint ohonynt a wnaeth hynny. Dywedwyd wrthyf nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel rhan o ddata cyfrifiad ysgolion ac nad oedd, felly, yn cael ei dal yn ganolog. Felly, pa sicrwydd y gall y Llywodraeth ei roi bod y strategaethau hyn yn cael eu gweithredu ar lawr gwlad? Rhaid imi hefyd ddweud, pe baech wedi bod yn bresennol yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 6 Tachwedd, neu wedi gwrando ar y sgwrs a gafwyd yno, byddech wedi clywed ein bod yn codi materion ynghylch targedau’r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ac ati. Yr ymateb gan y comisiynydd plant ar y pryd oedd:

‘I cannot get answers out of Welsh Government. If you could get answers out of it, I would appreciate it, because I think that the NSF has become some kind of nondescript issue that people are not being honest about. We are just not getting responses.’

'Ni allaf gael atebion gan Lywodraeth Cymru. Pe gallech gael atebion ganddynt, byddwn yn gwerthfawrogi hynny, oherwydd rwyf yn credu bod y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol wedi dod yn rhyw fath o fater dinod nad yw pobl yn bod yn onest amdano. Nid ydym yn cael atebion o gwbl.’

I now turn to our first two amendments. The commissioner himself told us that, all too often, the serious cases brought to his attention are a stark reminder of the severity of insufficient safeguarding arrangements, coupled with the fact that, often, the voices of children and young people are completely ignored. If you needed any evidence over the last 12 months, I ask that you look at the observations of the young people who have been led to make further complaints to Operation Pallial. The commissioner has called for an independently chaired national safeguarding board for children in his last two annual reports. However, the provisions of the Social Services and Well-being (Wales) Bill will merge provision for children and adults, albeit not immediately.

Trof yn awr at ein dau welliant cyntaf. Mae'r comisiynydd ei hun wedi dweud wrthym bod yr achosion difrifol a ddygir i'w sylw, yn rhy aml o lawer, yn ei atgoffa o ba mor ddifrifol yw’r diffyg trefniadau diogelu, ynghyd â'r ffaith bod lleisiau plant a phobl ifanc, yn aml, yn cael eu hanwybyddu'n llwyr. Os oedd angen unrhyw dystiolaeth arnoch yn ystod y 12 mis diwethaf, gofynnaf ichi edrych ar sylwadau'r bobl ifanc sydd wedi cael eu harwain i wneud cwynion pellach i Ymgyrch Pallial. Mae'r comisiynydd wedi galw am fwrdd diogelu cenedlaethol i blant â chadeirydd annibynnol yn ei ddau adroddiad blynyddol diwethaf. Fodd bynnag, bydd darpariaethau'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn uno darpariaeth i blant ac oedolion, er na fydd hynny’n digwydd unwaith.

While I welcome the additional £200,000 for the advocacy BEL in the draft budget, I must also ask that the Welsh Government take a stronger role in monitoring how this money is spent, so that we can be sure that increased investment leads to increased access for those in need. As far as the timing is concerned, I accept—although I have not been able to locate this in any regulation—the need for the Welsh Government not to make a response, and that the provisions are contained in the regulations themselves. Last year, the Government’s response was made some 10 days after the debate. It was 47 pages long, and all that I can see throughout it is that the Government commits itself to responding with fuller information in due course.

Er fy mod yn croesawu'r £200,000 ychwanegol ar gyfer BEL eiriolaeth yn y gyllideb ddrafft, rhaid imi hefyd ofyn i Lywodraeth Cymru gymryd swyddogaeth gryfach wrth fonitro sut y mae'r arian hwn yn cael ei wario, fel y gallwn fod yn sicr bod cynnydd mewn buddsoddiad yn arwain at well mynediad i’r rhai sydd mewn angen. Cyn belled ag y mae’r amseru dan sylw, rwyf yn derbyn—er nad wyf wedi gallu dod o hyd i hyn mewn unrhyw reoliad—bod angen i Lywodraeth Cymru i beidio ag ymateb, a bod y darpariaethau wedi’u cynnwys yn y rheoliadau eu hunain. Y llynedd, atebodd y Llywodraeth tua 10 diwrnod ar ôl y ddadl. Roedd yr ymateb yn 47 tudalen o hyd, a’r oll y gallaf ei weld drwy gydol y ddogfen honno yw bod y Llywodraeth yn ymrwymo ei hun i ymateb â gwybodaeth lawnach maes o law.

17:37

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The role of a commissioner is incredibly important, and we now have a number of commissioners throughout Wales on different topics. We have the Commissioner for Older People in Wales, the Welsh Language Commissioner, and here today we are going to talk about the report of the children’s commissioner. If I am honest, I believe that he has pulled his punches somewhat. This is the danger that we have here in Wales. We are ultimately a very small cadre in the public sector. We are 60 Assembly Members, a large proportion of whom are in Government. We have an outside body that is fit and should be scrutinising us. We can only improve our behaviour, our performance here and the performance of the Government if outside bodies are prepared to not cosy up and get too close to the Government, and to say what they really feel. I think that I can say this. When you read this report, you see that the children’s commissioner makes some exceptionally valid points, but he couches them in quite woolly language. It is a gentle telling off.

Mae swyddogaeth comisiynydd yn hynod o bwysig, a bellach mae gennym nifer o gomisiynwyr ledled Cymru ar wahanol bynciau. Mae gennym Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, ac yma heddiw rydym yn mynd i siarad am adroddiad y comisiynydd plant. Os ydw i'n onest, rwyf yn credu ei fod wedi ymatal braidd. Dyma’r perygl sydd gennym yma yng Nghymru. Rydym yn y pen draw yn gnewyllyn bach iawn yn y sector cyhoeddus. Rydym yn 60 o Aelodau Cynulliad, a chyfran fawr ohonom yn y Llywodraeth. Mae gennym gorff allanol sy'n addas ac a ddylai fod yn craffu arnom. Yr unig ffordd y gallwn wella ein hymddygiad, ein perfformiad yma a pherfformiad y Llywodraeth yw os yw cyrff allanol yn barod i beidio â bod yn rhy glyd a mynd yn rhy agos at y Llywodraeth, ac i ddweud yr hyn y maent yn wir yn ei deimlo. Rwyf yn meddwl y gallaf ddweud hyn. Pan ddarllenwch yr adroddiad hwn, fe welwch fod y comisiynydd plant yn gwneud rhai pwyntiau dilys eithriadol, yn eu geirio mewn iaith eithaf gwlanog. Mae'n dweud y drefn yn ysgafn.

I would like to pick up a point that Aled Roberts made, namely that we have been here year after year after year, talking about the same kinds of issues. It is time that we put some of these issues to bed. We should not have to be talking about whether or not children's rights are really being listened to, and whether the voices of children are being heard in Wales. We should not have to talk about whether looked-after children have the support, care and attention that they need. We should not be talking about whether children's rights impact assessments are being done on bits and pieces of Government policy. We have all signed up to the United Nations Convention on the Rights of the Child. This should be like breathing and eating to us. We should not have to be talking about this anymore, but we are. I think that the children's commissioner has missed an opportunity in his report to really, really hold the Government and the Assembly to account for the non-delivery of support and services to children in Wales.

Hoffwn godi pwynt a wnaeth Aled Roberts, sef ein bod wedi bod yma flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn, yn siarad am yr un math o faterion. Mae'n bryd inni orffen rhai o'r materion hyn. Ni ddylai fod rhaid inni ofyn a yw hawliau plant yn cael eu gwrando arnynt mewn gwirionedd, ac a yw lleisiau plant yn cael eu gwrando arnynt yng Nghymru. Ni ddylai fod rhaid inni drafod a yw plant sy'n derbyn gofal yn cael y cymorth, y gofal a'r sylw sydd eu hangen arnynt. Ni ddylem fod yn gofyn a yw asesiadau o'r effaith ar hawliau plant yn cael eu gwneud ar ddarnau bach o bolisi'r Llywodraeth. Rydym i gyd wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai hyn fod fel anadlu a bwyta inni. Ni ddylai fod rhaid inni siarad am hyn bellach, ond rydym yn dal i wneud hynny. Credaf fod y comisiynydd plant wedi colli cyfle yn ei adroddiad i wirioneddol ddwyn y Llywodraeth a'r Cynulliad i gyfrif am beidio â darparu cymorth a gwasanaethau i blant yng Nghymru.

Of course, most children, most of the time, get mostly what they want, but there are significant numbers of children who do not. There are significant numbers of children who fall through the gaps. I would have liked to have seen the children's commissioner pay more attention to them. His role—his only role—is to speak for children. It is nothing else. It is none of the politicking and all of the rest of it. It is to speak for children. It is his job, and the job of his office, to go out there to find the hard-to-get-to children—not the ones who self-select because they are energetic and engaged and they want to be involved—we all know who they are; we know where to go to find them—but the ones tucked away; the Gypsy and Traveller children, the children who live in rural poverty, the children who are looked after, and the children who do not want to talk to a grown-up about an awful lot of stuff. They are the people whose voices we need to hear, as well as the voices of those children who, in their school councils, have a way of trying to put forward their points of view. I think that the children's commissioner, over the course of the next 12 months, needs to move forward on that agenda and make sure that, when he comes back in 12 months' time with another report, it is not the same as we have had this year and last year—because, apart from the pictures, there is an awful lot that is similar in the content—and the year before. The whole point of a commissioner—and I cannot say this enough—is to help all of us to be held to account, and I believe that that has been a trick well missed here.

Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o blant, y rhan fwyaf o'r amser, gan fwyaf yn cael yr hyn sydd ei eisiau arnynt, ond mae niferoedd sylweddol o blant nad ydynt. Mae niferoedd sylweddol o blant sy'n disgyn drwy'r bylchau. Byddwn wedi hoffi gweld y comisiynydd plant yn rhoi mwy o sylw iddynt. Ei swyddogaeth—ei unig swyddogaeth—yw siarad ar ran plant. Nid yw'n ddim byd arall. Nid oes gofyn iddo wleidydda na dim byd felly. Mae'n siarad ar ran plant. Ei waith ef, a gwaith ei swyddfa, yw mynd allan yno i ddod o hyd i'r plant anodd eu cyrraedd—nid y rhai sy'n hunan-ddewis oherwydd eu bod yn egnïol ac yn cymryd rhan ac yn dymuno bod yn rhan o hyn—rydym i gyd yn gwybod pwy ydynt hwy; rydym yn gwybod ble i ddod o hyd iddynt—ond y rhai cudd, y plant Sipsiwn a Theithwyr, y plant sy'n byw mewn tlodi gwledig, y plant sy'n derbyn gofal, a'r plant nad ydynt yn dymuno siarad ag oedolyn am lawer iawn o bethau. Lleisiau'r bobl hyn y mae angen inni eu clywed, yn ogystal â lleisiau'r plant hynny sydd, yn eu cynghorau ysgol, cael ffordd o geisio cyflwyno eu safbwyntiau. Credaf fod angen i'r comisiynydd plant, yn ystod y 12 mis nesaf, symud ymlaen ar yr agenda honno a gwneud yn siŵr, pan ddaw'n ôl ymhen 12 mis ag adroddiad arall, nad yw'r un fath â'r rhai a gawsom eleni a'r llynedd—oherwydd, heblaw am y lluniau, mae llawer iawn yn debyg o ran y cynnwys—a'r flwyddyn cynt. Holl bwynt comisiynydd—ac ni allaf ddweud hyn yn ddigon aml—yw helpu pob un ohonom i gael ein dwyn i gyfrif, a chredaf ei fod wedi colli cyfle da i wneud hynny yma.

In the Children and Young People Committee, when we discussed the report, we talked about what he is going to do over the next 12 months. We have asked him to really beef up the reports that he is going to do. I would like to have a better and clearer understanding of how the casework happens, of how he goes out there, because he is the last resort for an awful lot of kids. He has four caseworkers, 25 staff and an extra £100,000 in his budget, and I want to know what they are doing. To me, they have no other job but to go out there to talk to children, and to go out there to listen to those who have nobody else to advocate for them. That is the role of a children's commissioner, and I would like far more emphasis on that.

Yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, pan fuom yn trafod yr adroddiad, buom yn siarad am yr hyn y mae am ei wneud dros y 12 mis nesaf. Rydym wedi gofyn iddo gryfhau'n sylweddol yr adroddiadau y bydd yn eu gwneud. Hoffwn gael dealltwriaeth well a chliriach o sut y mae'r gwaith achos yn digwydd, o sut y mae'n mynd allan yno, oherwydd ef yw'r gobaith olaf i lawer iawn o blant. Mae ganddo bedwar o weithwyr achos, 25 o staff a £100,000 ychwanegol yn ei gyllideb, ac rwyf am wybod beth y maent yn ei wneud. I mi, nid oes ganddynt waith arall heblaw mynd allan yno i siarad â phlant, a mynd allan yno i wrando ar y rhai sydd heb neb arall i eiriol ar eu cyfer. Dyna swyddogaeth y comisiynydd plant, a hoffwn lawer mwy o bwyslais ar hynny.

That probably sums it up, Minister. I agree with the Liberal Democrats' amendments and we will support them. To be fair, however, it is not about you today. I would like you to bring forward your conclusions from his report, and I would like us to have a debate here on what the Welsh Government thinks of the commissioner's report. However, today is about the role of the Children's Commissioner for Wales, and I would like to see that role being independent, and reporting to the Assembly and not just to the First Minister, and I would like to see all our commissioners really held to account, because they are part of the scrutiny process, and they must be good at it.

Mae hynny'n fwy na thebyg yn crynhoi pethau, Weinidog. Rwyf yn cytuno â gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol a byddwn yn eu cefnogi. I fod yn deg, fodd bynnag, nid yw hyn yn ymwneud â chi heddiw. Hoffwn ichi gyflwyno eich casgliadau o'i adroddiad, a hoffwn inni gael dadl yma am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei feddwl o adroddiad y comisiynydd. Fodd bynnag, mae heddiw'n ymwneud â swyddogaeth Comisiynydd Plant Cymru, a hoffwn weld y swyddogaeth honno'n annibynnol, ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad ac nid dim ond i'r Prif Weinidog, a hoffwn weld ein holl gomisiynwyr yn wirioneddol yn cael eu dwyn i gyfrif, oherwydd maent yn rhan o'r broses graffu, a rhaid iddynt allu gwneud eu gwaith yn dda.

17:42

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I do not intend to make a particularly long contribution this afternoon. [Interruption.] I know; it is a pity, is it not? That is not least because I recognise that a number of other Labour voices are speaking in this debate. However, I felt that I had to raise an important issue in relation to the children's commissioner's agenda that has been worrying me for some time. That was further underlined when he gave evidence to the Children and Young People Committee recently. Indeed, it is not a party political point, as this was something that clearly also concerned Aled Roberts and Bethan Jenkins, who, I think it is fair to say, both shared my dismay at the apparent lack of progress in assessing provision for child and adolescent mental health services across Wales over the past year. I know from long experience here in the Assembly and from ongoing casework in which I am supporting constituents that this is an area where there is significant scope for improvement, with lots of variability in provision across Wales. Yet, year on year, the commissioner comes back to us with little or no progress to report. This time around, it was despite having stated his intention in the previous year's report to robustly scrutinise the progress of CAMHS.

Nid wyf yn bwriadu gwneud cyfraniad arbennig o hir y prynhawn yma. [Torri ar draws.] Rwyf yn gwybod, mae'n drueni, onid yw? Un o'r prif resymau am hynny yw fy mod yn cydnabod bod nifer o leisiau Llafur eraill yn siarad yn y ddadl hon. Fodd bynnag, roeddwn yn teimlo bod rhaid imi godi mater pwysig ynglŷn ag agenda'r comisiynydd plant sydd wedi bod yn fy mhoeni ers cryn amser. Tanlinellwyd hynny ymhellach pan roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ddiweddar. Yn wir, nid yw'n bwynt gwleidyddol, gan fod hyn yn rhywbeth a oedd yn amlwg hefyd yn destun pryder i Aled Roberts a Bethan Jenkins; credaf ei bod yn deg dweud eu bod hwy ill dau'n rhannu fy siom ynghylch y diffyg cynnydd ymddangosiadol o ran asesu darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed ledled Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Gwn o brofiad hir yma yn y Cynulliad ac o waith achos parhaus yr wyf yn cefnogi etholwyr ag ef fod hwn yn faes lle ceir llawer o le i wella, lle ceir llawer o amrywiaeth yn y ddarpariaeth ar draws Cymru. Eto i gyd, flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r comisiynydd yn dod yn ôl atom ag ychydig neu ddim cynnydd i'w adrodd. Y tro hwn, roedd hynny er iddo ddatgan ei fwriad yn adroddiad y flwyddyn flaenorol i graffu'n gadarn ar gynnydd CAMHS.

Do not get me wrong; if there are deficiencies in CAMHS across Wales, I am not trying to lay the blame at the door of the children's commissioner, but I still feel that I am completely in the dark when it comes to understanding the full picture of provision out there on the ground. Despite repeated questioning from me and others in the committee, I did not come away from that meeting any clearer on what the commissioner had achieved in relation to CAMHS or what he hoped to achieve over the next year.

Peidiwch â'm camddeall; os oes diffygion yn CAMHS ledled Cymru, nid wyf yn ceisio beio'r comisiynydd plant, ond rwyf yn dal i deimlo fy mod yn y tywyllwch yn llwyr o ran deall darlun llawn y ddarpariaeth sydd allan yno ar lawr gwlad. Er i mi ac eraill holi dro ar ôl tro yn y pwyllgor, nid adewais y cyfarfod hwnnw'n ddim cliriach ynglŷn â'r hyn yr oedd y comisiynydd wedi'i gyflawni o ran CAMHS na'r hyn yr oedd yn gobeithio ei gyflawni dros y flwyddyn nesaf.

For me, it was the same story when it came to delivery of the national service framework for children and young people, and children's rights impact assessment, too. It is frustrating that, several years down, they are still not being published by the Welsh Government, despite consistent calls from the commissioner and, indeed, from the Children and Young People Committee. I hope that the Minister will be able to address that point in his response today.

I mi, roedd yr un peth yn wir wrth gyflenwi'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc, a'r asesiad o effaith ar hawliau plant, hefyd. Mae'n rhwystredig, nifer o flynyddoedd yn ddiweddarach, nad ydynt o hyd yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, er gwaethaf galwadau cyson gan y comisiynydd ac, yn wir, gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Gobeithiaf y gall y Gweinidog roi sylw i'r pwynt hwnnw yn ei ymateb heddiw.

As I said at the time of the committee scrutiny session, particularly for those of us who have on the committee for a long time, when you see the same topics cropping up again and again, with very little progress, it can be incredibly frustrating. To put it bluntly, you end up asking yourself why we have a commissioner at all if things do not improve. Now, I am sympathetic to the commissioner's predicament in many ways; after all, these are often deep-seated and incredibly complex issues that involve a range of agencies and institutions, and, of course, everything must be seen through the prism of those huge spending pressures that I touched on in the earlier debate. Whether it is a matter of reviewing and strengthening the commissioner's powers, whether the commissioner's office itself needs to review its approach to these key issues, or even if it is simply a case of breaking down the barriers at Welsh Government level, surely it is not beyond us to find a way to speed up progress on what are, after all, really important issues affecting children and young people in Wales.

Fel y dywedais ar adeg sesiwn craffu'r pwyllgor, yn enwedig i'r rhai ohonom sydd wedi bod ar y pwyllgor ers cyfnod hir, pan fyddwch yn gweld yr un pynciau'n ymddangos dro ar ôl tro, gydag ychydig iawn o gynnydd, gall fod yn hynod o rwystredig. I'w roi yn blwmp ac yn blaen, rydych yn gofyn i'ch hun pam mae gennym gomisiynydd o gwbl os nad yw pethau'n gwella. Nawr, rwyf yn cydymdeimlo â sefyllfa anodd y comisiynydd mewn llawer o ffyrdd; wedi'r cyfan, mae'r rhain yn aml yn faterion dwfn a hynod gymhleth sy'n cynnwys ystod o asiantaethau a sefydliadau, ac, wrth gwrs, rhaid edrych ar bopeth drwy brism y pwysau gwario mawr y soniais amdanynt yn y ddadl gynharach. P'un a yw'n fater o adolygu a chryfhau pwerau'r comisiynydd, a oes angen i swyddfa'r comisiynydd ei hun adolygu eu hymagwedd at y materion allweddol hyn, ynteu hyd yn oed a yw'n achos syml o oresgyn rhwystrau ar lefel Llywodraeth Cymru, yn sicr nid yw'r tu hwnt inni i ddod o hyd i ffordd i gyflymu'r cynnydd ar yr hyn sydd, wedi'r cyfan, yn faterion pwysig iawn sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.

17:45

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the key message from the commissioner's report is the need to listen to children and young people. This follows the recent North Wales Police inquiry that resulted in the commissioner's office receiving a total of 99 cases, 48 of which were directly related to abuse in north Wales homes and 24 of which related to child abuse in other settings. The last year or so has highlighted just how crucial it is to have a shift in culture. Operation Yew Tree demonstrates the need for a new culture that creates a climate where children feel that they will be believed and listened to. As a party, we support the devolution of the criminal justice system, and it is my view that, with such powers, we could create such a climate here in Wales, ensuring a relationship between all the relevant bodies that will ensure a co-ordinated approach to abuse wherever it occurs. I agree with Aled Roberts in relation to his comments on the safeguarding of children. I am sorry that he is not in the Chamber now to hear that.

Yn amlwg, neges allweddol adroddiad y comisiynydd yw bod angen gwrando ar blant a phobl ifanc. Mae hyn yn dilyn ymchwiliad diweddar Heddlu Gogledd Cymru a arweiniodd at i swyddfa'r comisiynydd dderbyn cyfanswm o 99 o achosion, a 48 ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â cham-drin mewn cartrefi yn y gogledd a 24 ohonynt yn ymwneud â cham-drin plant mewn lleoliadau eraill. Mae'r flwyddyn neu ddwy ddiwethaf wedi amlygu pa mor bwysig yw newid diwylliant. Mae Operation Yew Tree yn dangos bod angen diwylliant newydd sy'n creu hinsawdd lle mae plant yn teimlo y bydd pobl yn eu credu ac yn gwrando arnynt. Fel plaid, rydym o blaid datganoli'r system cyfiawnder troseddol, ac yn fy marn i, gyda phwerau o'r fath, gallem greu hinsawdd o'r fath yma yng Nghymru, gan sicrhau perthynas rhwng yr holl gyrff perthnasol a fydd yn sicrhau ymagwedd gydlynol tuag at gam-drin lle bynnag y mae'n digwydd. Rwyf yn cytuno â sylwadau Aled Roberts am ddiogelu plant. Mae'n ddrwg gennyf nad yw ef yn y Siambr nawr i glywed hynny.

Last year, the commissioner called on the Welsh Government, if you recall, to publish as a matter of urgency a tackling poverty action plan that would situate actions on child poverty in a child-rights-based framework.

Y llynedd, galwodd y comisiynydd ar Lywodraeth Cymru, os cofiwch, i gyhoeddi cynllun gweithredu trechu tlodi fel mater brys a fyddai'n lleoli'r camau gweithredu ar dlodi plant mewn fframwaith sy'n seiliedig ar hawliau plant.

17:46

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Here he is. He is never far away, I find.

Dyma fo. Rwyf wedi dysgu nad yw byth yn bell i ffwrdd.

17:46

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are too late now, Aled, I am sorry.

Rydych yn rhy hwyr nawr, Aled, mae'n ddrwg gennyf.

As we know, the Government did publish an action plan in June 2012. However, in his annual report for 2012-13, the commissioner states:

Fel y gwyddom, ni wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi cynllun gweithredu ym mis Mehefin 2012. Fodd bynnag, yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2012-13, mae'r comisiynydd yn nodi:

'it was of particular concern to me that there is an apparent loss of a clear rights based framework in line with the Ministers duty of due regard to the UNCRC.'

'roedd yn destun pryder arbennig imi ei bod yn ymddangos ein bod yn colli fframwaith clir sy'n seiliedig ar hawliau yn unol â dyletswydd Gweinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP.'

I was very pleased to hear the Minister's announcement in his speech earlier that, tomorrow, something will be launched in relation to this. I do not suppose that this debate today had anything to do with the timing of that. I am sure it is a complete coincidence, but I think—[Interruption.] Of course, Jeff; of course it is a complete coincidence. I am sure that we will all be keen to see what happens following that launch.

Roeddwn yn falch iawn o glywed cyhoeddiad y Gweinidog yn ei araith yn gynharach y caiff rhywbeth ei lansio yfory mewn cysylltiad â hyn. Nid wyf yn tybio bod gan y ddadl hon heddiw unrhyw beth i'w wneud ag amseriad hynny. Rwyf yn siŵr ei fod yn gyd-ddigwyddiad llwyr, ond rwyf yn meddwl—[Torri ar draws.] Wrth gwrs, Jeff; wrth gwrs mai cyd-ddigwyddiad llwyr ydyw. Rwyf yn siŵr y byddwn i gyd yn awyddus i weld beth sy'n digwydd ar ôl y lansiad.

I would like to hear the Minister's explanation as to why the commissioner felt that he had to make that view known, even if his point was very politely made, or whether he was wrong. It would be interesting to hear why the Government feels that the commissioner's concerns are misplaced. It is of course a well-established international standard of best practice to base actions on a rights-based context and I am sure that none of us here would want any less for children in our country.

Hoffwn glywed eglurhad y Gweinidog ynglŷn â pham roedd y comisiynydd yn teimlo bod rhaid iddo wneud y farn honno'n hysbys, hyd yn oed os gwnaethpwyd ei bwynt yn gwrtais iawn, neu os oedd yn anghywir. Byddai'n ddiddorol clywed pam mae'r Llywodraeth yn teimlo bod pryderon y comisiynydd yn gyfeiliornus. Wrth gwrs, mae'n safon arfer gorau ryngwladol sefydledig i seilio camau gweithredu ar gyd-destun sy'n seiliedig ar hawliau ac rwyf yn siŵr na fyddai neb ohonom yma am gael dim llai i blant yn ein gwlad.

I know that CAMHS has already been mentioned, and it is mentioned every year. The truth is that you can hear about something so often that you miss it, or it just passes you by because it is there again, mentioned in the list of things that we must do better. CAMHS in Wales is a scandal and we should not tolerate it any longer. Yes, I agree that the children's commissioner should not tolerate it, but it is our job here to scrutinise the Welsh Government, and not to put that job on to the children's commissioner. It is our job to make the Ministers here do the right thing.

Gwn fod CAMHS eisoes wedi cael ei grybwyll, ac mae'n cael ei grybwyll bob blwyddyn. Y gwir yw y gallwch glywed am rywbeth mor aml nes eich bod yn ei fethu, neu nad ydych yn sylwi arno gan ei fod yno eto, wedi'i grybwyll yn y rhestr o bethau y mae'n rhaid inni eu gwneud yn well. Mae CAMHS yng Nghymru yn sgandal ac ni ddylem ei oddef mwyach. Ydw, rwyf yn cytuno na ddylai'r comisiynydd plant ei oddef, ond ein gwaith ni yma yw craffu ar Lywodraeth Cymru, a pheidio â rhoi'r gwaith hwnnw i'r comisiynydd plant. Ein gwaith ni yw gofalu bod y Gweinidogion yma'n gwneud y peth iawn.

17:49

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member for taking an intervention, but I am afraid that I simply do not agree. There is no point in paying all these people to be commissioners if they do not step up to the plate. We all need to scrutinise, and it is incredibly important. They have to scrutinise us to make us scrutinise them, as well as scrutinising the Welsh Government. It is a vital part of their job.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad, ond mae arnaf ofn nad wyf yn cytuno o gwbl. Nid oes diben talu'r holl bobl hyn i fod yn gomisiynwyr os nad ydynt yn ateb yr alwad. Mae angen i bob un ohonom graffu, ac mae'n hynod o bwysig. Mae'n rhaid iddynt graffu arnom ni i wneud i ni graffu arnynt hwy, yn ogystal â chraffu ar Lywodraeth Cymru. Mae'n rhan hanfodol o'u gwaith.

17:49

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that we are disagreeing, Angela. What I am saying is that we cannot give that responsibility to the children's commissioner and then think that we have done enough. On the issue of CAMHS, when I sat on the Children and Young People Committee we did a review of CAMHS, and I have to tell you that I have never been so angry in a committee. I wanted to leap across the desk and grab somebody warmly by the throat. [Laughter.] I nearly did, but I am able to control myself, despite the barefaced cheek of people who would come to this Assembly and give evidence in such a matter-of-fact fashion. You gave some very good examples, Angela, from your own constituency case load, and I doubt that those cases have been resolved as yet.

Nid wyf yn meddwl ein bod yn anghytuno, Angela. Yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw na allwn roi'r cyfrifoldeb i'r comisiynydd plant ac wedyn feddwl ein bod wedi gwneud digon. O ran CAMHS, pan eisteddais ar y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gwnaethom adolygiad o CAMHS, a rhaid imi ddweud wrthych nad wyf erioed wedi bod mor ddig mewn pwyllgor. Roedd arnaf eisiau neidio ar draws y ddesg a gafael yn rhywun yn gynnes gerfydd y gwddf. [Chwerthin.] Bu bron imi wneud hynny, ond rwyf yn gallu rheoli fy hun, er gwaethaf digywilydd-dra llwyr y bobl a fyddai'n dod i'r Cynulliad hwn ac yn rhoi tystiolaeth mewn ffordd mor ddidaro. Rhoesoch enghreifftiau da iawn, Angela, o lwyth achosion eich etholaeth chi, ac mae gennyf amheuaeth a yw'r achosion hynny wedi cael eu datrys hyd yn hyn.

We feel, as well, that education is crucial to increasing social mobility and enhancing the life chances of our children; I think that we would all agree with that. Plaid Cymru's top priority for education is to close the attainment gap between the poorer and more advantaged pupils, as well as equalising children's life chances and improving social mobility. If we could raise the educational attainment levels in Wales as a whole, it would benefit the economy; that is an obvious thing to say, I suppose.

Rydym yn teimlo, hefyd, bod addysg yn hanfodol i gynyddu symudedd cymdeithasol a gwella cyfleoedd bywyd ein plant; rwyf yn meddwl y byddem i gyd yn cytuno â hynny. Prif flaenoriaeth Plaid Cymru ar gyfer addysg yw cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgyblion tlotach a'r rhai mwy breintiedig, yn ogystal â chydraddoli cyfleoedd bywyd plant a gwella symudedd cymdeithasol. Pe gallem godi lefelau cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, byddai o fudd i'r economi; mae hynny'n beth amlwg i'w ddweud, mae'n debyg.

The Welsh Government should set more ambitious targets for closing that disadvantage gap, and also set out how it will achieve it.

Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau mwy uchelgeisiol i gau'r bwlch anfantais hwnnw, a nodi hefyd sut y byddant yn cyflawni hynny.

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conclude with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

17:51

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will not finish; I will just finish on that point, Deputy Presiding Officer.

Nid wyf am orffen; rwyf am orffen ar y pwynt hwnnw, Ddirprwy Lywydd.

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that Aled Roberts had left the Chamber for very long, but it does give me an opportunity to remind Members that, if you have spoken in a debate, you must stay in the Chamber; the only exception is if there is a compelling reason. I know that many of us are suffering from the dreaded lurgy at the moment, and one or two Members have had to go outside to have a drink of water. However, even then, it is a courtesy to tell me so that I know what is happening. I shall not be so indelicate as to list other compelling reasons, but I think that Members will understand. [Laughter.] I call Julie Morgan.

Nid wyf yn meddwl bod Aled Roberts wedi gadael y Siambr am amser hir iawn, ond mae'n rhoi cyfle imi i atgoffa Aelodau, os ydych wedi siarad mewn dadl, bod rhaid ichi aros yn y Siambr; yr unig eithriad yw os oes rheswm cymhellol. Gwn fod llawer ohonom yn dioddef o ryw fân salwch ar hyn o bryd, a bod un neu ddau Aelod wedi gorfod mynd allan i gael diod o ddŵr. Fodd bynnag, hyd yn oed wedyn, cwrteisi yw dweud wrthyf fel fy mod yn gwybod beth sy'n digwydd. Nid wyf am fod mor ddi-chwaeth â rhestru rhesymau cymhellol eraill, ond rwyf yn meddwl y bydd yr Aelodau'n deall. [Chwerthin.] Galwaf ar Julie Morgan.

17:51

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for calling me to speak in this debate on the children's commissioner's annual report. I am particularly pleased that this debate is taking place on the day that Professor Kirsten Sandberg, chair of the United Nations Committee on the Rights of the Child, has been visiting the Assembly, speaking to the cross-party group on children and looking at the progress that there has been in Wales on a rights-based agenda.

Diolch yn fawr iawn am fy ngalw i siarad yn y ddadl hon am adroddiad blynyddol y comisiynydd plant. Rwyf yn arbennig o falch bod y ddadl hon yn cael ei chynnal ar y diwrnod y mae'r Athro Kirsten Sandberg, cadeirydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, wedi bod yn ymweld â'r Cynulliad, yn siarad â'r grŵp trawsbleidiol ar blant ac yn edrych ar y cynnydd a fu yng Nghymru ar agenda sy'n seiliedig ar hawliau.

Wales took a bold step forward in 2011 when it introduced the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which puts a duty on all Welsh Ministers, and the First Minister, to consider the rights of the child, as defined by the United Nations Convention on the Rights of the Child, in all of their actions. I think that it is very important that we continue to work hard to make this a reality. We have undergone training in some of the committees to try to ensure that we understand how you approach a children's rights-based agenda. I think that it is true to say that we are still learning how to do it. However, I think that it is very important that we continue to try to have this approach, where, with everything that we do, we think about how it will affect children and try to listen to children's voices.

Cymerodd Gymru gam beiddgar ymlaen yn 2011 pan gyflwynodd Fesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n rhoi dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru, a'r Prif Weinidog, i ystyried hawliau'r plentyn, fel y'u diffinnir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn eu holl weithredoedd. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn parhau i weithio'n galed i wneud hyn yn realiti. Rydym wedi cael hyfforddiant yn rhai o'r pwyllgorau i geisio sicrhau ein bod yn deall sut y byddwch yn mynd ati i lunio agenda sy'n seiliedig ar hawliau plant. Rwyf yn meddwl ei bod yn wir dweud ein bod yn dal i ddysgu sut i wneud hynny. Fodd bynnag, credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn parhau i geisio cael yr ymagwedd hon, lle'r ydym, gyda phopeth a wnawn, yn meddwl am sut y bydd yn effeithio ar blant ac yn ceisio gwrando ar leisiau plant.

I think that it is also very pleasing, as a result of this rights-based approach from the Assembly, that the City and County of Swansea embedded the UN Convention on the Rights of the Child into all of its work with children at an event not so long ago. Swansea council was, in fact, the first in Wales to adopt the UN Convention on the Rights of the Child, enshrining the rights of children in council policy. I know that there was an event where many children came and it was a very upbeat occasion. I hope that that will progress, and that the policy will reflect the voices of those children who were at that very important event. Cardiff Council has also taken a step forward on the children's rights agenda, because it signed up to the campaign to remove the defence of reasonable chastisement, as part of a commitment to the rights of the child.

Rwyf yn meddwl ei bod hefyd yn foddhaol iawn, o ganlyniad i'r ymagwedd seiliedig ar hawliau hon gan y Cynulliad, bod Dinas a Sir Abertawe wedi ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn eu holl waith gyda phlant mewn digwyddiad diweddar. Cyngor Abertawe, mewn gwirionedd, oedd y cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan ymgorffori hawliau plant ym mholisïau'r cyngor. Gwn fod llawer o blant yn bresennol yn y digwyddiad a'i fod yn achlysur llawen iawn. Rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n symud ymlaen, ac y bydd y polisi'n adleisio lleisiau'r plant hynny a oedd yn y digwyddiad pwysig iawn hwnnw. Mae Cyngor Caerdydd hefyd wedi cymryd cam ymlaen o ran agenda hawliau plant, drwy ymrwymo i'r ymgyrch i gael gwared ar amddiffyniad cosbedigaeth resymol, fel rhan o ymrwymiad i hawliau'r plentyn.

In his report, Keith Towler stresses how important it is to continue to ensure that the children's rights Measure is effective, because I think that it is very easy to have a written commitment, but actually turning that commitment into action is very difficult. He also refers specifically, in his document, to the equal protection of children and young people, and the removal of the defence of reasonable chastisement, as something that the Welsh Government needs to do as swiftly as possible.

Yn ei adroddiad, mae Keith Towler yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw i barhau i sicrhau bod y Mesur hawliau plant yn effeithiol, oherwydd rwyf yn credu ei bod yn hawdd iawn cael ymrwymiad ysgrifenedig, ond yn anodd iawn rhoi'r ymrwymiad hwnnw ar waith mewn gwirionedd. Mae hefyd yn cyfeirio'n benodol, yn ei ddogfen, at amddiffyn plant a phobl ifanc yn gyfartal, a chael gwared ar amddiffyniad cosbedigaeth resymol, fel rhywbeth y mae angen i Lywodraeth Cymru ei wneud cyn gynted ag y bo modd.

The chair of the United Nations Committee on the Rights of the Child, in her address to us in the children's cross-party group at lunch time, made it very clear that she thought that the Welsh Government was moving towards doing this as swiftly as possible, and that she hopes that this will happen.

Yn ei hanerchiad inni yn y grŵp trawsbleidiol ar blant yn ystod amser cinio, gwnaeth cadeirydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn hi'n glir iawn ei bod yn credu bod Llywodraeth Cymru yn symud tuag at wneud hyn cyn gynted ag y bo modd, a'i bod yn gobeithio y bydd hyn yn digwydd.

There are a few other points that I want to make, swiftly. I was pleased to see the project work that the children's commissioner is taking forward—and the Minister has already referred to that—regarding referral units and access to school for disabled children and young people, but I am particularly pleased that he is looking at short breaks for the carers of disabled children and young people. It is very important that, if you provide those breaks, there is also an opportunity for the children who have the breaks to enjoy activities that they might not otherwise have the opportunity to take part in. It is as important for the children and young people to have access to meaningful activities as it is for the carers to have the opportunity of a break.

Hoffwn wneud rhai pwyntiau eraill, yn gyflym. Roeddwn yn falch o weld y gwaith prosiect y mae'r comisiynydd plant yn bwrw ymlaen ag ef—ac mae'r Gweinidog eisoes wedi cyfeirio at hynny—o ran unedau cyfeirio a mynediad i'r ysgol i blant a phobl ifanc anabl, ond rwyf yn arbennig o falch ei fod yn edrych ar seibiannau byr i ofalwyr plant a phobl ifanc anabl. Mae'n bwysig iawn, os ydych yn darparu'r seibiannau hynny, bod cyfle hefyd i'r plant sy'n cael y seibiannau i fwynhau gweithgareddau na fyddent o reidrwydd yn cael cyfle i gymryd rhan ynddynt fel arall. Mae'r un mor bwysig i blant a phobl ifanc gael mynediad at weithgareddau ystyrlon ag y mae i'r gofalwyr gael cyfle i gael seibiant.

I have listened to the debate today and a number of Members have said that the same things are said year after year. In some ways, it is inevitable that the same themes will be reiterated, because they are the important themes. What the Minister said in his opening remarks indicated that there has been progress; there has been progress, but it will always be slow progress and the office of the children's commissioner is a huge aid in highlighting the sorts of issues that we have to address. However, the responsibility for what actually happens is here with Ministers and with us as backbenchers in scrutinising Ministers. So, I think that the office of the children's commissioner is doing a good job in terms of providing this check on what is happening with our policies for children in the Assembly.

Rwyf wedi gwrando ar y ddadl heddiw ac mae nifer o Aelodau wedi dweud bod yr un pethau'n cael eu dweud flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mewn rhai ffyrdd, mae'n anochel y bydd yr un themâu'n cael eu hailadrodd, oherwydd hwy yw'r themâu pwysig. Mae'r hyn a ddywedodd y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol yn dangos y bu cynnydd; bu cynnydd, ond bydd bob amser yn gynnydd araf ac mae swyddfa'r comisiynydd plant yn gymorth enfawr o ran tynnu sylw at y math o faterion y mae'n rhaid inni roi sylw iddynt. Fodd bynnag, cyfrifoldeb Gweinidogion, a'n cyfrifoldeb ni fel meincwyr cefn sy'n craffu ar y Gweinidogion, yw'r hyn sy'n digwydd yma mewn gwirionedd. Felly, rwyf yn credu bod swyddfa'r comisiynydd plant yn gwneud gwaith da o ran darparu'r gwiriad hwn o'r hyn sy'n digwydd gyda'n polisïau ni ar gyfer plant yn y Cynulliad.

17:56 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

About 10 days ago, I attended a wonderful concert at the Motorpoint Arena here in Cardiff, in which 1,000 children and young people from across south Wales took part in aid of Children in Need. It was organised by a voluntary organisation called Hybu Pobl Ifanc whose aim is to celebrate the contribution of young people to society, which is unfortunately too often overlooked by adults, who have a greater say.

Tua 10 diwrnod yn ôl, bûm mewn cyngerdd gwych yn Arena Motorpoint yma yng Nghaerdydd, lle bu 1,000 o blant a phobl ifanc o bob rhan o'r de yn cymryd rhan er budd Plant mewn Angen. Fe'i trefnwyd gan sefydliad gwirfoddol o'r enw Hybu Pobl Ifanc sy'n ceisio dathlu cyfraniad pobl ifanc at gymdeithas, sydd yn anffodus yn rhy aml yn cael ei anwybyddu gan oedolion, sy'n cael mwy o lais.

There was a reference to the importance of smashing the stereotypes regarding children and young people in the children's commissioner's report, and I entirely endorse that. Children are too often seen as a nuisance to be managed and corralled, rather than a gift to be nurtured and celebrated. For example, when I attend Police and Communities Together meetings, too often people are complaining about children playing outside and being a noise nuisance, or possibly even damaging people's cars. However, there is not the same commitment to creating the play facilities that children need in order to enable them to play outside safely. Therefore, the Children and Families (Wales) Measure 2010, which commits all local authorities to doing play sufficiency assessments, is an important tool to ensure that children's play needs are looked at.

Roedd adroddiad y comisiynydd plant yn cyfeirio at bwysigrwydd chwalu'r stereoteipiau ynghylch plant a phobl ifanc, ac rwyf yn llwyr ategu hynny. Yn rhy aml, caiff plant eu hystyried yn niwsans i'w rheoli a'u corlannu, yn hytrach na rhodd i'w meithrin a'u dathlu. Er enghraifft, pan fyddaf yn mynychu cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd, yn rhy aml, mae pobl yn cwyno am blant yn chwarae y tu allan ac yn bod yn niwsans sŵn, neu o bosibl hyd yn oed yn difrodi ceir pobl. Fodd bynnag, nid oes yr un ymrwymiad i greu'r cyfleusterau chwarae sydd eu hangen ar blant i'w galluogi i chwarae y tu allan yn ddiogel. Felly, mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sy'n ymrwymo'r holl awdurdodau lleol i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae, yn arf pwysig i sicrhau bod anghenion chwarae plant yn cael eu hystyried.

Equally, we have the Equality Act 2010, which requires local authorities to plan accessible schools for disabled pupils, yet disabled children are too often not able to attend the local school along with their peers. I know that the Minister for Communities and Tackling Poverty, in the discussions that we had a week or two ago on the framework for action on independent living, has taken action to remind local authorities of their responsibilities in relation to the accessibility of school buildings. However, there appears to be a considerable discrepancy between the status of schools and FE colleges, as FE colleges fall within the duty to make reasonable adjustments, while schools are, in fact, exempt from it as regards their buildings. I think that we need to take a step forward in ensuring that there is real inclusion in all of our schools, so that we have lifts and ramps fitted where possible, in order to ensure that people can attend their local school.

Yn yr un modd, mae gennym Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio ysgolion hygyrch i ddisgyblion anabl, ac eto, yn rhy aml, nid yw plant anabl yn gallu mynychu'r ysgol leol gyda'u cyfoedion. Gwn fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn y trafodaethau a gawsom wythnos neu ddwy yn ôl am y fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol, wedi cymryd camau i atgoffa awdurdodau lleol o'u cyfrifoldebau o ran hygyrchedd adeiladau ysgol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gwahaniaeth sylweddol rhwng statws ysgolion a cholegau addysg bellach; mae colegau addysg bellach yn dod o fewn y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, tra bod ysgolion, mewn gwirionedd, wedi'u heithrio ohoni o ran eu hadeiladau. Credaf fod angen inni gymryd cam ymlaen o ran sicrhau bod cynhwysiant go iawn ym mhob un o'n hysgolion, fel bod lifftiau a rampiau'n cael eu gosod lle bo'n bosibl, i sicrhau y gall pobl fynychu eu hysgol leol.

The ongoing investigation into what happened at Bryn Estyn children's home and, more recently, the adding of Cardiff Royal Infirmary in my constituency to the investigation of the abuse committed by Jimmy Savile reminds us that people in high places continue to get away with abusing children, simply because the voices and testimonies of children have not been taken seriously in the past. It is very important that the role of the children's commissioner exists to ensure that these appalling crimes are high in our minds when we legislate or devise policy.

Mae'r ymchwiliad sy'n parhau i'r hyn a ddigwyddodd yng nghartref plant Bryn Estyn ac, yn fwy diweddar, ychwanegu Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn fy etholaeth at ymchwiliad y cam-drin a gyflawnwyd gan Jimmy Savile yn ein hatgoffa bod pobl mewn mannau uchel yn parhau i gam-drin plant heb gael eu dal, dim ond am nad oedd lleisiau a thystiolaeth plant yn cael eu cymryd o ddifrif yn y gorffennol. Mae'n bwysig iawn bod swyddogaeth y comisiynydd plant yn bodoli i sicrhau bod y troseddau ofnadwy hyn yn glir yn ein meddyliau pan fyddwn yn deddfu neu'n llunio polisi.

It has to be the duty of all of us, not just of the children's commissioner, to ensure that children's needs are being met. I continue to be shocked by the decisions of some public bodies, which ignore the impact of their decisions on children. For example, the state proposes to deport the mother of one of my constituents, a two-year-old girl, and invite her to reapply from her country of origin in the hope of being able to re-join her husband and child in this country, who are British citizens. This is on the grounds that her father, a British citizen, can look after his daughter unaided, and that his need to hold down his job is a choice. The child's right to a family life is of no consequence to those whose task is to satisfy a deportation target. I find it extraordinary that we are in that position.

Rhaid iddi fod yn ddyletswydd ar bob un ohonom, nid dim ond y comisiynydd plant, i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu. Rwyf yn parhau i gael fy synnu gan benderfyniadau rhai cyrff cyhoeddus, sy'n anwybyddu effaith eu penderfyniadau ar blant. Er enghraifft, mae'r wladwriaeth yn bwriadu alltudio mam un o fy etholwyr, merch dwy flwydd oed, a'i gwahodd i ailymgeisio o'i gwlad enedigol yn y gobaith o allu ailymuno â'i gŵr a'i phlentyn yn y wlad hon, sy'n ddinasyddion Prydeinig. Mae hyn ar y sail y gall ei thad, sy'n ddinesydd Prydeinig, ofalu am ei ferch heb gymorth, ac mai dewis cadw ei swydd y mae. Nid yw hawl y plentyn i fywyd teuluol o unrhyw bwys i'r rhai sydd â'r dasg o fodloni targed alltudio. Rwy'n ei chael hi'n anhygoel ein bod yn y sefyllfa honno.

I do not support the amendments. I think that they are one-sided and latch on to individual concerns, rightly raised by the children's commissioner, but that is no grounds for making generalisations. We cannot ignore the good work in supporting, nurturing and advocating for children that is going on across many public services, despite reductions in budgets. I cannot see how amendment 3 might assist the case of the child that I have just referred to, unless the UK Government was prepared to give the Children's Commissioner for Wales responsibilities for non-devolved areas, and I am not aware that that is the case. However, perhaps the Minister could put us right.

Nid wyf yn cefnogi'r gwelliannau. Rwyf yn meddwl eu bod yn unochrog ac yn cydio mewn pryderon unigol, a godwyd yn gywir gan y comisiynydd plant, ond nid yw hynny'n sail dros gyffredinoli. Ni allwn anwybyddu'r gwaith da o ran cefnogi plant, eu meithrin ac eiriol drostynt sy'n digwydd ar draws llawer o wasanaethau cyhoeddus, er gwaethaf gostyngiadau mewn cyllidebau. Ni allaf weld sut y gallai gwelliant 3 gynorthwyo achos y plentyn yr wyf newydd gyfeirio ati, oni bai bod Llywodraeth y DU yn barod i roi cyfrifoldebau i Gomisiynydd Plant Cymru mewn meysydd sydd heb eu datganoli, ac nid wyf yn ymwybodol eu bod. Fodd bynnag, efallai y gallai'r Gweinidog ein cywiro.

18:02 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Many members of the Children and Young People Committee have made reference to the fact that we had a scrutiny session with the children's commissioner. I make no apologies that most of that meeting was taken up with discussion of his office and how he organises his office, because his annual report is our opportunity to scrutinise whether the children's commissioner is delivering and making the lives of the children of Wales better. So, part of what I want to say touches on what we referred to in committee.

Mae llawer o aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi cyfeirio at y ffaith ein bod wedi cael sesiwn craffu gyda'r comisiynydd plant. Ni wnaf ymddiheuro bod y rhan fwyaf o'r cyfarfod hwnnw wedi'i dreulio'n trafod ei swyddfa a sut y mae'n trefnu ei swyddfa, oherwydd ei adroddiad blynyddol yw ein cyfle i graffu i weld a yw'r comisiynydd plant yn cyflawni ac yn gwella bywydau plant Cymru. Felly, mae rhan o'r hyn yr wyf am ei ddweud yn cyffwrdd ar yr hyn y gwnaethom gyfeirio ato yn y pwyllgor.

I was slightly worried about the cost of the annual report this year. I do not think that I am that out of touch with children—I know that I have had a birthday with a big '0' on the end of it, but I still think that I know what a child looks like. I know how a child behaves, because I behave like a child myself very often, and so I did not really need a full-page artist's impression to tell me what children look like today. I wonder whether that was put in there as a distraction, rather than there being an attempt to get to the real meat of his report.

Rwyf yn poeni ychydig am gost yr adroddiad blynyddol eleni. Nid wyf yn meddwl fy mod mor bell â hynny allan o gysylltiad â phlant—rwyf yn gwybod fy mod wedi cael pen-blwydd â '0' mawr ar ei ddiwedd, ond rwyf yn dal i feddwl fy mod yn gwybod sut y mae plentyn yn edrych. Rwyf yn gwybod sut y mae plentyn yn ymddwyn, oherwydd rwyf yn ymddwyn fel plentyn fy hun yn aml iawn, ac felly nid oedd wir angen darlun tudalen lawn gan artist i ddweud wrthyf sut mae plant yn edrych heddiw. Tybed a gafodd hwnnw ei gynnwys er mwyn tynnu sylw ato, yn hytrach nag fel ymgais i gyrraedd cig go iawn ei adroddiad.

Costs were mentioned, and we honed in on the number of people that he has working for him. I think that Angela Burns made reference to the number of caseworkers—'Oh, for another caseworker' is my plea—and the number of cases that the children's commissioner mentioned in his report. If you look at them, they have quite a good job to do. They may be very difficult cases or they may be very heart-rending cases, but, nevertheless, most of our casework tends to be like that as well. So, I say to the commissioner that brevity is not always wrong, and that, if you are targeting your report at a set of people, fine, but there is nothing to stop you from targeting a report in a different way. However, I think that this report has left a lot out, while putting in a lot of information that we already knew.

Cafodd costau eu crybwyll, a gwnaethom edrych yn fanwl ar nifer y bobl sy'n gweithio iddo. Credaf fod Angela Burns wedi cyfeirio at nifer y gweithwyr achos—'O, am weithiwr achos arall' yw fy mhle—a nifer yr achosion y soniodd y comisiynydd plant amdanynt yn ei adroddiad. Os edrychwch arnynt, mae ganddynt waith eithaf da i'w wneud. Efallai eu bod yn achosion anodd iawn, neu'n achosion ingol iawn, ond, serch hynny, mae'r rhan fwyaf o'n gwaith achos ninnau'n tueddu i fod fel yna. Felly, dywedaf wrth y comisiynydd nad yw bod yn gryno yn anghywir bob amser, ac, os ydych yn targedu eich adroddiad at set o bobl, iawn, ond nid oes dim yn eich atal rhag targedu adroddiad mewn ffordd wahanol. Fodd bynnag, credaf fod yr adroddiad hwn wedi hepgor llawer, a chynnwys llawer o wybodaeth yr oeddem eisoes yn ei gwybod.

I want to talk about the commissioner's outreach work. I remain unconvinced that the commissioner travels the length and breadth of Wales in such a way that he gets into those hard-to-reach areas. Angela Burns and others on the committee referred to this. It is easy when children come forward and want to tell you what their experiences are. It is easy when children engage with you. It is great when you go into a school and they all engage with you. It is fantastic, it is lovely, and you walk away and you find it really good. However, what about that one child who sits at the back of the class?

Hoffwn siarad am waith allgymorth y comisiynydd. Nid wyf yn argyhoeddedig bod y comisiynydd yn teithio digon ar hyd a lled Cymru i fynd i mewn i'r ardaloedd anodd eu cyrraedd. Mae Angela Burns ac eraill ar y pwyllgor wedi cyfeirio at hyn. Mae'n hawdd pan ddaw plant atoch yn awyddus i ddweud wrthych beth yw eu profiadau. Mae'n hawdd pan fydd plant yn ymgysylltu â chi. Mae'n wych pan ewch i mewn i ysgol, ac maent i gyd yn cysylltu â chi. Mae'n wych, mae'n hyfryd, ac rydych yn cerdded i ffwrdd ac yn ei chael yn wirioneddol dda. Fodd bynnag, beth am yr un plentyn sy'n eistedd yng nghefn y dosbarth?

What about that one child who probably does not come into the classroom? How do you engage with those people? As Members have mentioned, we have seen the same issues referred to. Certainly, CAMHS is constantly referred to. I think that, if you get it right, there is no need to keep referring to it, so, I think that there is a need for the children's commissioner to go in, make a decision, and get it right. If we need to be told, as a Welsh Government, or as an Assembly, that we are not doing things right, then so be it, but we need to put it right so that we do not have to constantly report the same things. Aled mentioned school toilets. I remember the first children's commissioner's report on school toilets, but there we go. We are still going there.

Beth am yr un plentyn nad yw yn ôl pob tebyg yn dod i mewn i'r ystafell ddosbarth? Sut yr ydych yn ymgysylltu â'r bobl hynny? Fel y mae Aelodau wedi sôn, rydym wedi gweld yr un materion yn cael sylw. Yn sicr, mae CAMHS yn cael sylw'n gyson. Rwyf yn meddwl, os cewch chi hyn yn iawn, nad oes angen cyfeirio ato drwy'r amser, felly, rwyf yn meddwl bod angen i'r comisiynydd plant fynd i mewn, gwneud penderfyniad, a'i wneud yn iawn. Os bydd angen dweud wrthym, fel Llywodraeth Cymru, neu fel Cynulliad, nad ydym yn gwneud pethau'n iawn, yna felly y bo, ond mae angen inni unioni'r sefyllfa fel nad ydym yn gorfod adrodd am yr un pethau'n gyson. Soniodd Aled am doiledau ysgol. Rwyf yn cofio adroddiad y comisiynydd plant cyntaf ar doiledau ysgol, ond dyna ni. Rydym yn dal i sôn amdanynt.

The commissioner has a job to do. If I go into a school and mention the children's commissioner, I have been met with blank faces. People look at me and say, 'Oh, okay. What does he or she do?' In his report, the commissioner has a rather spurious statistic that 1.4 billion opportunities have been created for people to hear about his work in his role as the commissioner, but there is no evidence to back that up.

Mae gan y comisiynydd waith i'w wneud. Os af i mewn i ysgol a sôn am y comisiynydd plant, mae pobl wedi edrych yn syn arnaf. Mae pobl yn edrych arnaf ac yn dweud, 'O, iawn. Beth mae ef neu hi yn ei wneud?' Yn ei adroddiad, mae gan y comisiynydd ystadegyn eithaf ffugiol bod 1.4 biliwn o gyfleoedd wedi'u creu i bobl glywed am ei waith yn ei swyddogaeth fel comisiynydd, ond nid oes tystiolaeth i ategu hynny.

The report points to his communications and press work, and he says that there has been an increase in media coverage. We all know that there has been an increase in media coverage and it has been for the wrong reasons. However, the commissioner still has to convince me that he is reaching out to all the children of Wales. I think that, when he comes to the end of his tenure, he seriously has to ask himself, 'What will my legacy be for the children of Wales?'

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ei waith cyfathrebu a'i waith i'r wasg, ac mae'n dweud y bu cynnydd yn y sylw yn y cyfryngau. Rydym i gyd yn gwybod y bu cynnydd yn y sylw yn y cyfryngau ac roedd hynny am y rhesymau anghywir. Fodd bynnag, nid yw'r comisiynydd wedi fy argyhoeddi ei fod yn cyrraedd holl blant Cymru. Credaf, pan ddaw at ddiwedd ei gyfnod, bod rhaid iddo ofyn yn ddifrifol iddo ei hun, 'Beth fydd fy etifeddiaeth i blant Cymru?'

18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

I call the Minister to reply to the debate.

18:07 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I am very grateful to those Members who have taken part in this discussion. Thank you all for your comments. All points raised by the commissioner in his report and by Members in the Chamber today will be addressed in our final written response, which we will publish at the end of this month. As I have said, I will issue a written statement at that time to make Members aware of it and provide a link.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Aelodau hynny sydd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth hon. Diolch i chi i gyd am eich sylwadau. Bydd yr holl bwyntiau a godwyd gan y comisiynydd yn ei adroddiad a gan Aelodau yn y Siambr heddiw'n cael sylw yn ein hymateb ysgrifenedig terfynol y byddwn yn ei gyhoeddi ar ddiwedd y mis hwn. Fel y dywedais, byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig bryd hynny i sicrhau bod Aelodau'n ymwybodol o hynny ac yn darparu dolen.

Notwithstanding that, in terms of some of the points raised today, I would like to make a few brief comments. Aled Roberts used the phrase 'strategy, strategy, strategy'. It is important to have a strategy, of course, otherwise you do not know in which direction you are heading, but I acknowledge that the strategy has to be a means to an end. I believe that things are improving, although it is entirely a matter for other people how they interpret the commissioner's report.

Er gwaethaf hynny, o ran rhai o'r pwyntiau a godwyd heddiw, hoffwn wneud ychydig o sylwadau byr. Defnyddiodd Aled Roberts yr ymadrodd 'strategaeth, strategaeth, strategaeth'. Mae'n bwysig cael strategaeth, wrth gwrs, neu ni fyddwch yn gwybod i ba gyfeiriad yr ydych yn mynd; ond rwyf yn cydnabod bod rhaid i'r strategaeth fod yn fodd o gyrraedd targed. Rwyf yn credu bod pethau'n gwella, er mai mater i bobl eraill yw sut y maent yn dehongli adroddiad y comisiynydd.

Aled mentioned specifically the issue of school toilets. I remember the 'Lifting the Lid' report from the previous commissioner. You went on to say that the reporting arrangements were highly questionable. What I will do is carry out some research in that regard and I will ask officials to check on the mechanics of the reporting arrangements, and how satisfied we are that that and other issues that were referred to are coming back to us in a coherent form. Clearly, that is very important.

Soniodd Aled yn benodol am doiledau ysgol. Rwyf yn cofio'r adroddiad 'Codi'r Clawr' gan y comisiynydd blaenorol. Aethoch ymlaen i ddweud bod y trefniadau adrodd yn amheus iawn. Yr hyn a wnaf yw gwneud rhywfaint o ymchwil yn hynny o beth, a gofyn i swyddogion edrych ar fecanwaith y trefniadau adrodd, a gweld pa mor fodlon yr ydym bod hynny a materion eraill y cyfeiriwyd atynt yn dod yn ôl atom ar ffurf gydlynol. Yn amlwg, mae hynny'n bwysig iawn.

Angela Burns mentioned the report being 'woolly'—that was one of the words you used—and said that, indeed, he missed an opportunity. I must stress that the children's commissioner is independent and he or she takes responsibility for the content of his or her report—his report at the moment, obviously. It is not for us to seek to guide how that report is constructed and what is in it. They will be his recommendations to Government for us to discuss and debate. His role is indeed to speak for children, but he is not the only one who does that. Clearly, we and our partners out there have a huge role to play in making the world a better place for children. So, it is very much a partnership approach.

Dywedodd Angela Burns fod yr adroddiad yn 'wlanog'—dyna oedd un o'r geiriau a ddefnyddiwyd gennych—a dywedodd ei fod, yn wir, wedi colli cyfle. Rhaid imi bwysleisio bod y comisiynydd plant yn annibynnol a'i fod ef neu hi'n cymryd cyfrifoldeb am gynnwys ei adroddiad neu ei hadroddiad—ei adroddiad ar hyn o bryd, yn amlwg. Nid ein lle ni yw ceisio arwain strwythur yr adroddiad hwnnw a'r hyn sydd ynddo. Ei argymhellion ef i'r Llywodraeth a fyddant, i ni eu trafod a'u dadlau. Mae'n wir mai ei swyddogaeth yw i siarad ar ran plant, ond nid ef yw'r unig un sy'n gwneud hynny. Yn amlwg, mae gennym ni a'n partneriaid yn y maes ran enfawr i'w chwarae i wneud y byd yn lle gwell i blant. Felly, mae'n wirioneddol yn waith partneriaeth.

Lynne Neagle mentioned the particular issue of mental health services, 'Together for Mental Health—A Strategy for Mental Health and Wellbeing in Wales' and the CAMHS issue, and that we need to speed up progress. I accept that that is a valid issue, and it will certainly form part of our response and what we will do in that regard.

Soniodd Lynne Neagle am fater penodol gwasanaethau iechyd meddwl, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl—Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru' ac am CAMHS, a bod angen inni gyflymu cynnydd. Rwyf yn derbyn bod hwnnw'n fater dilys, a bydd yn sicr yn ffurfio rhan o'n hymateb a'r hyn y byddwn yn ei wneud yn hynny o beth.

Jocelyn Davies referred to Universal Children's Day tomorrow. I can assure you that it is a coincidence; we did not set things up in that way, but, obviously, it makes sense to highlight the issues of children and, if these international events are coming up, we can help to focus attention on the issues, in this case of children, and raise the profile of these matters.

Cyfeiriodd Jocelyn Davies at Ddiwrnod Byd-eang y Plant yfory. Gallaf eich sicrhau mai cyd-ddigwyddiad yw hynny; ni wnaethom drefnu pethau yn y ffordd honno, ond, yn amlwg, mae'n gwneud synnwyr tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â phlant ac, os yw'r digwyddiadau rhyngwladol hyn ar y gorwel, gallwn helpu i ganolbwyntio sylw ar y materion—ar blant yn yr achos hwn—a chodi proffil y materion hyn.

I agree with you very much about the importance of listening to children, and you used the horrendous examples of what has happened in north Wales as a good example of what must not be repeated. There does, indeed, need to be a rights-based approach. I wish that I was present at the meeting when you wanted to grab people by the throat; that must have been quite something to see, but, then again, I cannot be everywhere.

Rwyf yn cytuno'n gryf iawn â chi am bwysigrwydd gwrando ar blant, ac rydych wedi defnyddio'r enghreifftiau erchyll o'r hyn sydd wedi digwydd yn y gogledd fel enghraifft dda o'r hyn na ellir ei ailadrodd. Yn wir, mae angen dull sy'n seiliedig ar hawliau. Hoffwn fod wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod pan oedd arnoch eisiau gafael mewn pobl gerfydd eu gyddfau; byddai hynny wedi bod yn eithaf rhywbeth i'w weld, ond eto, ni allaf fod ym mhob man.

You mentioned the particular priority of closing the educational attainment gap, and I know that my colleague the Minister for Education and Skills has made that a top priority, and it certainly is if we are going to do the very best for our children. They have to get decent qualifications, learned in a way that is right for them, so that they can go into the world of work with as much ammunition at their disposal as possible.

Soniasoch am flaenoriaeth arbennig cau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol, a gwn fod fy nghydweithiwr y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gwneud hynny'n brif flaenoriaeth, ac mae'n sicr yn un os ydym yn mynd i wneud y gorau ar gyfer ein plant. Rhaid iddynt gael cymwysterau da, wedi'u dysgu mewn ffordd sy'n addas ar eu cyfer hwy, fel y gallant fynd i mewn i fyd gwaith gyda chymaint o arfau ar gael iddynt ag y bo modd.

Julie Morgan, you did give credit for some of the work that has been done, and I am very grateful for that, and you highlighted the work of the City and Council of Swansea in this regard. I think that that is an excellent example that other councils could well follow. You also mentioned the importance of respite care, particularly for children with disabilities.

Julie Morgan, rhoesoch glod i rywfaint o'r gwaith sydd wedi'i wneud, ac rwyf yn ddiolchgar iawn am hynny, a gwnaethoch dynnu sylw at waith Dinas a Chyngor Abertawe yn hyn o beth. Credaf fod hynny'n enghraifft wych y byddai'n beth da i gynghorau eraill ei dilyn. Soniasoch hefyd am bwysigrwydd gofal seibiant, yn enwedig ar gyfer plant ag anableddau.

Jenny Rathbone, you mentioned the issue of Children in Need and also how it is not always easy to improve the lot of children, because of the attitudes that are held very strongly out there in many parts of the community, viewing young people as a nuisance rather than as a positive force within communities, and I know this from my constituency.

Jenny Rathbone, soniasoch am Plant mewn Angen ac am sut nad yw bob amser yn hawdd gwella sefyllfa plant, oherwydd yr agweddau cryf iawn a ddelir mewn sawl rhan o'r gymuned, gan weld pobl ifanc fel niwsans yn hytrach nag fel grym cadarnhaol o fewn cymunedau, ac rwyf yn gwybod hyn o fy etholaeth i.

Ann Jones, you made points about the style and the cost of the report and called for greater brevity. As I said, those are fair points. It is the commissioner's report, not ours, but I am now meeting with the children's commissioner on a quarterly basis and my next meeting will be early next month, and I will make sure that I raise that point with him.

Ann Jones, gwnaethoch bwyntiau am arddull a chost yr adroddiad gan alw am fwy o grynoder. Fel y dywedais, mae'r rheini'n bwyntiau teg. Adroddiad y comisiynydd ydyw, nid ein hadroddiad ni, ond rwyf nawr yn cwrdd â'r comisiynydd plant bob chwarter a bydd fy nghyfarfod nesaf yn gynnar y mis nesaf, a byddaf yn gwneud yn siŵr fy mod yn codi'r pwynt hwnnw gydag ef.

18:12

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

On that point, Minister, I think that it would be helpful if the reports in future were briefer. I have been looking at it as you have been speaking, and there is a part of the report that deals with police and crime commissioners where the commissioner has said that he has told the police commissioners about the importance of robust responses when children go missing. Surely, police commissioners in Wales are well aware that a robust response is needed. There is no need for that to be in this report.

Ar y pwynt hwnnw, Weinidog, rwyf yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r adroddiadau'n fyrrach yn y dyfodol. Rwyf wedi bod yn edrych arno wrth i chi siarad, ac mae rhan o'r adroddiad sy'n ymdrin â'r heddlu a chomisiynwyr troseddau lle mae'r comisiynydd wedi dweud ei fod wedi dweud wrth y comisiynwyr heddlu am bwysigrwydd ymatebion cadarn pan aiff plant ar goll. Nid oes bosibl nad yw comisiynwyr heddlu yng Nghymru'n ymwybodol iawn bod angen ymateb cadarn. Nid oes angen i hynny fod yn yr adroddiad hwn.

18:12

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As I said, that is a matter for the children's commissioner. I daresay that he is in the process of developing his relationship with the police and crime commissioners because they are only one year old, but, again, those are points that I can mention.

Fel y dywedais, mater i'r comisiynydd plant yw hynny. Mae'n siŵr ei fod yn y broses o ddatblygu ei berthynas â'r heddlu a chomisiynwyr troseddu oherwydd mai dim ond un flwydd oed ydynt, ond, unwaith eto, mae'r rheini'n bwyntiau y gallaf sôn amdanynt.

To conclude, Deputy Llywydd, it has been very helpful to know what we are doing right and what we are doing well, but it is equally helpful to know the areas where we need further work and development. Tomorrow, I am visiting Llanrhidian Primary School—I know that Ann Jones just mentioned how it is all very well turning up to watch children at school, but that is what I am doing tomorrow, I am afraid—to see how schools are playing their part in informing children about their rights and to see how this empowers them and translates into outcomes. I want more and more children and young people to understand that they have rights, and I want more and more adults to help them to access those rights.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn cael gwybod beth yr ydym yn ei wneud yn iawn a beth yr ydym yn ei wneud yn dda, ond mae'r un mor ddefnyddiol cael gwybod ym mha feysydd y mae angen mwy o waith a datblygiad. Yfory, byddaf yn ymweld ag Ysgol Gynradd Llanrhidian—rwyf yn gwybod bod Ann Jones newydd sôn am ba mor hawdd yw ymweld ag ysgol i wylio plant, ond dyna'r hyn yr wyf yn ei wneud yfory, mae arnaf ofn—i weld sut y mae ysgolion yn chwarae eu rhan i hysbysu plant am eu hawliau ac i weld sut y mae hyn yn eu grymuso ac yn arwain at ganlyniadau. Hoffwn i fwy a mwy o blant a phobl ifanc ddeall bod ganddynt hawliau, a hoffwn i fwy a mwy o oedolion eu helpu i arddel yr hawliau hynny.

18:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before we proceed, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyn inni symud ymlaen, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5356.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5356.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 12, Yn erbyn 41, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 12, Against 41, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5356.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5356.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 42, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5356.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5356.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 42, Against 11, Abstain 0.*

Cynnig NDM5356 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5356 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 20.12:

1. Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-2015 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ar 8 Hydref 2013.

1. Notes the Draft Budget for the financial year 2014-2015 laid in the Table Office by the Minister for Finance on 8 October 2013.

2. Yn nodi'r cytundeb pwysig a gyflawnwyd gan Blaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i sicrhau:

2. Notes the important agreement achieved by the Party of Wales and the Welsh Liberal Democrats in securing:

a) Cronfa Gofal Canolraddol i leihau'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys ac i ddarparu gofal yn nes at adref;

a) an Intermediate Care Fund to alleviate pressures on A&E departments and provide care closer to home;

b) bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddyblu;

b) more than a doubling of the Pupil Deprivation Grant;

c) tri robot Da Vinci modern a fydd yn darparu gweithdrefnau llawfeddygol llai mewnwthiol;

c) three state-of-the-art Da Vinci robots that will provide less invasive surgical procedures;

d) cronfa technoleg iechyd a thelefeddygaeth i roi Cymru ar flaen y gad ym maes technoleg feddygol;

d) a health technology and telemedicine fund to put Wales at the forefront of medical technology;

e) bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei diogelu; ac

e) protection of the Supporting People Programme; and

3. Yn nodi ymhellach yr effaith gadarnhaol y bydd buddsoddiadau o'r fath yn ei chael ar gymunedau ledled y wlad a'r gwelliannau mewn gwasanaethau cymunedol a fydd yn dilyn hynny.

3. Further notes the positive impact such investments will have on communities across the country and the improvement in community-based services that will follow.

4. Yn croesawu'r gweithredu ar y cyd rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Cymru, a sicrhaodd y canlynol yn y Gyllideb Ddrafft:

4. Welcomes the joint approach between the Welsh Liberal Democrats and Plaid Cymru, which has secured within the Draft Budget:

a) £35 miliwn ychwanegol i ddyblu'r cyllid ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol;

a) an additional £35million to double funding for the Pupil Deprivation Grant to help break the link between poverty and educational underachievement;

b) Cronfa Gofal Canolraddol gwerth £50 miliwn i gefnogi byw'n annibynnol ac i leihau'r pwysau ar y system gofal mewn argyfwng;

b) a £50million Intermediate Care Fund to support independent living and reduce pressure on the emergency care system;

c) buddsoddiad ychwanegol o £9.5 miliwn yn y Gronfa Technoleg Iechyd er mwyn cynyddu buddsoddiad mewn telefeddygaeth; a

c) an additional £9.5million investment in the Health Technology Fund to increase investment in telemedicine; and

d) Pecyn Cefnogi Pobl gwerth £5.5 miliwn i helpu i fynd i'rafael â digartrefedd.

d) a £5.5million Support People Package to help tackle homelessness.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5356 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5356 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5356 fel y'i diwygiwyd: O blaid 27, Yn erbyn 12, Ymatal 14.*

*Motion NDM5356 as amended agreed: For 27, Against 12, Abstain 14.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5357.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5357.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5357.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5357.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 27, Ymatal 1.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 27, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5357.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5357.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5357.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5357.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5357.

Result of the vote on motion NDM5357.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

18:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:18.*

*The meeting ended at 18:18.*